

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

10/02/2015

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)

[1. Questions to the First Minister](#)

[2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

[2. Business Statement and Announcement](#)

[3. Datganiad ynghylch Atgyfeirio'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos \(Cymru\) i'r Goruchaf Lys](#)

[3. Statement on the Referral of the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases \(Wales\) Bill to the Supreme Court](#)

[4. Datganiad: Cyflwyno'r Bil Rhentu Cartrefi \(Cymru\)](#)

[4. Statement: Introduction of the Renting Homes \(Wales\) Bill](#)

[5. Datganiad: Datganoli Trethi yng Nghymru—Ymgynghoriad ar Dreth Trafodiad Tir](#)

[5. Statement: Tax Devolution in Wales—Consultation on a Land Transaction Tax](#)

[6. Datganiad: Adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn: Lle i'w Alw'n Gartref? Adolygiad o Ansawdd Bywyd a Gofal Pobl Hŷn sy'n byw mewn Cartrefi Gofal Preswyl yng Nghymru](#)

[6. Statement: The Older People's Commissioner's Report: A Place to Call Home? A Review into the Quality of Life and Care of Older People living in Care Homes in Wales](#)

[7. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dadreoleiddio—Diwygiad mewn perthynas â Gorchymyn Tai \(Blaendaliadau Tenantiaeth\) \(Gwybodaeth Ragnodedig\) 2007 \(Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol—Memorandwm Rhif 6\)](#)

[7. Legislative Consent Motion on the Deregulation Bill—Amendment in relation to Housing \(Tenancy Deposits\) \(Prescribed Information\) Order 2007 \(Supplementary Legislative Consent Memorandum—Memorandum No. 6\)](#)

[8. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Troseddu Dirifol—Diwygiad mewn perthynas â Chyfathrebu'n Rhywiol â Phlentyn \(Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3\)](#)

[8. Legislative Consent Motion on the Serious Crime Bill—Amendment in relation to Sexual Communication with a Child \(Supplementary Legislative Consent Memorandum No. 3\)](#)

[9. & 10. Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg \(Ffioedd Cofrestru\) \(Cymru\) 2015 a Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg \(Swyddogaethau Ychwanegol a Dirymu\) \(Cymru\) 2015](#)

[9. & 10. The Education Workforce Council \(Registration Fees\) \(Wales\) Regulations 2015 and the Education Workforce Council \(Additional Functions and Revocation\) \(Wales\) Order 2015](#)

[11. Dadl: Egwyddorion Cyffredinol y Bil Cynllunio \(Cymru\)](#)

[11. Debate: The General Principles of the Planning \(Wales\) Bill](#)

[12. Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â'r Bil Cynllunio \(Cymru\)](#)

[12. Financial Resolution in respect of the Planning \(Wales\) Bill](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.

13:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order, order. The National Assembly is in session.

Trefn, trefn. Mae trafodion y Cynulliad Cenedlaethol wedi cychwyn.

13:30 **1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog** **1. Questions to the First Minister**

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 1, questions to the First Minister. Question 1, Dafydd Elis-Thomas.

Eitem 1, cwestiynau i'r Prif Weinidog. Cwestiwn 1, Dafydd Elis-Thomas.

Cytundeb Arfaethedig Dydd Gŵyl Dewi

The Proposed St David's Day Agreement

13:30 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd anrhydeddus.

Thank you, esteemed Deputy Presiding Officer.

1. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru am y cytundeb arfaethedig ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi? OAQ(4)2112(FM)W

1. What discussions has the First Minister had with the Secretary of State for Wales on the proposed St David's Day agreement? OAQ(4)2112(FM)W

13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Rwyf wedi cael nifer o drafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, a bydd yna drafodaeth arall yn digwydd ymhellach ymlaen heddiw.

I've had a number of discussions with the Secretary of State, and another discussion will take place later on today.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:30 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

O ystyried yr hyn sydd wedi ei gyhoeddi yn barod gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn y papur gorchymyn, yr Alban yn y Deyrnas Unedig: setliad parhaol, a ydy hi'n fwiad gan y Prif Weinidog i geisio sicrhau cymalau drafft cyffelyb ar gyfer senedd a Llywodraeth Cymru i'r hyn a gynnigir i Senedd a Llywodraeth yr Alban—ac rwy'n dyfynnu o'r cymalau drafft—i fod yn rhan barhaol o drefniadau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig?

Given what has already been published by the UK Government in the command paper 'Scotland in the United Kingdom: An enduring settlement', is it the First Minister's intention to secure similar draft clauses for the Welsh parliament and Government, as is proposed to the Scottish Parliament and Government—and I quote from the draft clauses—as a 'permanent part of the United Kingdom's constitutional arrangements'?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Nid wyf yn credu bod yna setliad parhaol wedi cael ei gynnig i Gymru lan at nawr. Mae cyfartaledd yn bwysig dros ben fan hyn. Dylai beth sydd wedi cael ei gynnig i'r Alban gael ei gynnig i Gymru, ta beth. Mater wedi hynny yw penderfynu beth fyddai o fewn diddordebau Cymru i'w cymryd, ond rydym yn bell o'r sefyllfa hynny. Byddwn ni'n parhau, wrth gwrs, i chwarae rhan yn y broses sydd wedi cael ei sefydlu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ond mae yna beth ffordd i fynd eto er mwyn cael unrhyw fath o gytundeb.

I don't believe that an enduring settlement has been offered to Wales to date. Equality is a very important thing, so that what is being offered to Scotland should be offered to Wales. It is then a matter for us to decide what would be in the interests of Wales to accept, but we are a long way off that position. Of course, we will continue to play a role in the process that was established by the Secretary of State, but there's quite some way to go again to get any kind of agreement.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:31 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, rwy'n siŵr eich bod chi wedi trafod fformiwla Barnett gyda'r Ysgrifennydd Gwladol mewn nifer o gyfarfodydd rydych wedi eu cael gydag e. Yn sgîl y trafodaethau hyn, sut ydych chi'n bwriadu sicrhau cyllid teg i Gymru, yng nghyd-destun cadw fformiwla Barnett?

First Minister, I am sure that you will have discussed the Barnett formula with the Secretary of State in a number of meetings that you have had with him. In light of these discussions, how do you intend to secure fair funding for Wales in the context of retaining the Barnett formula?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Wel, llawr Barnett—mae hyn yn ffordd o wneud hyn, a sicrhau bod Cymru'n cael ei gwarchod yn y dyfodol. Lan at nawr, nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi bod yn gefnogol o unrhyw fath o ffordd o setlo'r tangyllido y mae Cymru yn ei ddiodef ar hyn o bryd, ond fe gawn ni obeithio, wrth gwrs, gweld rhyw fath o ffordd ymlaen dros yr wythnosau nesaf.

Well, the Barnett floor is a way of doing just that, in order to ensure that Wales is safeguarded in future. To date, the United Kingdom Government has not been supportive of any kind of resolution to the underfunding that Wales suffers at the moment, but we hope, of course, to see some way forward over the next few weeks.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:32 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

After the decision yesterday, the case for a reserved powers model of devolution becomes even stronger. Will the First Minister set out the red lines he would expect from a successful St David's Day process?

Ar ôl y penderfyniad ddoe, mae'r achos dros fodel cadw pwerau o ddatganoli yn gryfach fyth. A wnaiff y Prif Weinidog nodi'r llinellau coch y byddai'n eu disgwyl o broses Dydd Gŵyl Dewi lwyddiannus?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I fear I may not have much time to go through every red line, but perhaps I could inform Members of some of them: a reserved powers model, with the proper division between reserved powers and those powers that would remain at Westminster; and Wales's funding—underfunding—being addressed: that much is important; further fiscal devolution in some fields; and, of course, the Assembly to control its own electoral system, including, of course, the entrenchment of the distance of the Assembly, so that it could not be abolished at the whim of Westminster.

Rwy'n ofni efallai na fydd gen i lawer o amser i fynd drwy bob llinell goch, ond efallai y gallwn i hysbysu'r Aelodau am rai ohonyn nhw: model cadw pwerau, gyda'r rhaniad priodol rhwng cadw pwerau a'r pwerau hynny a fyddai'n aros yn San Steffan; a rhoi sylw i gyllido—tan-gyllido—Cymru: mae cymaint â hynny'n bwysig; datganoli cyllid pellach mewn rhai meysydd; ac, wrth gwrs, y Cynulliad i reoli ei system etholiadol ei hun, gan gynnwys, wrth gwrs, ymsefydlu pellter y Cynulliad, fel na ellid ei ddiddymu ar fymppy San Steffan.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:33 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you'll be aware of the decision yesterday—although you may not have had time to digest its detail: good for the insurance industry, bad for asbestos victims, and confusing for devolution. On the assumption that most people consider that we should have the power to do the sort of things that the Bill intended, which is help asbestos victims in Wales, how are you going to approach negotiations with the UK Government to ensure that we actually do have the powers clearly, without confusion, in order to be able to do these sorts of things, which most people out in the public actually think are sensible things that we should be able to do?

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r penderfyniad ddoe—er efallai na fyddwch chi wedi cael amser i ystyried ei fanylion: da i'r diwydiant yswiriant, drwg i ddiodeffwyr asbestos, a dryslyd i ddatganoli. Ar sail y dybiaeth fod y rhan fwyaf o bobl o'r farn y dylem gael y grym i wneud y math o bethau yr oedd y Bil yn eu bwriadu, sef helpu diodeffwyr asbestos yng Nghymru, beth fydd eich ymagwedd mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod y pwerau gennym ni'n eglur mewn gwirionedd, heb ddryswch, er mwyn gallu gwneud y mathau hyn o bethau, y mae'r rhan fwyaf o bobl yn y cyhoedd wir yn meddwl sy'n bethau synhwyrol y dylem ni fod yn gallu eu gwneud?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

That, I'm afraid, shows the fact that the current devolution settlement is not fit for purpose. It is unclear in so many areas, and that's why, of course, all parties—I think I'm correct in saying—wish to see a move to a model that is far clearer and far more appropriate for twenty-first century Wales. Yesterday, of course, was a disappointment; it now needs to be rectified as quickly as possible.

Mae hynny, mae gen i ofn, yn dangos y ffaith nad yw'r setliad datganoli presennol yn addas i'w ddiben. Mae'n aneglur mewn cymaint o feysydd, a dyna pam, wrth gwrs, mae pob plaid—rwy'n credu fy mod i'n iawn wrth ddweud hynny—eisiau gweld symud i fodel sy'n llawer cliriach ac yn llawer mwy priodol ar gyfer Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Roedd ddoe, wrth gwrs, yn siom; mae angen ei unioni cyn gynted â phosibl nawr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Amseroedd Aros i Gleifion

Patient Waiting Times

13:34 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am amseroedd aros i gleifion sy'n aros am lawdriniaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda? OAQ(4)2105(FM)

2. Will the First Minister make a statement on patient waiting times for operations within Hywel Dda University Health Board? OAQ(4)2105(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Wel, rwy'n disgwyl i bob claf gael eu gweld cyn gynted â phosibl, ac yn unol â'u blaenoriaeth glinigol, yn ogystal â chael eu gweld o fewn amseroedd aros hwyaf Cymru.

Well, I expect all patients to be seen at the earliest opportunity, and in accordance with their clinical priority, as well as being seen within the Welsh maximum waiting times.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:34 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Fe ddaeth un o'm hetholwyr i i'm gweld yn ddiweddar. Roedd e wedi mynd i weld ei feddyg teulu ddwy flynedd yn ôl gyda phroblem hernia, a, heb glywed dim byd, fe geisiodd e gael gwybodaeth oddi wrth y llawfeddyg a'r ysbyty am bryd fyddai e'n cael ei weld. Fe gafodd e wybod, er ei fod e wedi bod i weld ei feddyg teulu yn Ebrill 2013, nad oedd e ddim wedi cael ei anfon ymlaen i'r ysbyty tan fis Ebrill y llynedd, ac na fyddai e ddim yn cael ei weld tan fis Mehefin eleni. Beth allwch chi fel Llywodraeth ei wneud i sicrhau nad yw'r oedi yn digwydd rhwng y meddyg teulu a'r llawfeddyg ac wedyn o fewn yr ysbyty?
- A constituent of mine came to see me recently, having been to his GP two years ago with a hernia, and, having then heard nothing, he sought information from the surgeon and the hospital as to when he would be seen. He was told that, although he had been to see his GP in April 2013, he hadn't been referred to hospital until April of last year, and that he wouldn't be seen until June of this year. What can you as a Government do to ensure that these delays don't happen between GPs and the surgeons and then within the hospitals?
- 13:35 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Mae'n anodd iawn, wrth gwrs, i roi barn ar unrhyw sefyllfa unigol, ond mae'n swnio i fi, o beth mae'r Aelod wedi'i ddweud, fod rhyw broblem wedi cael ei chreu rhwng y neges yn cael ei roi o'r meddyg teulu i'r ysbyty. Byddwn i'n ddigon hapus i ystyried yr achos dros yr unigolyn a hefyd dros yr Aelod, pe bai e eisiau hala'r manylion ataf i.
- It is very difficult to give a view on an individual case, but it sounds to me, from what the Member has said, that some problem in communication had arisen between the GP and the hospital. I would be very happy to consider this particular case on behalf of the individual and the Member, if he could send me the details.
- 13:36 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I do appreciate that it's difficult to comment on individual cases, but Hywel Dda have such a track record in this area—95% of patients should be waiting less than 26 weeks for treatment, and when my colleague, Rhodri Glyn Thomas brought this question forward, I literally had to choose between the raft of constituents in front of me. I'm going to just pick one case of a woman who's waiting, First Minister, for 27 months for a follow-up pain relief injection and has just been told that she has to wait another 10 months. As we all know, pain is utterly debilitating. What can you as First Minister do with your Minister for health to ensure that this health board does step up to the mark and start giving people adequate treatment in a timely and kind manner.
- Rwy'n gwerthfawrogi ei bod yn anodd gwneud sylwadau ar achosion unigol, ond mae gan Hywel Dda hanes o'r fath yn y maes hwn—dylai 95% o gleifion fod yn aros llai na 26 wythnos am driniaeth, a phan ofynnwyd y cwestiwn hwn gan fy nghyd-aelod, Rhodri Glyn Thomas, roedd rhaid i mi ddewis yn llythrennol rhwng y llu o etholwyr o fy mlaen. Rwy'n mynd i ddewis dim ond un achos o fenyw sy'n aros, Brif Weinidog, am 27 mis am bigiad lleddfu poen dilynol ac mae newydd gael ei hysbysu bod yn rhaid iddi aros 10 mis arall. Fel yr ydym ni i gyd yn gwybod, mae poen yn gwbl wanychol. Beth allwch chi fel Prif Weinidog ei wneud gyda'ch Gweinidog iechyd i sicrhau bod y bwrdd iechyd hwn yn cymryd cyfrifoldeb ac yn dechrau rhoi triniaeth ddigonol i bobl mewn ffordd brydlon a charedig.
- 13:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- It's very difficult, of course, as the Member recognises to comment on an individual issue. I can say that the median waiting time in Hywel Dda in November of last year was up to nine weeks. That is what most people will wait, but, of course, there are some people who wait longer, and the Member's given an example there—and I have no reason to doubt what she said to me—
- Mae'n anodd iawn, wrth gwrs, fel y mae'r Aelod yn ei gydnabod, i wneud sylwadau ar fater unigol. Gallaf ddweud mai hyd at naw wythnos oedd yr amser aros canolrifol yn Hywel Dda ym mis Tachwedd y llynedd. Dyna am faint y bydd y rhan fwyaf o bobl yn aros, ond, wrth gwrs, mae rhai pobl sy'n aros yn hwy, ac mae'r Aelod wedi rhoi enghraifft yn y fan yna—ac nid oes gennyf unrhyw reswm i amau yr hyn a ddywedodd hi wrthyf—
- 13:37 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I'll write to you on it.
- Fe ysgrifennaf atoch yn ei glych.
- 13:37 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- [Continues.]—that goes well beyond that. Again, I make the same offer to her as I did to the Member for Carmarthen East and Dinefwr: if she wishes to pass on the details, I'd be more than happy, of course, to investigate.
- [Yn parhau.]—mae hynny'n mynd ymhell y tu hwnt i hynny. Unwaith eto, gwnaif yr un cynnig iddi hi ag y gwneuthum i'r Aelod dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr: os yw'n dymuno rhannu'r manylion, byddwn yn fwy na pharod, wrth gwrs, i ymchwilio.

- 13:37 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I will now call on the party leaders. First this week is the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.
- Galwaf ar arweinwyr y pleidiau nawr. Arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, sydd gyntaf yr wythnos yma.
- 13:37 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*
- Diolch yn fawr. I read with interest your comments in the press this morning offering advice to your party leader ahead of the coming election. You said that,
- Diolch yn fawr. Darllenais gyda diddordeb eich sylwadau yn y wasg y bore yma yn cynnig cyngor i arweinydd eich plaid cyn yr etholiad sydd ar ddod. Dywedasocho,
- 'We can't go into the election saying we will be a little less tough than the Tories'.
- Ni allwn fynd i mewn i'r etholiad yn dweud y byddwn ychydig yn llai llym na'r Toriaid.
- As a Government, what calculations have you made as to the effect on the Welsh budget of a Labour Prime Minister as opposed to a Tory Prime Minister?
- Fel Llywodraeth, pa gyfrifiadau ydych chi wedi'u gwneud o ran effaith Prif Weinidog Llafur yn hytrach na Phrif Weinidog Toriaidd ar gyllideb Cymru?
- 13:37 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I'm very glad indeed that the leader of Plaid Cymru takes so much notice of what I say in the press, and I thank her for that. We know that, roughly, the difference, in terms of the budget, will be that the budgets of the UK Government will be cut by 23% more under a Tory Government than would be the case under a Labour Government—a significant difference.
- Rwy'n falch iawn yn wir bod arweinydd Plaid Cymru yn cymryd cymaint o sylw o'r hyn rwy'n ei ddweud yn y wasg, a diolchaf iddi am hynny. Rydym yn gwybod, yn fras, mai'r gwahaniaeth, o ran y gyllideb, fydd y bydd cyllidebau Llywodraeth y DU yn cael eu torri gan 23% yn fwy dan Lywodraeth Doriaidd na fyddai'n digwydd dan Lywodraeth Lafur— gwahaniaeth sylweddol.
- 13:38 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- According to analysis from the Institute for Fiscal Studies, First Minister—they looked at your party's spending plans too over the next Parliament—and there is to be a cut of around 2.2% to devolved Governments' budgets over the next Parliament under a Labour Government. Isn't that just a little less tough than the Tories, First Minister?
- Yn ôl dadansoddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Brif Weinidog—edrychwyd ar gynlluniau gwario eich plaid chi yn ystod y Senedd nesaf ganddynt hefyd—a bydd toriad o tua 2.2% i gyllidebau Llywodraethau datganoledig dros y Senedd nesaf dan Lywodraeth Lafur. Onid yw hynny ddim ond ychydig yn llai llym na'r Toriaid, Brif Weinidog?
- 13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- No, the Tory equivalent is 26%, if I remember rightly, for the cuts that they would make, so there's a significant difference for the people of Wales between voting in a Labour Government, which will look to protect those areas that are most important for the people of Wales, and the vast cuts that would be imposed by a Tory or indeed a Tory-led Government. The Institute for Fiscal Studies has illustrated the significant gulf that exists between those of us who are committed to spending on those who are most in need and those who would cut budgets at a ruthless rate.
- Nac ydy, 26% yw ffigur cyfatebol y Toriaid, os cofiaf yn iawn, ar gyfer y toriadau y byddent yn gwneud, felly mae gwahaniaeth sylweddol i bobl Cymru rhwng pleidleisio dros Lywodraeth Lafur, a fydd yn ceisio amddiffyn y meysydd hynny sydd bwysicaf i bobl Cymru, a'r toriadau enfawr a fyddai'n cael eu gorfodi gan Lywodraeth Doriaidd neu, wir, Llywodraeth dan arweiniad y Toriaid. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi dangos y bwlbwll sylweddol sy'n bodoli rhwng y rhai ohonom sydd wedi ymrwymo i wario ar y rhai sydd fwyaf mewn angen a'r rhai a fyddai'n torri cyllidebau ar gyfradd ddiostur.

- 13:39 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm not clear, First Minister, whether you're disputing the IFS figures or whether you're disputing your own party's spending plans. Based on current spending, a 2.2% cut from Labour equates to £335 million less for the Welsh budget for the expenditure on Welsh public services. That is more austerity, isn't it? How can people have hope when your promise to the people of Wales is more cuts, more austerity, more of the same?
- Nid wyf yn eglur, Brif Weinidog, a ydych chi'n anghytuno â ffigurau'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid neu'n anghytuno â chynlluniau gwario eich plaid eich hun. Yn seiliedig ar wariant cyfredol, mae toriad o 2.2% gan Lafur yn cyfateb i £335 miliwn yn llai i gyllideb Cymru i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Onid mwy o gyni yw hynny? Sut all pobl fod â gobaith pan eich bod yn addo mwy o doriadau, mwy o gyni, mwy o'r un peth i bobl Cymru?
- 13:39 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Not at all. We know that the situation as far as the Tories is concerned—and this is what the Institute for Fiscal Studies said—was a 26% cut in public budgets, and that is an enormous cut that would take us back many many decades in terms of what the state would look like. We want to address that issue. We want to make sure, of course, that we get a Barnett floor to address Wales's underfunding, which I'm sure she will support, and we have shown in the past four years, despite the tough budget settlements—the cut of 10% that we've received from a Tory Government—that we can prioritise spending for the people of Wales. We will continue to do that in Wales, and I'm absolutely sure that we will continue to see that happening in May, as long as the Tories don't win.
- Dim o gwbl. Rydym ni'n gwybod mai'r sefyllfa o safbwynt y Torïaid—a dyma'r hyn a ddywedodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid—oedd toriad o 26% i gyllidebau cyhoeddus, ac mae hwnnw'n doriad enfawr a fyddai'n mynd â ni yn ôl ddegawdau lawer iawn o ran sut fyddai'r wladwriaeth yn edrych. Rydym ni eisiau rhoi sylw i'r mater hwnnw. Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr, wrth gwrs, ein bod yn cael llawr Barnett i fynd i'r afael â thanariannu Cymru, yr wyf yn siŵr y bydd hi'n ei gefnogi, ac rydym ni wedi dangos yn ystod y pedair blynedd diwethaf, er gwaethaf y setliadau cyllideb anodd—y toriad o 10% yr ydym wedi ei gael gan Lywodraeth Doriad—y gallwn flaenoriaethu gwariant ar gyfer pobl Cymru. Byddwn yn parhau i wneud hynny yng Nghymru, ac rwy'n hollol sicr y byddwn yn parhau i weld hynny'n digwydd ym mis Mai, cyn belled na fydd y Torïaid yn ennill.
- 13:40 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Leader of the opposition, Andrew R.T. Davies. Arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.
- 13:40 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*
- Thank you, Deputy Presiding Officer. First Minister, the news at Ysbyty Glan Clwyd today is very troubling, to say the least. This Chamber spent a lot of time—and I know you took personal responsibility for maternity services in north Wales. What is your assessment of the current situation around maternity services at that particular hospital in north Wales?
- Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Brif Weinidog, mae'r newyddion yn Ysbyty Glan Clwyd heddi yn peri gofid mawr, a dweud y lleiaf. Treuliodd y Siambr hon lawer o amser—ac rwy'n gwybod i chi gymryd cyfrifoldeb personol am wasanaethau mamolaeth yn y gogledd. Beth yw eich asesiad o'r sefyllfa bresennol o ran gwasanaethau mamolaeth yn yr ysbyty penodol hwnnw yn y gogledd?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The first thing I need to say is: this does not in any way interfere with the decision on the sub-regional neonatal intensive care centre. That's important to state. My view always was that the SuRNICC would be a new operation; it wouldn't be something that would simply be grafted onto the existing department. So, I want to make that absolutely clear and to give that assurance to people in the area around Glan Clwyd. The local health board must take responsibility. It must discharge its duties, that much is true, and I expect it to do that in the course of this afternoon. I expect them then to take steps to ensure that any announcement that they may make is temporary and that there's a reinstatement of the full service as quickly as possible at the hospital. They must take responsibility, and so must the senior medical staff. Many reports have illustrated the dysfunctional nature of the relationships between the senior medical staff at the hospital, and that must be dealt with. Whatever decision they take, it must be taken on a temporary basis, but the SuRNICC remains on track, in my mind, for the site at Glan Clwyd.

Y peth cyntaf y mae angen i mi ei ddweud yw: nid yw hyn yn amharu mewn unrhyw ffordd ar y penderfyniad ar y Ganolfan Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd-anedig. Mae'n bwysig nodi hynny. Fy marn i erioed oedd y byddai'r SuRNICC yn sefydliad newydd; ni fyddai'n rhywbeth a fyddai'n cael ei ychwanegu'n syml at yr adran bresennol. Felly, hoffwn wneud hynny'n gwbl eglur a rhoi'r sicrwydd hwnnw i bobl yn yr ardal o gwmpas Glan Clwyd. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd lleol gymryd cyfrifoldeb. Mae'n rhaid iddo gyflawni ei ddyletswyddau, mae cymaint â hynny'n wir, ac rwy'n disgwyl iddo wneud hynny yn ystod y prynhawn yma. Rwy'n disgwyl wedyn iddyn nhw gymryd camau i sicrhau bod unrhyw gyhoeddiad y gallant ei wneud yn un dros dro, ac y bydd y gwasanaeth llawn yn cael ei ailgyflwyno cyn gynted â phosibl yn yr ysbty. Mae'n rhaid iddyn nhw gymryd cyfrifoldeb, ac felly hefyd yr uwch staff meddygol. Mae llawer o adroddiadau wedi dangos natur gamweithredol y berthynas rhwng yr uwch staff meddygol yn yr ysbty, ac mae'n rhaid ymdrin â hynny. Pa bynnag benderfyniad maen nhw'n ei wneud, mae'n rhaid ei wneud ar sail dros dro, ond mae'r SuRNICC yn parhau i fod ar y trywydd iawn, yn fy marn i, ar gyfer y safle yng Nglan Clwyd.

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I have to say that I can hear Members saying that they've made little or no progress on that particular aspect of maternity services in north Wales, First Minister. So, I think, maybe, you need to assess how much progress has been made, despite the assurances that you have given. What is of huge concern to many people around the potential for this announcement will be the downgrading of maternity services at Ysbyty Glan Clwyd. Ultimately, you talk of it being a temporary measure. What does the word 'temporary' mean in this context? You're the Government. How are you going to hold the health board to account if they do have to suspend services temporarily at this particular hospital? What is your interpretation?

Wel, mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i'n gallu clywed Aelodau'n dweud eu bod wedi gwneud ychydig neu ddim cynnydd ar yr agwedd benodol honno ar wasanaethau mamolaeth yn y gogledd, Brif Weinidog. Felly, rwy'n meddwl, efallai, bod angen i chi asesu faint o gynnydd a wnaed, er gwaethaf y sicrwydd rydych chi wedi ei roi. Yr hyn sy'n peri pryder enfawr i lawer o bobl o ran potensial y cyhoeddiad hwn yw israddio gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Yn y pen draw, rydych chi'n dweud mai mesur dros dro fydd hwn. Beth mae'r ymadrodd 'dros dro' yn ei olygu yn y cyd-destun hwn? Chi yw'r Llywodraeth. Sut ydych chi'n mynd i ddwyn y bwrdd iechyd i gyfrif os oes rhaid iddo atal gwasanaethau dros dro yn yr ysbty penodol hwn? Beth yw eich dehongliad chi?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I would expect them to look to reinstate the service in the summer of next year. It's important, of course, to make sure that all steps are taken to do that. It is simply not possible to carry on with the existing relationship between the senior medical staff in that department. Many reports have illustrated that it is dysfunctional, and those medical staff need to look to themselves in terms of the way they have worked with each other. The local health board, as well, have to make sure that they are able to discharge the responsibilities that they have, and I would expect them to look to reinstate this service in the summer of next year. That is the aim that they must have.

Byddwn yn disgwyl iddyn nhw geisio ailgyflwyno'r gwasanaeth yn ystod haf y flwyddyn nesaf. Mae'n bwysig, wrth gwrs, gwneud yn siŵr y cymerir pob cam posibl i wneud hynny. Nid oes unrhyw bosibilrwydd o barhau â'r berthynas sy'n bodoli rhwng yr uwch staff meddygol yn yr adran honno. Mae llawer o adroddiadau wedi dangos ei bod yn gamweithredol, ac mae angen i'r staff meddygol hynny edrych ar eu hunain o ran y ffordd maen nhw wedi gweithio gyda'i gilydd. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd lleol, hefyd, wneud yn siŵr ei fod yn gallu cyflawni'r cyfrifoldebau sydd ganddo, a byddwn yn disgwyl iddo ailgyflwyno'r gwasanaeth hwn yn ystod haf y flwyddyn nesaf. Dyna'r nod y mae'n rhaid iddyn nhw ei gael.

13:42

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

What I'm troubled by in your answer, First Minister, is that you seem to be apportioning blame to the medical staff here in this particular equation, which, I have to say, I find surprising, and, maybe, in response to this third question, you could enlarge on that. One of the key problems does seem to be the ability to attract and retain staff, and, ultimately, we know that the Welsh Government have had successive campaigns to attract staff here in Wales. Two years ago, the Welsh Government, under the previous health Minister, Lesley Griffiths, launched the campaign. It just doesn't seem to be working, First Minister. When you made your announcement, you did highlight the ability of the health board to attract staff as being a key requirement to the retention of the service. Now, what interaction has the Welsh Government been having with the health board to make sure that they have been trying their darndest to attract staff to fill these posts, which wouldn't rely on the service being withdrawn, and can you enlarge on what you have just said in your previous answer to me about clinical staff and medical staff needing to look to themselves to resolve this problem?

Yr hyn sy'n fy mhoeni i yn eich ateb, Brif Weinidog, yw ei bod yn ymddangos eich bod yn rhoi'r bai ar y staff meddygol yn hyn o beth yn y sefyllfa arbennig hon, sydd, mae'n rhaid i mi ddweud, yn fy synnu, ac, efallai, mewn ymateb i'r trydydd cwestiwn hwn, y gallech chi ymhelaethu ar hynny. Mae'n ymddangos mai un o'r problemau allweddol yw'r gallu i ddenu a chadw staff, ac, yn y pen draw, rydym ni'n gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgyrchoedd olynol i ddenu staff yma yng Nghymru. Ddwy flynedd yn ôl, lansiodd Llywodraeth Cymru yr ymgyrch, dan y Gweinidog iechyd blaenorol, Lesley Griffiths. Nid yw'n ymddangos ei fod yn gweithio, Brif Weinidog. Pan wnaethoch chi eich cyhoeddiad, fe wnaethoch chi dynnu sylw at allu'r bwrdd iechyd i ddenu staff fel gofyniad allweddol i gadw'r gwasanaeth. Nawr, pa ryngweithio mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud gyda'r bwrdd iechyd i sicrhau ei fod wedi bod yn gwneud ei orau glas i ddenu staff i lenwi'r swyddi hyn, na fyddai'n dibynnu ar dynnu'r gwasanaeth yn ôl, ac a allwch chi ymhelaethu ar yr hyn yr ydych chi newydd ei ddweud yn eich ateb blaenorol i mi fod angen i staff clinigol a staff meddygol edrych ar eu hunain i ddatrys y broblem hon?

13:43

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, the Royal College of Obstetricians and Gynaecologists have actually said this. For example, the Steel report showed in May 2013—well, they went further than me—and described unprofessional behaviour between consultants with public disagreements, bullying and intimidating behaviour, poor adherence to requirements for adequate notice to book and co-ordinate leave, leading to difficulties covering rotas and cancellation of clinics. Those are not my words; those are the words of the Steel report. The Royal College of Obstetricians and Gynaecologists's report in 2014 also talked about problems with team dynamics, a lack of engagement with governance arrangements and supervision arrangements for junior staff.

Wel, mae Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynecolegwyr wedi dweud hyn mewn gwirionedd. Er enghraifft, dangosodd adroddiad Steel ym mis Mai 2013—wel, aeth ymhellach na mi—gan ddisgrifio ymddygiad amhroffesiynol rhwng ymgyngorwyr gydag anghytuno cyhoeddus, bwlio ac ymddygiad bygythiol, ymlyniad gwael i ofynion ar gyfer rhybudd digonol i drefnu a chydgylltu gwyliau, gan arwain at anawsterau yn ymwneud â rotas a chanslo clinigau. Nid fy ngeiriau i yw'r rheini; geiriau adroddiad Steel ydynt. Trafododd adroddiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynecolegwyr yn 2014 hefyd broblemau gyda deinameg timau, diffyg ymgysylltiad â threfniadau llywodraethu a threfniadau goruchwyllo ar gyfer staff iau.

So, yes, there is a need among other—I mean, this is not entirely for medical staff, but they need to look at the way they've operated. There's no question about that, and these are not my words. These are the words stated in two reports. But, the local health board also have a responsibility to make sure that they take steps, firstly, to ensure that patients are safe—that's the first thing—secondly, to make sure that these arrangements are temporary, and thirdly, of course, to make sure that people are reassured, as these arrangements move forward, that they will be able to move smoothly to give birth in the other hospitals in Betsi Cadwaladr. That is what the local health board have responsibility to do and we will expect them to do that.

Felly, oes, mae angen ymhlith—hynny yw, nid yw hwn yn fater i staff meddygol yn gyfan gwbl, ond mae angen iddyn nhw edrych ar y ffordd y maen nhw wedi ymddwyn. Nid oes amheuaeth am hynny, ac nid fy ngeiriau i yw'r rhain. Dyma'r geiriau a ddefnyddiwyd mewn dau adroddiad. Ond, mae gan y bwrdd iechyd gyfrifoldeb hefyd i wneud yn siŵr ei fod yn cymryd camau, yn gyntaf, i sicrhau bod cleifion yn ddiogel—dyna'r peth cyntaf—yn ail, i wneud yn siŵr bod y trefniadau hyn yn rhai dros dro, ac yn drydydd, wrth gwrs, i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu sicrhau, wrth i'r trefniadau hyn symud yn eu blaenau, y byddant yn gallu symud yn llyfn i roi genedigaeth yn yr ysbytai eraill yn Betsi Cadwaladr. Dyna'r hyn y mae'r bwrdd iechyd lleol yn gyfrifol am ei wneud a byddwn yn disgwyl iddo wneud hynny.

13:45

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

Thank you very much, Deputy Presiding Officer.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, you took personal responsibility, in May of last year, to oversee the establishment of a special care baby unit at Ysbyty Glan Clwyd. You told us then that you would be working with the health board to produce a business case and you would keep Assembly Members updated. We have yet to see that business case, nor have you kept us updated. Now, today, as we've heard, we've discovered that Ysbyty Glan Clwyd cannot provide consultant-led services because of recruitment difficulties. It is simply not credible for you to stand there, First Minister, and say that the plans for the special care baby unit will go ahead at Glan Clwyd if that hospital can't provide consultant-led services. The most vulnerable babies will be being born in Bangor and in Wrexham, and now you're expecting them to be transferred to a special care baby unit in Glan Clwyd. It is simply not credible. Why has the business plan that you promised in May of last year not been produced?

Brif Weinidog, cymerasoch gyfrifoldeb personol, ym mis Mai y llynedd, i oruchwylio sefydliad uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty Glan Clwyd. Fe'n hysbyswyd gennych ar y pryd y byddech yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd i lunio achos busnes ac y byddech chi'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad. Nid ydym wedi gweld yr achos busnes hwnnw eto, ac nid ydych chi wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ychwaith. Nawr, heddiw, fel rydym ni wedi clywed, rydym ni wedi darganfod na all Ysbyty Glan Clwyd ddarparu gwasanaethau dan arweiniad ymgynghorwyr oherwydd anawsterau recriwtio. Nid yw'n gredadwy i chi sefyll yn y fan yna, Brif Weinidog, a dweud y bydd y cynlluniau ar gyfer yr uned gofal arbennig i fabanod yn mynd yn eu blaenau yng Nglan Clwyd os na all yr ysbyty hwnnw ddarparu gwasanaethau dan arweiniad ymgynghorwyr. Bydd y babanod mwyaf agored i niwed yn cael eu geni ym Mangor ac yn Wrecsam, a nawr rydych chi'n disgwyl iddyn nhw gael eu trosglwyddo i uned gofal arbennig i fabanod yng Nglan Clwyd. Nid yw'n gredadwy. Pam nad yw'r cynllun busnes a addawyd gennych ym mis Mai y llynedd wedi ei lunio?

13:46

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

It is for the local health board to produce that plan. I say it once again: there is no difficulty with the sub-regional neonatal intensive care centre on the Glan Clwyd site. I expect that plan to move forward. I expect the local health board to move that plan forward. I expect the SuRNICC to be set up at Glan Clwyd. It was never the intention that the SuRNICC was something to be grafted on to the existing department, for the reasons that we've seen, in part, today. That SuRNICC has to be taken forward by the LHB. I will certainly be—. As the Member has already said, I took responsibility for maternity services, not for Glan Clwyd's current maternity unit, but certainly for the SuRNICC, and I want to see that SuRNICC move forward, with a business plan, and set up.

Mater i'r bwrdd iechyd lleol yw llunio'r cynllun hwnnw. Fe'i dywedaf unwaith eto: nid oes unrhyw anhawster gyda'r Ganolfan Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd-anedig ar safle Glan Clwyd. Rwy'n disgwyl i'r cynllun hwnnw symud yn ei flaen. Rwy'n disgwyl i'r bwrdd iechyd lleol symud y cynllun hwnnw yn ei flaen. Rwy'n disgwyl i'r SuRNICC gael ei sefydlu yng Nglan Clwyd. Nid oedd erioed yn fwrdd y byddai'r SuRNICC yn rhywbeth i'w ychwanegu at yr adran bresennol, am y rhesymau yr ydym ni wedi eu gweld, yn rhannol, heddiw. Mae'n rhaid i'r SuRNICC hwnnw gael ei ddatblygu gan y BILL. Byddaf yn sicr—. Fel y mae'r Aelod eisoes wedi dweud, cymerais gyfrifoldeb am wasanaethau mamolaeth, nid am uned famolaeth bresennol Glan Clwyd, ond yn sicr am y SuRNICC, ac rwyf eisiau gweld y SuRNICC honno'n symud ymlaen, gyda chynllun busnes, ac yn cael ei sefydlu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:47

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, are you really saying that you expect consultant-led obstetrics to be delivered in Bangor and Wrexham, but the special care baby unit to be in Glan Clwyd? If you are, I do not know who you're getting medical advice from. Let's be honest, this isn't the only service that is currently under threat because of a difficulty that your Government has had in the recruitment and the retention of staff. How confident are you, First Minister, that health boards will be able to maintain paediatric rotas later this year, and that paediatric services currently being delivered at the Royal Gwent Hospital and at Nevill Hall Hospital, and paediatric services being delivered at your own district general hospital in Bridgend and at Morrision Hospital will be able to be maintained?

Brif Weinidog, a ydych chi wir yn dweud eich bod yn disgwyl i obstetreg dan arweiniad ymgynghorwyr gael ei ddarparu ym Mangor a Wrecsam, ond y bydd yr uned gofal arbennig i fabanod yng Nglan Clwyd? Os ydych chi, nid wyf yn gwybod gan bwy yr ydych chi'n cael cyngor meddygol. Gadewch i ni fod yn onest, nid dyma'r unig wasanaeth sydd dan fygythiad ar hyn o bryd oherwydd anhawster y mae eich Llywodraeth wedi ei gael yn recriwtio a chadw staff. Pa mor hyderus ydych chi, Brif Weinidog, y bydd byrddau iechyd yn gallu cynnal rotas pediatrig yn ddiweddarach eleni, ac y bydd gwasanaethau pediatrig sy'n cael eu darparu yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac yn Ysbyty Nevill Hall ar hyn o bryd, a gwasanaethau pediatrig sy'n cael eu darparu yn eich ysbyty cyffredinol dosbarth eich hun ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yn Ysbyty Treforys yn gallu cael eu cynnal?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 13:47 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 We are confident they will be able to be maintained. We expect the local health boards to do just that. The leader of the Liberal Democrats misunderstands the situation at Glan Clwyd. As I said earlier on, my understanding is that the local health board wish this to be a temporary situation. We would expect them to resolve this issue in the course of this year and the SuRNICC to be placed at Glan Clwyd. That is still the plan.
- Rydym yn hyderus y byddant yn gallu cael eu cynnal. Rydym yn disgwyl i'r byrddau iechyd lleol wneud yn union hynny. Mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn camddeall y sefyllfa yng Nglan Clwyd. Fel y dywedais yn gynharach, fy nealltwriaeth i yw bod y bwrdd iechyd lleol yn dymuno i hon fod yn sefyllfa dros dro. Byddem yn disgwyl iddynt ddatrys y mater hwn yn ystod y flwyddyn hon ac i'r SuRNICC gael ei lleoli yng Nglan Clwyd. Dyna'r cynllun o hyd.
- 13:48 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Well, I'll believe your plan when I see a business case, which you promised that you would be working with health boards to deliver all of nine months ago. The plan hasn't even started and I would ask you: what have you been doing in the last nine months to see that plan being developed? First Minister, how many other services and announcements like the one we've seen at Glan Clwyd today, are the Welsh public going to have to endure because of a failure to recruit and retain vital staff? You said your health organisations had to go ahead to prevent the very scenario that we have seen today. How many other services will have to endure an emergency transfer or closure under your leadership?
- Wel, byddaf yn credu eich cynllun pan welaf i achos busnes, y gwnaethoch addo y byddech chi'n gweithio gyda byrddau iechyd i'w gyflwyno naw mis cyfan yn ôl. Nid yw'r cynllun hyd yn oed wedi dechrau ac rwyf yn gofyn i chi: beth ydych chi wedi bod yn ei wneud yn ystod y naw mis diwethaf i sicrhau bod y cynllun hwnnw'n cael ei ddatblygu? Brif Weinidog, faint o wasanaethau a chyhoeddiadau eraill fel yr un yr ydym ni wedi ei weld yng Nglan Clwyd heddiw, y mae'r cyhoedd yng Nghymru yn mynd i orfod eu dioddef oherwydd methiant i recriwtio a chadw staff hanfodol? Dywedasoch fod yn rhaid i'ch sefydliadau iechyd fynd ati i atal yr union sefyllfa yr ydym ni wedi ei gweld heddiw. Faint o wasanaethau eraill fydd yn gorfod dioddef trosglwyddiad brys neu gau dan eich arweinyddiaeth chi?
- 13:48 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 There are no services that fall into that category. Bear in mind it's for the local health boards to resolve this issue and, thirdly, of course, there are specific reasons at Glan Clwyd why this has happened—specific reasons. The deanery did not see training as adequate. There have been problems in the relations between the medical staff there. Those are not my words. Those are the words of two different reports that have taken place, and I say, once again: I expect the SuRNICC to be taken forward by the local health board. We will support them where we can and we will make sure that the SuRNICC is placed at Glan Clwyd. That remains the situation. I've said it many, many times and that is something that I expect the local health board to take forward.
- Nid oes unrhyw wasanaethau sydd yn y categori hwnnw. Cofiwch mai cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol yw datrys y mater hwn ac, yn drydydd, wrth gwrs, mae rhesymau penodol yng Nglan Clwyd pam mae hyn wedi digwydd—rhesymau penodol. Nid oedd y ddeoniaeth yn credu bod yr hyfforddiant yn ddigonol. Bu problemau o ran y berthynas rhwng y staff meddygol yno. Nid fy ngeiriau i yw'r rheini. Geiriau dau wahanol adroddiad a gyflawnwyd ydynt, a dywedaf, unwaith eto: rwy'n disgwyl i'r SuRNICC gael ei datblygu gan y bwrdd iechyd lleol. Byddwn yn eu cefnogi pan y gallwn a byddwn yn sicrhau bod y SuRNICC yn cael ei lleoli yng Nglan Clwyd. Dyna'r sefyllfa o hyd. Rwyf wedi ei ddweud lawer, lawer gwaith ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn disgwyl i'r bwrdd iechyd lleol fwrw ymlaen ag ef.
- 13:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Question 3, OAQ(4)2115(FM), has been withdrawn.
 Question 4, Bethan Jenkins.
- Tynnwyd Cwestiwn 3, OAQ(4)2115(FM), yn ôl. Cwestiwn 4, Bethan Jenkins.
- Cloddio Glo Brig** **Opencast Mining**
- 13:49 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gloddio glo brig yng Nghymru? OAQ(4)2111(FM)
4. Will the First Minister make a statement on opencast mining in Wales? OAQ(4)2111(FM)

13:49

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

'Minerals Planning Policy Wales' sets out planning policy for minerals extraction and related development. It's supported by comprehensive advice contained in MTAN2, which sets out the policies for opencast and deep-mine coal development, including issues such as buffer zones and restoration.

Mae 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru' yn nodi polisi cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau a datblygiadau cysylltiedig. Fe'i hategir gan gyngor cynhwysfawr sydd wedi'i gynnwys yn MTAN2, sy'n nodi'r polisïau ar gyfer datblygiad glo brig a glo dwfn, gan gynnwys materion fel clustogfeydd ac adfer.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:50

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister. You will know, as a constituency AM, that concern is building up with regard to opencasting. We have a report that says MTAN 2 need re-purposing, something your Minister said recently he was looking at. Your Government has been sat on a request from me to call in East Pit for two years, something that I believe Gwenda Thomas has also requested, and we have a judgment that states clearly that responsibility for restoring Oak Regeneration's own sites remains with Celtic Energy. In light of all of this, would you support the calls by Lynne Neagle, Assembly Member, for a moratorium on opencast sites, and for a stop to current provisions, so that we can have a similar moratorium as we took with regard to fracking last week?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Byddwch yn gwybod, fel AC etholaeth, bod y pryder yn cynyddu ynglŷn â chloddio glo brig. Mae gennym adroddiad sy'n dweud bod angen ail-fwriadu MTAN 2, rhywbeth y dywedodd eich Gweinidog yn ddiweddar ei fod yn ei ystyried. Mae eich Llywodraeth wedi bod yn eistedd ar gais gennyf fi i alw i mewn East Pit ers dwy flynedd, rhywbeth yr wyf yn credu y mae Gwenda Thomas wedi gofyn amdano hefyd, ac rydym ni wedi cael dyfarniad sy'n nodi'n eglur mai Celtic Energy sydd â'r cyfrifoldeb am adfer safleoedd Oak Regeneration eu hunain o hyd. Yng ngoleuni hyn oll, a wnewch chi gefnogi'r galwadau gan Lynne Neagle, Aelod Cynulliad, am foratoriwm ar safleoedd glo brig, ac am roi terfyn ar ddarpariaethau presennol, fel y gallwn gael moratoriwm tebyg â'r un a gyflwynwyd gennym ar gyfer ffracio yr wythnos diwethaf?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:50

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Bear in mind a moratorium wouldn't help the situation in East Pit or in Parc Slip: the damage was done many, many years ago. At the root of the problem is the fact that not enough money was set aside to restore the site when British Coal was privatised. It was a sweetener that was put there by the then UK Government to privatise opencast and not make it too expensive for the opencast operators. We now find ourselves in the situation where there is a substantial gap between the money that was set aside and the money that would be required to restore the site. My view is, this is the UK Government's creation, and the UK Government have a responsibility to provide the funds for the people of those areas in order for those sites to be restored. It's not god enough for them simply to say, 'Well, sorry, this is all devolved now. It's all a matter for you. You can clear up the mess that we created'. So we will seek to engage with the UK Government, as my parliamentary colleague, Madeleine Moon MP, has done, to make sure that they realise they have a responsibility to the people who live around those sites in order to see them restored.

Cofiwch na fyddai moratoriwm yn helpu'r sefyllfa yn East Pit nac ym Mharc Slip: gwnaed y difrod flynyddoedd lawer iawn yn ôl. Y ffaith na roddwyd digon o arian o'r neilltu i adfer y safle pan breifateiddiwyd Glo Prydain sydd wrth wraidd y broblem. Cymhelliad oedd hwnnw a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU ar y pryd i breifateiddio glo brig a pheidio â'i gwneud yn rhy ddrud i'r gweithredwyr glo brig. Rydym ni bellach yn canfod ein hunain mewn sefyllfa lle mae bwlch sylweddol rhwng yr arian a neilltuwyd a'r arian y byddai ei angen i adfer y safle. Fy marn i yw mai rhywbeth a grëwyd gan Lywodraeth y DU yw hyn, a bod gan Lywodraeth y DU gyfrifoldeb i ddarparu'r arian i bobl yr ardaloedd hynny er mwyn i'r safleoedd hynny gael eu hadfer. Nid yw'n ddigon da iddyn nhw ddweud, 'Wel, mae'n ddrwg gennyf, mae hyn i gyd wedi'i ddatganoli bellach. Mater i chi yw hwn. Cewch chi glirio'r llanast a grëwyd gennym ni'. Felly byddwn yn ceisio ymgysylltu â Llywodraeth y DU, fel y mae fy nghydweithiwr seneddol, Madeleine Moon AS, wedi ei wneud, er mwyn sicrhau eu bod yn sylweddoli bod ganddynt gyfrifoldeb i bobl sy'n byw o amgylch y safleoedd hynny, er mwyn eu gweld yn cael eu hadfer.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:51

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, as your personal intervention into the Celtic Energy situation helped underline, there are currently huge question marks hanging over the opencast industry in Wales. A moratorium would help my constituents in Varteg, who yet again are left fighting an application that is in clear breach of MTAN 2 planning guidance. Will you listen to the growing calls now for a moratorium so that your Government has the breathing space it needs to undertake the strategic review of the opencast industry in Wales that I, and others, feel is absolutely vital?

Brif Weinidog, fel y gwnaeth eich ymyrraeth bersonol i'r sefyllfa Celtic Energy helpu i dynnu sylw ati, mae marciau cwestiwn enfawr yn ymwneud â'r diwydiant glo brig yng Nghymru ar hyn o bryd. Byddai moratoriwm yn helpu fy etholwyr yn y Farteg, sydd unwaith eto wedi'u gadael yn ymladd cais sy'n amlwg yn mynd yn groes i ganllawiau cynllunio MTAN 2. A wnewch chi wrando ar y galwadau cynyddol nawr am foratoriwm fel bod gan eich Llywodraeth y cyfle sydd ei angen arni i gynnal yr adolygiad strategol o'r diwydiant glo brig yng Nghymru yr wyf i, ac erail, yn teimlo sy'n gwbl hanfodol?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:52

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, I say to the Member that what has happened with regard to East Pit and with Parc Slip adds weight to her argument. I'll take it no further than that at this stage. What I will ask the Minister to do—or he and I will discuss this to see what can be done in the meantime to restore confidence in the issue of opencast mining, given the current situation with regard to some sites across south Wales in particular. It is not unique to Wales, but is an issue that has arisen across the whole of UK. We cannot have a situation, clearly, where we have a number of opencast sites in the future that cannot be restored because there is no money to restore them.

Wel, rwyf am ddweud wrth yr Aelod bod yr hyn sydd wedi digwydd ynglŷn ag East Pit a chyda Pharc Slip yn ychwanegu pwysau at ei dadl hi. Ni fyddaf yn mynd â'r mater ymhellach na hynny ar hyn o bryd. Yr hyn yr wyf am ofyn i'r Gweinidog ei wneud—neu y bydd ef a minnau yn ei drafod i weld beth ellir ei wneud yn y cyfamser i adfer ffydd yn y mater o gloddio glo brig, o ystyried y sefyllfa bresennol gyda rhai safleoedd ledled y de yn benodol. Nid yw'n unigryw i Gymru, ond mae'n fater yn hytrach sydd wedi codi ar hyd a lled y DU. Ni allwn gael sefyllfa, yn amlwg, lle y bydd gennym nifer o safleoedd glo brig yn y dyfodol na ellir eu hadfer gan nad oes arian ar gael i'w hadfer.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:53

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Minister, given that, will you put all your correspondence in the public domain for the last five years with the UK Government, seeking to establish a resolution to this matter, so that we can all see exactly what steps have been taken by you personally, or your Ministers?

Wel, Weinidog, o gofio hynny, a wnewch chi sicrhau bod eich holl ohebiaeth gyda Llywodraeth y DU yn ystod y pum mlynedd diwethaf ar gael yn gyhoeddus, gan geisio datrys y mater hwn, fel y gallwn ni i gyd weld yn union pa gamau a gymerwyd gennych chi yn bersonol, neu gan eich Gweinidogion?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:53

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The responsibility lies ultimately of course with Oak Regeneration and with Celtic Energy, and with Neath Port Talbot Council in the case of Parc Slip and East Pit. It is clear now that the issue is a failure in the early 1990s to secure enough money being set aside for the restoration of those sites. Either she recognises that failure or is happy to see communities live with the consequences of the failure of her party. She says 18 years of hanging about, but I haven't been First Minister for 18 years; the Assembly hasn't been in existence for 18 years. All this happened in the early 1990s. She cannot escape—well, not her, but her party cannot escape responsibility for the creation of this mess. What they did was ensure that the operators did not have to put aside sufficient money for restoration in order for them to sweeten the deal for opencast mining and its privatisation. We are now dealing with those consequences, and the UK Government cannot escape the consequences of the actions taken forward by their own party some 20 years ago.

Mae'r cyfrifoldeb yn gorwedd yn y pen draw, wrth gwrs, gydag Oak Regeneration a chyda Celtic Energy, a chyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot yn achos Parc Slip ac East Pit. Mae'n amlwg erbyn hyn mai methiant ar ddechrau'r 1990au i sicrhau bod digon o arian wedi'i neilltuo ar gyfer adfer y safleoedd hynny yw'r broblem. Naill ai mae hi'n cydnabod y methiant hwnnw neu mae hi'n hapus i weld cymunedau'n byw gyda chanlyniadau methiant ei phlaid. 18 mlynedd o hongian o gwmpas meddai hi, ond nid wyf wedi bod yn Brif Weinidog am 18 mlynedd; nid yw'r Cynulliad wedi bodoli am 18 mlynedd. Digwyddodd hyn i gyd ar ddechrau'r 1990au. Ni all hi ddianc—wel, nid hi, ond ni all ei phlaid hi ddianc rhag y cyfrifoldeb am greu'r llanast hwn. Yr hyn a wnaethant oedd sicrhau nad oedd yn rhaid i'r gweithredwyr roi digon o arian o'r neilltu ar gyfer adfer er mwyn ei gwneud cloddio glo brig a'i breifateiddio yn fwy apelgar. Rydym ni'n wynebu canlyniadau hynny bellach, ac ni all Llywodraeth y DU ddianc rhag canlyniadau'r camau a gymerwyd gan ei phlaid eu hunan rhyw 20 mlynedd yn ôl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:54

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you join with me, First Minister, in congratulating Madeleine Moon, Labour MP for your constituency, for securing a Westminster debate on 29 January on the subject of restoration of opencast coal sites? In view of the response from the Minister of State—and I take it the party opposite would want to read that; it's well worth doing—for Business and Enterprise to that debate, will you ask our Minister for Natural Resources to engage in any future discussions and to seek to ensure the paramount importance of the wellbeing of opencast communities in Wales and their right to have their expectations realised with regard to the restoration of opencast sites, alongside which they lived as neighbours, sometimes since as far back as 1948?

A wnewch chi ymuno â mi, Brif Weinidog, i longyfarch Madeleine Moon, yr AS Llafur dros eich etholaeth chi, am sicrhau dadl yn San Steffan ar 29 Ionawr ar y pwnc o adfer safleoedd glo brig? O ystyried yr ymateb gan y Gweinidog Gwladol—ac rwy'n cymryd y byddai'r blaid gyferbyn eisiau darllen hwnnw; mae'n sicr yn werth gwneud hynny—dros Fusnes a Menter i'r ddadl honno, a wnewch chi ofyn i'n Gweinidog Cyfoeth Naturiol gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau yn y dyfodol a cheisio sicrhau y rhoddir y pwys mwyaf i les cymunedau glo brig yng Nghymru a'u hawl i'w disgwyliadau gael eu gwireddu o ran adfer safleoedd glo brig, y buont yn byw ochr yn ochr â nhw fel cymdogion, weithiau ers cyn belled yn ôl â 1948?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:55

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Indeed, I know the Minister is fully sighted on this issue. In view of what I thought was, in the circumstances, a helpful response from the Minister in Westminster—much more helpful than what we've heard from the benches opposite in the course of these questions in this Chamber this afternoon—I think there is scope there now for us to discuss the issue with the UK Government to come to a solution. What people want to see with these opencast sites is a remedy being applied, restoration taking place, and certainly that is our intention as a Government to discuss this issue now with the UK Government and to make sure that a problem that was created in Whitehall is resolved in Whitehall.

Yn wir, rwy'n gwybod bod y Gweinidog yn gwbl ymwybodol o'r mater hwn. Yn wyneb yr hyn yr oeddwn i'n meddwl oedd, dan yr amgylchiadau, yn ymateb defnyddiol gan y Gweinidog yn San Steffan—llawer mwy defnyddiol na'r hyn yr ydym ni wedi ei glywed gan y meinciau gyferbyn yn ystod y cwestiynau hyn yn y Siambr hon y prynhawn yma—rwy'n meddwl bod cyfle erbyn hyn i ni drafod y mater gyda Llywodraeth y DU i ddod o hyd i ateb. Yr hyn y mae pobl eisiau ei weld gyda'r safleoedd glo brig hyn yw ateb yn cael ei roi ar waith, adfer yn digwydd, ac yn sicr dyna ein bwriad fel Llywodraeth yw trafod y mater hwn nawr gyda Llywodraeth y DU a gwneud yn siŵr bod problem a grëwyd yn Whitehall yn cael ei datrys yn Whitehall.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, members of the United Valleys Action Group have raised with me concerns that the developments of national significance that are envisaged in the current Planning (Wales) Bill may serve to undermine the voice of communities faced with applications for opencast and similar development. In the context of this and also given that your Government has set its face against the possibility of any form of third party right of appeal in such cases, what reassurance can you offer to communities, particularly coalfield communities, in this regard?

Brif Weinidog, mae aelodau'r United Valleys Action Group wedi codi pryderon gyda mi y gallai'r datblygiadau o bwys cenedlaethol a ragwelir yn y Bil Cynllunio (Cymru) cyfredol danseilio llais cymunedau sy'n wynebu ceisiadau am ddatblygiadau glo brig a datblygiadau tebyg. Yng nghydestun hyn a hefyd o gofio bod eich Llywodraeth wedi penderfynu gwrthwynebu'r posibilrwydd o unrhyw fath o hawl apelio trydydd parti mewn achosion o'r fath, pa sicrwydd allwch chi ei gynnig i gymunedau, a chymunedau meysydd glo yn benodol, yn hyn o beth?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

They need not fear the developments of national significance. The intention is, of course, to make sure that such developments are taken forward properly, to make sure that the resources are devoted to dealing with such applications and then, of course, for the proper decision to be made. They need not fear that this in some way interferes with their ability to put their case, whether it be to a local authority in the current circumstances, or indeed to a Minister in circumstances once the Planning (Wales) Bill has been passed.

Nid oes rhaid iddyn nhw ofni'r datblygiadau o bwys cenedlaethol. Y bwriad, wrth gwrs, yw sicrhau bod datblygiadau o'r fath yn cael eu symud ymlaen yn briodol, er mwyn sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu neilltuo ar gyfer ymdrin â cheisiadau o'r fath ac yna, wrth gwrs, i'r penderfyniad cywir gael ei wneud. Nid oes angen iddyn nhw ofni bod hyn yn amharu mewn rhyw ffordd ar eu gallu i gyflwyno eu hachos, boed hynny i awdurdod lleol dan yr amgylchiadau presennol, neu yn wir i Weinidog dan amgylchiadau ar ôl i Fil Cynllunio (Cymru) gael ei basio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Torri Cyfraddau Ysmygu

Cutting Smoking Rates

13:57

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i dorri cyfraddau ysmygu yng Nghymru? OAQ(4)2110(FM)

5. Will the First Minister provide and update on what the Welsh Government is doing to cut smoking rates in Wales? OAQ(4)2110(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:57

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, we've prioritised smoking cessation as part of our commitment to reduce the number of adult smokers in Wales to 16% by 2020. Services include the national Stop Smoking Wales service, run by Public Health Wales, and local pharmacy, GP and hospital services.

Wel, rydym wedi blaenoriaethu rhoi'r gorau i ysmygu fel rhan o'n hymrwymiad i leihau nifer yr oedolion sy'n smygu yng Nghymru i 16% erbyn 2020. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys gwasanaethau ysbyty Stop cenedlaethol Smygu gwasanaeth i Gymru, ei redeg gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, a fferylfa leol, meddygon teulu a.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:57	<p>Sandy Mewies Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that. Smoking rates in Wales have come down, and that's the good news, but the recent report showing increased levels of lung cancer amongst women reinforces the message that more does need to be done. The introduction of plain packaging for cigarettes would help and so will the ban on smoking in cars carrying children. First Minister, consultation on that proposal is now closed. Can I ask when we can expect the ban to be implemented so that young people will be protected from the dangers of second-hand smoke?</p>	<p>Diolch i chi am hynny. Cyfraddau ysmegu yng Nghymru wedi dod i lawr, a dyna y newyddion da, ond mae'r adroddiad diweddar sy'n dangos lefelau uwch o ganser yr ysgyfaint ymhlith menywod yn atgyfnerthu'r neges bod oes angen gwneud mwy. Byddai cyflwyno pecynnau plaen ar gyfer sigarêts helpu a felly hefyd y bydd y gwaharddiad ar ysmegu mewn ceir sy'n cludo plant. Brif Weinidog, ymgynghoriad ar y cynnig hwnnw bellach ar gau. A allaf ofyn pryd y gallwn ddisgwyl y gwaharddiad gael ei weithredu fel bod pobl ifanc yn cael eu diogelu rhag peryglon mwg ail-law?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:58	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I can say to the Member that the Minister will be making an announcement on this matter on Thursday.</p>	<p>Gallaf ddweud wrth yr Aelod y bydd y Gweinidog yn gwneud cyhoeddiad ar y mater hwn ar ddydd Iau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:58	<p>Darren Millar Bywgraffiad Biography</p> <p>I'm very pleased to hear that the Minister will be making an announcement on this later this week. It's something that I very much support. But one of the things that your Government has said that it wants to do in order to reduce harm from tobacco is to introduce a ban on the use of e-cigarettes in private and enclosed spaces. I'm very concerned about this, because I do think that it is very clear from the evidence that the use of e-cigarettes has helped many people quit smoking altogether and therefore reduced harm from tobacco. Will your Government relook at its proposals in order to ensure that the harmful effects from tobacco smoking can be reduced and that there is still the opportunity for e-cigarettes to be used in the widespread places they currently are?</p>	<p>Rwy'n falch iawn o glywed y bydd y Gweinidog yn gwneud cyhoeddiad ar hyn yn ddiweddarach yr wythnos. Mae'n rhywbeth yr wyf yn fawr iawn gefnogaeth. Ond un o'r pethau y mae eich Llywodraeth wedi dweud ei bod am ei wneud er mwyn lleihau niwed gan dybaco yw i gyflwyno gwaharddiad ar y defnydd o e-sigarêts mewn mannau preifat a amgaaedig. Rwy'n bryderus iawn am hyn, gan fy mod yn credu ei bod yn glir iawn o'r dystiolaeth bod y defnydd o e-sigarêts wedi helpu llawer o bobl roi'r gorau i ysmegu yn gyfan gwbl, ac felly llai o niwed gan dybaco. A fydd eich Llywodraeth yn relook ar ei gynigion er mwyn sicrhau y gall yr effeithiau niweidiol o ysmegu tybaco yn cael eu lleihau a bod yn dal ar y cyfle ar gyfer e-sigarêts i gael ei ddefnyddio yn y mannau eang y maent ar hyn o bryd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:58	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>No, and the reason is we can't recommend e-cigarettes as a smoking cessation aid until they've been proven to be effective as such, and they are a long way from being in that situation. So, certainly the current situation is that that is not something we will be looking to consider in the absence of such evidence.</p>	<p>Na, a'r rheswm yw na allwn argymhell e-sigarêts fel cymorth rhoi'r gorau i ysmegu nes eu bod wedi cael eu profi i fod yn effeithiol fel y cyfryw, ac maent yn bell o fod yn y sefyllfa honno. Felly, yn sicr yw'r sefyllfa bresennol yw nad yw bod rhywbeth byddwn yn edrych i ystyried yn absenoldeb tystiolaeth o'r fath.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Economi Cymru</p>		<p>The Welsh Economy</p>	
13:59	<p>Keith Davies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>6. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer economi Cymru? OAQ(4)2114(FM)</i></p>	<p><i>6. Will the Minister provide an update on Welsh Government support for the Welsh economy? OAQ(4)2114(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:59	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Rŷm ni'n cymryd amryw o gamau i gefnogi economi Cymru, gan gynnwys camau i helpu busnesau i ddechrau a thyfu, a'i gwneud yn haws iddynt gael cyllid, a sicrhau, wrth gwrs, ein bod yn adolygu'r polisi ardrethi busnes yng Nghymru, yn cefnogi masnach a buddsoddi rhyngwladol, ac, wrth gwrs, sicrhau ein bod ni'n hyrwyddo Cymru i dwristiaid a'r rheini sy'n mynd i fuddsoddi yn ein gwlad.</p>	<p>We are taking a variety of actions to support the Welsh economy, including actions to support business to start and grow, and to make it easier for them to access finance, and ensure that we review business rates policy in Wales, that we support international trade and investment, and, of course, ensure that we promote Wales as a tourism destination and to those who would invest in our country.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 13:59 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Diolch, Brif Weinidog. Mae adroddiad diweddar o Sefydliad Joseph Rowntree yn dweud bod 29.4% o deuluoedd Cymru yn byw ar lain y gyflog bywoliaeth. A ydych chi yn cytuno â fi ei bod hi'n bwysig i godi treth ar y plastai yn y Deyrnas Unedig er mwyn i ni wella economi Cymru er mwyn cynnig cyfleoedd i'r teuluoedd tlotach?
- Thank you, First Minister. A recent report from the Joseph Rowntree Foundation states that 29.4% of families in Wales are living on less than the living wage. Do you agree with me that it's important to tax mansions in the UK so that we can improve the Welsh economy to provide opportunities for our poorest families?
- 14:00 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Mae hynny'n iawn, ac, wrth gwrs, beth sy'n bwysig i'w gofio yw: heb fwy o gydraddoldeb, nid yw gwellhad yn yr economi yn mynd i fod yn effeithiol. Dyna beth rydym yn ei weld ar hyn o bryd: mae nhw'n dweud bod yr economi yn gwella, ond beth nad ydym yn ei weld yw bod pobl gyffredin yn cael unrhyw fath o hwb yn eu hincwm. A dyna pam, wrth gwrs, mae'n bwysig dros ben i sicrhau, os yw pethau yn mynd i wella, fod pawb yn teimlo bod y gwellhad hwnnw yn rhywbeth sy'n berthnasol iddyn nhw. I ni, wrth gwrs, mae gennym ni'r cynllun i dacio tlodi, ac mae hwnnw'n rhywbeth sydd yn cael ei adolygu yn aml iawn er mwyn sicrhau ei fod mor effeithiol ag y gall fod.
- That's right and, of course, what's important for us to bear in mind is that without more equality, an improvement in the economy isn't going to be effective. That is what we see at the moment: they say that the economy is improving, but what we aren't seeing is that ordinary people are getting any kind of boost in their income, and that's why it's extremely important to ensure that if things are to improve that everybody feels that that improvement is relevant to them. For us, of course, we have the scheme to tackle poverty, and that is something that is being reviewed very regularly in order to ensure that it's as effective as possible.
- 14:00 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Last week, the Federation of Master Builders highlighted, following the publication of their state of trade survey for the last quarter of 2014, the increasing skills shortages across building trades. Will the First Minister outline what measures he intends to use to address the shortage of skills?
- Yr wythnos diwethaf, amlygodd Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr, ar ôl cyhoeddi eu harolwg cyflwr masnach ar gyfer chwarter olaf 2014, y prinder sgiliau cynyddol ar draws crefftau adeiladu. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa fesurau y mae'n bwriadu eu defnyddio i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau?
- 14:01 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- We expect, of course, to work with them and also with the Construction Skills Network to make sure that the skills are there. We know that construction is expected to grow in Wales at a rate higher than the UK average, which, of course, is a testament to the policies that we have put in place as a Government. And, of course, more work has been done in terms of apprenticeships to make sure that we have the skills that are required. But we will, of course, work with the companies involved in construction and, indeed, with those involved in identifying the need for skills to make sure that the skills are there in order to fuel the increase in construction that we expect to see.
- Rydym yn disgwyl, wrth gwrs, gweithio gyda nhw a hefyd gyda'r Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu i wneud yn siŵr bod y sgiliau ar gael. Rydym ni'n gwybod y disgwylir i adeiladu dyfu yng Nghymru ar gyfradd uwch na chyfartaledd y DU, sydd, wrth gwrs, yn dystiolaeth o'r polisiau yr ydym ni wedi eu rhoi ar waith fel Llywodraeth. Ac, wrth gwrs, gwnaed mwy o waith o ran prentisiaethau i wneud yn siŵr bod gennym y sgiliau sydd eu hangen. Ond byddwn, wrth gwrs, yn gweithio gyda'r cwmnïau dan sylw ym maes adeiladu ac, yn wir, gyda'r rhai sy'n ymwneud â nodi'r angen am sgiliau i wneud yn siŵr bod y sgiliau yna er mwyn sbarduno'r cynnydd mewn adeiladu yr ydym ni'n disgwyl ei weld.
- 14:01 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- I ddilyn cwestiwn Keith Davies, onid y gwir ydy mai un cam arwyddocaol bwysig i geisio ymateb i dlodi, yn cynnwys y tlodi mewn gwaith sydd yn dal yn bodoli, ydy dilyn polisi Plaid Cymru o fynnu gweld cyflog byw statudol yn cael ei gyflwyno, yn hytrach na lleiafswm cyflog, ac y byddai hynny â'r effaith o helpu economi Cymru yn y pen draw hefyd?
- To follow up on Keith Davies's question, isn't the truth that one significantly important step to respond to poverty, particularly in-work poverty, which continues to exist, would be to follow Plaid Cymru's policy of insisting on the introduction of a statutory living wage, rather than a minimum wage, and that that would have the impact of assisting the Welsh economy ultimately also?

14:02	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Wel, wrth gwrs, rydym ni'n gefnogol iawn i sicrhau bod hynny'n digwydd yn y sector gyhoeddus; nid oes grym gyda ni o gwbl yn y Cynulliad ar hyn o bryd i wneud hynny yn y sector breifat. Ond y neges y byddem ni'n ei rhoi i gwmnïau—mae hon yn neges y mae'r Prif Weinidog, David Cameron, wedi'i dweud—yw ei bod yn bwysig dros ben eu bod nhw'n sicrhau bod pobl yn gweld twf yn eu hincwm os ydynt yn mynd i deimlo bod pethau yn gwella.</p>	<p>Well, of course, we're very supportive of ensuring that that happens in the public sector; we have no powers at all in the Assembly currently to do that in the private sector. But, the message that I would give to companies—and this is a message that the Prime Minister, David Cameron, has given—is that it's very important that they ensure that people see a growth in their income if they are to feel that things are improving.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:02	<p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, last year the UK Government announced a £1.1 billion city deal for Glasgow and the Clyde valley, and, clearly, a similar level of investment and a similar package could have a transformative effect on Wales's city regions too. What bids has the Welsh Government made to the UK Government for a city deal for, for example, the Cardiff city region?</p>	<p>Brif Weinidog, y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gytundeb dinas gwerth £1.1 biliwn ar gyfer Glasgow a dyffryn Clyde, ac, yn amlwg, gallai lefel debyg o fuddsoddi a phecyn tebyg gael effaith weddnewidiol ar ddinas-ranbarthau Cymru hefyd. Pa geisiadau mae Llywodraeth Cymru wedi eu gwneud i Lywodraeth y DU am gytundeb dinas ar gyfer, er enghraifft, dinas-ranbarth Caerdydd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:03	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Well, it's a matter ultimately for the city region to decide what it wishes to do in terms of such a bid, but we would be more than happy to support them if they wish to make such a bid in order to bring that money into Wales.</p>	<p>Wel, yn y pen draw, mater i'r ddinas-ranbarth yw penderfynu beth mae'n dymuno ei wneud o ran cais o'r fath, ond byddem yn fwy na pharod i'w cefnogi os ydynt yn dymuno gwneud cais o'r fath er mwyn dod â'r arian hwnnw i mewn i Gymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Y Gwaharddiad ar Ysmygu mewn Ceir sy'n Cludo Plant</p>		<p>The Ban on Smoking in Cars Carrying Children</p>	
14:03	<p>Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography <i>7. Pryd fydd y gwaharddiad ar ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant yn cael ei roi ar waith? OAQ(4)2100(FM)</i></p> <p>In view of your answers to previous questions, First Minister, I will emphasise the first word of my question: 'when' is the ban on smoking in cars carrying children going to be implemented?</p>	<p><i>7. When is the ban on smoking in cars carrying children going to be implemented? OAQ(4)2100(FM)</i></p> <p>O ystyried eich atebion i gwestiynau blaenorol, Brif Weinidog, byddaf yn pwysleisio gair cyntaf fy nghwestiwn: 'pryd' fydd y gwaharddiad ar ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant yn cael ei weithredu?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:03	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Well, I refer the Member to the answer I gave some moments ago: there will be an announcement on Thursday.</p>	<p>Wel, cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb a roddais rai munudau yn ôl: bydd cyhoeddiad ddydd Iau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:03	<p>Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, it wasn't really clear; you merely indicated that the statement will be made later, so I can only assume that at least you obviously have the rights of children at heart. Maintaining that positive short, when will you end the legalised violence against children in Wales by removing the defence of reasonable punishment?</p>	<p>Wel, nid oedd wir yn eglur; y cwbl wnaethoch chi oedd nodi y bydd y datganiad yn cael ei wneud yn ddiweddarach, felly ni allaf ond tybio bod hawliau plant gennych mewn golwg, yn amlwg. Gan gynnal y naws gadarnhaol honno, pryd wnewch chi roi terfyn ar y trais cyfreithlon yn erbyn plant yng Nghymru trwy ddiddymu'r amddiffyniad o gosb resymol?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:03	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Order. That is not relevant to this question. Christine Chapman.</p>	<p>Trefn. Nid yw hynny'n berthnasol i'r cwestiwn hwn. Christine Chapman.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:04

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. First Minister, a recent study has found that smoking remains a major risk factor in unexplained child deaths in Wales. Examining 45 cases across Wales, the study found that 25 children who died lived in smoking households. The report found that premature birth, low birth weight and poor sleeping could also be important contributory factors. However, the rate of smoking amongst parents was extremely high. I welcome the ban on smoking on cars with children, but what further steps will the Welsh Government take to reduce smoking in Wales, particularly during pregnancy and afterwards?

Diolch yn fawr. Brif Weinidog, mae astudiaeth ddiweddar wedi canfod bod ysmegu yn parhau i fod yn ffactor sylweddol o risg o ran marwolaethau plant lle nad oes esboniad amdanynt ledled Nghymru. O archwilio 45 o achosion ledled Cymru, canfu'r astudiaeth fod 25 o blant a fu farw yn byw mewn cartrefi lle'r oedd ysmegwyr. Canfu'r adroddiad y gallai genedigaeth gynamserol, pwysau geni isel a chysgu gwael hefyd fod yn ffactorau cyfrannol pwysig. Fodd bynnag, roedd y gyfradd ysmegu ymhlith rhieni yn hynod uchel. Rwy'n croesawu'r gwaharddiad ar ysmegu mewn ceir pan fo plant yn bresennol, ond pa gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau ysmegu yng Nghymru, yn enwedig yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl hynny?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:04

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, I can say that four local health boards have worked together to improve the uptake of smoking cessation services by pregnant women in their areas. They tested different models. The interim results were encouraging. A final report on that work will be in place shortly. I understand that Cwm Taf Local Health Board has already decided to invest additional resources from their Flying Start budget over the next two years in their service delivery model. Before the full results become available, they've recruited two additional maternity support workers and a midwife to take that work forward, and that will enable their current project in the Rhondda pilot area to also include the whole of the Cynon valley and Taff Ely.

Wel, gallaf ddweud bod pedwar bwrdd iechyd lleol wedi gweithio gyda'i gilydd i wella nifer y menywod beichiog yn eu hardaloedd sy'n manteisio ar wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu. Profwyd gwahanol fodolau ganddynt. Roedd y canlyniadau interim yn galonogol. Bydd adroddiad terfynol ar y gwaith hwnnw ar gael yn fuan. Rwy'n deall bod Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf eisoes wedi penderfynu buddsoddi adnoddau ychwanegol o'i gyllideb Dechrau'n Deg dros y ddwy flynedd nesaf yn ei fodel darparu gwasanaeth. Cyn y bydd y canlyniadau llawn ar gael, mae'r bwrdd wedi recriwtio dau weithiwr cymorth mamolaeth ychwanegol a bydwraig i fwrw ymlaen â'r gwaith hwnnw, a bydd hynny'n galluogi ei brosiect cyfredol yn ardal arbrofol y Rhondda i gynnwys pob rhan o gwm Cynon a Thaf Elái hefyd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:05

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, recent figures reveal that Wales has the third highest rate of lung cancer in women among the 40 countries in the European Union. Does the First Minister agree that banning smoking in cars carrying children must be part of a series of measures designed to tackle smoking in Wales, such as banning smoking in hospital grounds, and at the doors for entrance and exit on the ground floor of the hospital, where they are always welcoming people and they're smoking when you enter the hospital all the time in Wales? Thank you.

Brif Weinidog, mae ffigurau diweddar yn dangos mai Cymru sydd â'r drydedd gyfradd uchaf o ganser yr ysgyfaint ymhlith menywod o'r 40 o wledydd yn yr Undeb Ewropeaidd. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod yn rhaid i wahardd ysmegu mewn ceir sy'n cludo plant fod yn rhan o gyfres o fesurau sydd â'r nod o fynd i'r afael ag ysmegu yng Nghymru, fel gwahardd ysmegu ar dir ysbytai, ac wrth ddrysau mynedfeydd ac allanfeydd ar lawr daear yr ysbyty, lle maen nhw bob amser yn croesawu pobl ac maen nhw'n ysmegu pan fyddwch chi'n mynd i mewn i'r ysbyty drwy'r amser yng Nghymru? Diolch yn fawr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:05

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, without prejudice to the announcement that'll be made on Thursday, the idea of banning smoking in cars when children are present has much to commend it.

Wel, heb ragfarnu'r cyhoeddiad a fydd yn cael ei wneud ddydd lau, mae llawer i'w gymeradwyo o ran y syniad o wahardd ysmegu mewn ceir pan fo plant yn bresennol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Darpariaeth Addysg Gynradd Cyfrwng Cymraeg

Welsh-medium Primary Education

14:06

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg gynradd cyfrwng Cymraeg? OAQ(4)2116(FM)

8. Will the First Minister make a statement on the provision of Welsh-medium primary education? OAQ(4)2116(FM)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Mae cynyddu mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Ac, wrth gwrs, mae awdurdodau lleol â dyletswydd i sicrhau bod yna gynllun strategol y Gymraeg mewn addysg ganddyn nhw.
Increasing access to Welsh-medium education is a priority for Welsh Government. And, of course, local authorities are duty bound to ensure that they have Welsh-in-education strategic plans in place.
- 14:06 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Wel, diolch am eich ateb. Mae 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg' eich Llywodraeth chi hefyd yn dweud bod disgwyl i awdurdodau lleol gynllunio'n gynhwysfawr ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, bod yn rhaid sicrhau cynaliadwyedd addysg cyfrwng Cymraeg, a diogelu ac atgyfnerthu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac, yn wir, ystyried hynny wrth gyflwyno cynigion statudol i newid darpariaeth ysgolion. A ydych chi'n credu y byddai unrhyw awgrym bod cau ysgol categori 1 iaith Gymraeg, a gorfodi'r plant hynny i fynd i ysgol categori 2 ddwy ffrwd yn yr un dosbarth, Cymraeg a Saesneg, yn gydnaws â'r polisi hwnnw?
Thank you for that response. The 'Welsh-medium Education Strategy' of your Government also says that there is an expectation that local authorities will plan comprehensively for Welsh-medium education, that they must ensure the sustainability of Welsh-medium education, and safeguard the provision of Welsh-medium education, and must take that into account when making statutory proposals to change provision within schools. Do you believe any suggestion that the closure of a Welsh-medium category 1 school, forcing those children into a category 2 school with two streams, Welsh and English, in the same class, would be in keeping with that policy?
- 14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Wel, yn gyntaf, wrth gwrs, mae hwnnw'n fater i'r awdurdod lleol yn y lle cyntaf. Rwy'n gwybod bod yr Aelod yn sôn am sefyllfa Ysgol Pentrecelyn ac Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd. Mae yna ymgynghoriad statudol, rwy'n deall, yn cymryd lle ar hyn o bryd, ond mae hwnnw'n dal i fod ar agor. Mae'n bwysig dros ben bod rhieni'n sicrhau eu bod nhw'n rhoi eu barn i'r ymgynghoriad hynny. Wrth gofio unrhyw fath o ymyrraeth a fyddai'n cael ei wneud gan y Gweinidog addysg yn y dyfodol, ni allaf i ddweud rhagor, ond mae'n bwysig dros ben nad yw unrhyw awdurdod yn gwneud rhywbeth sy'n gwanhau'r Gymraeg yn ei ardal.
Well, first of all, this is a matter for the local education authority in the first place. I know the Member is talking about the situation at Ysgol Pentrecelyn and Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd. The statutory consultation is ongoing, I understand, and it remains open. It's extremely important that parents give their views to that consultation. Bearing in mind any kind of intervention that may be made by the Minister for education in future, I cannot say any more than that, but it's extremely important that no authority does anything that weakens the language in their areas.
- 14:07 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
First Minister, the interim report evaluating the 'Welsh-medium Education Strategy' says that:
'While the Strategy has led to a wide range of activities that support schools and the development of the education infrastructure, evidence suggests that the Strategy is not as much of a priority to organisations as some other "policy drivers".'
How will you, First Minister, ensure that the strategy does gain more traction with organisations, given that bilingualism is such an asset as well as a right?
Brif Weinidog, mae'r adroddiad interim sy'n gwerthuso'r 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg' yn dweud:
'Tra bod y Strategaeth wedi arwain at ystod eang o weithredoedd sy'n cefnogi ysgolion a datblygiad yr isadeiledd addysg, awgryma'r dystiolaeth nad yw'r Strategaeth yn gymaint o flaenoriaeth i sefydliadau â rhai "gyrwy'r polisi" eraill.'
Sut y byddwch chi, Brif Weinidog, yn sicrhau bod y strategaeth yn fwy o atyniad i sefydliadau, o gofio bod dwyieithrwydd yn gymaint o ased yn ogystal â bod yn hawl?

14:08

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, bear in mind, of course, that local authorities are required to produce Welsh-in-education strategic plans and they are required to set ambitious targets to boost the percentage of seven-year-old children who experience Welsh-medium education. I can say that all 22 authorities have their plans in place. They've submitted their revised plans and an update on progress for us to approve or otherwise. So, it is the case that they must submit their plans in order for Ministers to be satisfied that the plans are robust. Then, of course, all local authorities will be expected to deliver on those plans.

Wel, cofiwch, wrth gwrs, ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg ac mae'n ofynnol iddynt osod targedau uchelgeisiol i hybu canran y plant saith oed sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Gallaf ddweud bod gan bob un o'r 22 awdurdod eu cynlluniau ar waith. Maen nhw wedi cyflwyno eu cynlluniau diwygiedig a diweddariad ar gynnydd i ni eu cymeradwyo neu fel arall. Felly, mae'n wir fod yn rhaid iddynt gyflwyno eu cynlluniau er mwyn i Weinidogion fod yn fodlon bod y cynlluniau'n gadarn. Yna, wrth gwrs, bydd disgwyl i bob awdurdod lleol gyflawni yn unol â'r cynlluniau hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:08

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, mae yna gynllun wedi cael ei gymeradwyo yn Wrecsam sy'n cynnwys dim targedau a dim darpariaeth i ymateb i'r galw. Bydd yna dwf o ryw 50% o fewn y sector uwchradd dros y tair neu bedair blynedd nesaf. Rydych chi'n dweud bod yna adolygiad, neu ryw fath o arolwg, yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Rwy'n deall bod y Gweinidog i ymateb erbyn canol mis Chwefror. Beth fydd yn digwydd os ydy'r cynlluniau yma'n dangos bod yna ddim cynllunio gan gynghorau lleol? Beth fyddwch chi'n ei wneud fel Llywodraeth?

First Minister, a proposal has been approved in Wrexham that includes no targets and no provision to meet demand. There will be a growth of some 50% within the secondary sector over the next three or four years, and you have said that there is a review, or some kind of inspection, being carried out at present. I understand that the Minister is to respond by mid February. What will happen if those plans demonstrate that there isn't sufficient planning by local authorities? What will you do, as a Government?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:09

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

'Cerwch nôl a gwnewch e 'to', fyddai'r ateb. Mae'n bwysig dros ben fod y cynlluniau eu hunain yn gynlluniau da ac yn gynlluniau cryf. Os oes yna unrhyw gynllun sydd ddim yn dod lan i'r safonau yr ydym ni wedi'u rhoi i awdurdodau lleol, felly bydd y cynllun hwnnw ddim yn cael ei ganiatáu. Heb siarad am unrhyw gynllun penodol ar hyn o bryd, dyna beth yw'r sefyllfa gyffredinol a'r egwyddorion cyffredinol y byddwn ni'n eu mabwysiadu.

'Go back and do it again', would be the reply. It's extremely important that the plans are robust and strong, and if any plan doesn't come up to the standards that we expect of the local authorities, then that plan will not be approved. Without speaking specifically about any particular plan, that is the general situation and the general principles that we will adopt.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Cefnogaeth i Gyn-filwyr

Support for Ex-forces Personnel

14:09

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i gyn-filwyr? OAQ(4)2103(FM)

9. What support does the Welsh Government provide to ex-forces personnel? OAQ(4)2103(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:09

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We are committed to ensuring our ex-forces personnel are supported and not disadvantaged due to their service. The range of support and services available is detailed in our package of support for the armed forces community in Wales.

Rydym ni wedi ymrwmo i sicrhau bod ein cyn-bersonél lluoedd arfog yn cael eu cefnogi ac nid yn cael eu rhoi dan anfantais oherwydd eu gwasanaeth. Nodir manylion yr amrywiaeth o gymorth a gwasanaethau sydd ar gael yn ein pecyn cymorth ar gyfer y gymuned lluoedd arfog yng Nghymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:10

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Well, Welsh Government guidance only calls for local authorities to disregard the first £10 of a war pension payment when deciding how much injured veterans should pay for their social care, placing certain veterans at a disadvantage due to the timing of their injury, where those injured prior to 5 April 2005 only have the first £10 of their compensation protected, but those injured after 5 April 2005 are able to keep their compensation in its entirety. Last week, the finance and business Minister stated that it was unclear to her whose responsibility this would be, in terms of Welsh Government powers, local government and the UK Government, but this does result from Welsh Government guidance and two local authorities in Wales at least are treating people fairly. What action will you therefore take as First Minister to ensure that this discrepancy is looked at as a matter of urgency?

Diolch yn fawr. Wel, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn galw ar awdurdodau lleol i anwybyddu dim ond y £10 cyntaf o daliad pensiwn rhyfel wrth benderfynu faint ddylai cyn-filwyr a anafwyd dalu am eu gofal cymdeithasol, gan roi rhai cyn-filwyr dan anfantis oherwydd amseriad eu hanaf, sy'n golygu na fydd dim ond y £10 cyntaf o iawndal y rhai a anafwyd cyn 5 Ebrill 2005 wedi'i ddiogelu, ond caiff y rhai a anafwyd ar ôl 5 Ebrill 2005 gadw eu hiawndal yn ei gyfanrwydd. Yr wythnos diwethaf, dywedodd y Gweinidog cyllid a busnes nad oedd yn eglur iddi cyfrifoldeb pwy fyddai hyn, o ran pwerau Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a Llywodraeth y DU, ond mae hyn yn deillio o ganllawiau Llywodraeth Cymru ac mae o leiaf dau awdurdod lleol yng Nghymru yn trin pobl yn deg. Pa gamau y byddwch chi'n eu cymryd, felly, fel Prif Weinidog i sicrhau yr ystyrir yr anghysondeb hwn fel mater o frys?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I think the Member raises an important issue. It deserves a full answer, and I will write to him with a full answer to his concerns.

Rwy'n credu bod yr Aelod yn codi mater pwysig. Mae'n haeddu ateb llawn, a byddaf yn ysgrifennu ato gydag ateb llawn i'w bryderon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae merched a dynion ifanc sydd wedi ymuno â'r fyddin a'r lluoedd arfog wedi dioddef oherwydd brwdfrydedd Llywodraethau San Steffan i fynd i ryfel, gan gynnwys rhyfel anghyfreithlon Irac wrth gwrs. Rydym ni wedi gweld colli bywyd; rydym wedi gweld anabledau difrifol ac, wrth gwrs, salwch meddyliol ymysg cyn aelodau o'r lluoedd arfog. A oes gennych chi wybodaeth fel Llywodraeth beth yw canran y cleifion iechyd meddwl yng Nghymru sydd yn gyn aelodau o'r lluoedd arfog?

Young men and women who join the army and the military have suffered because of the enthusiasm of Westminster Governments to go to war, including the illegal Iraq war, of course. We've seen the loss of life, terrible disabilities and, of course, mental illnesses amongst former members of the military. Have you any data as a Government as regards the percentage of people suffering from mental health problems in Wales who are ex-military?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Nid oes ffigwr ynglŷn â hynny gyda fi nawr, ond fe wnafl ysgrifennu at yr Aelod gyda'r ffigwr hwnnw os oes un ar gael. Ond, wrth gwrs, rydym yn falch o beth rydym yn rhoi —y gwasanaethau ni'n eu rhoi—i'r rheini sydd â phroblemau gyda'u hiechyd meddyliol. Ac, wrth gwrs, beth rydym yn ei wneud yw gweithio gyda'r cyrff sy'n cynrychioli'r rheini sydd wedi bod yn y lluoedd arfog er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yna ar gael. Er enghraifft, mae therapydd ar gael i'r rheini sydd wedi bod yn y lluoedd arfog ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru, a hwnnw yw'r unig wasanaeth cenedlaethol i'r rheini sydd wedi bod yn y lluoedd arfog yng ngwledydd y Deyrnas Unedig.

I don't have those figures to hand, but I will write to the Member with that figure if it is available. But, of course, we are proud of what we provide—the services that we provide—to those who do have mental health issues. And, of course, what we do is work with the organisations representing veterans in order to ensure that those services are available. For example, there is a therapist available for those who have been in the military or the armed forces in all health boards in Wales, and that is the only national service for veterans in the nations of the UK.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwirfoddoli

Volunteering

14:12

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd gwirfoddoli yng Nghymru? OAQ(4)2108(FM)

10. Will the First Minister make a statement on the importance of volunteering in Wales? OAQ(4)2108(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:12 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 Well, we greatly value those who freely contribute their time and expertise to help others. It's an important expression of citizenship—volunteering. Our new third sector scheme renews our commitment to support volunteers, and this year we've provided over £3 million to demonstrate this through volunteering grants and funding for volunteer centres.
- Wel, rydym ni'n gwerthfawrogi'n fawr y rhai sy'n rhoi eu hamser a'u harbenigedd yn rhad ac am ddim i helpu eraill. Mae'n fynegiant pwysig o ddinasyddiaeth—gwirfoddoli. Mae ein cynllun trydydd sector newydd yn adnewyddu ein hymrwymiad i gefnogi gwirfoddolwyr, ac rydym ni wedi darparu dros £3 miliwn eleni i ddangos hyn drwy grantiau gwirfoddoli a chyllid i ganolfannau gwirfoddoli.
- 14:12 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Thank you for that answer, First Minister. In a few weeks, we will be celebrating our own national St David's Day awards. Meanwhile, in my constituency, the Aber Valley Heritage Group put in a tremendous amount of fundraising and hard work to ensure that the Welsh national mining memorial in Senghennydd was opened in time for the centenary of the 1913 Universal colliery disaster, and I know that you attended. Meanwhile, the volunteers of the Caerphilly Miners Centre for the Community have done an exemplary job raising funds to preserve and convert the town's former general hospital into a multi-use facility for local people, and the Welsh Government supported both projects. So, First Minister, do you agree with me that these are just two examples of the excellent and committed work done by selfless volunteers across Wales and that it's important that their contribution is recognised?
- Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mewn ychydig wythnosau, byddwn yn dathlu ein gwobrau Dydd Gŵyl Dewi cenedlaethol ein hunain. Yn y cyfamser, yn fy etholaeth i, gwnaeth Grŵp Treftadaeth Cwm Aber lawer iawn o waith codi arian a gwaith caled i sicrhau bod cofeb lofaol genedlaethol Cymru yn Senghennydd yn cael ei hagor mewn pryd ar gyfer canmlwyddiant trychineb glofa Universal ym 1913, a gwn eich bod yn bresennol. Yn y cyfamser, mae'r gwirfoddolwyr yng Nghanolfan Glowyr Caerffili ar gyfer y Gymuned wedi gwneud gwaith gwych yn codi arian i gadw ac addasu cyn-ysbyty cyffredinol y dref i fod yn gyfleuster aml-ddefnydd i bobl leol, a chefnogwyd y ddau brosiect gan Lywodraeth Cymru. Felly, Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi bod hyn yn cynrychioli dim ond dwy enghraifft yn unig o'r gwaith rhagorol ac ymroddedig a wneir gan wirfoddolwyr anhunanol ledled Cymru a'i bod yn bwysig bod eu cyfraniad yn cael ei gydnabod?
- 14:13 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 I entirely agree that they're two good examples that demonstrate the vital contribution that volunteers make to community life in Wales. They're projects I'm familiar with, particularly the Welsh national mining memorial. We know that without that army of volunteers, there are many people who would not receive the help that they want; there are many community projects that would not be taken forward. There's the example that the Member has given there of what robust volunteering and determined volunteering can achieve.
- Rwy'n cytuno'n llwyr eu bod yn ddwy enghraifft dda sy'n dangos y cyfraniad hanfodol y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud at fywyd cymunedol yng Nghymru. Maen nhw'n brosiectau yr wyf yn gyfarwydd â nhw, yn enwedig cofeb lofaol genedlaethol Cymru. Rydym ni'n gwybod bod llawer o bobl na fyddent yn cael y cymorth maen nhw ei eisiau heb y fyddin honno o wirfoddolwyr; ceir llawer o brosiectau cymunedol na fyddai'n cael eu datblygu. Dyna'r enghraifft y mae'r Aelod wedi ei rhoi yn y fan yna o'r hyn y gall gwirfoddoli cadarn a gwirfoddoli penderfynol ei gyflawni.
- Dysgwyr dan Anfantais** **Disadvantaged Learners**
- 14:14 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
11. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn codi safonau addysgol ar gyfer dysgwyr dan anfantais? OAQ(4)2101(FM)
- 11. Will the First Minister make a statement on how the Welsh Government is raising educational standards for disadvantaged learners? OAQ(4)2101(FM)*
- 14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 We're committed to ensuring that all children in Wales reach their full educational potential. Children who are disadvantaged often require additional support, and of course we have strategies in place to do just that—the pupil deprivation grant being one of them.
- Rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cyrraedd ei botensial addysgol llawn. Yn aml, mae plant sydd dan anfantais angen cymorth ychwanegol, ac wrth gwrs mae gennym strategaethau ar waith i wneud yn union hynny—mae'r grant amddifadedd disgyblion yn un ohonynt.

14:14	Peter Black Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you for that answer, First Minister. You'll know, of course, that as local authorities are setting their budgets, a number of them are aiming to cut the amount of money available to schools. Can you confirm therefore that your commitment to increase funding for education in schools by 1% above the block grant remains and will be delivered next year, and also that local authorities will not be able to hide behind the pupil deprivation grant in delivering that commitment?</p>	<p>Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Byddwch yn gwybod, wrth gwrs, wrth i awdurdodau lleol bennu eu cyllidebau, bod nifer ohonynt yn ceisio torri faint o arian sydd ar gael i ysgolion. A allwch chi gadarnhau, felly, bod eich ymrwymiad i gynyddu'r cyllid ar gyfer addysg mewn ysgolion o 1% yn fwy na'r grant bloc yn parhau ac y caiff ei gyflwyno y flwyddyn nesaf, a hefyd na fydd awdurdodau lleol yn gallu cuddio y tu ôl i'r grant amddifadedd disgyblion o ran bodloni'r ymrwymiad hwnnw?</p>
14:15	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>No. The pupil deprivation grant is extra. We expect the— Or rather the pupil deprivation grant is something that we should look on as something that is on top of the money that we already provide for education. We also have to make sure, of course, that the 1% increase, which we have already explained many, many times in this Chamber, is taken through. If any local authority feels that it cannot do that, it will have to explain why.</p>	<p>Na allaf. Mae'r grant amddifadedd disgyblion yn ychwanegol. Rydym ni'n disgwyl i'r—. Neu yn hytrach mae'r grant amddifadedd disgyblion yn rhywbeth y dylem ni ei ystyried fel rhywbeth sydd ar ben yr arian yr ydym ni eisoes yn ei ddarparu ar gyfer addysg. Mae'n rhaid i ni hefyd wneud yn siŵr, wrth gwrs, bod y cynnydd o 1%, yr ydym ni eisoes wedi ei esbonio lawer, lawer gwaith yn y Siambr hon, yn cael ei ddefnyddio'n gywir. Os bydd unrhyw awdurdod lleol yn teimlo na all wneud hynny, bydd yn rhaid iddo esbonio pam.</p>
14:15	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, First Minister.</p>	<p>Diolch yn fawr, Brif Weinidog.</p>
14:15	2. Datganiad a Chyhoeddiad	2. Business Statement and
	Busnes	Announcement
	Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Y Senedd.tv Fideo Video
	<p>Item 2 is the business statement and announcement and I call the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.</p>	<p>Eitem 2 yw'r datganiad a chyhoeddiad busnes a galwaf ar Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.</p>
14:15	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business</i></p> <p>Dirprwy Lywydd, I have one change to announce to this week's business. There will be an additional statement on referral of the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill to the Supreme Court made by the Counsel General, following the business statement.</p>	<p>Dirprwy Lywydd, mae gennyf un newid i'w gyhoeddi i fusnes yr wythnos hon. Bydd datganiad ychwanegol ar gyfeirio Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) i'r Goruchaf Lys a wnaed gan y Cwnsler Cyffredinol, yn dilyn y datganiad busnes.</p>
	<p>Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.</p>	<p>Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.</p>
14:16	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>With your indulgence, Deputy Presiding Officer, could I just inform the Assembly of the rugby result on Friday? The Assembly beat the House of Commons 33-12. The Member for Anglesey joined me on the field, but we're always open to taking other Members to play, as well, we are. So, I hope very much that other Members will consider it, and the Counsel General looks as if he would be a good prop.</p>	<p>Os byddwch mor garedig, Ddirprwy Lywydd, a gaf i hysbysu'r Cynulliad am y canlyniad rygbi ddydd Gwener? Trechodd y Cynulliad Dŷ'r Cyffredin 33-12. Ymunodd yr Aelod dros Ynys Môn â mi ar y cae, ond rydym ni bob amser yn agored i gymryd Aelodau eraill i chwarae, hefyd, mi ydym ni. Felly, rwy'n gobeithio'n fawr y bydd Aelodau eraill yn ei ystyried, ac mae'r Cwnsler Cyffredinol yn edrych fel pe byddai'n gwneud prop da.</p>

Leader of the house, is it possible to have a statement from you as to how the Government sets out its business? During First Minister's questions again we have heard that there's going to be a substantial announcement made by the Government on Thursday of this week in relation to smoking in cars. The Assembly goes into recess next week, it does, and there will be no opportunity for Assembly Members to question the Government on this particular issue. There does seem to be a pattern developing with the Government business in respect of the way that announcements are made on the Thursday and Government time not used on the Tuesday, so that Members can fulfil their role of asking oral questions here in the Chamber. That is our role. A written statement on these major announcements will not do. So, I'd be grateful for a statement from you, as business manager, to outline how you work to lay business here in the Assembly and the importance you attach to the level of scrutiny that Members are able to put on the Government via oral questions in this Chamber.

Arweinydd y tŷ, a yw'n bosibl cael datganiad gennych chi ar sut mae'r Llywodraeth yn cyflwyno ei busnes? Yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog unwaith eto, rydym ni wedi clywed y bydd cyhoeddiad sylweddol yn cael ei wneud gan y Llywodraeth ddydd lau yr wythnos hon ar ysmegu mewn ceir. Mae'r Cynulliad yn mynd i doriad yr wythnos nesaf, ac ni fydd cyfle i Aelodau'r Cynulliad holi'r Llywodraeth ar y mater penodol hwn. Mae'n ymddangos ei fod yn batrwm sy'n datblygu gyda busnes y Llywodraeth o ran y ffordd y caiff cyhoeddiadau eu gwneud ar y dydd lau ac amser y Llywodraeth ddim yn cael ei ddefnyddio ar y dydd Mawrth, fel y gall Aelodau gyflawni eu swyddogaeth o ofyn cwestiynau llafar yma yn y Siambr. Dyna yw ein swyddogaeth. Ni wnaiff datganiad ysgrifenedig ar y cyhoeddiadau pwysig hyn y tro. Felly, byddwn yn ddiolchgar am ddatganiad gennych chi, fel rheolwr busnes, i amlinellu sut yr ydych chi'n gweithio i osod busnes yma yn y Cynulliad a'r pwysigrwydd yr ydych chi'n ei neilltuo i'r lefel o graffu y gall Aelodau ei wneud ar y Llywodraeth trwy gwestiynau llafar yn y Siambr hon.

14:17

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course, I would've thought that you would've been pleased to hear that an announcement was going to be made during this week of business by the Minister for Health and Social Services on a matter that, actually, has been well-aired, not just this afternoon in relation to First Minister's questions, but, of course, over some time in relation to the full consultation that's been carried out. So, you know, I think what people want to hear is the outcome, and, of course, the Minister will be making that announcement. I certainly feel that, in terms of our programme for government and the delivery of it, perfectly adequate and robust scrutiny at all times is available to this Assembly through both questions and, indeed, through committee and full consultation.

Wel, wrth gwrs, byddwn wedi meddwl y byddech chi wedi bod yn falch o glywed bod cyhoeddiad yn mynd i gael ei wneud yn ystod yr wythnos hon o fusnes gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar fater sydd, mewn gwirionedd, wedi ei drafod yn helaeth, nid yn unig y prynhawn yma o ran cwestiynau i'r Prif Weinidog, ond, wrth gwrs, dros gryn amser o ran yr ymgynghoriad llawn a gynhaliwyd. Felly, wyddoch chi, rwy'n credu mai'r hyn y mae pobl eisiau ei glywed yw'r canlyniad, ac, wrth gwrs, bydd y Gweinidog yn gwneud y cyhoeddiad hwnnw. Rwy'n sicr yn teimlo, o ran ein rhaglen lywodraethu a'r ddarpariaeth ohoni, bod craffu cwbl ddiagonol a chadarn ar gael bob amser i'r Cynulliad hwn trwy gwestiynau ac, yn wir, trwy bwyllgorau ac ymgynghori llawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:18

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Business Minister, can I ask that you make time in Government time, after the recess, to allow the Minister for health, Mark Drakeford, to come to the Chamber and tell us what discussions he will have had with the Betsi Cadwaladr University Local Health Board? Despite their very good promises to this Assembly that they have learnt the lessons previously and that they would not hide reports and they would make sure that papers were on the website for everyone to read, in fact, that wasn't the case and a serious situation has arisen, whereby stakeholders such as myself and other Members were informed as late as 8 o'clock last night about what decision the health board would take today. It has serious consequences for many of my constituents and I'm not going to rehearse the campaign that I fought alongside Darren Millar in 2010, but, rest assured, I will be fighting.

Weinidog Busnes, a gaf i ofyn i chi neilltuo amser yn amser y Llywodraeth, ar ôl y toriad, i ganiatáu i'r Gweinidog Iechyd, Mark Drakeford, ddod i'r Siambr a dweud wrthym pa drafodaethau y bydd wedi eu cael gyda Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr? Er gwaethaf eu haddewidion da iawn i'r Cynulliad hwn eu bod wedi dysgu gwersi'r gorffennol ac na fyddent yn cuddio adroddiadau ac y byddent yn gwneud yn siŵr bod papurau ar y wefan i bawb eu darllen, mewn gwirionedd, ni ddigwyddodd hynny ac mae sefyllfa ddifrifol wedi codi, lle cafodd rhanddeiliaid fel fi ac Aelodau eraill ein hysbysu cyn hwyred ag 8 o'r gloch neithiwr am y penderfyniad y byddai'r bwrdd iechyd yn ei wneud heddiw. Mae gan hynny oblygiadau difrifol i lawer o'm hetholwyr, ac nid wyf yn mynd i ailadrodd yr ymgyrch a ymladdwyd gennyf ochr yn ochr â Darren Millar yn 2010, ond, gallaf eich sicrhau y byddaf yn ymladd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I thank Ann Jones for her question. Ann, as the Member for the Vale of Clwyd, of course, is clearly concerned on behalf of her constituents. Of course, this has been aired already in terms of questions to the First Minister, and, of course, as the First Minister has said in answer to questions today, we're aware of ongoing concerns and pressures in obstetric services in north Wales, particularly in respect of reliance on locum and agency staff that are supporting vacancies across services. But it is the responsibility of our health boards and Betsi Cadwaladr to keep those services under constant review to ensure they're safe and sustainable and they meet national standards and requirements. The Betsi Cadwaladr University Local Health Board is meeting today to consider proposals to respond to these issues and focusing on ensuring that safe services are in place on behalf of the community that you represent.

Wel, rwy'n diolch i Ann Jones am ei chwestiwn. Mae Ann, fel yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd, wrth gwrs, yn amlwg yn bryderus ar ran ei hetholwyr. Wrth gwrs, trafodwyd hyn eisoes yn rhan o gwestiynau i'r Prif Weinidog, ac, wrth gwrs, fel y dywedodd y Prif Weinidog wrth ateb cwestiynau heddiw, rydym ni'n ymwybodol o'r pryderon a'r pwysau parhaus yn y gwasanaethau obstetrig yn y gogledd, yn enwedig o ran dibyniaeth ar staff locwm a staff asiantaeth sy'n cefnogi swyddi gwag ar draws y gwasanaethau. Ond cyfrifoldeb ein byrddau iechyd a Betsi Cadwaladr yw cadw'r gwasanaethau hynny dan adolygiad cyson er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn gynaliadwy a'u bod yn bodloni safonau a gofynion cenedlaethol. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cyfarfod heddiw i ystyried cynigion i ymateb i'r materion hyn a chanolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau diogel ar gael ar gyfer y gymuned yr ydych chi'n yn ei chynrychioli.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I'm sure we'd all agree that school governors do an amazing job in making sure that the management of our schools is both accountable but also involves the involvement of the local community. However, it has brought to my attention that there are some governing bodies whose memberships are not listed on the school's website and not on the relevant local authority's website either. That makes it difficult, obviously, then for parents to find out who they are and to hold them appropriately to account. Could I, therefore, request a written statement from the Minister for Education and Skills outlining his expectations for the publication of school governing body details?

Weinidog, rwy'n siŵr y byddem ni i gyd yn cytuno bod llywodraethwyr ysgolion yn gwneud gwaith anhygoel i wneud yn siŵr bod y gwaith o reoli ein hysgolion yn atebol, ond hefyd yn cynnwys cyfraniad y gymuned leol. Er hynny, mae wedi dod i fy sylw bod rhai cyrff llywodraethu nad yw eu haelodau wedi eu rhestru ar wefan yr ysgol ac nad ydynt ar wefan yr awdurdod lleol perthnasol ychwaith. Mae hynny'n ei gwneud yn anodd, yn amlwg, wedyn i rieni ddarganfod pwy ydyn nhw a'u dwyn i gyfrif yn briodol. A gaf fi, felly, ofyn am ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn amlinellu ei ddisgwyliadau ar gyfer cyhoeddi manylion cyrff llywodraethu ysgolion?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:21

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Eluned Parrott for that question. Of course, there is clear guidance already in terms of responsibilities and expectations, as you rightly say, for parents and the community. I would be grateful if you could draw attention to where there are failures, because I know the Minister would want to address this. Of course, it is the responsibility of the local education authority to monitor this as well.

Diolchaf i Eluned Parrott am y cwestiwn yna. Wrth gwrs, ceir canllawiau eglur eisoes o ran cyfrifoldebau a disgwyliadau, fel y dywedwch yn gywir, i rieni a'r gymuned. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech dynnu sylw at ble y ceir methiannau, oherwydd gwn y byddai'r Gweinidog yn awyddus i fynd i'r afael â hyn. Wrth gwrs, mae'n gyfrifoldeb ar yr awdurdod addysg lleol i fonitro hyn hefyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:21

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

When can we have a statement or a debate about harnessing the talents of local community groups? On Saturday, a group of local artists came out onto the street in Whitchurch with cartoons and drawings that they'd produced in support of the local library. Although, obviously, the saving of the local libraries is a hugely important issue—and I hope it will be resolved satisfactory in Cardiff—this did give the opportunity for these groups to show the huge talents that they have. What could we do here in the Assembly to look at what we can do to encourage more of these types of groups to come forward?

Pryd gallwn ni gael datganiad neu ddatl ynghlŷn â harneisio doniau grwpiau cymunedol lleol? Daeth grŵp o artistiaid lleol allan ar y stryd yn yr Eglwys Newydd ddydd Sadwrn gyda chartwnau a darluniau yr oedden nhw wedi eu gwneud i gefnogi'r llyfrgell leol. Er, yn amlwg, bod achub y llyfrgelloedd lleol yn fater hynod bwysig—ac rwy'n gobeithio y caiff ei ddatrys yn foddhaol yng Nghaerdydd—rhoddodd hyn y cyfle i'r grwpiau hyn ddangos y doniau anferth sydd ganddynt. Beth allem ni ei wneud yma yn y Cynulliad i edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud i annog mwy o'r mathau hyn o grwpiau i ddod i'r amlwg?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>It sounds as though, particularly in Cardiff North, there is a huge amount of talent of that kind, but I think that that would be reflected across the whole of Wales. It is those local community groups that are so important in terms of their engagement, particularly in consultations and concerns about delivery of local services. So, I think we very much welcome your examples today. We will be monitoring proposals for changes in terms of particularly library services but look at this as an opportunity, perhaps, for a debate about community engagement.</p>	<p>Mae'n swnio, yn enwedig yng Ngogledd Caerdydd, bod llawer iawn o dalent o'r math hwnnw, ond rwy'n meddwl y byddai hynny'n cael ei adlewyrchu ar draws Cymru gyfan. Y grwpiau cymunedol lleol hynny sydd mor bwysig o ran eu hymgysylltiad, yn enwedig mewn ymgynghoriadau a phryderon am ddarparu gwasanaethau lleol. Felly, rwy'n meddwl ein bod yn croesawu eich enghreifftiau'n fawr iawn heddiw. Byddwn yn monitro cynigion ar gyfer newidiadau o ran gwasanaethau llyfrgell yn arbennig ond yn edrych ar hwn fel cyfle, o bosibl, ar gyfer dadl ynghylch ymgysylltu â'r gymuned.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:22	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p>Leader of the house, it is almost exactly a year since the untimely death of a young lady in my electoral region. May I ask whether the relevant Minister could bring forward a statement on whether toxic shock syndrome will be included in the curriculum for sex education?</p>	<p>Arweinydd y tŷ, mae hi bron yn union flwyddyn ers marwolaeth merch ifanc cyn ei hamser yn fy rhanbarth etholiadol i. A gaf fi ofyn a allai'r Gweinidog perthnasol gyflwyno datganiad ynghylch pa un a fydd syndrom sioc gwenwynig yn cael ei gynnwys yn y cwricwlwm ar gyfer addysg rhyw?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:23	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I certainly will take that back to the education Minister.</p>	<p>Byddaf yn siŵr o rannu hynna gyda'r Gweinidog addysg.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:23	<p>Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, I commend the prompt response from the Minister for Health and Social Services to the Home Secretary's announcement last week of a new statutory inquiry into historical child sex abuse. In a press release issued on Thursday, the Minister said that in his letter to the Home Secretary, Theresa May, he had:</p> <p>'reaffirmed in the strongest possible terms, the view of both the Welsh Government and the National Assembly for Wales that the appointment of panel members should include distinct representation from Wales.'</p> <p>Bearing in mind that the calls for a specific Welsh voice on the erstwhile inquiry received all-party support from Members of this Assembly, will you ask the Minister for Health and Social Services to issue a statement to this Assembly detailing the response that he receives to his correspondence?</p>	<p>Weinidog, rwy'n cymeradwyo'r ymateb prydlon gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyhoeddiad yr Ysgrifennydd Cartref yr wythnos diwethaf o ymchwiliad statudol newydd i achosion hanesyddol o gam-drin plant yn rhywiol. Mewn datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd ddydd Iau, dywedodd y Gweinidog ei fod, yn ei lythyr at yr Ysgrifennydd Cartref, Theresa May:</p> <p>wedi aildatgan yn y termau cryfaf posibl, barn Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru y dylai penodiadau aelodau'r panel gynnwys cynrychiolaeth ar wahân o Gymru.</p> <p>O gofio bod y galw am lais penodol o Gymru ar yr ymchwiliad blaenorol wedi derbyn cefnogaeth pob plaid drwy Aelodau'r Cynulliad hwn, a wnewch chi ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi datganiad i'r Cynulliad hwn yn rhoi manylion yr ymateb y bydd yn ei dderbyn i'w ohebiaeth?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:24	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank Gwenda Thomas for that question and for her vigilance in taking this forward and acknowledgment, of course, that there is a new opportunity now in terms of the appointment of Justice Lowell Goddard, who has been appointed, of course, as the new chair of the inquiry. Of course, the Minister is committed to updating Assembly Members on the UK Government's position in response to your call and the call that has been made by the health Minister, who, of course, met with Baroness Randerson earlier this month on this issue. Of course, it is quite clear that the objectives of the inquiry will be clarified and established, and the importance of the appointment of suitable people, with that Welsh representation, must be considered.</p>	<p>Diolchaf i Gwenda Thomas am y cwestiwn yna ac am ei gwyliadwriaeth wrth fwrw ymlaen â hyn a'i chydnabyddiaeth, wrth gwrs, bod cyfle newydd erbyn hyn o ran penodiad yr Ustus Lowell Goddard, sydd wedi ei benodi, wrth gwrs, yn gadeirydd newydd yr ymchwiliad. Wrth gwrs, mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i ddiweddarau Aelodau'r Cynulliad ar safbwynt Llywodraeth y DU mewn ymateb i'ch galwad chi a'r alwad a wnaed gan y Gweinidog Iechyd a gyfarfu, wrth gwrs, â'r Farwnes Randerson yn gynharach y mis yma ynglŷn â'r mater hwn. Wrth gwrs, mae'n gwbl eglur y bydd amcanion yr ymchwiliad yn cael eu hegluro a'u pennu, ac mae'n rhaid ystyried pwysigrwydd penodi pobl addas, gan gynnwys y gynrychiolaeth honno o Gymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Leader of the house, I call for two statements. Firstly, I echo the concerns raised by Ann Jones. I do think there are grounds for the Minister for health to make a statement. The First Minister, in his answers today, said he expected the new neonatal unit to be open by 2016. The board today, quite clearly and publicly, have stated that they don't expect that to open until 2017 or 2018. The report that was placed in front of the board relating to obstetric care dated back to 2013 and is not, by any means, an up-to-date report and fails to take into account the subsequent report that was commissioned by the First Minister looking into neonatal care. It is quite clear that there are extensive roadworks on the A55 affecting access both to Ysbyty Gwynedd and to Wrexham Maelor that will have considerable knock-on effects on patients' ability to access services. It is quite clear that the Glan Clwyd site was chosen because 17,500 of the most vulnerable women would have better access at Glan Clwyd to maternity and medical services there than at the other sites. So, I do think that, despite the fact that the First Minister answered questions on it today, there are further questions that need to be answered.

Secondly, could I call for a statement on the announcement by Donington Park that they have pulled out of the Circuit of Wales project, that they have not been paid by the Circuit of Wales to run the 2015 race that was promised and that this has put the entire 2015 MotoGP race in doubt and put any further developments in doubt? I do hope that the Minister for Natural Resources will be ensuring that there isn't damage to this valuable and important environmental site whilst the uncertainty over this project remains.

Arweinydd y tŷ, galwaf am ddau ddatganiad. Yn gyntaf, ategaf y pryderon a godwyd gan Ann Jones. Rwyf yn meddwl bod sail i'r Gweinidog iechyd wneud datganiad. Dywedodd y Prif Weinidog yn ei atebion heddiw ei fod yn disgwyl i'r uned babanod newydd-anedig newydd fod ar agor erbyn 2016. Mae'r bwrdd heddiw, yn eithaf eglur a chyhoeddus, wedi datgan nad yw'n disgwyl iddi agor tan 2017 neu 2018. Roedd yr adroddiad hwnnw yn ymwneud â gofal obstetrig a osodwyd gerbron y bwrdd yn dyddio'n ôl i 2013 ac nid yw, mewn unrhyw fodd, yn adroddiad cyfredol ac nid yw'n cymryd i ystyriaeth yr adroddiad dilynol a gomisiynwyd gan y Prif Weinidog yn edrych ar ofal newyddenedigol. Mae'n eithaf eglur y bydd gwaith ffordd sylweddol ar yr A55 sy'n effeithio ar fynediad i Ysbyty Gwynedd ac i Faelor Wrecsam yn cael cryn sgil-ffeithiau ar allu cleifion i gael mynediad at wasanaethau. Mae'n gwbl amlwg dewiswyd safle Glan Clwyd oherwydd y fyddai gan 17,500 o'r menywod mwyaf agored i niwed fynediad gwell yng Nglan Clwyd at wasanaethau mamolaeth a meddygol yno nag yn y safleoedd eraill. Felly, rwy'n credu, er gwaethaf y ffaith fod y Prif Weinidog wedi ateb cwestiynau ar hyn heddiw, bod rhagor o gwestiynau y mae angen eu hateb.

Yn ail, a gaf i alw am ddatganiad ar y cyhoeddiad gan Barc Donington eu bod wedi tynnu allan o brosiect Cylchffordd Cymru, nad ydynt wedi cael eu talu gan Gylchffordd Cymru i redeg y ras 2015 a addawyd a bod hyn wedi codi amheuon ynghylch y ras MotoGP 2015 gyfan ac wedi codi amheuon am unrhyw ddatblygiadau pellach? Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn sicrhau na fydd difrod i'r safle amgylcheddol gwerthfawr a phwysig hwn tra bod yr ansicrwydd ynghylch y prosiect hwn yn parhau.

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think both the comments and the questions raised by Antoinette Sandbach will be on the record today in terms of this business statement in relation to obstetric services at Ysbyty Glan Clwyd and, of course, the situation that has arisen in terms of the Circuit of Wales.

Rwy'n credu y bydd y sylwadau a'r cwestiynau a godwyd gan Antoinette Sandbach ar y cofnod heddiw o ran y datganiad busnes hwn ac o ran gwasanaethau obstetrig yn Ysbyty Glan Clwyd ac, wrth gwrs, y sefyllfa sydd wedi codi o ran Cylchffordd Cymru.

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Leader of the house, further to my question to the First Minister last week regarding young farmers' clubs funding, I understand that there were some fruitful initial discussions with senior Welsh Government officials and the leadership of the Wales YFC late last week. Would it be possible, please, for a statement to be brought forward at an early future time from the Deputy Minister for Farming and Food to apprise Assembly Members of progress in this important matter?

Arweinydd y tŷ, yn ychwanegol at fy nghwestiwn i'r Prif Weinidog yr wythnos diwethaf am gyllid clybiau ffermwyr ifanc, rwy'n deall y bu trafodaethau cychwynnol calonogol gydag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ac arweinyddiaeth Cffil Cymru ddiwedd yr wythnos diwethaf. A fyddai'n bosibl, os gwelwch yn dda, i ddatganiad gael ei gyflwyno yn fuan iawn yn y dyfodol gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd i hysbysu Aelodau'r Cynulliad am gynnydd o ran y mater pwysig hwn?

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I can assure the Member, William Powell, that we will, of course, come forward as a result of discussions that have been held to report on progress.

Wel, gallaf sicrhau'r Aelod, William Powell, y byddwn, wrth gwrs, yn dod ymlaen o ganlyniad i'r trafodaethau a gynhaliwyd i adrodd ar gynnydd.

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, can I too echo the calls from Ann Jones and Antoinette Sandbach on the need for an urgent statement on the future of maternity services in north Wales? I think all Assembly Members in this Chamber have a sense of déjà vu in north Wales over the proposals that have been put forward with less than 24 hours' notice to Assembly Members. There's been a clear lack of engagement with key stakeholders and a lack of engagement with, even, members of staff in the hospital that is likely to be affected, and, of course, the Wales Audit Office, Healthcare Inspectorate Wales and this Assembly's Public Accounts Committee have been highly critical of the decision-making processes at the board, particularly in terms of hiding board papers and not releasing them up until the day that they are going to be discussed. So, I am frankly outraged that the health board is behaving like a dog returning to its vomit in respect of this proposal, and I want to see the Minister responsible for the national health service in Wales up in this Chamber on his feet taking questions about the Welsh Government's endorsement, or otherwise, of the proposals that have been put forward.

Can I also ask, Minister, for a statement from the Minister for Economy, Science and Transport on the rail infrastructure in north Wales? The Welsh Government's draft transport plan has many proposals for new stations on the rail network in south Wales, but very few in the north. My constituents in the Towyn and Kinnel Bay area, and the many people who visit that area each year, would receive massive benefits—both to the economy, and in terms of the sustainability agenda—from the reopening of a station in that locality, even if it were on a seasonal basis. I'd like the opportunity to ask the Minister about the rationale behind the exclusion of that from the draft transport plan.

Weinidog, a gaf innau hefyd ategu'r galwadau gan Ann Jones ac Antoinette Sandbach ar yr angen am ddatganiad brys ar ddyfodol gwasanaethau mamolaeth yn y gogledd? Rwy'n credu bod gan bob Aelod Cynulliad yn y Siambr hon deimlad o déjà vu yn y gogledd o ran y cynigion sydd wedi eu cyflwyno gyda llai na 24 awr o rybudd i Aelodau'r Cynulliad. Bu diffyg ymgysylltiad amlwg â rhanddeiliaid allweddol a diffyg ymgysylltiad ag aelodau staff yn yr ysbyty sy'n debygol o gael ei effeithio hyd yn oed, ac, wrth gwrs, mae Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad hwn wedi bod yn feirniadol iawn o brosesau'r bwrdd ar gyfer gwneud penderfyniadau, yn enwedig o ran cuddio papurau'r bwrdd a pheidio â'u cyhoeddi tan y diwrnod y maen nhw'n mynd i gael eu trafod. Felly, rwyf yn flin gacwn a dweud y gwir bod y bwrdd iechyd yn ymddwyn fel y ci sy'n troi'n ôl at ei gyfoc o ran y cynnig hwn, ac rwyf eisiau gweld y Gweinidog sy'n gyfrifol am y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru ar ei draed yn y Siambr hon yn derbyn cwestiynau am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, neu fel arall, i'r cynigion a wnaed.

A gaf fi ofyn hefyd, Weinidog, am ddatganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y seilwaith rheilffyrdd yn y gogledd? Mae cynllun trafndiaeth drafft Llywodraeth Cymru yn cynnwys llawer o gynigion ar gyfer gorsafoedd newydd ar y rhwydwaith rheilffyrdd yn y de, ond ychydig iawn yn y gogledd. Byddai fy etholwyr i yn ardal Tywyn a Bae Cinmel, a'r bobl niferus sy'n ymweld â'r ardal honno bob blwyddyn, yn derbyn manteision enfawr—i'r economi, ac o ran yr agenda cynaliadwyedd—o ailgorsaf yn yr ardal honno, hyd yn oed pe byddai ar sail dymhorol. Hoffwn gael cyfle i holi'r Gweinidog am y rhesymeg y tu ôl i eithrio hynny o'r cynllun trafndiaeth drafft.

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I would say, Darren Millar, that I think you might regret the comments that you've made this afternoon—regret the comments you've made this afternoon. It's on your own head, of course, Darren Millar, that you make these comments, because this is a very serious issue for the people you represent. And I think it is very important that we await the decisions and actions that will be approved by the board today. The fact that this will not affect the long-term plans for the sub regional neonatal intensive care centre at Ysbyty Glan Clwyd, and its support services, is very important. This is a serious issue, and we must allow and enable the health board to take responsibility, which is quite right, in terms of what you're calling for today.

I would say, on your second point, of course, it is a draft national transport plan for Wales, and I'm sure you will give your views in response to the consultation.

Wel, byddwn yn dweud, Darren Millar, fy mod i'n credu y gallech chi ddifaru'r sylwadau yr ydych chi wedi eu gwneud y prynhawn yma—difaru'r sylwadau yr ydych chi wedi eu gwneud y prynhawn yma. Rhyngoch chi â'ch pethau, wrth gwrs, Darren Millar, eich bod wedi gwneud y sylwadau hyn, gan fod hwn yn fater difrifol iawn i'r bobl yr ydych chi'n eu cynrychioli. Ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn i ni aros am y penderfyniadau a'r camau a fydd yn cael eu cymeradwyo gan y bwrdd heddiw. Mae'r ffaith na fydd hyn yn effeithio ar y cynlluniau hirdymor ar gyfer y Ganolfan Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd-anedig yn Ysbyty Glan Clwyd, a'i gwasanaethau cymorth, yn bwysig iawn. Mae hwn yn fater difrifol, ac mae'n rhaid i ni ganiatáu a galluogi'r bwrdd iechyd i gymryd cyfrifoldeb, sydd yn llygad ei le, o ran yr hyn yr ydych chi'n galw amdano heddiw.

Byddwn yn dweud, ar eich ail bwynt, wrth gwrs, mai cynllun trafndiaeth cenedlaethol drafft i Gymru yw hwn, ac rwy'n siŵr y byddwch yn rhoi eich safbwyntiau mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

14:31

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I think, across this Chamber, there is need for the Welsh Government to take a lead as far as this decision today is concerned, given all the criticism with regard to governance at Betsi Cadwaladr. The report of the royal college last year made it clear that there was a failure for them to negotiate and discuss and consult with stakeholders, and with elected representatives, and for elected representatives to be told an afternoon, or evening, before the decision today regarding the way forward is not acceptable. Can I also suggest to you that, if you actually read the royal college report, the assurance given by the First Minister today doesn't actually tally with recommendations within that report, which said that their recommendation was based on the current configuration of maternity services in north Wales? It's all very well for the Government to absolve itself of responsibility, but the people of north Wales deserve better.

Weinidog, rwy'n credu, ar draws y Siambr hon, bod angen i Lywodraeth Cymru arwain cyn belled ag y mae'r penderfyniad hwn heddiw yn y cwestiwn, o ystyried yr holl feirniadaeth o ran llywodraethu yn Betsi Cadwaladr. Roedd adroddiad y coleg brenhinol y llynedd yn ei gwneud yn eglur bod methiant o ran iddynt drafod ac ymgynghori â rhanddeiliaid, a chyda chynrychiolwyr etholedig, ac mae'n annerbyniol i gynrychiolwyr etholedig gael eu hysbysu ar y prynhawn, neu'r noson, cyn y penderfyniad heddiw am y ffordd ymlaen. A gaf fi awgrymu i chi hefyd, os gwnaethoch chi ddarllen adroddiad y coleg brenhinol mewn gwirionedd, nad yw'r sicrwydd a roddwyd gan y Prif Weinidog heddiw wir yn cyd-fynd ag argymhellion sydd yn yr adroddiad hwnnw, a oedd yn dweud bod eu hargymheliad yn seiliedig ar drefn gyfredol gwasanaethau mamolaeth yn y gogledd? Mae'n hawdd iawn i'r Llywodraeth ryddhau ei hun o'r cyfrifoldeb, ond mae pobl y gogledd yn haeddu gwell.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:32

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I certainly thank Aled Roberts for his representations and concerns raised this afternoon, alongside all of those from Members serving and representing north Wales. This is the time and the opportunity that you have in business statement to raise these issues, as you did also with the First Minister this afternoon. It is quite clear that this is being kept under close scrutiny and monitoring, in terms of not just awaiting the actions of the health board, but also acknowledging—as the First Minister did—the severity of the situation, which, of course, was quite clear in the report from the royal colleges. But it does go back to the fact that it is the NHS organisations, the health boards, that do have that duty to ensure safe, high-quality services for their patients, and that they are, of course, then held to account in terms of the way they act to deliver those services.

Wel, rwy'n sicr yn diolch i Aled Roberts am ei sylwadau a'i bryderon a godwyd y prynhawn yma, ochr yn ochr â'r holl sylwadau gan Aelodau sy'n gwasanaethu ac yn cynrychioli'r gogledd. Dyma'r amser a'r cyfle sydd gennych chi yn y datganiad busnes i godi'r materion hyn, fel y gwnaethoch hefyd gyda'r Prif Weinidog y prynhawn yma. Mae'n gwbl eglur bod hyn yn destun craffu a monitro gofalus, nid yn unig o ran aros am gamau'r bwrdd iechyd, ond hefyd o ran cydnabod—fel y gwnaeth y Prif Weinidog—difrifoldeb y sefyllfa, a oedd, wrth gwrs, yn gwbl eglur yn yr adroddiad gan y colegau brenhinol. Ond mae'n mynd yn ôl at y ffaith mai sefydliadau'r GIG, y byrddau iechyd, sydd â'r ddyletswydd honno i sicrhau gwasanaethau diogel, o ansawdd uchel i'w cleifion, a'u bod, wrth gwrs, wedyn yn cael eu dwyn i gyfrif o ran y ffordd y maen nhw'n gweithredu i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:33

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Point of order. Dafydd Elis-Thomas.

Pwynt o drefn. Dafydd Elis-Thomas.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:33

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, anrhydeddus Ddirprwy Lywydd. A gaf i ofyn am eich arweiniad chi? A yw hi'n briodol i Aelod Cynulliad gyfeirio at gorff cyhoeddus yng Nghymru yn y modd y cyfeiriwyd at Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr gan Darren Millar gynnu?

Thank you, esteemed Deputy Presiding Officer. May I ask for your guidance? Is it appropriate for an Assembly Member to refer to a public body in Wales in the way that the Betsi Cadwaladr University Health Board was referred to by Darren Millar a little earlier?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:34

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Last week, I did say that it's not the position of the Chair to limit the pungency of debate. However, I will say this: I would never have myself used that phrase in a public place.

Dywedais yr wythnos diwethaf nad lle'r Cadeirydd yw cyfyngu ar lymder y ddadl. Fodd bynnag, dywedaf hyn: ni fyddwn i fyth wedi defnyddio'r ymadrodd yna mewn man cyhoeddus.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:34

3. Datganiad ynghylch Atgyfeirio'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) i'r Goruchaf Lys

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Item 3 is a statement by the Counsel General on the referral of the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill to the Supreme Court. I call the Counsel General, Theodore Huckle.

14:34

Theodore Huckle

Y Cwnsler Cyffredinol / The Counsel General

Good afternoon, everyone. Firstly, perhaps I can just say: not a prop since the age of 11.

The Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill was a private Member's Bill, introduced into the National Assembly for Wales by Mick Antoniw, Assembly Member, on 3 December 2012. The Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill was passed by the Assembly on 20 November 2013. On 11 December 2013, I published a written statement in the Assembly to announce my decision to refer the Bill to the Supreme Court. I took the view that the Bill was within the legislative competence of this Assembly. I considered, however, that it was appropriate in this case to have the issue of the competence of this Bill clearly resolved before it came into force, given that bodies representing the insurance industry had consistently disputed the Assembly's competence to pass this Bill. The alternative option of allowing the Bill to proceed to Royal Assent would have resulted in an inevitable challenge in potentially far more expensive court proceedings, perhaps when substantial amounts of money had been recouped under the Bill's provisions.

Before the Supreme Court I argued strongly that the Bill was within the Assembly's legislative competence. Yesterday, the Supreme Court delivered its judgment. The court ruled that the Bill is outside the legislative competence of the National Assembly for Wales.

Whilst the court is unanimous in its conclusion, it was divided in its analysis of the extent of the Assembly's legislative competence. Lord Mance delivers the majority judgment, with which Lord Neuberger and Lord Hodge agree. The Supreme Court ruled that the Bill falls outside the legislative competence of the Welsh Assembly as it is not within section 108(4) or 108(5) of the Government of Wales Act 2006. Lord Mance further concludes that the Bill infringes Article 1 Protocol 1 of the European Convention on Human Rights and is outside competence on that ground also.

3. Statement on the Referral of the Y Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill to the Supreme Court

Datganiad yw eitem 3 gan y Cwnsler Cyffredinol ynglŷn ag atgyfeirio Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) i'r Goruchaf Lys. Galwaf ar y Cwnsler Cyffredinol, Theodore Huckle.

Prynhawn da, bawb. Yn gyntaf, a gaf fi ddweud: nid wyf wedi bod yn brop ers pan oeddwn yn 11.

Roedd Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) yn Fil Aelod preifat, a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Mick Antoniw, Aelod Cynulliad, ar 3 Rhagfyr, 2012. Cafodd Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) ei basio gan y Cynulliad ar 20 Tachwedd 2013. Ar 11 Rhagfyr 2013, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig yn y Cynulliad i gyhoeddi fy mhenderfyniad i atgyfeirio'r Bil i'r Goruchaf Lys. Roeddwn o'r farn bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad hwn. Roeddwn o'r farn, fodd bynnag, ei bod yn briodol yn yr achos hwn datrys mater cymhwysedd y Bil yn glir cyn iddo ddod i rym, o ystyried bod cyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant yswiriant wedi dadlau'n gyson ynghylch cymhwysedd y Cynulliad i basio'r Bil hwn. Byddai'r dewis arall o ganiatáu i'r Bil fynd ymlaen i Gydsyniad Brenhinol wedi arwain yn anochel at her mewn achos llys a allai fod yn fwy costus o lawer, efallai ar ôl i symiau sylweddol o arian gael eu hadennill o dan ddarpariaethau'r Bil.

Gerbron y Goruchaf Lys dadleuiais yn gryf fod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Ddoe, cyflwynodd y Goruchaf Lys ei ddyfarniad. Dyfarniad y llys oedd bod y Bil y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Er bod casgliad y llys yn unfrydol, nid oedd yn gytûn yn ei ddadansoddiad o raddfa cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Yr Arglwydd Mance sy'n cyflwyno'r dyfarniad mwyafrifol, a'r Arglwydd Neuberger a'r Arglwydd Hodge yn cytuno. Dyfarnodd y Goruchaf Lys fod y Bil y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad gan nad yw o fewn adran 108(4) nac 108(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Daw'r Arglwydd Mance i'r casgliad hefyd fod y Bil yn mynd yn groes i Erthygl 1 Protocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a'i fod y tu hwnt i gymhwysedd ar y sail honno hefyd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Lord Thomas delivers a separate judgment with which Lady Hale agrees. Whilst Lord Thomas agrees that section 14 of the Bill—the retroactive provision providing for liability of insurers, which was the single provision I referred to the court—is outside competence, he/they support the primary submissions made about the legislative competence basis for the Bill, and the two justices in the minority of the court would not have found the Bill as a whole was outside competence.

Whilst I am disappointed, I of course accept the decision of the Supreme Court. The Government will give careful consideration to the judgment.

14:37

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Counsel General for the statement, and, of course, just to confirm that when the original decision to refer was made, it was one I fully agreed with and it was right that there had to be that level of clarity.

It is undoubtedly a disappointment, not just to me, but I think to all those who have acted over the years, and represented and campaigned on the terrible industrial legacy of asbestos. It's perhaps also equally disappointing that, certainly, the majority took such a narrow interpretation of fiscal powers and adopted such a narrow approach to the issues of retrospectivity, and that, ultimately, the whole of the Bill was outside competence.

It is also disappointing that, having had the stable door perhaps opened in respect of the Agricultural Sector (Wales) Act 2014, the Supreme Court appears to be attempting to partly shut the door and confine, perhaps, the scope of action of the Welsh Government. The net effect of this, Counsel General, of course would appear to be that there is increasing confusion and uncertainty about precisely what we can and can't do. From a simplistic point of view, people will say, 'Well, why hasn't the Assembly got the powers to be able to do something like this to help asbestos victims?' If we haven't got the powers, then certainly, we should have those powers, because they are the sort of thing that people do expect the Assembly to be able to do.

So the question I put to you in respect of your statement now, Counsel General, is this: in order to deal with the issue of complexity, uncertainty and confusion that may exist, what steps will the Welsh Government be taking in order to review the decision, but also to consider what options may be available with regard to the sort of powers the Assembly potentially does need in order to ensure that it can pass this type of legislation in the future, and to ensure that, as a legislature, we have that degree of clarity and certainty as to the sort of legislation that we can, and that we should be able to, pass?

Mae'r Arglwydd Thomas yn cyflwyno dyfarniad ar wahân ac mae'r Arglwyddes Hale yn cytuno ag ef. Er bod yr Arglwydd Thomas yn cytuno bod adran 14 o'r Bil—y ddarpariaeth ôl-weithredol sy'n darparu ar gyfer atebolrwydd yswirwyr, sef y ddarpariaeth unigol a atgyfeiriwyd gennyf i'r llys—y tu hwnt i gymhwysedd, mae ef neu hwy'n cefnogi'r cyflwyniadau sylfaenol a wnaed ynghylch sail cymhwysedd deddfwriaethol y Bil, ac ni fyddai'r ddau ynad a oedd yn y lleiafrif yn y llys wedi canfod bod y Bil yn ei gyfanrwydd y tu hwnt i gymhwysedd.

Er fy mod yn siomedig, rwyf wrth gwrs yn derbyn penderfyniad y Goruchaf Lys. Bydd y Llywodraeth yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r dyfarniad.

Diolch yn fawr i'r Cwnsler Cyffredinol am y datganiad, ac wrth gwrs, i gadarnhau, pan wnaed y penderfyniad gwreiddiol i atgyfeirio, roedd yn un yr oeddwn yn cytuno'n llwyr ag ef ac roedd yn iawn bod yn rhaid cael y lefel honno o eglurder.

Mae'n sicr yn siom, nid yn unig i mi, ond i bawb, rwyf yn meddwl, sydd wedi gweithredu dros y blynyddoedd, ac wedi cynrychioli ac ymgyrchu ar etifeddiaeth ddiwydiannol erchyll asbestos. Mae'r un mor siomedig efallai hefyd, yn sicr, fod y mwyafrif wedi arfer dehongliad mor gul o bwerau cyllidol ac wedi mabwysiadu ymagwedd mor gul tuag at y materion ôl-weithredol, a bod y Bil cyfan, yn y pen draw, y tu hwnt i gymhwysedd.

Mae'n siomedig hefyd, ar ôl i ddrws y stabl gael ei agor o bosibl mewn perthynas â Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, ei bod yn ymddangos bod y Goruchaf Lys yn ceisio cau'r drws yn rhannol ac yn cyfyngu, efallai, ar gwmpas camau gweithredu Llywodraeth Cymru. Mae'n ymddangos, Gwnsler Cyffredinol, mai effaith net hyn yw bod dryswch ac ansicrwydd cynyddol ynghylch beth yn union y gallwn ei wneud ac na allwn ei wneud. O safbwynt syml, bydd pobl yn dweud, 'Wel, pam nad oes gan y Cynulliad bwerau i wneud rhywbeth fel hyn i helpu'r rhai sy'n dioddef o effaith asbestos?' Os nad yw'r pwerau gennym, yna yn sicr dylai'r pwerau fod gennym, oherwydd dyma'r math o beth y mae pobl yn disgwyl bod y Cynulliad yn gallu ei wneud.

Felly, y cwestiwn yr wyf yn ei ofyn ichi o ran eich datganiad yn awr, Gwnsler Cyffredinol, yw hyn: er mwyn ymdrin â'r cymhlethdod, yr ansicrwydd a'r dryswch a all fodoli, pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i adolygu'r penderfyniad, ond hefyd i ystyried pa opsiynau a allai fod ar gael o ran y math o bwerau sydd eu hangen o bosibl ar y Cynulliad er mwyn sicrhau y gall basio'r math hwn o ddeddfwriaeth yn y dyfodol, ac er mwyn sicrhau bod gennym ni, fel deddfwrfa, rywffaint o eglurder a sicrwydd ynghylch y math o ddeddfwriaeth y gallwn ac y dylem allu ei phasio?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:39 **Theodore Huckle**

There is a limit to what I would wish, or thought would be appropriate for me, to say about some of the matters to which you advert. They operate mainly at the political sphere, it seems to me. Obviously, the Government will take careful stock of the judgment and its implications. Can I put it in this way, as I think the First Minister said in answer to the question earlier? This judgment lends support to those who say that there is lack of clarity in the settlement for Wales, as it currently stands, and there would be less lack of clarity—more clarity—in a reserved-powers model.

Mae terfyn ar yr hyn y byddwn yn dymuno ei ddweud, neu y byddai'n briodol imi ei ddweud, am rai o'r materion yr ydych yn cyfeirio atynt. Mae'n ymddangos i mi eu bod yn gweithredu yn bennaf yn y byd gwleidyddol. Wrth gwrs, bydd y Llywodraeth yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r dyfarniad a'i oblygiadau. A gaf fi ddweud fel hyn, fel y dywedodd y Prif Weinidog wrth ateb y cwestiwn blaenorol rwyf yn meddwl? Mae'r dyfarniad hwn yn rhoi cefnogaeth i'r rhai sy'n dweud bod diffyg eglurder yn y setliad i Gymru, fel y mae ar hyn o bryd, ac y byddai llai o ddifffyg eglurder—mwy o eglurder—mewn model cadw pwerau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:40 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I ask the Counsel General, in terms of the process by which we have taken this forward, whether there might be an opportunity to, perhaps, have an earlier discussion about the competency of the National Assembly in some way, or get an earlier ruling, before we actually, as a legislature, go to the huge effort, and the Member in charge goes to a huge effort, of taking through a piece of legislation all the way through to its conclusion, in terms of the four-stage process that we have? I wonder, Counsel General—I appreciate that you would have formed a view on the competency of this piece of legislation at the outset, when the Bill was published, and I know also that the Presiding Officer would have taken advice on the competency of the National Assembly in relation to the Bill—if there's some way of having some sort of discussion, a pre-emptive discussion, if you like, with the Supreme Court, or officials within the Supreme Court, to get an outsider's independent view. Clearly, what the National Assembly does not want to do in the future is to expend significant resource looking at legislation that is subsequently kicked into the long grass as result of these sorts of rulings.

A gaf fi ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol, o ran y broses yr ydym wedi ei dilyn i fwrw ymlaen â hyn, a allai fod cyfle efallai i gael trafodaeth gynharach ynglŷn â chymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol mewn rhyw ffordd, neu gael dyfarniad cynharach, cyn inni fel deddfwrfa fynd i'r ymdrech enfawr, ac i'r Aelod sy'n gyfrifol wneud yr ymdrech enfawr o fynd â darn o ddeddfwriaeth yr holl ffordd i'r pen, o ran y broses bedwar cam sydd gennym? Tybed, Gwnsler Cyffredinol—rwyf yn sylweddoli y byddwch wedi llunio barn am gymhwysedd y darn hwn o ddeddfwriaeth ar y dechrau, pan gyhoeddwyd y Bil, a gwn hefyd y byddai'r Llywydd wedi cymryd cyngor ar gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r Bil—a oes ffordd o gael rhyw fath o drafodaeth, trafodaeth ragataliol, os mynnwch, â'r Goruchaf Lys, neu swyddogion o fewn y Goruchaf Lys, er mwyn cael barn annibynnol rhywun o'r tu allan. Yn amlwg, yr hyn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol am ei osgoi yn y dyfodol yw rhoi adnoddau sylweddol i edrych ar ddeddfwriaeth sy'n cael ei thafu o'r neilltu wedyn o ganlyniad i'r mathau hyn o ddyfarniadau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I've talked, obviously, in the past about my party's support for the principles behind this Bill. Indeed, we'd like to see the principles extended to many other diseases—we've made that quite clear—but I do think that there is a flaw in our process that we couldn't identify the potential for what appears to be quite a clear legislative competency issue much earlier in the day, and that it took us this length of time to get a judgment on it. So, perhaps, you could just explain to us how you might be able to prevent the Assembly—I appreciate you give advice to the Government—or help to prevent, through working with the National Assembly, perhaps, these sorts of things happening again in the future?

Rwyf wedi sôn, wrth gwrs, yn y gorffennol am gefnogaeth fy mhlaid i'r egwyddorion y tu ôl i'r Bil hwn. Yn wir, hoffem weld yr egwyddorion yn estyn i lawer o glefydau eraill—rydym wedi gwneud hynny'n hollol glir—ond rwyf yn credu bod nam yn ein proses os na allem ragweld y gallai'r hyn sydd i'w weld yn fater cymhwysedd deddfwriaethol clir godi yn gynharach o lawer yn y dydd, a'i bod wedi cymryd cyhyd i gael dyfarniad. Felly, efallai y gallech esbonio inni sut y byddwch yn gallu atal y Cynulliad—gwn eich bod yn rhoi cyngor i'r Llywodraeth—neu helpu i atal, drwy weithio gyda'r Cynulliad Cenedlaethol, efallai, y mathau hyn o bethau rhag digwydd eto yn y dyfodol?

14:42 **Theodore Huckle**

Can I firstly say, as a matter of historical accuracy, I first considered the competence issues arising from this Bill overall at the conclusion of the legislative process, as I was bound to under section 112 of the Act. However, that doesn't detract from the main point of the question.

A gaf fi ddweud yn gyntaf, fel mater o gywirdeb hanesyddol, mai'r tro cyntaf imi ystyried y materion ynghylch cymhwysedd a oedd yn codi o'r Bil hwn oedd ar ddiwedd y broses ddeddfwriaethol, fel sy'n ofynnol o dan adran 112 o'r Ddeddf. Fodd bynnag, nid yw hynny'n tynnu oddi ar brif bwynt y cwestiwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

There are significant difficulties in seeking a ruling, in principle, on what the legislature might legislate. Until that whole process of legislative introduction, scrutiny and passage has been completed, it is not clear what the Bill is going to look like at the end of that process, and I think it very unlikely that there is any scope to invite the Supreme Court, or any other authoritative body—and it's difficult to imagine what other authoritative body there could be—to give any kind of definitive ruling, because any such attempt would be couched with the sorts of caveats that lawyers are often criticised for, if I can put it that way.

Again, as a matter of historical record, I think precisely these issues were considered in America in the 1930s—and I'm grateful to the Minister for health for the book reference—in relation to the New Deal and it was said, 'Why can't we go to the Supreme Court and get preliminary rulings?' Well, when one goes down into the practicalities of it, it becomes very difficult to do that. To have a ruling, you have to have a clear proposition, and until the Assembly has gone through its processes to determine what its clear propositions are, it's very difficult to ask somebody else to rule on what may be done at the end of that process.

Mae ceisio dyfarniad, mewn egwyddor, ynglŷn â'r hyn y gall y ddeddfwrfa ddeddfu yn ei gylch yn peri anawsterau sylweddol. Hyd nes y cwblheir yr holl broses honno o gyflwyno deddfwriaeth, craffu a phasio, nid yw'n glir sut y bydd y Bil yn edrych ar ddiwedd y broses, a chredaf ei bod yn annhebygol iawn fod lle i wahodd y Goruchaf Lys, neu unrhyw gorff awdurdodol arall—ac mae'n anodd dychmygu pa gorff awdurdodol arall allai fodoli—i roi unrhyw fath o ddyfarniad pendant. Byddai'r mathau o amodau y caiff cyfreithwyr eu beirniadu o'u herwydd yn aml, os caf ei roi felly, ynghlwm wrth unrhyw ymgais o'r fath.

Eto, fel mater o gofnod hanesyddol, credaf fod yr union faterion hyn yn cael eu hystyried yn America yn y 1930au—ac rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog iechyd am y cyfeiriad at y llyfr—mewn perthynas â'r Fargen Newydd a oedd yn dweud, 'Pam na allwn fynd i'r Goruchaf Lys a chael dyfarniadau rhagarweiniol?' Wel, pan edrychwn ar yr agweddau ymarferol, mae'n anodd iawn gwneud hynny. I gael dyfarniad, mae'n rhaid wrth gynig clir, a hyd nes y bydd y Cynulliad wedi mynd drwy ei brosesau er mwyn penderfynu beth yw ei gynigion clir, mae'n anodd iawn gofyn i rywun arall ddyfarnu ynglŷn â'r hyn y gellid ei wneud ar ddiwedd y broses honno.

14:44

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf wedi bod yn gofyn yn gyson, ers tua blwyddyn, ynglŷn â hynt a helynt y Bil yma, ac mae'n siomedig iawn gweld bod y Bil wedi cael ei ddyfarnu mas o gymhwyster gan y Goruchaf Lys. Mae unrhyw sefyllfa lle mae Bil yn cymryd dros flwyddyn i ddod i benderfyniad yn ei gylch yn sefyllfa sy'n adlewyrchu setliad cyfansoddiadol diffygiol, yn fy marn i, ac mae hefyd yn ddiffygiol o ran Aelodau unigol y Cynulliad hwn. Mae pob un ohonom ni eisiau bod yn yr un sefyllfa â Mick Antoniw, a chael y cyfle i gyflwyno Bil a chael cefnogaeth y Cynulliad i Fil, felly rwy'n cydymdeimlo â'r Aelod dros Bontypridd bod hyn wedi digwydd nawr gyda Bil a oedd wedi ennill cefnogaeth ar draws y pleidiau fan hyn, a chefnogaeth gan y Llywodraeth, i bob pwrpas, hefyd.

Ond, nid yw'n glir i mi, Gwnsler Cyffredinol, bod penderfyniad y Goruchaf Lys yn ein helpu ni llawer yn y ddadl yma ynglŷn â model pwerau a gedwir ai peidio. Mae barn mwyafrif y tri barnwr rŷch chi wedi sôn amdani yn y penderfyniad yn awgrymu i fi fod y Bil yma y tu fas i gymhwyster unrhyw setliad ar fodel pwerau a gedwir, hyd yn oed—heb sôn am fod y tu fas i'r setliad presennol. Mae'r ffaith bod un wedi canfod bod y Bil yn amharu ar y confensiwn hawliau dynol yn ychwanegu at fy mhryderon yn y cyd-destun hwnnw. A ydych chi, felly, fel Llywodraeth wedi cael cyfle eto i ddod i unrhyw benderfyniad neu farn ynglŷn â phenderfyniad y mwyafrif yn y Goruchaf Lys ynglŷn â'r peryglon hynny i'r setliad cyfansoddiadol presennol, achos rŷn ni wedi gweld, fel dywedodd Mick Antoniw, gwpl o benderfyniadau yn mynd o blaid y Cynulliad, fel petai, ac yn awr mae'r penderfyniad hwn? A ydych chi'n meddwl bod unrhyw fodd i ailgyflwyno Bil o'r math yma os enillwn ni bwerau a gedwir ar ôl yr etholiad cyffredinol nesaf?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I've been consistently asking over a period of a year about the passage of this Bill, and it's very disappointing to see that it has been found to be out of competence by the Supreme Court. Any situation where a Bill takes over a year for decisions to be made is a situation that reflects a deficient constitutional settlement, in my view, and it's also deficient from the point of view of individual Members in this place. Each and every one of us wants to be in the same position as Mick Antoniw, and have the opportunity to bring a Bill forward and seek the Assembly's support for such a Bill, so I sympathise with the Member for Pontypridd that this has now happened with a Bill that had garnered support on a cross-party basis in this place and support from Government, to all intents and purposes, also.

But it's not clear to me, Counsel General, that the decision of the Supreme Court assists us a great deal in this argument about the reserved powers model or otherwise. The majority judgment of the three judges that you have referred to in the decision suggests to me that this Bill is outwith the competence of any reserved powers model settlement, never mind being outside the current settlement. The fact that one found the Bill to be in contravention of the convention on human rights adds to my concern in that regard. Have you, therefore, as a Government had an opportunity yet to come to any decision or stance on the majority judgement within the Supreme Court on its risk to the current constitutional settlement, because we have seen, as Mick Antoniw said, a couple of decisions going in favour of the Assembly, as it were, and we now have this decision? Do you believe that there is any way of re-introducing a Bill such as this one, if we have a reserved powers model after the next general election?

Y trydydd pwynt rwyf am ei wneud—ac rwy'n cydnabod fan hyn nad cwestiwn i chi yw e yn gymaint â chwestiwn i'r Cynulliad cyfan, ond dyma'r unig dro y caf i godi'r materion yma: dyma Fil preifat; Bil a gafodd cefnogaeth y Llywodraeth, a chefnogaeth sawl un mewn sawl plaid, a goddefgarwch y Llywodraeth, yn sicr, ac roedd yn anelu at amcanion cyhoeddus o bwys. A oes modd inni, felly, fel Cynulliad, a chithau fel Cwnsler Cyffredinol, edrych eto ar a broses ar gyfer Biliau preifat, ac edrych ar y ffordd rŷn ni'n cymeradwyo cymhwyster ar gyfer y Biliau yma? Fel rŷch chi newydd grybwyll, mae'r Llywydd yn datgan ar ddechrau'r broses fod cymhwyster ai peidio, ond rŷch chi ddim ond yn penderfynu ar ddiwedd y broses o ran y Llywodraeth a ydych chi'n meddwl bod y Bil o fewn cymhwyster ac a ydych chi am gyfeirio'r Bil wedyn at y Goruchaf Lys. Er fy mod i'n derbyn yn llwyr yr hyn a ddywedasoeh chi wrth Darren Millar ynglŷn â phroses y Goruchaf Lys, mae'n ymddangos i mi fod modd inni wella'r ffordd rŷn ni'n edrych ar Filiau fan hyn, ac yn ennill ar sail y sgiliau a phrofiad sydd gan y Llywodraeth yn y materion yma.

Y pwynt olaf rwyf am ei wneud i chi yw'r un benodol ynglŷn ag adran 14 yn y Bil, sef yr adran yn y Bil y gwnaethoch chi gyfeirio yn benodol at y Goruchaf Lys. Pe bai penderfyniad y lleiafrif wedi bod yn benderfyniad y mwyafrif ynglŷn ag adran 14, fy nealltwriaeth i yw byddai modd ailgyflwyno'r Bil ac ailystyried y Bil heb yr adran yr oedd y Goruchaf Lys wedi'i chanfod yn ddiffygiol, ac wedyn fe fydden ni efallai yn gallu symud ymlaen gyda Bil ychydig yn wahanol a bod yn fodlon yn ei gylch. Mae'r ffaith bod y mwyafrif wedi canfod bod y Bil cyfan allan o gymhwyster, er fy mod i'n derbyn nad ydych chi wedi cyfeirio'r Bil cyfan yn y cyd-destun yna, yn awr yn ein gadael ni mewn sefyllfa anodd. Pe bai hwn yn Fil y Llywodraeth, byddai'r Llywodraeth yn ailystyried efallai ailgyflwyno'r Bil mewn ffordd wahanol. Beth yw'r camau y gall Aelod preifat eu gwneud yn awr, yn eich barn chi, fel bod y Cynulliad, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, yn gallu gweithredu'n ddeddfwriaethol ar ewyllys y Cynulliad cyfan?

The third point I want to question you on—and I admit that this perhaps is not a question for you but a question for the Assembly as a whole, but this is the only chance I'll have to raise the issue: this is a private Bill; a Bill that received the support of Government and many members of many parties, it was given sufferance by Government, and it aimed to deal with important public objectives. Would it be possible, therefore, as an Assembly, and you as Counsel General, to look again at the process for private Bills, and to look at how we approve competence for these Bills? As you have just mentioned, the Presiding Officer states at the beginning of the process that a Bill is within competence or otherwise, but you decide only at the end of the process, as a Government, as to whether you believe that the Bill is within competence and whether you are then to refer the Bill to the Supreme Court. Whilst I accept entirely what you said to Darren Millar about the process in the Supreme Court, it appears to me that there is a means for us to improve the way we deal with these Bills, taking advantage of the skills and experience that the Government has in these areas.

My final point is a specific question on section 14 of the Bill, which is the section that you referred specifically to the Supreme Court. If the minority decision had been the majority decision in relation to section 14, my understanding is that the Bill could be re-introduced and reconsidered without the section that the Supreme Court found to be deficient, and then we perhaps could have progressed with a slightly different Bill and could have been content with it. The fact that the majority found that the whole of the Bill was outside competence, although I accept that you didn't refer the whole Bill in that context, leaves us in a difficult position. If this were a Government Bill, the Government could perhaps reconsider and re-introduce the Bill in a different form. So, what are the steps available to a private Member, in your view, so that the Assembly, in one way or another, can implement the legislative will of the entire Assembly?

14:48

Theodore Huckle

First, and briefly if I may, in relation to the delay, I think I've dealt with this on a couple of occasions before. There are particular aspects of this Bill and the history that gave rise to a delay beyond that which we had previously experienced, and which we anticipated, to do with the linkage the Supreme Court made between the discussions and deliberations in relation to this reference and the previous reference. I think it would be fair to say also that Members will know that there was an additional procedure in this case where further submissions were admitted by the Supreme Court. That was the first time that had been done, as far as I know, and all of that perhaps indicates that, whilst the issues raised by this Bill may in some ways be characterised as fairly straightforward, in fact, legally, they were extremely complex. The demonstration of that is a majority judgment in the Supreme Court that this Supreme Court has striven to avoid. Most of the judgments it gives are unanimous judgments. That's the delay point. I don't think I can deal with that any further.

Yn gyntaf, ac yn fyr, os caf, mewn perthynas â'r oedi, credaf fy mod wedi ymdrin â hyn ar un neu ddau o achlysuron o'r blaen. Mae agweddau penodol ar y Bil hwn a'r hanes a arweiniodd at oedi a oedd y tu hwnt i'r hyn yr ydym wedi ei weld o'r blaen, ac yr oeddem yn ei ddisgwyl, yn ymwneud â'r cysylltiad a wnaed gan y Goruchaf Lys rhwng y trafodaethau a'r ystyriaethau mewn perthynas â'r cyfeiriad hwn a'r cyfeiriad blaenorol. Credaf y byddai'n deg dweud hefyd y bydd yr Aelodau'n gwybod bod gweithdrefn ychwanegol yn yr achos hwn lle derbyniwyd cyflwyniadau ychwanegol gan y Goruchaf Lys. Dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd, cyhyd ag y gwn i, ac efallai fod hyn oll yn dangos, er y gellid dweud bod y materion a godwyd gan y Bil hwn yn eithaf syml mewn rhai ffyrdd, mewn gwirionedd, yn ôl y gyfraith, roeddent yn hynod gymhleth. Mae'r dyfarniad mwyafrifol yn y Goruchaf Lys, y mae'r Goruchaf Lys hwn wedi ymdrechu i'w osgoi, yn tystio i hynny. Mae'r rhan fwyaf o'r dyfarniadau y mae'n eu rhoi yn ddyfarniadau unfrydol. Dyna sy'n achosi'r oedi. Ni chredaf y gallaf ymdrin ymhellach â hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

On the position of private Members' Bills, again, I have made my position, I hope, reasonably clear on that. Private Members' Bills are a necessary part of the democratic process, and I don't think anybody dissents from that proposition. They do give rise to difficulties of some kinds, and this is just one of them. The private Member has to have the ability to consider and formulate provisions in a way that meets the competency tests. This wasn't a Government Bill. Quite a lot of assistance was given, but by the time the assistance was given, the—if I can put it this way—policy drivers for the Bill had already been determined. I make no criticism of that, but it is part of the process of legislating in the Assembly that causes complexity—shall I use that word—and it's something that, I'm sure, ongoing review of the processes of the Assembly will take into account, but it's certainly not for me to suggest how the difficulties that may be created ought to be overcome.

Can I say a limited amount about the minority judgment? It's very tempting to rely on a minority judgment; I'm afraid that's not the judgment of the Supreme Court. But, you asked whether, had the minority judgment been the majority judgment—. I won't repeat the story of Lord Oaksey's pig, which was told to me when I was a law student, about how a House of Lords case went one way 3-2, and if Lord Oaksey's pig had been okay and he hadn't had to look after it for the day, it might well have gone the other way. We could be in that situation, let's put it that way. Composition of panels is something that a lawyer can't complain about, but, had the minority judgment been the majority judgment, the result would have been very different, I think, because the minority did not consider that the Bill as a whole was incompetent, did not consider, actually, that even the imposition of the liability on the insurer under section 14 was irremediably incompetent, and considered that, had the provisions included restriction of the recovery from the insurer to what the insurer would be liable to pay under the terms of its policy—so, included things like excesses, and so on—that they would have been prepared to uphold that provision as it stood.

You're right, of course, that had the minority judgment, even on the basis it was given, been the majority judgment, the rest of the Bill could have been left standing and the process would have required reconsideration by the Assembly. That, of course, itself was not the policy basis of the Bill as a whole, for practical reasons. What steps can a private Member—Mr Antoniw or another private Member—take to reintroduce the Bill? We're back to square one, I'm afraid, probably. I don't give any definitive advice on this to anyone at this stage, certainly not to the Assembly, but it would appear to be relatively difficult to resurrect this Bill.

O ran sefyllfa Biliau Aelodau Preifat, unwaith eto, rwyf yn gobeithio fy mod wedi gwneud fy safbwynt ar hynny'n gymharol glir. Mae Biliau Aelodau Preifat yn rhan angenrheidiol o'r broses ddemocrataidd, ac nid wyf yn credu bod neb yn anghytuno â'r gosodiad hwnnw. Maent yn peri anawsterau o rai mathau, a dyma un ohonynt. Mae'n rhaid i'r Aelod Preifat allu ystyried a llunio darpariaethau mewn ffordd sy'n bodloni'r profion cymhwysedd. Nid Bil y Llywodraeth oedd hwn. Rhoddwyd cryn dipyn o gymorth, ond erbyn i'r cymorth gael ei roi—os caf ei roi fel hyn—roedd ysgogiadau polisi'r Bil wedi eu pennu'n barod. Nid wyf yn beirniadu hynny, ond mae'n rhan o'r broses ddeddfu yn y Cynulliad sy'n achosi cymhlethdod—os caf ddefnyddio'r gair hwnnw—ac mae'n rhywbeth yr hyderaf y bydd yr adolygiad parhaus o brosesau'r Cynulliad yn ei ystyried. Nid fy lle i yw awgrymu sut y dylid goresgyn yr anawsterau a allai godi.

A gaf fi ddweud gair byr am y dyfarniad lleiafrifol? Mae'n demtasiwn fawr dibynnu ar ddyfarniad lleiafrifol; ofnaf nad dyfarniad y Goruchaf Lys yw hynny. Ond roeddech yn gofyn, pe byddai dyfarniad y lleiafrif wedi bod yn ddyfarniad y mwyafrif—. Nid wyf am ailadrodd hanes mochyn yr Arglwydd Oaksey, a ddywedwyd wrthyf pan oeddwn yn fyfyrwr y gyfraith, ynglŷn ag achos Tŷ'r Arglwyddi a aeth un ffordd 3-2, a phe byddai mochyn yr Arglwydd Oaksey wedi bod yn iawn a phe na bai wedi gorfod gofalu amdano am y dydd, y gallai fod wedi mynd y ffordd arall. Gallem fod yn y sefyllfa honno, gadewch ini ddweud felly. Mae cyfansoddiad y paneli yn rhywbeth na all cyfreithiwr gwyno amdano, ond, pe bai'r dyfarniad lleiafrifol wedi bod yn ddyfarniad mwyafrifol, byddai'r canlyniad wedi bod yn wahanol iawn, rwyf yn meddwl, oherwydd nid oedd y lleiafrif o'r farn bod y Bil yn ei gyfanrwydd yn anghymwys, nid oedd yn ystyried, a dweud y gwir, fod hyd yn oed gosod rhwymedigaeth ar yr yswiriwr o dan adran 14 yn ddirwymedi o anghymwys, ac roedd o'r farn, pe bai'r darpariaethau'n cynnwys cyfyngiad ar adferiad yr yswiriwr i'r hyn y byddai'r yswiriwr yn atebol i'w dalu o dan delerau ei bolisi—felly, yn cynnwys pethau fel taliadau dros ben ac yn y blaen—y byddent wedi bod yn barod i gadw'r ddarpariaeth honno fel ag yr oedd.

Rydych yn iawn, wrth gwrs; pe bai'r dyfarniad lleiafrifol, hyd yn oed ar y sail y cafodd ei roi, wedi bod yn ddyfarniad mwyafrifol, gallai gweddill y Bil fod wedi sefyll a byddai'n rhaid i'r Cynulliad ailystyried y broses. Nid hynny ynddo'i hun, wrth gwrs, oedd sail polisi'r Bil yn ei gyfanrwydd, am resymau ymarferol. Pa gamau y gall Aelod Preifat—Mr Antoniw neu Aelod Preifat arall—eu cymryd i ailgyflwyno'r Bil? Mae'n debyg ein bod wedi mynd yn ôl i'r cychwyn, yn anffodus. Nid wyf yn rhoi unrhyw gyngor pendant ynglŷn â hyn i neb ar hyn o bryd, nid i'r Cynulliad yn sicr, ond mae'n ymddangos ei bod yn gymharol anodd atgyfodi'r Bil hwn.

I will add as a rider that—and this goes back to the question that Darren Millar was asking me about getting prior approval of some kind—in this judgment, it was firstly the view of the majority, or not disputed anyway in the view of the majority, that had the mechanism for recovery as we put it—and, by the way, that concept wasn't accepted by the majority at all in terms of what was being done; they saw it simply as setting up charges—been the conventional tort law recovery, which is that you impose a charge on the patient and then the patient reclaims it from the wrongdoer, the tortfeasor, the employer, then that would firstly have not been in breach of competence in relation to the Bill as a whole, and secondly it was conceded on behalf of the insurer that that all would have operated under the normal terms of their pre-existing insurance policies and that also would not have been in breach of article 1 of protocol 1. But, as Lord Mance made very clear on a number of occasions, it was not the role of the Supreme Court to rule on what the Assembly might have done, but rather what it did do.

Now, of course, all of that was in the mix in the consideration of the Bill going through the Assembly, and policy reasons were given and policy decisions were taken as to why it would not be appropriate to use that mechanism. I hate to say this, but it is what it is.

Ychwanegaf—ac mae hyn yn mynd yn ôl at gwestiwn Darren Millar ynglŷn â chael cymeradwyaeth o ryw fath ymlaen llaw—yn y dyfarniad hwn, mai barn y mwyafrif, neu ni chafodd ei wadu beth bynnag gan y mwyafrif, oedd hyn: pe bai'r mecanwaith ar gyfer adfer, fel y dywedwn—a gyda llaw, ni dderbyniwyd y cysyniad hwnnw gan y mwyafrif o gwbl o ran yr hyn a oedd yn cael ei wneud; roeddent yn ei weld yn fater o sefydlu taliadau—wedi bod yn seiliedig ar adfer drwy'r gyfraith gamweddau gonfensiynol, sef eich bod yn gosod arwystl ar y claf ac mae'r claf wedyn yn ei adennill gan y troseddwr, y camweddwr, y cyflogwr, yna ni fyddai hynny, yn gyntaf, wedi bod yn groes i gymhwysedd mewn perthynas â'r Bil yn ei gyfanrwydd ac, yn ail, addefwyd ar ran yr yswiriwr y byddai pawb wedi gweithredu o dan delerau arferol eu polisiau yswiriant a oedd eisoes yn bodoli ac na fyddai wedi bod yn groes i erthygl 1 o brotocol 1. Ond, fel y nododd yr Arglwydd Mance yn glir iawn ar sawl achlysur, nid swyddogaeth y Goruchaf Lys oedd rhoi dyfarniad ynglŷn â'r hyn y gallai'r Cynulliad fod wedi ei wneud, ond yn hytrach ynglŷn â'r hyn yr oedd wedi'i wneud.

Yn awr, wrth gwrs, roedd hyn i gyd yn rhan o'r gymysgedd wrth ystyried y Bil a oedd yn mynd drwy'r Cynulliad, a rhoddwyd rhesymau polisi a gwnaed penderfyniadau polisi ynghylch pam na fyddai'n briodol defnyddio'r mecanwaith hwnnw. Mae'n gas gennyf ddweud hyn, ond felly y mae hi.

14:55

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n meddwl bod nifer ohonom ni yn siomedig efo'r dyfarniad ddoe, yn siomedig dros Mick Antoni, ond, yn fwy na hynny, yn siomedig dros y dioddefwyr a'u teuluoedd. Rwy'n meddwl mai'r ymateb naturiol oedd ein bod ni'n symud at ryw fodel o bwerau a gedwir, fel dywedodd Simon Thomas, ond, wrth gwrs, mae yna rannau o'r dyfarniad sy'n ei gwneud hi'n berffaith glir mai nid jest mater cyfansoddiadol rhwng y lle yma a San Steffan ydy o, ond y confensiwn dros hawliau dynol. O ystyried beth ddywedoch chi, sef nad yw hi'n bosib i ni gael unrhyw fath o ragddyfarniad, i ryw raddau, o'r sefyllfa—ac rydych chi wedi ei gwneud hi'n glir mai ar ôl i'r Ddeddf gael ei phasio roeddech chi'n gweld a oeddech chi yn fodlon efo'r sefyllfa—ble yn y broses felly mae yna ystyriaeth i'r ffaith a yw Deddf yn y lle yma yn mynd yn erbyn hawliau dynol, lle byddai yna ryw fath o lefel uwch na San Steffan hyd yn oed, lle buasem ni'n cael problemau?

Wrth feddwl am beth rydych chi newydd ei ddweud, sef ei bod hi'n anodd iawn i weld ffordd ymlaen ar ôl hyn o ran y Bil yma, a gan fod eich datganiad chi'n cloi gan ddweud bod y Llywodraeth yn mynd i ystyried yn ddwys y dyfarniad, beth fydd yr ystyriaeth yna a beth fydd yr amserlen?

I think that a number of us are disappointed with yesterday's judgment and disappointed for Mick Antoni, but, more than that, disappointed for those who have suffered and for their families. I believe that the natural response was that we are moving towards a reserved powers model, as Simon Thomas said, but, of course, there are parts of the judgment that make it perfectly clear that this is not just a constitutional issue between this place and Westminster, but one that relates to the convention on human rights. Given what you have just said, which is that it is not possible for us to have any kind of prejudgment of the position—and you've made it clear that it is after the Bill is passed that you can see whether you are happy with the legislation—where in the process, therefore, can consideration be given to whether an Act, where there would be a level higher than Westminster even where we would encounter problems?

In thinking about what you have just said, which is that it is very difficult to see a way forward with this particular Bill, and given that your statement closes by saying that the Government will give careful consideration to the judgment, what will that consideration entail and what is the timetable for that?

14:56

Theodore Huckle

To deal with the last point first, there's no timetable as such. Everyone who's interested is poring over the judgement almost as we speak, if I can put it that way. Obviously, the analysis of the judgment and its comparison with previous judgments will inform consideration of other provisions that are brought forward.

O ran y pwynt olaf yn gyntaf, nid oes amserlen fel y cyfryw. Mae pawb sydd â diddordeb yn myfyrio dros y dyfarniad wrth inni siarad, os gallaf ei roi felly. Yn amlwg, bydd dadansoddi'r dyfarniad a'i gymharu â dyfarniadau blaenorol yn llywio ystyriaeth darpariaethau eraill a gaiff eu dwyn ymlaen.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

As far as the possibility of, as it were, testing human rights issues, I'm afraid I think the same practical difficulties arise in relation to that, as to any other issue of competence. The human rights issues are part of the sub-issues that arise in relation to competence under section 108. So, I don't see any basis for drawing a distinction. All of these are legal issues, and, as Members will know and as I have said in this Assembly, and as is again apparent from the 3-2 judgment in the Supreme Court, lawyers can take different views about the correct answer to those issues, and no doubt will always do so.

O ran y posibilrwydd o brofi materion hawliau dynol, fel petai, yn anffodus credaf fod yr un anawsterau ymarferol yn codi mewn perthynas â hynny, fel unrhyw fater cymhwysedd arall. Mae materion hawliau dynol yn rhan o'r is-faterion sy'n codi mewn perthynas â chymhwysedd o dan adran 108. Felly, ni welaf unrhyw sail dros wahaniaethu. Mae'r rhain i gyd yn faterion cyfreithiol ac, fel y gŵyr yr Aelodau ac fel y dywedais yn y Cynulliad hwn, ac fel y mae'n amlwg eto o'r dyfarniad 3-2 yn y Goruchaf Lys, gall cyfreithwyr lunio barn wahanol ynglŷn â'r ateb cywir i'r materion hynny, ac yn ddiau felly y bydd hi.

14:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Counsel General.

Diolch ichi, Gwnsler Cyffredinol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:58 **4. Datganiad: Cyflwyno'r Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)**

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 4 is a statement by the Minister for Communities and Tackling Poverty on the introduction of the Renting Homes (Wales) Bill. I call the Minister, Lesley Griffiths.

4. Statement: Introduction of the Renting Homes (Wales) Bill

Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar gyflwyno Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) yw eitem 4. Galwaf ar y Gweinidog, Lesley Griffiths.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:58 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Thank you, Deputy Presiding Officer. Yesterday, I laid the Renting Homes (Wales) Bill, together with the explanatory memorandum, before the National Assembly for Wales. This is a significant Bill. It is one of the largest Bills to be introduced during the life of the Assembly and will directly affect the lives of over 1 million people in Wales who rent their home. There have been many calls to reform this complex area of housing law, which has been likened to an impenetrable forest. The law applying to renting has become complicated for two reasons. Firstly, there are many separate pieces of legislation applying to renting, and, secondly, there is also a large amount of common law, some of which dates back to feudal times.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Ddoe, cyflwynais Fil Rhentu Cartrefi (Cymru), ynghyd â'r memorandwm esboniadol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hwn yn Fil arwyddocaol. Mae'n un o'r Biliau mwyaf i gael ei gyflwyno yn ystod oes y Cynulliad, a bydd yn effeithio'n uniongyrchol ar fywydau dros filiwn o bobl yng Nghymru sy'n rhentu eu cartrefi. Bu llawer o alwadau i ddiwygio'r maes cymhleth hwn o ran cyfraith tai, sydd wedi ei gyffelybu i goedwig drwchus na ellir ei thramwyo. Mae'r gyfraith sy'n berthnasol i rentu wedi mynd yn gymhleth am ddau reswm. Yn gyntaf, ceir llawer o ddarnau gwahanol o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i rentu, ac, yn ail, ceir llawer iawn o gyfreithiau gwlad hefyd, rhai ohonynt yn dyddio'n ôl i'r cyfnod ffiwdal.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I know many Assembly Members have encountered the problems this causes their own constituents, whether they rent from local authorities, housing associations or private landlords. This is why the whole system needs reforming. In addition, there is considerable inequality and unfairness within the current arrangements. It cannot be right, for example, for a victim of domestic abuse to risk homelessness in order for the perpetrator to be evicted, or, where two or more people are renting a home under a joint contract, it cannot be right for one person to be able to end the contract for everyone, causing unintentional, or possibly intentional, homelessness for those remaining. There is also inconsistency and unfairness in the current arrangements for succeeding to a contract following the death of a tenant. Furthermore, it's currently impossible for a 16 or 17-year-old to rent on the same basis as someone over 18. This Bill addresses these and many other problems.

Gwn fod llawer o Aelodau'r Cynulliad wedi gweld y problemau y mae hyn yn ei achosi i'w hetholwyr eu hunain, pa un a ydynt yn rhentu oddi wrth awdurdodau lleol, cymdeithasau tai neu landlordiaid preifat. Dyma pam y mae angen i'r system gyfan gael ei diwygio. Yn ogystal, mae cryn anghydraddoldeb ac annhegwch yn y trefniadau presennol. Ni all fod yn iawn, er enghraifft, i rywun sy'n dioddef cam-drin domestig fod mewn perygl o fod yn ddiartref er mwyn i'r troseddwr gael ei droi allan, neu, pan fo dau neu fwy o bobl yn rhentu cartref dan gontract ar y cyd, ni all fod yn iawn i un ohonynt allu rhoi terfyn ar y contract ar ran pawb, gan achosi digartrefedd anfwriadol, neu fwriadol o bosibl, i'r bobl eraill sydd yno. Mae anghysondeb ac annhegwch hefyd yn y trefniadau presennol ar gyfer olyniaeth i gontract yn dilyn marwolaeth tenant. Hefyd, mae'n amhosibl ar hyn o bryd i bobl ifanc 16 neu 17 mlwydd oed rentu ar yr un sail â rhywun sydd dros 18 oed. Mae'r Bil hwn yn mynd i'r afael â'r problemau hyn a llawer o rai eraill.

Our proposals have a solid evidence base. They are based on recommendations from a five-year work programme undertaken by the Law Commission. We have worked closely with the Law Commission in developing our proposals, and I am grateful for its support. The commission's original recommendations have been modified in some areas, though the overall approach is very similar. Reflecting the two main types of renting taking place—long-term renting in the social rented sector, and shorter-term renting, mainly in the private rented sector—the Bill is based around two types of contract.

The secure contract is very similar to the current secure tenancy and will be the default contract issued by 'community landlords', the term used for local authorities and registered social landlords in the Bill. This also means the secure contract will not include the equivalent of ground 8, under which housing association tenants can currently be evicted on a mandatory basis if rent arrears of more than eight weeks build up. Unfortunately, the impact of the UK Government's welfare reform programme, in particular the bedroom tax, means arrears have been increasing. However, I do not accept housing association tenants should be subject to a mandatory rent arrears ground that does not apply currently to local authority tenants. Since ground 8 is used in very few cases, I also do not accept excluding from the secure contract need significantly affect the finances of those associations that currently use it.

The standard contract is similar to the current assured shorthold tenancy. It will be the default contract used by private landlords and also used by community landlords for introductory arrangements and other purposes. I am aware of some concern the standard contract will not include the so-called six-month moratorium, which currently limits a landlord's ability to gain possession within the first six months of an assured shorthold tenancy. Private landlords tell us the moratorium makes them less likely to rent to individuals they see as higher risk, such as those on housing benefit or those who have a history of drug or alcohol abuse. This is reducing the options for many and potentially driving them towards poorer housing and rogue landlords. Removing the moratorium will also encourage landlords to rent for the shorter-term periods people sometimes need, for example when moving to an area for work or education. Whilst I do recognise the concern of some, it is important this aspect of the Bill is carefully considered.

As well as making the law clearer and more consistent, we also want landlords and 'contract-holders', the term used for tenants and licensees in the Bill, to be clear on their rights and responsibilities. Currently, some private landlords do not issue written contracts at all, relying on a verbal contract instead. Others issue contracts including unfair or illegal terms. The Bill requires every landlord to issue a written statement of the contract, which must include all relevant rights and responsibilities.

Mae sylfaen tystiolaeth gadarn i'n cynigion. Maent yn seiliedig ar argymhellion o raglen waith dros bum mlynedd a gynhaliwyd gan Gomisiwn y Gyfraith. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Chomisiwn y Gyfraith wrth ddatblygu ein cynigion, ac rwy'n ddiolchgar am ei gefnogaeth. Mae argymhellion gwreiddiol y comisiwn wedi eu haddasu mewn rhai meysydd, er bod y dull cyffredinol yn debyg iawn. Gan adlewyrchu'r ddau brif fath o rentu sy'n digwydd—rhentu hirdymor yn y sector rhentu cymdeithasol, a rhentu tymor byrrach, yn bennaf yn y sector rhentu preifat—mae'r Bil yn seiliedig ar ddau fath o gontract.

Mae'r contract diogel yn debyg iawn i'r denantiaeth ddiogel bresennol a hwn fydd y contract arferol a ddarperir gan 'landlordiaid cymunedol', y term a ddefnyddir yn y Bil ar gyfer awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae hyn hefyd yn golygu na fydd y contract diogel yn cynnwys yr hyn sy'n cyfateb i sail 8, lle gall tenantiaid cymdeithasau tai gael eu troi allan ar sail orfodol ar hyn o bryd os bydd ôl-ddyledion rhent o fwy nag wyth wythnos yn cronni. Yn anffodus, mae effaith rhaglen diwygio lles Llywodraeth y DU, yn enwedig y dreth ystafell wely, yn golygu bod ôl-ddyledion wedi bod yn cynyddu. Fodd bynnag, nid wyf yn derbyn y dylai tenantiaid cymdeithasau tai fod yn destun sail ôl-ddyledion rhent gorfodol nad yw'n berthnasol ar hyn o bryd i denantiaid awdurdodau lleol. Gan mai mewn ychydig iawn o achosion y defnyddir sail 8, nid wyf ychwaith yn derbyn y bydd eithrio cymdeithasau sydd yn ei defnyddio ar hyn o bryd o'r contract diogel yn effeithio'n sylweddol ar eu sefyllfa ariannol.

Mae'r contract safonol yn debyg i'r denantiaeth fyrddaliol sicr bresennol. Hwn fydd y contract arferol a ddefnyddir gan landlordiaid preifat ac fe'i defnyddir hefyd gan landlordiaid cymunedol ar gyfer trefniadau rhagarweiniol a dibenion eraill. Rwyf yn ymwybodol bod peth pryder na fydd y contract safonol yn cynnwys y moratoriwm chwe mis, fel y'i gelwir, sydd ar hyn o bryd yn cyfyngu ar allu landlord i gael mediant o fewn chwe mis cyntaf tenantiaeth fyrddaliol sicr. Mae landlordiaid preifat yn dweud wrthym bod y moratoriwm yn ei gwneud hi'n llai tebygol y byddant yn rhentu i unigolion y maent yn eu hystyried sy'n cynrychioli risg uwch, fel y rhai hynny ar fudd-dal tai neu rai sydd â hanes o gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol. Mae hyn yn lleihau'r dewisiadau i lawer ac o bosibl yn eu gyrru tuag at dai gwaelach a landlordiaid twyllodrus. Bydd cael gwared ar y moratoriwm hefyd yn annog landlordiaid i rentu am y cyfnodau tymor byrrach y mae weithiau ei angen ar bobl, er enghraifft, wrth symud i ardal ar gyfer gwaith neu addysg. Er fy mod yn cydnabod pryder rhai pobl, mae'n bwysig bod yr agwedd hon ar y Bil yn cael ei hystyried yn ofalus.

Yn ogystal â gwneud y gyfraith yn gliriach ac yn fwy cyson, rydym hefyd eisiau i landlordiaid a 'deiliaid contract', y term a ddefnyddir ar gyfer tenantiaid a thrwyddedigion yn y Bil, ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Ar hyn o bryd, mae rhai landlordiaid preifat nad ydynt yn darparu contractau ysgrifenedig o gwbl, gan ddibynnu ar gytundeb llafar yn hytrach. Mae eraill yn rhoi contractau sy'n cynnwys telerau anhagreg neu anghyfreithlon. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob landlord gyflwyno datganiad ysgrifenedig o'r cytundeb, ac mae'n rhaid iddo gynnwys yr holl hawliau a chyfrifoldebau perthnasol.

One responsibility some landlords try to avoid is their duty to repair and maintain the property. The Bill requires this duty to be included in every contract. However, it goes further, requiring landlords to ensure the property is fit for human habitation. There are instances where landlords have evicted tenants who asked for repairs to be carried out. Such retaliatory evictions are unacceptable, and the Bill enables a court to refuse to grant possession in such cases.

However, balance is important. Tenants can sometimes be at fault, too, for example disappearing from the property whilst owing rent to the landlord. The Bill enables the landlord to repossess an abandoned property without needing a court order, enabling the property to be re-let more quickly, which is in everyone's interests.

The Bill will also establish, for the first time, a legal framework for supported accommodation, which plays such an important role in housing vulnerable people.

This Bill will make a difference to people's lives. It addresses, in a balanced way, long-standing problems experienced by those who rent their home, as well as by landlords. I commend it to the Chamber and look forward to participating in its scrutiny.

Un cyfrifoldeb y mae rhai landlordiaid yn ceisio ei osgoi yw eu dyletswydd i atgyweirio a chynnal a chadw'r eiddo. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddyletswydd hon gael ei chynnwys ym mhob contract. Fodd bynnag, mae'n mynd ymhellach, gan ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid sicrhau bod yr eiddo yn addas i bobl fyw ynddo. Ceir achosion lle mae landlordiaid wedi troi allan tenantiaid a ofynnodd i waith atgyweirio gael ei wneud. Mae troi allan dialgar fel hyn yn annerbyniol, ac mae'r Bil yn galluogi llys i wrthod caniatáu meddiannaeth mewn achosion o'r fath.

Fodd bynnag, mae cydbwysedd yn bwysig. Weithiau gall tenantiaid fod ar fai hefyd, er enghraifft, wrth ddiflannu o'r eiddo pan fo rhent yn ddyledus i'r landlord. Mae'r Bil yn galluogi'r landlord i adfeddiannu eiddo sydd wedi'i adael heb fod angen gorchymyn llys, gan alluogi'r eiddo i gael ei ail-osod yn gyflymach, sydd er lles pawb.

Bydd y Bil hefyd yn sefydlu, am y tro cyntaf, fframwaith cyfreithiol ar gyfer llety â chymorth, sydd â swyddogaeth mor bwysig o ran darparu tai i bobl sy'n agored i niwed.

Bydd y Bil yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Mae'n mynd i'r afael, mewn ffordd gytbwys, â phroblemau hirsefydlog a brofir gan y rhai hynny sy'n rhentu eu cartrefi, yn ogystal â chan landlordiaid. Fe'i cymeradwyaf i'r Siambwr ac rwyf yn edrych ymlaen at gymryd rhan yn y gwaith o'i graffu.

15:04

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

Diolch. Thanks for your statement. We welcome inclusion in the renting homes Bill of what's in fact been our call for a decade now: for a single tenure in social housing. I look forward to hearing evidence from social landlords about that.

When I was studying my housing law exams and looking at the Housing Act 1988, which introduced assured and assured shorthold tenancies, we learned that that legislation had been developed very much with mortgage lenders, on whom both registered social landlords and private landlords are dependent to raise their finance to provide rented housing. What discussions, therefore, have you had with the Council of Mortgage Lenders regarding their essential ability and agreement to provide funding on the proposed changes in this legislation?

Similarly, in terms of joint contracts, I applaud the objective, but am conscious that, in mortgage provision, lenders and courts will not automatically allow a joint borrower to continue in residence unless ability to pay is proven, in which case both borrowers—in this case, it would be tenants—are held to the contract. What consideration will you give to such circumstances where the party remaining may not be able to afford the tenancy on their own?

Diolch. Diolch am eich datganiad. Rydym ni'n croesawu cynnwys yn y Bil rhentu cartrefi yr hyn yr ydym mewn gwirionedd wedi bod yn galw amdano ers deng mynedd bellach: sef deiliadaeth sengl mewn tai cymdeithasol. Edrychaf ymlaen at glywed tystiolaeth gan landlordiaid cymdeithasol am hynny.

Pan oeddwn yn astudio ar gyfer fy arholiadau cyfraith tai ac yn edrych ar Ddeddf Tai 1988, a gyflwynodd tenantiaethau sicr a thenantiaethau byrddaliol sicr, gwelwyd bod y ddeddfwriaeth honno wedi ei datblygu i raddau helaeth iawn gyda benthycwyr morgesei, yr oedd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a landlordiaid preifat yn dibynnu arnynt i gael cyllid i ddarparu tai ar rent. Pa drafodaethau, felly, ydych chi wedi eu cael gyda'r Cyngor Benthycwyr Morgesei ynghylch eu gallu a'u cytundeb hanfodol i ddarparu cyllid ar y newidiadau arfaethedig yn y ddeddfwriaeth hon?

Yn yr un modd, o ran contractau ar y cyd, rwyf yn cymeradwyo'r amcan, ond rwyf yn ymwybodol, wrth ddarparu morgesei, na fydd benthycwyr a llysoedd yn caniatáu yn awtomatig i fenthyciwr ar y cyd barhau i fyw yn yr eiddo oni bai ei fod yn gallu profi ei allu i dalu, ac os felly byddai'r ddau fenthyciwr—tenantiaid a fyddent yn yr achos hwn—yn cael eu clymu i'r contract. Pa ystyriaeth fyddwch chi'n ei rhoi i amgylchiadau o'r fath pan nad yw'r unigolyn sydd ar ôl yn gallu fforddio'r denantiaeth ar ei ben ei hun?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Landlords' representatives have told me that they applaud the stated aims of the Law Commission to simplify the housing law regime, and are in favour of simplifying and standardising rental contracts, provided there's sufficient ability to tailor to individual circumstances. So, what flexibility do you intend, for example for rural locations, where landlords may need to add particular requirements regarding garden maintenance or access to the property or parking or, for example for older properties, where there would also need to be carefully tailored contracts to adequately protect those assets? The Bill aims to simplify legislation, as we've heard, but when you add the key matters document, model contract, contract summary and easy-read guide together, the total page count, I'm told, is over 60. How is this simplifying what currently exists, or will you look again at how the delivery can actually meet the goal of simplicity?

Regarding the six-month moratorium, currently, as you know, a court can't issue a landlord with a possession order on the landlord's no-fault ground within six months of a tenancy, and the Bill proposes to remove that bar to encourage more landlords to rent to individuals considered by landlords to be at high risk. Landlords have said that will help them provide more flexibility in providing housing for tenants, but Shelter have raised concerns that this will mean a more insecure form of private tenure, in fact the most insecure in western Europe, and Citizens Advice have said there's a risk it could lead to an increase in evictions. Therefore, what broader consideration will you now give to the Communities and Culture Committee report at the end of the last Assembly on the private rented sector, which recognised the good practice established by three-sector working, to provide social letting agencies for the hardest to house tenants, which worked and kept people in housing and with support on a longer-term basis?

Mae cynrychiolwyr landlordiaid wedi dweud wrthyf eu bod yn cymeradwyo amcanion datganedig Comisiwn y Gyfraith i symleiddio'r drefn cyfraith tai, a'u bod o blaid symleiddio a safoni contractau rhentu, cyn belled â bod digon o allu i deilwra ar gyfer amgylchiadau unigol. Felly, pa hyblygrwydd ydych chi'n bwriadu ei ddarparu, er enghraifft ar gyfer lleoliadau gwledig, lle y gallai fod angen i landlordiaid ychwanegu gofynion penodol o ran cynnal a chadw gardd neu fynediad i'r eiddo neu fan parcio neu, er enghraifft ar gyfer eiddo hŷn, pan fyddai angen contractau wedi'u teilwra yn ofalus hefyd i ddiogelu'r asedau hynny'n ddigonol? Nod y Bil yw symleiddio deddfwriaeth, fel yr ydym wedi clywed, ond pan fyddwch yn ychwanegu'r ddogfen materion allweddol, y contract model, crynodeb y contract a'r arweiniad hawdd ei ddarllen gyda'i gilydd, dywedir wrthyf ei fod yn dod i gyfanswm o dros 60 tudalen. Sut y mae hyn yn symleiddio'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd, neu a wnewch chi edrych eto ar sut y gellir cyflawni'r nod o ddarparu symlrwydd?

O ran y moratoriwm chwe mis, ar hyn o bryd, fel y gwyddoch, nid yw llys yn gallu rhoi gorchymyn meddiant i landlord ar sail dim bai y landlord o fewn chwe mis o denantiaeth, ac mae'r Bil yn cynnig cael gwared ar y rhwystr hwnnw i annog mwy o landlordiaid i rentu i unigolion y mae landlordiaid yn eu hystyried i fod yn risg uchel. Mae landlordiaid wedi dweud y bydd yn eu helpu i roi mwy o hyblygrwydd wrth ddarparu tai i denantiaid, ond mae Shelter wedi mynegi pryderon y bydd hyn yn golygu ffurf fwy ansicr o ddeiliadaeth breifat, y mwyaf ansicr yng ngorllewin Ewrop mewn gwirionedd, ac mae Cyngor ar Bopeth wedi dweud bod risg y gallai arwain at gynnydd mewn achosion o droi allan. Felly, pa ystyriaeth ehangach y byddwch yn ei rhoi i adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar ddiwedd y Cynulliad diwethaf ar y sector rhentu preifat, a oedd yn cydnabod yr arfer da a sefydlwyd drwy waith gan dri sector, i ddarparu asiantaethau gosod tai cymdeithasol ar gyfer y tenantiaid anoddaf i'w lletya, a oedd yn gweithio ac a oedd yn cadw pobl mewn tai a chymorth ar sail tymor hwy?

The Let Down in Wales campaign by private renters' groups asked how tenants will be made aware of their right to complain and whether housing officers will ever inspect private properties aside from when the tenant has asked them to do so. Your explanatory memorandum talks about removing the reliance on local authority inspections, which of course are already very rare, and basing regulations on the housing health and safety rating system, as the Housing Act did, even though that's very rarely enforced. Let Down in Wales's report on fixing the private rented sector noted that, whilst most tenants feel their landlord is responsive, a minority find it very difficult to get their landlord to address urgent issues, and more than one in 10 tenants said, in the last year, they had not complained about conditions or challenged a rent increase because of fear of eviction. So, what consideration will you give to bringing in a framework to protect tenants and to give tenants a voice in such circumstances? You might refer to retaliatory eviction, but what assessment have you made of the Competition and Markets Authority guidance published last year for lettings professionals on consumer protection law, which said amongst other things that threatening a tenant with eviction to dissuade them from exercising rights that they have under a tenancy agreement or in law—if they want, for example, to make a complaint—is already a breach? So, that legislation technically does already exist. And of course consideration should be given similarly to concerns raised by Shelter that rogue landlords will simply go underground under the retaliatory proposals.

Finally, you refer to the fact that, rather than dealing with repairs that have been notified, a minority of landlords will evict a tenant, and Shelter advises clients may be making themselves vulnerable to eviction. You refer to, therefore, giving a court discretionary powers to make an order for possession in such circumstances, but, again, noting the call by tenants and by Let Down in Wales for either a housing ombudsman, as in England, or a housing tribunal, as in Scotland, to enable better information for tenants and giving rights to tenants in settling disputes, how will this Bill ensure that not only the needs of landlords but the rights of tenants are at the core of this? The current explanatory memorandum has failed to address these primary concerns.

15:10

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mark Isherwood for a very long list of questions, which I will attempt to answer. In relation to your opening remarks about when you were studying, I think you mentioned the 1988 Act, and I think it's really important that one of the main considerations of this Bill is that we do simplify things. I know it's a very large Bill; I mean, you referred to that—one part of it being 60 pages—but I do think the outcome of the Bill, once it's gone through its passage through the Assembly, is that it will simplify a very complex area of law.

Gofynnodd yr ymgyrch Let Down in Wales, gan grwpiau o rentwyr preifat, sut y bydd tenantiaid yn cael gwybod am eu hawl i gwyno ac a fydd swyddogion tai byth yn archwilio eiddo preifat ar wahân i pan fydd y tenant wedi gofyn iddynt wneud hynny. Mae eich memorandwm esboniadol yn sôn am gael gwared ar y ddibyniaeth ar arolygiadau awdurdodau lleol, sydd wrth gwrs eisoes yn anaml iawn, a seilio rheoliadau ar y system iechyd tai a graddio diogelwch, fel y gwnaeth y Ddeddf Tai, er mai'n anaml iawn y mae hynny'n cael ei orfodi. Roedd adroddiad Let Down in Wales ar sefydlogi'r sector rhentu preifat yn nodi, er bod y rhan fwyaf o denantiaid yn teimlo bod eu landlord yn ymatebol, bod lleiafrif yn ei chael hi'n anodd iawn cael eu landlord i fynd i'r afael â materion brys, a dywedodd mwy nag un o bob 10 o denantiaid, yn y flwyddyn ddiwethaf, nad oeddent wedi cwyno am amodau na herio codiad mewn rhent oherwydd bod ofn cael eu troi allan arnynt. Felly, pa ystyriaeth a fyddwch yn ei roi i gyflwyno fframwaith i amdiffyn tenantiaid ac i roi llais i denantiaid mewn amgylchiadau o'r fath? Efallai eich bod yn cyfeirio at droi allan dialgar, ond pa asesiad ydych chi wedi'i wneud o ganllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a gyhoeddwyd y llynedd i weithwyr gosod profesiynol ar gyfraith diogelu defnyddwyr, a oedd yn nodi ymhlith pethau eraill bod bygwth troi tenant allan er mwyn ei ddarbwyllio i beidio â defnyddio yr hawliau sydd ganddo dan gytundeb tenantiaeth neu dan y gyfraith—os yw'n dymuno, er enghraifft, gwneud cwyn—eisoes yn torri'r gyfraith? Felly, mae'r ddeddfwriaeth honno eisoes yn bodoli, yn dechnegol. Ac wrth gwrs dylid ystyried hefyd yn yr un modd pryderon a godwyd gan Shelter y bydd landlordiaid twyllodrus yn syml yn diflannu o'r amlwg o dan y cynigion ar gyfer troi allan dialgar.

Yn olaf, rydych yn cyfeirio at y ffaith fod lleiafrif o landlordiaid, yn hytrach nag ymdrin â gwaith atgyweirio y maent wedi cael gwybod amdano, yn troi tenant allan, ac mae Shelter yn cynghori y gall cleientiaid fod yn gwneud eu hunain yn agored i gael eu troi allan. Rydych yn cyfeirio felly at roi pwerau dewisol i lys wneud gorchymyn am feddiant o dan amgylchiadau o'r fath, ond, unwaith eto, gan nodi yr alwad gan denantiaid a chan Let Down in Wales am ombwdsmon tai, fel yn Lloegr, neu dribiwnlys tai, fel yn yr Alban, er mwyn gallu sicrhau gwell gwybodaeth i denantiaid a rhoi hawliau i denantiaid wrth ddatrys anghydfodau, sut bydd y Bil hwn yn sicrhau bod hawliau tenantiaid, ac nid anghenion landlordiaid yn unig, wrth wraidd hyn? Mae'r memorandwm esboniadol presennol wedi methu â mynd i'r afael â'r pryderon sylfaenol hyn.

Diolch i Mark Isherwood am restr hir iawn o gwestiynau, a byddaf yn ceisio eu hateb. Ynglŷn â'ch sylwadau agoriadol ynghylch yr adeg pan yr oeddech yn astudio, rwyf yn credu i chi grybwyll Deddf 1988, ac rwyf yn credu ei bod yn bwysig iawn mai un o brif ystyriaethau'r Bil hwn yw ein bod yn symleiddio pethau. Rwy'n gwybod ei fod yn Fil mawr iawn; gwnaethoch gyfeirio at hynny—un rhan ohono yn 60 tudalen—ond rwyf yn credu mai canlyniad y Bil, pan fydd wedi cwblhau ei daith drwy'r Cynulliad, yw y bydd yn symleiddio maes cymhleth iawn o'r gyfraith.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

You made reference to mortgage lenders, and I know that they were part of the White Paper that was published back in 2013, from which consultation we've now gone forward to bring forward this Bill. You referred to joint tenancies and joint contracts and what would happen if one person was left unable to continue to pay. I would say, obviously, that that remaining contract holder would obviously be liable for the whole of the rent. I think what the Bill requires is that a departing contract holder would give advance notice of his or her intention to withdraw from the contract, and that period will be set out in regulations, as we go forward. I would say it'd probably be about a month, but as I say, it will be part of the regulations. That would give the remaining contract holder the opportunity and the time either to find a replacement or to come forward with the difficulties that they were facing, so that they could be assessed by the landlord.

You referred to the question about rural landlords and the flexibility. Again, I think this is something that the Bill will be able to address as we go forward on it. I am very aware, as I said in my opening remarks, of the six-month moratorium, and I've met Shelter on a couple of occasions to discuss this. I do understand their concerns and I hope I've been able to reassure them.

The vast majority of landlords require initial fixed-term contracts of at least six to 12 months. So, the six-month moratorium is then irrelevant; it doesn't apply. By removing the moratorium, I think it will give greater flexibility for landlords to be able to rent for less than six months for the reasons I stated in my opening remarks: if somebody wants to move to an area for education or work. I think, also, they may then be happy to look at people who they may have deemed to be high risk before. Certainly, in the discussions I've had leading up to the introduction of the Bill, I've met many people who've said that as soon as they mention they're on housing benefit, private landlords aren't interested. So, I hope that that would enable private rented sectors to look at people more favourably who they'd previously deemed as being high risk.

You talked about Shelter saying this would be the lowest security in Europe. I think we need to be very cautious about comparing Wales, or even the UK overall, with Europe. The size and the characteristics of the private rented sector vary very much between different countries, and, unlike most of Europe, the private rented sector in Wales is growing, and many countries don't necessarily have a significant social rented sector, which, again, we have in Wales. I think there is a significant risk of unintended consequences if we base our change on the position in other countries without having a very thorough impact assessment.

Gwnaethoch gyfeirio at fenthycwyr morgesi, a gwn eu bod wedi bod yn rhan o'r Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn ôl yn 2013, ac ymgynghoriad hwnnw yw'r sail yr ydym bellach wedi ei ddefnyddio i gyflwyno'r Bil hwn. Gwnaethoch gyfeirio at denantiaethau ar y cyd a chontractau ar y cyd a beth fyddai'n digwydd pe byddai un person yn cael ei adael heb fod yn gallu parhau i dalu. Byddwn yn dweud, yn amlwg, y byddai'r deiliad contract sydd ar ôl yn amlwg yn atebol am y rhent i gyd. Rwy'n credu mai'r hyn y mae'r Bil yn ei wneud yn ofynnol yw y byddai deiliad contract sy'n gadael yn rhoi rhybudd ymlaen llaw o'i fwriad i dynnu'n ôl o'r contract, ac y bydd y cyfnod hwnnw yn cael ei nodi yn y rheoliadau, wrth inni symud ymlaen. Byddwn yn dweud y byddai'n debygol o fod oddeutu mis, ond fel y dywedaf, bydd yn rhan o'r rheoliadau. Byddai hynny'n rhoi cyfle ac amser i'r deiliad contract sydd ar ôl ddod o hyd i le arall neu i fynegi'r anawsterau y mae'n eu hwynebu, er mwyn i'r landlord allu eu hasesu.

Gwnaethoch gyfeirio at y cwestiwn am landlordiaid gwledig a'r hyblygrwydd. Eto, rwyf yn credu bod hyn yn rhywbeth y bydd y Bil yn gallu mynd i'r afael ag ef wrth inni symud ymlaen. Rwyf yn ymwybodol iawn, fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, o'r moratoriwm chwe mis, ac rwyf wedi cyfarfod â Shelter unwaith neu ddwy i drafod hyn. Rwyf yn deall eu pryderon ac rwyf yn gobeithio fy mod wedi llwyddo i roi sicrwydd iddynt.

Mae'r mwyafrif helaeth o landlordiaid yn gofyn am gontractau cyfnod penodol cychwynnol o chwech i 12 mis o leiaf. Felly mae'r moratoriwm chwe mis wedyn yn amherthnasol; nid yw'n berthnasol. Drwy gael gwared ar y moratoriwm, rwy'n credu y bydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i landlordiaid allu rhentu am lai na chwe mis am y rhesymau a nodais yn fy sylwadau agoriadol: os bydd rhywun eisiau symud i ardal ar gyfer addysg neu waith. Rwyf yn credu, hefyd, efallai y byddant wedyn yn hapus i ystyried pobl y gallent fod wedi meddwl amdanynt fel bod yn risg uchel o'r blaen. Yn sicr, yn y trafodaethau yr wyf wedi eu cael yn y cyfnod cyn cyflwyno'r Bil, rwyf wedi cwrdd â llawer o bobl sydd wedi dweud nad oes gan landlordiaid preifat ddiddordeb ynddynt, cyn gynted â'u bod yn sôn eu bod yn derbyn budd-dal tai. Felly, rwyf yn gobeithio y bydd hynny'n galluogi'r sectorau rhentu preifat i ystyried pobl yn fwy ffafriol er y byddent yn flaenorol wedi eu hystyried fel bod yn risg uchel.

Roeddech yn sôn am Shelter ac yn dweud mai dyma fyddai'r diogelwch isaf yn Ewrop. Rwy'n credu bod angen i ni fod yn ofalus iawn ynghylch cymharu Cymru, neu hyd yn oed y DU yn gyffredinol, gydag Ewrop. Mae maint a nodweddion y sector rhentu preifat yn amrywio yn fawr iawn rhwng gwahanol wledydd, ac, yn wahanol i'r rhan fwyaf o Ewrop, mae'r sector rhentu preifat yng Nghymru yn tyfu, ac mae llawer o wledydd nad oes ganddynt o reidrydd sector rhentu cymdeithasol sylweddol, fel, unwaith eto, sydd gennym ni yng Nghymru. Rwy'n credu bod risg sylweddol o ganlyniadau anfwriadol, os ydym yn seilio ein newid ar y sefyllfa mewn gwledydd eraill heb gael asesiad trylwyr iawn o effaith.

You also asked whether the Bill would drive rogue landlords underground. This Bill will complement the Housing (Wales) Act 2014, and that Act requires all private landlords to register, if they wish to manage their own properties themselves, they have to be licensed. Also, they have to abide by a code of practice. The housing Act deals with the practices of landlords. This Bill will deal with the core of the landlord-tenant relationship, improving the contractual arrangement, which, as you know, is the source of many problems. However, I think it is right: this Bill has to balance both the roles and the responsibilities of landlords and tenants.

Roeddech yn gofyn hefyd a fyddai'r Bil yn golygu bod landlordiaid twyllodrus yn diflannu o'r amlwg. Bydd y Bil hwn yn ategu Deddf Tai (Cymru) 2014, ac mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i bob landlord preifat gofrestru, os ydynt yn dymuno rheoli eu heiddo eu hunain, mae'n rhaid iddynt fod wedi eu trwyddedu. Hefyd, mae'n rhaid iddynt gadw at god ymarfer. Mae'r Ddeddf Tai yn ymdrin ag arferion landlordiaid. Bydd y Bil hwn yn ymdrin â chraidd y berthynas rhwng y landlord a'r tenant, gan wella'r trefniadau cytundebol, sef, fel y gwyddoch, ffynhonnell llawer o broblemau. Fodd bynnag, rwy'n credu bod hyn yn iawn: mae'n rhaid i'r Bil hwn gydbwysio swyddogaethau a chyfrifoldebau landlordiaid a thenantiaid.

15:15

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I very much welcome the introduction of this Bill as the second suite of Bills following on from the housing Act and the compulsory registration of landlords. My constituency attracts a lot of the wrong sorts of landlords, unfortunately, because we have a large number of students, a large number of asylum seekers, as well as large numbers of vulnerable families.

I welcome the fact that the new standard contract will be what it says, a contract, as some landlords issue contracts and require people to sign up for contracts before the house is ready for occupation. They say, 'You're only being obliged to pay half rent', but if it's not ready for occupation, I can't see how they have any justification for charging any rent. Many students fail to read the contract before they sign it and are not given the option to take it away and study the terms and conditions before they do so. Even when the contract promises all sorts of exemplary provisions, like getting structural repairs done properly, they don't actually happen. So, I very much welcome the duty to include in every contract the duty to repair and maintain the property and to ensure that it is fit for human habitation. I've been chasing a landlord to get them to put a lock on the front door—a front door that actually closes, and a lock—and to get them to repair leaks that are coming from an upstairs flat, which are making life a misery for the people living downstairs. These are the sorts of basic things that I hope that this law will tackle, and I very much welcome it.

Weinidog, rwyf yn croesawu'n fawr iawn gyflwyniad y Bil hwn fel yr ail gyfres o Filiau yn dilyn ymlaen o'r Ddeddf tai a chofrestru gorfodol landlordiaid. Mae fy etholaeth i yn denu llawer o'r mathau anghywir o landlordiaid, yn anffodus, gan fod gennym nifer fawr o fyfyrwyr, nifer fawr o geiswyr lloches, yn ogystal â nifer fawr o deuluoedd sy'n agored i niwed.

Rwyf yn croesawu'r ffaith y bydd y contract safonol newydd yr hyn y mae'n honni ei fod, yn gontract, gan fod rhai landlordiaid yn cyflwyno contract ac yn gofyn i bobl lofnodi contractau cyn i'r tŷ fod yn barod i'w feddiannu. Maent yn dweud, 'dim ond hanner y rhent y mae angen i chi ei dalu', ond os nad yw'n barod i'w feddiannu, ni allaf weld bod unrhyw gyfiawnhad dros godi unrhyw rent. Mae llawer o fyfyrwyr nad ydynt yn darllen y contract cyn iddynt ei lofnodi ac nid ydynt yn cael y dewis i fynd ag ef i ffwrdd i astudio'r telerau a'r amodau cyn iddynt wneud hynny. Hyd yn oed pan fydd y contract yn addo pob math o ddarpariaethau rhagorol, fel cael gwaith atgyweirio strwythurol wedi ei wneud yn iawn, nid yw hynny'n digwydd mewn gwirionedd. Felly, rwyf yn croesawu'n fawr y ddyletswydd i gynnwys ym mhob contract y ddyletswydd i atgyweirio a chynnal a chadw'r eiddo ac i sicrhau ei fod yn addas i bobl fyw ynddo. Rwyf wedi bod yn mynd ar drywydd landlord i'w gael i roi clo ar y drws ffrynt—a chael drws ffrynt sy'n cau mewn gwirionedd, a chael clo—a'i gael i atgyweirio gollyngiadau sy'n dod o fflat i fyny'r grisiau, sy'n gwneud bywyd yn ddiflas iawn i'r bobl sy'n byw i lawr y grisiau. Dyma'r math o bethau sylfaenol yr wyf yn gobeithio y bydd y ddeddf hon yn mynd i'r afael â nhw, a chroesawaf hi'n fawr iawn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:17

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Jenny Rathbone for her welcome of the Bill. I think the issue of contracts is absolutely at the heart of this Bill. You're quite right to highlight difficulties that you've faced within your own constituency. The proposal to include the requirement of a landlord to ensure that the property is fit for human habitation will again ensure that we're not faced with those sorts of situations where people are accepting the property before it is ready. The requirement for landlords to have to carry out repairs, again, that's part of the retaliatory evictions, where we know people who have asked their landlords to carry out repairs, sometimes landlords have felt that it's easier to evict a tenant rather than carry out those repairs. Again, that's something that this Bill will ensure does not occur.

Diolch i Jenny Rathbone am groesawu'r Bil. Rwy'n meddwl bod y mater o gontractau yn bendant wrth wraidd y Bil hwn. Rydych chi'n berffaith iawn i dynnu sylw at anawsterau yr ydych chi wedi'u hwynebu yn eich etholaeth eich hun. Mae'r cynnig i gynnwys y gofyniad i landlord sicrhau bod yr eiddo yn addas i bobl fyw ynddo hefyd yn sicrhau nad ydym yn wynebu y mathau hyn o sefyllfaoedd lle mae pobl yn derbyn yr eiddo cyn iddo fod yn barod. Mae'r gofyniad i landlordiaid orfod gwneud atgyweiriadau, unwaith eto, mae hynny'n rhan o droi allan dialgar, lle'r ydym yn gwybod fod pobl sydd wedi gofyn i'w landlordiaid wneud gwaith atgyweirio, ond bod landlordiaid weithiau wedi teimlo ei bod yn haws troi tenant allan yn hytrach na gwneud y gwaith atgyweirio. Unwaith eto, mae hyn yn rhywbeth y bydd y Bil hwn yn sicrhau nad yw'n digwydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I very much welcome this statement today and the introduction of the Renting Homes (Wales) Bill, which will, of course, transform the approach to renting in Wales and bring together that plethora of law in this area. I'm very pleased that the Law Commission's work on this has resulted in the reforms that we see here now, including the creation of a single social housing tenancy. Minister, I wonder if you'll tell us if you've considered rent control methods in the lead up to this Bill and, if so, why it doesn't appear to be included.

I think you'd acknowledge that there's been a great deal of change in the housing sector in the last few years, starting, of course, with the housing Act and now the renting homes Bill. So, this area of law has changed quite a lot. I think we ought to acknowledge the need to strike a balance between doing right by the tenant and also doing right by the industry, because, of course, the last thing we want is to drive away good landlords out of the sector. So, it will be important to listen to their concerns as we move forward with the Bill.

I very much welcome the provisions included that will simplify all the law surrounding tenancies, because I think having one piece of legislation will make everybody's life easier. I'm particularly pleased about the changes on joint tenancies that you mentioned earlier.

I'm sure all of us in this Chamber have had cases of very poor standards in the private rented sector, because, as AMs, nobody ever sends for us to say, 'Come and see my lovely kitchen'. It's always the damp bathroom that we get to look at. So, I don't think these proposals go far enough, just by giving landlords a legal duty to ensure there are no serious category 1 health and safety hazards, and I wonder if the Government would consider putting a duty on landlords to maintain their properties to a decent standard on the face of the Bill. Sadly, those in the private rented sector are at far greater risk of fire and electric shock caused by electrical appliances in their homes. I wonder if you would consider provisions to improve the electrical safety in all rented homes, in the same way as there are obligations about gas appliances, and if not, why not.

On reclaiming homes by the landlord, I mean, obviously, abandoned properties—it's important that landlords are able to secure those as soon as possible—but I wonder if there's some protection against accidental eviction. What's going to be offered to tenants who are away for quite a legitimate reason? Perhaps they've been hospitalised, they're briefly imprisoned or they're away for another reason.

Rwyf yn croesawu'n fawr iawn y datganiad hwn heddiw a chyflwyniad Bil Rhentu Cartrefi (Cymru), a fydd, wrth gwrs, yn gweddnewid y dull o rentu yng Nghymru ac yn dwyn ynghyd y cyfreithiau niferus yn y maes hwn. Rwy'n falch iawn bod gwaith Comisiwn y Gyfraith ar hyn wedi arwain at y diwygiadau a welwn yma nawr, gan gynnwys creu thenantiaeth gymdeithasol sengl. Weinidog, tybed a wneuch chi ddweud wrthym a ydych wedi ystyried dulliau rheoli rhent yn y cyfnod cyn y Bil hwn ac, os felly, pam nad yw'n ymddangos ei fod wedi'i gynnwys.

Rwyf yn meddwl y byddech yn cydnabod bod llawer iawn o newid wedi bod yn y sector tai yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan ddechrau, wrth gwrs, â'r Ddeddf tai ac erbyn hyn, y Bil rhentu cartrefi. Felly mae'r maes hwn o'r gyfraith wedi newid cryn dipyn. Rwy'n credu y dylem gydnabod yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng gwneud pethau'n iawn ar gyfer y tenant a hefyd gwneud pethau'n iawn ar gyfer y diwydiant, oherwydd, wrth gwrs, y peth olaf yr ydym yn dymuno ei wneud yw gyrru landlordiaid da allan o'r sector. Felly, bydd yn bwysig ein bod yn gwrandao ar eu pryderon wrth i ni symud ymlaen â'r Bil.

Rwyf yn croesawu'n fawr iawn y darpariaethau a gynhwysir a fydd yn symleiddio'r holl gyfreithiau sy'n ymwneud â thenantiaeth, gan fy mod o'r farn y bydd cael un darn o ddeddfwriaeth yn gwneud bywyd pawb yn haws. Rwy'n arbennig o falch ynglŷn â'r newidiadau yn ymwneud â thenantiaeth ar y cyd a grybwyllwyd gennych yn gynharach.

Rwy'n siŵr bod pob un ohonom yn y Siambr hon wedi gweld achosion o safonau gwael iawn yn y sector rhentu preifat, oherwydd, fel ACau, does neb byth yn anfon amdanom gan ddweud, 'Dewch i weld fy nghegin hyfryd'. Yr ystafell ymolchi laith yr ydym ni'n cael edrych arni bob amser. Felly, nid wyf yn credu bod y cynigion hyn yn mynd yn ddigon pell, trwy ddim ond gosod dyletswydd gyfreithiol ar landlordiaid i sicrhau nad oes unrhyw beryglon iechyd a diogelwch categori 1 difrifol, a tybed a fyddai'r Llywodraeth yn ystyried gosod dyletswydd ar landlordiaid i gynnal eu heiddo i safon weddus ar wyneb y Bil. Yn anffodus, mae'r bobl hynny sydd yn y sector rhentu preifat mewn llawer mwy o berygl o dân a sioc drydanol a achosir gan offer trydanol yn eu cartrefi. Tybed a fydddech chi'n ystyried darpariaethau i wella diogelwch trydanol ym mhob cartref ar rent, yn yr un modd ag y mae rhwymedigaethau ynghylch offer nwy, ac os na, pam mae hynny.

O ran landlordiaid yn adfeddiannu, dwi'n meddwl, yn amlwg, eiddo sydd wedi'i adael—mae'n bwysig bod landlordiaid yn gallu cael y rheini yn ôl cyn gynted ag y bo modd—ond tybed a oes rhywfaint o amddiffyniad yn erbyn troi allan yn ddamweiniol. Beth sy'n mynd i gael ei gynnig i denantiaid sydd i ffwrdd am reswm eithaf dilys? Efallai eu bod wedi gorfod mynd i'r ysbyty, eu bod yn y carchar am gyfnod byr neu eu bod i ffwrdd am reswm arall.

Along with the ending of ground 8, which you mentioned earlier, I am pleased to see that the Bill will take action to end the retaliatory evictions where tenants are often forced out. One method that's sometimes used, of course, is pushing up the rent to an unaffordable level. So, how will you ensure that you cover all the bases so that unscrupulous landlords can't find an equally effective method of forcing tenants out who should really be allowed to stay?

I know I've raised this with you before, but this is on the issue of withholding references. Sometimes, and I'm sure we've heard of cases where a tenant complains, perhaps to the local authority about repairs not being done, and they are asked to leave, but they are then refused a reference for a future landlord, and if you don't have a reference, getting another property in the private rented sector is extremely difficult.

I very much support the enabling of young people between 16 and 18 to rent on equal terms to those over 18, and I'm also pleased to see the requirement for a written tenancy. Now, there is a mention of succession rights within the Bill. I've only just seen it, Minister, and I do apologise for not having read the entire thing overnight. I'm assuming that that will apply to the private rented sector, but you could correct me if I'm wrong there. Have you considered the position that private sector landlords could find themselves in, a difficult position, perhaps, with their mortgage lender, as they sometimes attaches conditions to who can rent a property, if the succession is automatic on the death of a tenant? I think, maybe, you could tell us that.

I wonder if you had considered ending discrimination of the sort that was mentioned earlier. Sometimes, you do see signs advertising properties that say, 'No housing benefit claimants'. Would you take this opportunity? That's not the only restriction, but it's the only one that I think that I should put on the public record here in this Chamber. Perhaps you'd consider ending that discrimination in this Bill.

Ynghyd â rhoi diwedd ar sail 8, a grybwyllwyd gennych yn gynharach, rwyf yn falch o weld y bydd y Bil yn cymryd camau i roi diwedd ar droi allan dialgar pan y bydd tenantiaid yn aml yn cael eu gorfodi i symud allan. Un dull sy'n cael ei ddefnyddio weithiau, wrth gwrs, yw gwthio'r rhent i fyny i lefel anfforddiadwy. Felly, sut y byddwch yn sicrhau eich bod yn cynnwys pob agwedd fel na all landlordiaid diegwyddor ddod o hyd i dull yr un mor effeithiol o orfodi tenantiaid i symud allan, a ddylai mewn gwirionedd gael yr hawl i aros?

Rwy'n gwybod fy mod i wedi codi hyn gyda chi o'r blaen, ond mae hyn yn ymwneud â'r mater o wrthod rhoi geirda. Weithiau, ac rwy'n siŵr ein bod wedi clywed am achosion lle mae tenant yn cwyno, efallai wrth yr awdurdod lleol am atgyweiriadau nad ydynt wedi eu gwneud, a gofynnir iddynt adael, ond yna gwrthodir geirda iddynt ar gyfer landlord yn y dyfodol, ac os nad oes gennych eirda, mae cael eiddo arall yn y sector rhentu preifat yn hynod o anodd.

Rwy'n gefnogol iawn o ran galluogi pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed i rentu ar delerau cyfartal â'r rhai hynny sydd dros 18 oed, ac rwy'n falch o weld y gofyniad am denantiaeth ysgrifenedig hefyd. Nawr, mae sôn am hawliau olyniaeth yn y Bil. Dim ond newydd ei weld ydw i, Weinidog, ac rwyf yn ymddiheuro am beidio â bod wedi darllen yr holl beth dros nos. Rydw i'n cymryd yn ganiataol y bydd hyn yn berthnasol i'r sector rhentu preifat, ond cewch fy nghywiro os wyf yn anghywir. A ydych chi wedi ystyried y sefyllfa y gallai landlordiaid sector preifat ganfod eu hunain ynnddi, sefyllfa anodd, efallai, gyda'u benthyciwr morgeisi, gan eu bod weithiau'n gosod amodau ar bwy gaiff rhentu eiddo, os yw'r olyniaeth yn awtomatig ar farwolaeth tenant? Rwyf yn meddwl, efallai, y gallech ddweud hynny wrthym.

Tybed a ydych chi wedi ystyried atal gwahaniaethu o'r math a grybwyllwyd yn gynharach. Weithiau, byddwch yn gweld arwyddion yn hysbysebu eiddo sydd yn dweud, 'Dim hawlwr budd-dal tai'. A wnewch chi achub ar y cyfle hwn? Nid dyna'r unig gyfyngiad, ond dyma'r unig un yr wyf yn meddwl y dylwn ei roi ar y cofnod cyhoeddus yma yn y Siambr hon. Efallai y byddech yn ystyried atal y gwahaniaethu hynny yn y Bil hwn.

15:23

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Okay. I thank Jocelyn Davies for her questions. In relation to rent controls, I do recognise that rent control can look attractive initially, but I think previous experience shows that rent controls reduce the incentive for landlords to invest and can then lead to a reduction in quality housing. Those properties that are still subject to rent control under the Rent Act 1977 are often of the poorest quality, so I think such a proposal would require very careful consideration. Again, I think that could give possible unintended consequences to the supply of private rented properties.

lawn. Diolch i Jocelyn Davies am ei chwestiynau. O ran rheoli rhent, rwyf yn cydnabod bod rheoli rhent yn gallu edrych yn ddeniadol i ddechrau, ond rwyf yn credu bod profiad blaenorol yn dangos bod rheoli rhent yn lleihau'r cymhelliant i landlordiaid fuddsoddi ac y gall yna arwain at ostyngiad mewn tai o ansawdd. Mae'r eiddo hwnnw sydd yn dal i fod yn destun rheoli rhent o dan Ddeddf Rhenti 1977 yn aml o'r ansawdd gwaelaf, felly rwyf yn meddwl y byddai cynnig o'r fath yn gofyn am ystyriaeth ofalus iawn. Unwaith eto, rwyf yn meddwl y gallai achosi canlyniadau anfwriadol posibl i'r cyflenwad o eiddo preifat ar rent.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I absolutely agree that it is about finding a balance between tenants and landlords. It's not all about tenants, this Bill, and it's not all about landlords. It's absolutely about getting that balance. We have to say that the majority of landlords and tenants behave in a very good and appropriate manner.

It is a very large Bill and what we are doing is bringing all the Acts together in one very large Bill, as much as possible.

In relation to joint tenancies, I do think it's absolutely right —. I mentioned in my opening remarks about a victim of domestic abuse. It's wrong that, in some cases, you know, the whole family has to leave the property. This Bill will propose that the perpetrator leaves the tenancy, enabling the victim, and if there are children, to remain in the property. So, I think that is something that has been welcomed by people who I've spoken to in relation to the Bill.

In relation to your question about a decent home, the written statement of contract every landlord will be required to give to the contract holder will set out the landlord's obligation to repair and maintain the property. The new requirement to ensure the property is fit for human habitation will place a broader responsibility on the landlord than just carrying out repairs. I think that approach, when combined with the code of practice that landlords and agents will have to follow under the licensing scheme that the Housing (Wales) Act 2014 will bring in, will result in a significant improvement of standards generally in the private rented sector.

You asked about electrical safety testing. I think the safety of everyone in rented properties, whether it's electrical or otherwise, is very important, so I do have some sympathy with this issue. My officials have already met with the Electrical Safety Council and, again, I think we'd need to consider such matters very carefully, to determine whether provision be included, whether in the Bill or by subordinate legislation.

In relation to abandonment, I think it's right there have to be safeguards in place. So, what we're proposing is the landlord will be able to issue a notice stating the property is believed to have been abandoned, the landlord then has four weeks to make investigations, to be satisfied the property has been abandoned, after which a further notice ending the contract could be issued. If the contract holder reappeared within six months, he or she could make a claim to the court, stating that the landlord has not acted properly. If the court was satisfied that was the case, they could then reinstate the contract and order the landlord to provide suitable alternative accommodation, or make any other order that they would see fit. So, I think that's a very significant sanction, potentially, against a landlord who would seek to abuse the procedure. So, those safeguards are in place.

Rwyf yn cytuno'n llwyr mai mater yw hwn o daro cydbwysedd rhwng tenantiaid a landlordiaid. Nid yw'r Bil hwn yn ymwneud yn llwyr â thenantiaid, ac nid yw'n ymwneud yn llwyr â landlordiaid ychwaith. Mae'n bendant yn ymwneud â chael y cydbwysedd hwnnw. Mae'n rhaid i ni ddweud bod y rhan fwyaf o landlordiaid a thenantiaid yn ymddwyn mewn modd da iawn a phriodol.

Mae'n Fil mawr iawn a'r hyn yr ydym yn ei wneud yw dod â'r holl Ddeddfau at ei gilydd mewn un Bil mawr iawn, i'r graddau y bo modd gwneud hynny.

O ran tenantiaeth ar y cyd, rwyf yn credu bod hynny'n hollol iawn—. Soniais yn fy sylwadau agoriadol am ddiodeffwr cam-drin domestig. Nid yw'n iawn bod, mewn rhai achosion, wyddoch chi, bod yn rhaid i'r teulu cyfan adael yr eiddo. Bydd y Bil hwn yn cynnig bod y troseddwr yn gadael y denantiaeth, gan alluogi'r diodeffwr, a phlant os oes rhai, i aros yn yr eiddo. Felly, credaf fod hyn yn rhywbeth sydd wedi ei groesawu gan bobl yr wyf wedi siarad â nhw ynglŷn â'r Bil.

O ran eich cwestiwn am gartref gweddus, bydd yn ofynnol i bob landlord roi datganiad contract ysgrifenedig i ddeiliad y contract a bydd yn ofynnol i'r contract hwnnw nodi rhwymedigaethau'r landlord i atgyweirio a chynnal a chadw'r eiddo. Bydd y gofyniad newydd i sicrhau bod yr eiddo yn addas i bobl fyw ynndo, yn gosod cyfrifoldeb ehangach ar y landlord na dim ond gwneud gwaith atgyweirio. Credaf y bydd y dull hwn, o'i gyfuno â'r cod ymarfer y bydd landlordiaid ac asiantau yn gorfod ei ddilyn o dan y cynllun trwyddedu y bydd Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gyflwyno, yn arwain at welliant sylweddol mewn safonau yn gyffredinol yn y sector rhentu preifat.

Roeddech yn gofyn am brofion diogelwch trydanol. Rwy'n credu bod diogelwch pawb sydd mewn eiddo ar rent, boed hynny o ran trydan neu rywbeth arall, yn bwysig iawn, felly mae gennyf rywfaint o gydymdeimlad â'r mater hwn. Mae fy swyddogion eisoes wedi cwrrd â'r Cyngor Diogelwch Trydanol ac, unwaith eto, rwyf yn credu y bydd angen i ni ystyried materion o'r fath yn ofalus iawn, er mwyn penderfynu a ddylid cynnwys darpariaeth yn y Bil neu trwy is-ddeddfwriaeth.

O ran gadael eiddo, rwyf yn meddwl ei fod yn iawn bod yn rhaid i fesurau diogelwch fod wedi'u sefydlu. Felly, yr hyn yr ydym yn ei gynnig yw y caiff y landlord gyhoeddi hysbysiad sy'n datgan y credir bod yr eiddo wedi ei adael. Bydd gan y landlord bedair wythnos wedyn i wneud ymchwiliadau, i fod yn fodlon bod yr eiddo wedi ei adael, ac ar ôl hynny gellid cyflwyno rhybudd arall i ddod â'r contract i ben. Pe byddai deiliad y contract yn ailymddangos o fewn chwe mis, gallai ef neu hi wneud cais i'r llys, gan ddatgan nad yw'r landlord wedi gweithredu'n briodol. Os bydd y llys yn fodlon mai dyna'r gwir, gallai wedyn adfer y contract a gorchymyn bod y landlord yn darparu llety addas arall, neu wneud unrhyw orchymyn arall y byddai'n ei ystyried yn briodol. Felly, rwy'n credu y gallai hynny fod yn sancsiwn sylweddol iawn yn erbyn landlord a fyddai'n ceisio camddefnyddio'r weithdrefn. Felly, mae'r mesurau diogelu hynny wedi'u sefydlu.

In relation to ground 8, as I said, it's about equality for me, and I think it's very unfair that housing association tenants have that ground 8. Again, if the eight weeks of arrears could be explained, the court can't take that into consideration.

We've had a discussion about references and I think you raise a very good point. I think, again, it would need careful consideration, but it seems very unfair that a landlord could refuse to give someone a reference, therefore stopping them from getting a further tenancy. So, I think that's something that we need to have a look at going forward.

I'm glad you welcome the requirement that 16 and 17-year-olds can rent. I think, sometimes, that age group is the most difficult, in some circumstances, for local authorities to house. So, I think it's right that we are proposing that they themselves are able to get their own tenancy, and also, again, in succession—you know, if a parent died—they would be able to succeed to the tenancy.

15:28

Mike Hedges [Bywgraffiad Biography](#)

I, again, welcome the Bill. From 1945 to 1980, we saw a reduction in privately rented accommodation and a huge growth in council housing and owner occupation. Since 1980, we've seen a growth in the private rented sector and housing associations and a severe decline in council accommodation.

The private rented sector exists in two distinct markets: the high-cost and high-quality rented properties, as seen in Swansea marina, and also low-cost and often poor-quality properties, which exist in a large part of my constituency. I have two questions for the Minister. I welcome the duty to repair and maintain properties. How will this be imposed and what will be done to ensure that properties are fit for human habitation prior to being rented out? I listened to your answer to Jocelyn Davies regarding electrical safety; if they're going to maintain the property, how can they know the property is well maintained without actually undertaking an electrical safety check?

The second question is: the Bill also includes the right of occupation for under 18s—I know that, previously, 16 and 17-year-olds have had to have a guarantor in order to either rent in the housing association, council, or private rented sector—how will any contract be enforced on people who are under 18?

15:30

Lesley Griffiths [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you for those two questions. As you said, at the moment, 16 and 17-year-olds are not able to rent on exactly the same basis as those aged 18 or over. What this Bill will address is—that will bring them up to the same as for anybody over the age of 18. It won't change any other aspects of the law relating to young people; it's just specifically to enable 16 and 17-year-olds to rent on the same basis as those aged 18 or over.

O ran sail 8, fel y dywedais, mae'n ymwneud â chydreddoldeb i mi, ac rwyf yn credu ei bod yn annheg iawn fod gan denantiaid cymdeithasau tai y sail 8 honno. Unwaith eto, pe byddai modd egluro'r wyth wythnos o ôl-ddyledion, ni chaiff y llys roi ystyriaeth i hynny.

Rydym wedi cael trafodaeth am eirida a chredaf eich bod yn codi pwynt da iawn. Rwyf yn meddwl, unwaith eto, byddai angen ystyried yn ofalus, ond mae'n ymddangos yn annheg iawn bod landlord yn gallu gwrthod rhoi geirida i rywun, gan felly ei atal rhag cael tenantiaeth arall. Felly, rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth y mae angen i ni edrych arno wrth symud ymlaen.

Rwy'n falch eich bod yn croesawu'r gofyniad bod pobl ifanc 16 a 17 oed yn cael rhentu. Rwyf yn meddwl, weithiau, mai'r grŵp oedran hwnnw yw'r anoddaf, mewn rhai amgylchiadau, i awdurdodau lleol ddarparu llety ar eu cyfer. Felly, rwyf yn meddwl ei bod yn iawn ein bod yn cynnig eu bod hwy eu hunain yn gallu cael eu tenantiaeth eu hunain, a hefyd, unwaith eto, yn olynol—wyddoch chi, os yw rhiant yn marw—byddent yn gallu olynu i'r denantiaeth.

Rwyf finnau, unwaith eto, yn croesawu'r Bil. O 1945 hyd 1980, gwelsom ostyngiad mewn llety rhent preifat a thwf enfawr mewn tai cyngor a pherchen-feddiannaeth. Ers 1980, rydym wedi gweld twf yn y sector rhent preifat a chymdeithasau tai a dirywiad tra sylweddol o ran llety cyngor.

Mae'r sector rhentu preifat yn bodoli mewn dwy farchnad benodol: yr eiddo drud o ansawdd uchel sy'n cael ei rentu, fel y gwelir ym marina Abertawe, a hefyd eiddo rhad sy'n aml o ansawdd gwael, sy'n bodoli mewn rhan fawr o'm hetholaeth i. Mae gennyf ddau gwestiwn i'r Gweinidog. Rwyf yn croesawu'r ddyletswydd i atgyweirio a chynnal a chadw eiddo. Sut y bydd hyn yn cael ei orfodi a beth fydd yn cael ei wneud i sicrhau bod eiddo yn addas i bobl fyw ynddo cyn cael ei rentu? Gwrandewais ar eich ateb i Jocelyn Davies ynghylch diogelwch trydanol; os ydynt yn mynd i gynnal a chadw'r eiddo, sut y gallant wybod bod yr eiddo yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, heb gynnal archwiliad diogelwch trydanol?

Yr ail gwestiwn yw: mae'r Bil hefyd yn cynnwys hawl meddiannaeth i bobl ifanc dan 18 oed—gwn fod pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed, yn y gorffennol, wedi gorfod cael gwarantwr er mwyn rhentu yn y sector cymdeithas dai, cyngor, neu breifat—sut y bydd unrhyw gontract yn cael ei orfodi ar bobl sydd o dan 18 oed?

Diolch i chi am y ddau gwestiwn. Fel y dywedaso, ar hyn o bryd, nid yw pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed yn gallu rhentu ar union yr un sail â'r rhai sy'n 18 oed neu'n hŷn. Yr hyn y bydd y Bil hwn yn mynd i'r afael ag ef—yw y bydd yn rhoi'r un amodau iddyn nhw ag i unrhyw un sydd dros 18 oed. Ni fydd yn newid unrhyw agwedd arall ar y gyfraith sy'n ymwneud â phobl ifanc; mae'n benodol ar gyfer galluogi pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed i rentu ar yr un sail â'r rhai sy'n 18 oed neu'n hŷn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In relation to fitness for human habitation, it will be for the courts to decide that. I know there have been considerable discussions around the category 1 hazards, but we felt that would place an undue burden on local authorities.

O ran bod tai yn addas i bobl fyw ynddynt, mater i'r llysoedd yw penderfynu ar hynny. Gwn y bu trafodaethau sylweddol ynglŷn â pheryglon categori 1, ond roeddem o'r farn y byddai hynny'n rhoi baich diangen ar awdurdodau lleol.

15:31

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I noticed, Minister, that, in your statement, you started off by saying that housing law may be an impenetrable forest, and then produced a Bill that most probably consumed the best part of a forest, which we're very grateful to you for. Jocelyn Davies has already listed some of the good things in this Bill, and I very much welcome much of what is in here, particularly in relation to ground 8 and the clauses on retaliatory evictions, and, of course, standard contracts, which I think will make a huge difference, particularly in social housing, but also, of course, in private housing as well. The legislation on joint tenancies as well, I think, is very welcome, as are the laws of succession.

Sylwais, Weinidog, yn eich datganiad, eich bod wedi dechrau drwy ddweud bod cyfraith tai yn gallu bod yn goedwig drwchus na ellir ei thramwyo, ac yna rydych wedi cyflwyno Bil sydd yn ôl pob tebyg wedi defnyddio'r rhan helaeth o goedwig, ac rydym yn ddiolchgar iawn i chi amdano. Mae Jocelyn Davies eisoes wedi rhestru rhai o'r pethau da yn y Bil hwn, ac rwyf yn croesawu yn fawr iawn llawer o'r hyn sydd ynddo, yn enwedig o ran sail 8 a'r cymalau ar droi allan dialgar, ac, wrth gwrs, contractau safonol, a fyddant yn fy marn i yn gwneud gwahaniaeth enfawr, yn enwedig o ran tai cymdeithasol, ond hefyd, wrth gwrs, o ran tai preifat yn ogystal. Mae'r ddeddfwriaeth ar denantiaethau ar y cyd hefyd, yn fy marn i, i'w groesawu'n fawr, yn ogystal â'r cyfreithiau olyniaeth.

I'd be interested actually in how this Bill is going to be applied in respect of existing tenancies. Is it going to apply just to new tenancies, or will we be able to apply it retrospectively? That'll be, I think, most probably a matter of discussion as it goes through committee.

Mae gennyf ddi-ddordeb yn y modd y mae'r Bil hwn yn mynd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â thenantiaethau presennol. A yw'n mynd i fod yn berthnasol i denantiaethau newydd yn unig, neu a fyddwn yn gallu ei ddefnyddio'n ôl-weithredol? Bydd hynny, rwy'n credu, yn ôl pob tebyg, yn fater i'w drafod wrth iddo fynd drwy'r pwyllgor.

I've got a number of issues I wanted to raise with you, Minister. The first one of which is, of course, the abolition of the six-month moratorium. I'm concerned about the impact of this on the new right for local authorities to discharge the homelessness duty through the private sector. I think there was already some concern around what security would be available to people who presented as homeless who would be rehoused in the private sector, and I think this will add to that concern. So, I'd be interested in what consideration you gave to that when you decided to proceed with this particular measure.

Mae gennyf nifer o faterion yr oeddwn am eu codi gyda chi, Weinidog. Y cyntaf ohonynt, wrth gwrs, yw diddymu'r moratoriwm chwe mis. Rwy'n pryderu am effaith hyn ar yr hawl newydd i awdurdodau lleol gyflawni'r ddyletswydd digartrefedd drwy'r sector preifat. Rwy'n credu bod eisoes rhywfaint o bryder ynghylch pa ddiogelwch fyddai ar gael i bobl ddigartref a fyddai'n cael eu hailgartrefu yn y sector preifat, ac rwy'n credu y bydd hyn yn ychwanegu at y pryder hwnnw. Felly, byddai gennyf ddi-ddordeb mewn clywed pa ystyriaeth a roesoch i hynny wrth benderfynu i fwrw ymlaen â'r mesur penodol hwn.

Also, the impact on security of tenants: I noticed that you've defended this by saying it provides flexibility. Flexibility, of course, hides a multitude of sins, and certainly was one of the many excuses used by Margaret Thatcher when she introduced a lot of the reforms in the housing sector. I feel that this particular clause is there for landlords, not for tenants, so I am concerned about it. But, of course, in England, your own party is proposing three-year tenancies, whereas you're going in completely the opposite direction. So, who is right? Is the Welsh Government right, or is Ed Miliband right, on this particular aspect? It is in the best interests of both landlords and tenants to have long-term and reliable tenancies. Have you considered alternatives, such as, for example, a one-year tenancy with a probationary period, which might give flexibility to the landlords whilst at the same time giving better security to tenants?

Hefyd, yr effaith ar ddiogelwch tenantiaid: sylwais eich bod wedi amddiffyn hyn drwy ddweud ei fod yn darparu hyblygrwydd. Mae hyblygrwydd, wrth gwrs, yn cuddio lliaws o bechodau, ac yn sicr roedd yn un o'r nifer o esgusodion a ddefnyddiwyd gan Margaret Thatcher wrth iddi gyflwyno llawer o'r diwygiadau yn y sector tai. Rwy'n teimlo bod y cymal penodol hwn yno ar gyfer landlordiaid, nid ar gyfer tenantiaid, felly rwyf yn poeni amdano. Ond, wrth gwrs, yn Lloegr, mae eich plaid eich hun yn cynnig tenantiaethau tair blynedd, tra eich bod chi yn mynd yn gyfan gwbl i'r cyfeiriad arall. Felly, pwy sy'n iawn? Ai Llywodraeth Cymru sy'n iawn, neu Ed Miliband sy'n iawn, o ran yr agwedd benodol hon? Mae er lles gorau landlordiaid a tenantiaid i gael tenantiaethau hirdymor a dibynadwy. A ydych chi wedi ystyried dewisiadau eraill, megis, er enghraifft, tenantiaeth blwyddyn gyda chyfnod prawf, a allai roi hyblygrwydd i'r landlordiaid ac, ar yr un pryd, rhoi gwell diogelwch i denantiaid?

The second issue I wanted to raise was in terms of tenants themselves. There's a lot of technical stuff in here, but I think very little in terms of improving protection for tenants, other than, obviously, the legal contractual side, particularly in relation to giving them a right of redress when there are disputes. I think everybody who's dealt with the private rented sector know of cases where tenants have had disputes with their landlords and have not been able to get the support to resolve those disputes. Given that this is not a statutory duty for local authorities and a lot of the private sector tenancy officers that local authorities used to employ are no longer there, what consideration have you given to providing better redress for tenants? For example, have you considered allowing the residential property tribunal to arbitrate in disputes in the same way they do in the Mobile Homes (Wales) Act 2013, which I brought forward, in that particular aspect?

Then, on the final aspect of this Bill that I wanted to raise at this point, page 32 of the explanatory memorandum lists the 29 criteria for unfitness for human habitation, and although carbon monoxide and electrical hazards are mentioned, there is nothing there about regular checks or even carbon-monoxide detectors. This has already been raised, of course, by both Jocelyn Davies and Mike Hedges. Will you look at amending the Bill to make these tests compulsory on a five-yearly basis? Will you also consider carbon-monoxide detectors as a compulsory aspect of making sure that properties are fit for habitation? You may know, Minister, because you were not the Minister at the time, that, when the Housing (Wales) Act 2014 came through committee, this was a very strong issue that was raised by a number of witnesses and by Members, and, at that time, we were given assurances that this may be addressed in the guidance that is going to be given under that Housing Act. Are you going to be raising that in that guidance or can this be done through this Act? Will something be done about these particular issues? Thank you.

Yr ail fater yr wyf yn awyddus i'w godi yw y tenantiaid eu hunain. Mae llawer o bethau technegol i mewn yma, ond rwyf o'r farn mai ychydig iawn sydd yma ar gyfer amddiffyn tenantiaid yn well, ac eithrio, yn amlwg, yr elfen contract cyfreithiol, yn enwedig o ran eu hawl i gamau unioni pan geir anghydfod. Rwy'n credu bod pawb sydd wedi ymddrin â'r sector rhentu preifat yn gwybod am achosion lle mae tenantiaid wedi cael anghydfodau gyda'u landlordiaid ac nad ydynt wedi gallu cael y gefnogaeth i ddatrys yr anghydfodau hynny. O ystyried nad yw hwn yn ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol a bod llawer o swyddogion tenantiaeth y sector preifat yr oedd awdurdodau lleol yn arfer eu cyflogi nad ydynt yno mwyach, pa ystyriaeth ydych chi wedi'i rhoi i ddarparu gwell prosesau unioni i denantiaid? Er enghraifft, a ydych chi wedi ystyried caniatáu i'r tribiwnlys eiddo preswyl gymrododdu mewn anghydfodau yn yr un modd ag y mae'n ei wneud yn Neddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, a gyflwynwyd gennyf fi, o ran yr agwedd benodol honno?

Yna, o ran yr agwedd olaf ar y Bil hwn, yr oeddwn yn awyddus i sôn amdani ar yr adeg hon, mae tudalen 32 o'r memorandwm esboniadol yn rhestru'r 29 o feini prawf a fyddai'n gwneud eiddo yn anaddas i bobl fyw ynddo, ac er bod peryglon carbon monocsid a thrydanol yn cael eu crybwyll, nid oes unrhyw sôn am archwiliadau rheolaidd neu hyd yn oed synwryddion carbon monocsid. Mae hyn wedi ei godi eisoes, wrth gwrs, gan Jocelyn Davies a Mike Hedges. A wnewch chi ystyried diwygio'r Bil i wneud y profion hyn yn orfodol ar sail bob pum mlynedd? A wnewch chi hefyd ystyried nodi bod synwryddion carbon monocsid yn agwedd orfodol ar wneud yn siŵr bod eiddo yn addas i fyw ynddo? Efallai nad ydych yn gwybod, Weinidog, gan nad chi oedd y Gweinidog pan ddaeth Deddf Tai (Cymru) 2014 drwy'r pwyllgor, bod hwn yn fater cryf iawn a godwyd gan nifer o dystion a chan Aelodau, ac, ar y pryd, cawsom sicrwydd y gallai hyn gael sylw yn y canllawiau sydd am gael eu darparu o dan y Ddeddf Tai honno. A ydych chi'n mynd i nodi hynny yn y canllawiau neu a ellir gwneud hyn drwy'r Ddeddf hon? A fydd rhywbeth yn cael ei wneud am y materion penodol hyn? Diolch yn fawr.

15:35

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Peter Black for his comments. You're quite right, I'm not surprised Jocelyn Davies didn't have time to read the Bill overnight. It is a very large Bill, but it's a very large Bill for a reason, and I'm sure Members will accept that. Your welcome remarks in relation to successions and joint tenancies and retaliatory evictions in ground 8 I've certainly noted. It will apply to new ones, but then it will be done in retrospect and we'll come up with a time limit in respect of that as we take the Bill forward. Your concerns around the six-months moratorium: I do think it's really important that I emphasise that local authorities, in discharging their duty to secure accommodation for applicants in priority need into the private rented sector, will still be required to provide a fixed-term contract of at least six months, so I hope that does reassure you in relation to that. I mentioned, in my answers to Mark Isherwood, the reasons why I thought it would provide more flexibility and certainly, it is, as I said, about getting the balance right for landlords and tenants, and maybe this part of it is more in favour of landlords, but there are other parts of the proposals that are more in favour of tenants.

Diolch i Peter Black am ei sylwadau. Rydych chi'n hollol iawn, dydw i ddim yn synnu nad oedd gan Jocelyn Davies amser i ddarllen y Bil dros nos. Mae'n Fil mawr iawn, ond mae'n Fil mawr iawn am reswm, ac rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n derbyn hynny. Rwyf yn sicr wedi nodi eich sylwadau ynglŷn ag olyniaeth a thenantiaethau ar y cyd a throi allan dialgar yn sail 8. Bydd yn berthnasol i rai newydd, ond yna bydd yn cael ei wneud yn ôl-weithredol a byddwn yn pennu terfyn amser ar gyfer hynny wrth i ni fwrw ymlaen â'r Bil. Eich pryderon am y moratoriwm chwe mis: Rwyf yn credu ei bod yn bwysig iawn fy mod yn pwysleisio y bydd yn dal i fod yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth gyflawni eu dyletswydd i sicrhau llety i ymgeiswyr ag angen blaenoriaethol yn y sector rhentu preifat, ddarparu contract cyfnod penodol o chwe mis o leiaf, felly gobeithiaf fod hyn yn tawelu eich meddwl ynglŷn â hynny. Soniais, yn fy atebion i Mark Isherwood, am y rhesymau pam yr oeddwn yn meddwl y byddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd ac yn sicr, y mae, fel y dywedais, yn ymwneud â sicrhau'r cydbwysedd cywir i landlordiaid a thenantiaid, ac efallai bod y rhan hon fwy o blaid landlordiaid, ond mae rhannau eraill o'r cynigion sy'n fwy o blaid tenantiaid.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

On the basis that you can't please all of the people all of the time, I think that's a balance that we will strike and ensure that—One of the things I want to make absolutely clear from this Bill is the roles and the responsibilities of both the tenants and the landlords, which I think at the moment—. You know, written contracts vary so much. In the private rented sector, there are literally hundreds of contracts being used, and I think it's really important that we have that continuity, that we'll just have the two model contracts, and, when I launched the Bill yesterday at the citizens advice bureau in Wrexham, the staff and the volunteers in the bureau said that one of the things that would help them is that there will be the same terms used across all the contracts, so that, when people go to them for advice and information, they feel that they'll be able to help them much more easily than at present.

You mentioned the three-year lease. What I'm proposing is that this is right for Wales, and this is right for Welsh circumstances. I am aware of what's being looked at by the UK Labour Party in England, and certainly, after they come to power in May, if that's what they bring forward, I'll be very happy to have a look at it. I think it's something that we would have to keep under review, and I'll be very interested to see how that goes forward.

I know that you feel that you would like to see a probationary period followed by a minimum one or two-year contract. It's something we've discussed and I think it's really important to remember that the vast majority of landlords do issue initial fixed-term contracts of at least six or 12 months, and I think that landlords actually want to keep their tenants as long as possible. When you look at people leaving tenancies, I think it's about 10% that's actually down to the landlord—90% of the time, it is down to the tenant—but it's something that we need to look at. I think we have to remember that Wales is part of a larger housing market, and I think it's really important that we do all we can to assist the market to make sure that—. People are constantly looking to the private rented sector for their housing needs. It's a growing sector; we think it may pass even the social housing sector in the not too distant future.

Daeth y Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) i'r Gadair am 15:39.

Lesley Griffiths [Bywgraffiad Biography](#)

Regarding disputes: dispute resolution in the Bill is through the courts, as at present, but I do recognise that alternative forms of dispute resolution and mediation could perhaps stop cases ending up in the court. I think it's something that potentially could be agreed by a landlord and tenant, and perhaps we could add it to the contract. That's certainly something that I'm very happy to look at.

Ar y sail na allwch chi blesio pawb drwy'r amser, rwy'n credu bod hwnnw'n gydbwysedd y byddwn yn ei daro gan sicrhau bod—. Un o'r pethau yr wyf am ei wneud yn gwbl gllir o'r Bil hwn yw swyddogaethau a chyfrifoldebau'r tenantiaid a'r landlordiaid, sydd ar hyn o bryd yn fy marn i—. Mae contractau ysgrifenedig yn amrywio cymaint. Yn y sector rhentu preifat, mae cannoedd o gontractau yn cael eu defnyddio, ac rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cael y dilyniant hwnnw, y bydd gennym y ddau gontract model yn unig, a phan lansiais y Bil ddoe yn y swyddfa Cyngor ar Bopeth yn Wrexham, dywedodd y staff a'r gwirfoddolwyr yn y ganolfan mai un o'r pethau a fyddai'n eu helpu yw bod yr un telerau yn cael eu defnyddio yn yr holl gontractau, er mwyn sicrhau, pan fydd pobl yn mynd atynt am gyngor a gwybodaeth, eu bod yn teimlo eu bod yn gallu eu helpu yn llawer haws nag ar hyn o bryd.

Roeddech chi'n sôn am y brydles tair blynedd. Rwy'n cynnig bod hyn yn iawn i Gymru, a bod hyn yn iawn i amgylchiadau Cymru. Rwyf yn ymwybodol o'r hyn sy'n cael ei ystyried gan Blaid Lafur y DU yn Lloegr, ac yn sicr, ar ôl iddynt ddod i rym ym mis Mai, os mai dyna beth fyddant yn ei gyflwyno, byddaf yn hapus iawn i gael golwg arno. Rwy'n credu ei fod yn rhywbeth y byddai'n rhaid i ni barhau i'w adolygu, a bydd gennyf ddiddordeb mawr mewn gweld sut y bydd hynny'n datblygu.

Gwn eich bod yn teimlo y byddech chi'n hoffi gweld cyfnod prawf wedi'i ddilyn gan gontract un neu ddwy flynedd o hyd o leiaf. Mae'n rhywbeth yr ydym ni wedi ei drafod ac rwyf yn meddwl ei bod yn wirioneddol bwysig i gofio bod y mwyafrif llethol o landlordiaid yn rhoi contractau cyfnod penodol cychwynnol o chwech neu 12 mis o leiaf, ac rwyf yn credu bod landlordiaid yn wir awyddus i gadw eu tenantiaid mor hir â phosibl. Pan eich bod yn ystyried y bobl sy'n gadael tenantiaethau, rwy'n credu mai tua 10% sydd o ganlyniad i benderfyniad y landlord—90% o'r amser, y tenant sy'n penderfynu gadael—ond mae'n rhywbeth y mae angen i ni ei ystyried. Rwy'n credu bod yn rhaid i ni gofio bod Cymru yn rhan o farchnad dai fwy o faint, ac rwyf yn credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gynorthwyo'r farchnad i wneud yn siŵr bod—. Mae pobl bob amser yn edrych ar y sector rhentu preifat ar gyfer eu hanghenion tai. Mae'n sector sy'n tyfu; rydym o'r farn y gallai fynd yn fwy hyd yn oed na'r sector tai cymdeithasol cyn bo hir iawn.

The Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) took the Chair at 15:39.

O ran anghydfodau: y modd o ddatrys anghydfod yn y Bil yw drwy'r llysoedd, fel y mae ar hyn o bryd, ond rwyf yn cydnabod y gallai ffurfiau eraill o ddatrys anghydfod a chyfryngu atal achosion rhag cyrraedd y llys. Rwy'n credu ei fod yn rhywbeth a allai o bosib gael ei gytuno gan landlord a thenant, ac efallai y gallem ei ychwanegu at y contract. Mae hynny'n sicr yn rhywbeth yr wyf yn fodlon iawn ei ystyried.

In relation to your last question, about compulsory testing of electrical equipment—and you mentioned several other aspects, and the criteria of the 29 hazards—again, I'm very happy to look at this as we go forward. It's not something I've considered putting in the Bill at this time, but, as we go through scrutiny, it's something that certainly we can have a look at.

O ran eich cwestiwn olaf, ynghylch profion gorfodol ar offer trydanol—a soniasoch am nifer o agweddau eraill, a meini prawf y 29 o beryglon—unwaith eto, rwy'n hapus iawn i ystyried hyn wrth inni symud ymlaen. Nid yw'n rhywbeth yr wyf wedi ystyried ei gynnwys yn y Bil ar hyn o bryd, ond, wrth i ni fynd drwy'r broses graffu, mae'n rhywbeth y gallwn yn sicr ei ystyried.

15:40

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Some of these points have been made already, as I'm sure you imagine, but I feel that a couple of them are important enough to reiterate. It was in February 2011 that the Communities and Culture Committee, which I chaired, published a report on the private rented sector, and the Welsh Government took on board many of those recommendations, and they did appear in the recent Housing (Wales) Bill. This is a much, much wider Bill in many ways, as you've said already, and it's addressing very varied and complex law that will cover housing associations, councils and private landlords. It is clear, I agree, that the law around renting needs to be simplified for both the sake of tenants and for landlords, but I would emphasise the point that you've made yourself, and many others have made—it has to be a balance. It has to be a balance of fairness between landlords and tenants, otherwise there will be an imbalance in the sector that will cause ongoing problems.

I certainly welcome the fact that, for example, domestic abusers can now be evicted without making the rest of the family homeless, and that landlords will have to provide a written agreement for tenants—something that the Communities and Culture Committee report called for. But when my committee took evidence in 2011, it was suggested that the private rented sector was often not the tenure of choice, simply because it did not offer security of tenure and accountability. While young people and migrants were happy with six and 12-month leases, evidence then suggested other tenants were concerned over what they saw as short-term leases, particularly those who wanted to stay in the area. So, again, you're looking at those—you've mentioned these areas—but, again, it is about balance, isn't it? I can see the need for further flexibility in the market for short-term renting, but I would not want it to result in increased evictions. You are aware of, as you said—and other people have raised—the concerns of Shelter and Citizens Advice over the proposals to end the so-called no-fault evictions in the first six months of tenancy. The reasons for the moratorium you have outlined, and outlined well, but I know that you met with Citizens Advice—I saw that happened yesterday—and I presume that you've met with Shelter. But I do hope that you will continue, because I heard something new there, I thought, in what you said. I'd have to check the Record to check that, but I hope you will continue with these very important parts of our—the voluntary sector supporting the housing sector. I do hope you will continue to talk to them about the way things are moving forward. I should say 'third sector' rather than 'voluntary'.

Mae rhai o'r pwyntiau hyn eisoes wedi eu gwneud, fel y gallwch ddychmygu, ond rwyf yn credu bod un neu ddau ohonynt yn ddigon pwysig i'w hailadrodd. Ym mis Diwefror 2011 cyhoeddodd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, yr oeddwn yn ei gadeirio, adroddiad ar y sector rhentu preifat, a derbyniodd Llywodraeth Cymru lawer o'r argymhellion hynny, ac fe wnaethant ymddangos ym Mil Tai (Cymru) yn ddiweddar. Mae hwn yn Fil llawer iawn ehangach, mewn sawl ffordd, fel yr ydych eisoes wedi'i ddweud, ac mae'n mynd i'r afael â chyfreithiau amrywiol a chymhleth iawn a fydd yn cwmpasu cymdeithasau tai, cynghorau a landlordiaid preifat. Mae'n amlwg, rwyf yn cytuno, bod angen i'r gyfraith ynghylch rhentu gael ei symleiddio er lles tenantiaid a landlordiaid, ond byddwn yn pwysleisio pwynt yr ydych wedi ei nodi eich hun, ac mae llawer o bobl eraill wedi ei nodi—mae'n rhaid bod cydbwysedd. Mae'n rhaid cydbwysu tegwch rhwng landlordiaid a thenantiaid, fel arall bydd anghydbwysedd yn y sector, a bydd hynny'n achosi problemau parhaus.

Rwyf yn sicr yn croesawu'r ffaith, er enghraifft, y gellir troi allan troseddwr cam-drin domestig bellach heb wneud gweddill y teulu'n ddigartref, ac y bydd yn rhaid i landlordiaid ddarparu cytundeb ysgrifenedig i denantiaid—rhywbeth yr oedd adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn galw amdano. Ond pan gasglodd fy mhwyllgor dystiolaeth yn 2011, awgrymwyd nad y sector rhentu preifat yn aml oedd y sector y byddai pobl yn ei ddewis, yn syml oherwydd nad oedd yn cynnig sicrwydd deiliadaeth ac atebolrwydd. Er bod pobl ifanc a mudwyr yn hapus gyda phrydlesu chwech a 12 mis, roedd y dystiolaeth bryd hynny yn awgrymu bod tenantiaid eraill yn pryderu am yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn brydlesu tymor byr, yn enwedig y rhai a oedd yn dymuno aros yn yr ardal. Felly, unwaith eto, rydych yn ystyried y rhain—rydych wedi crybwyll y meysydd hyn—ond, unwaith eto, mae'n ymwneud â sicrhau cydbwysedd, onid yw? Gallaf weld yr angen am hyblygrwydd ychwanegol yn y farchnad ar gyfer rhentu tymor byr, ond ni fyddwn am i hynny arwain at fwy o droi allan. Rydych yn ymwybodol, fel y dywedasoch—ac mae pobl eraill wedi eu codi—o bryderon Shelter a Chyngor ar Bopeth am y cynigion i roi terfyn ar yr hyn a elwir yn droi allan dim bai yn ystod chwe mis cyntaf y denantiaeth. Rydych wedi amlinellu'r rhesymau am y moratoriwm, ac wedi gwneud hynny'n dda, ond gwn eich bod wedi cyfarfod â Chyngor ar Bopeth—gwelais bod hynny wedi digwydd ddoe—ac rwyf yn rhagdybio eich bod wedi cyfarfod â Shelter. Ond rwyf yn gobeithio y byddwch yn parhau, oherwydd clywais rywbeth newydd yn y fan yna, rwyf yn credu, yn yr hyn a ddywedasoch. Byddai'n rhaid i mi edrych ar y Cofnod i wirio hynny, ond rwyf yn gobeithio y byddwch yn parhau â'r rhannau pwysig iawn hyn o'n—y sector gwirfoddol yn cefnogi'r sector tai. Rwyf wir yn gobeithio y byddwch yn parhau i siarad â nhw ynglŷn â'r ffordd y mae pethau'n symud yn eu blaenau. 'Trydydd sector' ddylwn i ddweud yn hytrach na 'gwirfoddol'.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Many people have mentioned the call by Electrical Safety First, and I am pleased again that you have said that you know about it, you are aware of it. Would it be much trouble for you, Minister, to respond to those who've raised this particular issue? Could you respond to say how, perhaps, you will be taking their issues forward, if this is possible?

Mae llawer o bobl wedi sôn am yr alwad gan Electrical Safety First, ac rwyf yn falch unwaith eto eich bod wedi dweud eich bod yn gwybod am hynny, eich bod yn ymwybodol ohono. A fyddai'n drafferth fawr i chi, Weinidog, i ymateb i'r rhai sydd wedi codi'r mater penodol hwn? A wnewch chi ymateb i ddweud sut, efallai, y byddwch chi'n bwrw ymlaen â'r materion hyn, os yw hyn yn bosibl?

15:43

Lesley Griffiths [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Sandy Mewies for her comments and questions, and I'll reiterate again that it's very important that we get the balance right, both for tenants and landlords, and that both are very clear what their role, responsibility and rights are. The whole point of this Bill is to simplify things and make it fairer.

In relation to contracts, as I said, a written contract is not currently required as part of a tenancy or a licence, and, even when written contracts are issued, as I mentioned in my answer to Peter Black, even within the private rented sector—and I'm sure many Assembly Members are now part of the private rented sector—if you change properties, you get a completely different written contract, so it's really important that we standardise those so that everybody understands, again, their rights and their responsibilities.

I think it is important that we have flexibility, but, like you, I certainly don't want to see an increase in evictions. Certainly, when you meet people who tell you that they can't get into the privately rented sector, or they see, as Jocelyn Davies said, 'No DSS'. It's very difficult for these people to get properties, or they end up in very poor-quality housing. So, this is why I think it's really important that we help landlords as much as we can to, perhaps, offer a contract to somebody that they would have deemed high risk. I certainly have met with Shelter; the last time was just before we came into the Chamber at lunchtime today. I understand their concerns and I'm very happy to work with them and to listen to what they're telling me. I have to say that Citizens Advice thought we were making the right decision regarding the sixth-month moratorium—the people I spoke to yesterday within Citizens Advice, that is.

As I mentioned, my officials have already met with the Electrical Safety Council, and we are looking at how we can work through what they're suggesting, and certainly what Peter Black was mentioning also in the previous committee, which I think you chaired; you are right, many of those things are now in the Housing (Wales) Act 2014, but this is about the rented sector, and we'll certainly see what recommendations we can take forward from that report.

Diolch i Sandy Mewies am ei sylwadau a'i chwestiynau, a byddaf yn ailadrodd unwaith eto ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cael y cydbwysedd cywir, ar gyfer tenantiaid a landlordiaid, a bod y ddwy ochr yn deall yn iawn beth yw eu swyddogaethau, eu cyfrifoldebau a'u hawliau. Holl bwynt y Bil hwn yw symleiddio pethau a darparu gwell tegwch.

O ran contractau, fel y dywedais, nid oes angen contract ysgrifenedig ar hyn o bryd fel rhan o denantiaeth neu drwydded, a, hyd yn oed pan ddarperir contractau ysgrifenedig, fel y soniais yn fy ateb i Peter Black, hyd yn oed o fewn y sector rhentu preifat—ac rwy'n siŵr bod llawer o Aelodau'r Cynulliad bellach yn rhan o'r sector preifat—os byddwch yn newid eiddo rhent, byddwch yn cael contract ysgrifenedig hollol wahanol, felly mae'n wirioneddol bwysig ein bod yn safoni'r contractau hynny fel bod pawb yn deall, unwaith eto, eu hawliau a'u cyfrifoldebau.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod gennym hyblygrwydd, ond, fel chithau, nid wyf yn bendant eisiau gweld achosion o droi allan yn cynyddu mewn. Yn sicr, pan fyddwch yn cwrdd â phobl sy'n dweud wrthyf nad ydynt yn gallu cael mynediad i'r sector rhentu preifat, neu eu bod yn gweld, fel y dywedodd Jocelyn Davies, 'Dim Hawlwyr Budd-daliadau', mae'n anodd iawn i'r bobl hyn gael eiddo neu maent yn y pen draw yn mynd i dai o ansawdd gwael iawn. Felly, dyma pam yr wyf o'r farn ei bod yn bwysig iawn ein bod yn helpu cymaint ag y gallwn ar landlordiaid i, efallai, gynnig contract i rywun y byddent wedi ei ystyried fel bod yn risg uchel. Rwyf yn sicr wedi cwrdd â Shelter; y tro diwethaf oedd ychydig cyn i ni ddod i mewn i'r Siambr amser cinio heddiw. Rwyf yn deall eu pryderon ac rwy'n hapus iawn i weithio gyda nhw ac i wrando ar yr hyn y maent yn ei ddweud wrthyf. Mae'n rhaid i mi ddweud bod Cyngor ar Bopeth o'r farn ein bod yn gwneud y penderfyniad cywir ynghylch y moratoriwm o chwe mis—y bobl y siaradais i â nhw ddoe o Gyngor ar Bopeth, hynny yw.

Fel y soniais, mae fy swyddogion eisoes wedi cyfarfod â'r Cyngor ar Ddiogelwch Trydan, ac rydym yn ystyried sut y gallwn weithio trwy'r hyn y maent yn ei awgrymu, ac yn sicr yr hyn yr oedd Peter Black yn sôn amdano hefyd yn y pwyllgor blaenorol, y credaf i chi ei gadeirio; rydych yn iawn, mae llawer o'r pethau hynny bellach yn Neddf Tai (Cymru) 2014, ond mae hyn yn ymwneud â'r sector rhentu, a byddwn yn sicr yn gweld pa argymhellion y gallwn fwrw ymlaen â nhw o'r adroddiad hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I think, to set the record straight, that it is the case that private landlords have never had it so good. There is a record low interest rate; there are record high rents, doubling in my area; record demand, which is driving that up; welfare cuts; repossessions; Right to Buy; and the sector has absolutely boomed in the last few years. But, it is also likely to continue to grow. And what this is about today is making sure that it does so in a sustainable way—sustainable for those landlords and sustainable for those tenants—and I hope that this Bill will achieve a balance between fairness, the rights and the duties of both sets of people. At the moment, landlords are in a considerable position of strength, and we can't really pretend otherwise, but at the same time, what we must do, and I know that the intention of this Bill is to do it, is to encourage the majority of those very good landlords whilst at the same time weeding out the rogue landlords that do indeed abuse their power.

I won't mention again, only in passing, the six-month moratorium; I think that you have addressed that in part. What I do want to mention, and welcome, is the Bill's provision that will evict domestic abusers rather than those who have been abused. I really do welcome this, because it will save individuals from considerable misery. Very often, they lose their home, they will then lose their jobs and their children will also lose their right to be in the school that they are currently occupying. I know that we can't do this in every case; I know that it will come with a real, serious look at whether that is safe in that instance, and I'd like some assurances that that will be done, Minister, and that all of the agencies involved in domestic abuse, whoever they are, are fully up to speed with these changes when they come in, so that they don't give the wrong advice.

I would also like to ask a question about regulation and inspection. It's all very well and good—and Peter did mention this early on—having rules and having regulations to make homes better for people, but if the inspection isn't going to happen and if it doesn't take place, I'm not sure that the tenants will realise what we are trying to afford them.

I am going to mention again, just for the record, the Electrical Safety Council. I'm going to do it because I represent a rural area. You will find mostly in rural areas that they are off-gas, so their main source of energy will be electricity. So, it is absolutely critical. I'm also going to mention carbon monoxide detectors. I moved into a flat and I had a boiler in my flat that was two years and one month old. It had been installed wrongly, and I felt ill and I guessed straight away what was going on, because I am aware. And I was right—it was condemned immediately when I called somebody out. I knew; there will be people out there who will not know.

Rwyf yn credu, er mwyn gwneud pethau'n glir, ei bod yn wir nad yw landlordiaid preifat erioed wedi bod mewn sefyllfa mor dda. Mae cyfraddau llog ar y lefelau isaf erioed; mae rhenti yn uwch nag erioed o'r blaen, gan ddyblu yn fy ardal i; mwy o alw nag erioed, sy'n sbarduno hynny; toriadau lles; adfeddiannu; Hawl i Brynu; ac mae'r sector wedi ffynnu'n aruthrol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Ond, mae hefyd yn debygol o barhau i dyfu. A'r hyn yr ydym ni'n ei wneud heddiw yw gwneud yn siŵr ei fod yn gwneud hynny mewn modd cynaliadwy—cynaliadwy ar gyfer y landlordiaid hynny a chynaliadwy ar gyfer y tenantiaid hynny—ac rwyf yn gobeithio y bydd y Bil hwn yn sicrhau cydbwysedd rhwng tegwch, hawliau a dyletswyddau i'r ddau grŵp o bobl. Ar hyn o bryd, mae landlordiaid mewn sefyllfa eithaf cryf, ac ni allwn gymryd arnom mewn gwirionedd nad yw hynny'n wir, ond ar yr un pryd, yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud, a gwn mai bwriad y Bil hwn yw gwneud hynny, yw annog y rhan fwyaf o'r landlordiaid da iawn hynny ac ar yr un pryd cael gwared ar y landlordiaid twyllodrus sydd wir yn camddefnyddio eu grym.

Ni wnaaf sôn eto, dim ond yn fyr, y moratorïwm chwe mis; rwyf yn meddwl eich bod wedi mynd i'r afael â hwnnw yn rhannol. Yr hyn yr wyf eisiau sôn amdano, a'i groesawu, yw'r ddarpariaeth yn y Bil a fydd yn troi allan troseddwr cam-drin domestig yn hytrach na'r rhai sydd wedi cael eu cam-drin. Rwyf wir yn croesawu hyn, oherwydd bydd yn atal unigolion rhag dioddef cryn ddigalondid. Yn aml iawn, maent yn colli eu cartref, maent wedyn yn colli eu swyddi a bydd eu plant hefyd yn colli eu hawl i fod yn yr ysgol y maent ynddi ar y pryd. Gwn na allwn wneud hyn ym mhob achos; gwn y bydd yn cynnwys ystyriaeth wirioneddol a difrifol i weld a yw hynny'n ddiogel yn yr achos hwnnw, a hoffwn gael rhywfaint o sicrwydd y bydd hynny'n cael ei wneud, Weinidog, ac y bydd pob un o'r asiantaethau sy'n ymwneud â materion cam-drin domestig, pwy bynnag ydyn nhw, yn gwbl ymwybodol o'r newidiadau diweddaraf hyn pan fyddant yn dod i rym, fel nad ydynt yn rhoi'r cyngor anghywir.

Hoffwn hefyd ofyn cwestiwn am reoleiddio ac arolygu. Un peth—a chrybwyllodd Peter hyn yn gynharach—yw cael rheolau a chael rheoliadau i wneud cartrefi'n well i bobl, ond os nad yw'r arolygiad yn mynd i ddigwydd ac os na fydd yn cael ei gynnal, nid wyf yn siŵr y bydd y tenantiaid yn sylweddoli yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud drostynt.

Rwyf yn mynd i grybwyll unwaith eto, dim ond ar gyfer y cofnod, y Cyngor ar Ddiogelwch Trydan. Rwyf yn mynd i wneud hynny am fy mod yn cynrychioli ardal wledig. Fe welwch, mewn ardaloedd gwledig, nad yw pobl ar y grid nwy fel arfer, felly eu prif ffynhonnell ynni fydd trydan. Felly, mae'n gwbl hanfodol. Rwyf hefyd yn mynd i sôn am synwryddion carbon monocsid. Symudais i fflat ac roedd gennyf foeler yn fy fflat a oedd yno ers dwy flynedd a mis. Roedd wedi ei osod yn anghywir, ac roeddwn yn teimlo'n sâl a dyfalais ar unwaith beth oedd yn digwydd, oherwydd fy mod i'n ymwybodol. Ac roeddwn yn iawn—cafodd ei gondemnio ar unwaith pan alwais ar rywun i ddod yno. Roeddwn i'n gwybod; bydd pobl allan yn y byd mawr na fydd yn gwybod.

The other question I want to ask, Minister, is on the other issue that happens very often in some places—the issue of overcrowding or hot-bedding for contract workers. Very often, on paper, you seem to have six people being let rooms; in fact, there are 12 people there. And in terms of shared housing, where there are no clear contracts, are we going to do something about that, because, increasingly, it is the case that for people to afford anything in the rented sector, they are being offered a room in a house and they are sharing that house and sharing the expense, but if one person moves out, everybody else has to move out, because there is no actual contract to allow those people who are left to afford their stay.

Y cwestiwn arall yr wyf am ei ofyn, Weinidog, yw ar y mater arall sy'n digwydd yn aml iawn mewn rhai mannau—y mater o orlenwi neu weithwyr contract yn defnyddio yr un gwely ar wahanol adegau. Yn aml iawn, ar bapur, mae'n ymddangos bod chwech o bobl yn rhentu ystafelloedd; ond mewn gwirionedd, mae 12 o bobl yno. Ac o ran tai a rennir, pan nad oes contractau clir, a ydym ni'n mynd i wneud rhywbeth am hynny, oherwydd, yn gynyddol, mae'n wir er mwyn i bobl allu fforddio unrhyw beth yn y sector rhent, maent yn cael cynnig ystafell mewn tŷ ac maent yn rhannu'r tŷ hwnnw ac yn rhannu'r gost, ond os bydd un person yn symud allan, mae'n rhaid i bawb arall symud allan, gan nad oes contract mewn gwirionedd i ganiatáu i'r bobl hynny sy'n cael eu gadael ar ôl i allu fforddio aros.

15:51

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Joyce Watson, for those questions and comments. You are right; the private rented sector has increased hugely, and as I previously stated, we do think that it will pass the social housing sector for renting homes in the not-too-distant future, so it certainly is a growing business and part of the sector that is rapidly increasing. So, it is right; I'll go back to what I said about getting the balance between the rights and responsibilities of both tenants and landlords. The majority of landlords are good landlords, but we know we do have some rogue landlords and we do want to address the problems that can come forward. And I think one of the ways is by having that standard written contract, rather than, you know, the myriad of written contracts that we have at the moment, and sometimes no contracts at all—just a verbal contract—so how does a tenant know about their rights and responsibilities if they haven't even got a contract in writing?

I very much welcome your comments regarding removing the perpetrator from a property. One of the things I've certainly come across in my own casework is where I've had a victim of domestic abuse who would not leave the abusive relationship because she did not want to leave the house. So, by this way, we can ensure that it's the perpetrator that's removed, and that the victim and—if there are any—children can stay in the home. I think that's a very strong message that is coming out of the Bill, and something that's been very much welcomed. It also complements the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill, I think, and it's really important that those, where possible, can dovetail in relation to how agencies will know about the new Act, when it becomes an Act after its successful passage through the Assembly. That's something that I will be able to take forward with the Minister for Public Services.

I hear what you're saying about the Electrical Safety Council, and as I said, my officials have already met with them.

Diolch i chi, Joyce Watson, am y cwestiynau a'r sylwadau yna. Rydych chi'n iawn; mae'r sector rhentu preifat wedi cynyddu'n aruthrol, ac fel y dywedais o'r blaen, rydym yn credu y bydd yn mynd yn fwy na'r sector tai cymdeithasol ar gyfer rhentu cartrefi cyn bo hir iawn, felly mae'n sicr yn fusnes sy'n tyfu ac yn rhan o'r sector sy'n cynyddu'n gyflym. Felly, mae'n iawn; byddaf yn mynd yn ôl at yr hyn a ddywedais am gael cydbwysedd rhwng hawliau a chyfrifoldebau tenantiaid a landlordiaid. Mae'r rhan fwyaf o landlordiaid yn landlordiaid da, ond gwyddom fod gennym rai landlordiaid twyllodrus, ac rydym yn awyddus i fynd i'r afael â'r problemau a all ddod i'r amlwg. Ac rwyf yn credu mai un o'r ffyrdd o wneud hyn yw trwy gael y contract ysgrifenedig safonol hwnnw, yn hytrach na, wyddoch chi, y myrdd o gontractau ysgrifenedig sydd gennym ar hyn o bryd, ac weithiau dim contractau o gwbl—dim ond contract ar lafar—felly sut mae tenant yn gwybod am ei hawliau a'i gyfrifoldebau os nad yw wedi cael contract ysgrifenedig hyd yn oed?

Rwyf yn croesawu'n fawr eich sylwadau ynghylch cael gwared ar y troseddwr o eiddo. Un o'r pethau yr wyf i yn sicr wedi dod ar ei draws yn fy ngwaith achos fy hun yw pan na fydd rhywun sy'n dioddef cam-drin domestig yn fodlon gadael y berthynas gamdriniol oherwydd nad oedd eisiau gadael y tŷ. Felly, wrth wneud hyn, gallwn sicrhau mai'r troseddwr sy'n cael ei droi allan, a bod y dioddefwr—ac os oes rhai—unrhyw blant yn aros yn y cartref. Rwy'n credu bod honno yn neges gref iawn sy'n dod allan o'r Bil, ac yn rhywbeth sydd wedi ei groesawu yn fawr. Mae hefyd yn ategu Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn fy marn i, ac mae'n bwysig iawn bod y rheini, pan fo hynny'n bosibl, yn gallu cydweddu o ran sut y bydd asiantaethau yn gwybod am y Ddeddf newydd, pan fydd yn dod yn Ddeddf ar ôl ei thaith lwyddiannus drwy'r Cynulliad. Mae hwnnw'n rhywbeth y byddaf yn gallu bwrw ymlaen ag ef gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rwyf yn derbyn yr hyn yr ydych yn ei ddweud am y Cyngor ar Ddiogelwch Trydan, ac fel y dywedais, mae fy swyddogion eisoes wedi cyfarfod â hwy.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In relation to carbon monoxide detectors, I think that's something we can certainly look at. I know that in my previous portfolio I worked, and I know that the Minister for Public Services is now working, with fire and rescue authorities on a piece of work that the fire and rescue authorities are doing. Whereas I think most houses now have smoke detectors, we were looking at putting carbon monoxide detectors in, because I think that is an area where people aren't aware of the risks perhaps as much as they should be.

O ran synwryddion carbon monocsid, rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth y gallwn yn sicr ei ystyried. Gwn fod mod wedi gweithio, yn rhan o fy mhorthfollo blaenorol, a gwn fod y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus bellach yn gweithio, gydag awdurdodau tân ac achub ar ddarn o waith y mae awdurdodau tân ac achub yn ei wneud. Er fy mod yn credu bod gan y rhan fwyaf o dai synwryddion mwg erbyn hyn, rydym yn ystyried rhoi synwryddion carbon monocsid i mewn, oherwydd rwyf yn credu bod hwn yn faes lle nad yw pobl mor ymwybodol o'r risgiau ag y dylent fod efallai.

In relation to houses in multiple occupation, that's not something that we're looking at in the Bill at the current time, but a couple of things have been raised with me that I'm very happy to look at, and I will take on the points that the Member raised with me.

O ran amfeddiannaeth tai, nid yw hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei ystyried yn y Bil ar hyn o bryd, ond mae un neu ddau o bethau wedi eu codi gyda mi yr wyf yn fodlon iawn eu hystyried, a byddaf yn rhoi sylw i'r pwyntiau a gododd yr Aelod gyda mi.

15:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:54 **5. Datganiad: Datganoli Trethi yng Nghymru—Ymgynghoriad ar Dreth Trafodiad Tir**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move on to item 5, which is a statement by the Minister for Finance and Government Business on tax devolution in Wales—consultation on land transaction tax. I call on the Minister to make the statement.

5. Statement: Tax Devolution in Wales—Consultation on a Land Transaction Tax

Symudwn ymlaen nawr at eitem 5, sef datganiad gan Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar ddatganoli trethi yng Nghymru—ymgynghoriad ar dreth trafodiadau tir. Galwaf ar y Gweinidog i wneud y datganiad.

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:54 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Diolch, Lywydd. I am pleased to launch today a consultation on a land transaction tax that will replace UK stamp duty land tax from April 2018—one of the first new Welsh taxes for 800 years. This is the second of three consultations that will inform the legislative programme for tax devolution, following the White Paper on the collection and management of devolved Welsh taxes, which I issued in September last year.

Diolch, Lywydd. Mae'n bleser gennyf lansio ymgynghoriad heddiw ar dreth trafodiadau tir a fydd yn disodli treth tir toll stamp y DU o fis Ebrill 2018 ymlaen—un o drethi newydd cyntaf Cymru ers 800 mlynedd. Dyma'r ail o dri ymgynghoriad a fydd yn llywio'r rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer datganoli treth, yn dilyn y Papur Gwyn ar gasglu a rheoli trethi datganoledig Cymru, a gyhoeddais ym mis Medi y llynedd.

With the passage of the Wales Act 2014 in December, this Assembly has been given a range of important new fiscal powers to help manage our finances and to use as policy levers to help boost the economy of this country. It also gives significant new responsibilities to the people of Wales, which we must exercise carefully and responsibly. Balancing the need to maintain vital public services with the responsibility to manage our new taxation powers will be vital. I am determined to ensure that everyone in Wales has an opportunity to contribute to the debate—whether as an individual through the public consultations or through an advisory group or other forums that help to define and inform the choices open to us.

Ers pasio Deddf Cymru 2014 ym mis Rhagfyr, mae'r Cynulliad hwn wedi cael ystod o bwerau cyllidol newydd pwysig i helpu i reoli ein cyllid ac i'w defnyddio fel ysgogiadau polisi i helpu i roi hwb i economi'r wlad hon. Mae hefyd yn rhoi cyfrifoldebau newydd sylweddol i bobl Cymru, ac mae'n rhaid inni eu harfer yn ofalus ac yn gyfrifol. Bydd yn hanfodol ein bod yn cydbwyso'r angen i gynnal gwasanaethau cyhoeddus hanfodol â'r cyfrifoldeb i reoli ein pwerau trethi newydd. Rwy'n benderfynol o sicrhau bod pawb yng Nghymru'n cael cyfle i gyfrannu at y ddatl—boed hynny fel unigolyn drwy'r ymgynghoriadau cyhoeddus neu drwy grŵp cyngori neu fforymau eraill sy'n helpu i ddiffinio a llywio'r dewisiadau sydd ar gael inni.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Alongside the implementation of the Wales Act powers, I am continuing to press for further financial reforms, in line with the motion agreed by all parties in this Chamber last October. Through the UK Government's St David's Day process, led by the Secretary of State for Wales, I am seeking a Barnett floor that will deliver fair funding for Wales, devolution of air passenger duty, a higher ceiling for borrowing and bond-issuing powers.

I have especially welcomed the devolution of stamp duty land tax via the Wales Act. In the aftermath of the Silk commission's report, which recommended that this tax should come to Wales, there has been widespread interest from those involved in the construction and sale of houses to meet housing need more effectively by replacing the UK tax with something better suited to the needs of Wales.

When I announced my principles for Welsh taxes, I highlighted the need to develop taxes that are fair to people, businesses, and which support growth and jobs, which in turn will help tackle poverty and sustain communities. In the development of my consultation document, I have actively sought the views of a wide range of stakeholders to help identify the key issues, to help inform the Welsh Government's analysis, and to help shape the range of solutions that we might pursue.

I would like to put on record my thanks to the members of my tax advisory group, tax forum, and technical experts group, who have all worked hard to ensure that the consultation document asks the questions that need to be tackled, and presents a range of solutions that are realistic and practical. Together, those groups comprise a vast array of expertise and wide interests: tax experts, practitioners and internationally recognised academics, representatives of business, the third sector and social partners. Their contribution has been invaluable. But, of course, that is just the preparatory work. Today I am asking you, the Members of this Assembly, your constituents, and businesses the length and breadth of Wales for your views on how we should shape the new tax. This is an issue for house buyers, sellers and builders, it concerns conveyancers, and the many thousands of employers in Wales who pay for leases or purchase property in Wales.

The document sets out a number of ways in which we could reshape the tax to fit Welsh circumstances. One of the longstanding major flaws in UK residential stamp duty land tax was addressed by the UK Government in its 2014 autumn statement. The old so-called 'slab' approach meant that there were dramatic jumps in the amount of tax that was due when house prices moved from one tax band to another. This issue was particularly acute in the residential market, where these sharp changes in tax liabilities occurred at price levels where large numbers of house purchases take place. This was bad for many home buyers and sellers, and bad for house builders. Time and again, the initial discussions here in Wales highlighted the unhelpful side effects of this approach, and those views were made clear to the UK Government. The case made in Wales has clearly contributed positively to this change in UK policy.

Ochr yn ochr â rhoi pwerau Deddf Cymru ar waith, rwyf yn parhau i bwysu am ddiwygiadau ariannol pellach, yn unol â'r cynnig y cytunodd pob plaid arno yn y Siambr hon fis Hydref diwethaf. Drwy broses Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth y DU, dan arweiniad Ysgrifennydd Gwladol Cymru, rwyf yn ceisio llawr Barnett a fydd yn darparu cyllid teg i Gymru, yn datganoli toll teithwyr awyr, ac yn rhoi nenfwd uwch ar gyfer pwerau benthyca a chyhoeddi bondiau.

Rwyf wedi croesawu'n arbennig datganoli treth dir y doll stamp drwy gyfrwng Deddf Cymru. Yn dilyn adroddiad comisiwn Silk, a oedd yn argymhell y dylai'r dreth hon ddod i Gymru, bu diddordeb eang ymhlith pobl sy'n ymwneud ag adeiladu a gwerthu tai i ddiwallu'r angen am dai yn fwy effeithiol drwy ddisodli treth y DU a chael rhywbeth mwy addas i anghenion Cymru.

Pan gyhoeddais fy egwyddorion ar gyfer trethi Cymru, tynnais sylw at yr angen i ddatblygu trethi sy'n deg i bobl a busnesau, ac sy'n hybu twf a swyddi, rhywbeth a fydd yn ei dro yn helpu i drechu tlodi a chynnal cymunedau. Wrth ddatblygu fy nogfen ymgynghori, rwyf wedi mynd ati i geisio barn amrywiaeth eang o randdeiliaid i helpu i nodi'r materion allweddol, i helpu i lywio dadansoddiad Llywodraeth Cymru, ac i helpu i lunio'r ystod o atebion y gallem eu hystyried.

Hoffwn gofnodi fy niolch i aelodau fy ngrŵp cynghori trethi, y fforwm trethi, a'r grŵp o arbenigwyr technegol, sydd i gyd wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y ddogfen ymgynghori'n gofyn y cwestiynau y mae angen mynd i'r afael â hwy, ac yn cyflwyno amrywiaeth o atebion sy'n realistig ac yn ymarferol. Gyda'i gilydd, mae gan y grwpiau hynny amrywiaeth helaeth o arbenigedd a diddordebau eang: arbenigwyr treth, ymarferwyr ac academyddion a gydnabyddir yn rhyngwladol, cynrychiolwyr busnes, y trydydd sector a phartneriaid cymdeithasol. Mae eu cyfraniad wedi bod yn amhrisiadwy. Ond, wrth gwrs, dim ond y gwaith paratoi yw hwnnw. Heddiw, rwyf yn gofyn i chi, Aelodau'r Cynulliad hwn, i'ch etholwyr, ac i fusnesau ar hyd a lled Cymru am eich barn ar sut y dylem lunio'r dreth newydd. Mae hwn yn fater i brynwyr, gwerthwyr ac adeiladwyr tai, mae'n ymwneud â throsgludiaethwyr, ynghyd â'r miloedd lawer o gyflogwyr yng Nghymru sy'n talu am brydlesi neu'n prynu eiddo yng Nghymru.

Mae'r ddogfen yn nodi nifer o ffyrdd y gallem ail-lunio'r dreth i gyd-fynd ag amgylchiadau Cymru. Cafodd un o'r diffygion mawr hirsefydlog yn nhreth dir y doll stamp breswyl yn y DU sylw gan Lywodraeth y DU yn ei datganiad yr hydref 2014. Roedd yr hen ddull a elwir yn ddull 'slab' yn golygu neidiau dramatig yn swm y dreth a oedd yn ddyledus pan fyddai prisiau tai'n symud o un band treth i un arall. Roedd y mater hwn yn arbennig o ddifrifol yn y farchnad breswyl, lle'r oedd y newidiadau sydyn hyn mewn atebolrwydd treth yn digwydd ar lefelau prisiau lle mae niferoedd mawr o dai'n cael eu prynu. Nid oedd hyn yn dda i lawer o brynwyr a gwerthwyr cartrefi, nac i adeiladwyr tai. Dro ar ôl tro, bu'r trafodaethau cychwynnol yma yng Nghymru'n tynnu sylw at sgil effeithiau anffodus y dull hwn, a gwnaethpwyd y safbwyntiau hynny'n glir i Lywodraeth y DU. Mae'n amlwg bod yr achos a wnaethpwyd yng Nghymru wedi cyfrannu'n gadarnhaol at y newid hwn i bolisi'r DU.

Developments in Scotland, with their new land and buildings transaction tax, show us that a tax can be developed in the spirit of the tax it is designed to replace but still have some very different characteristics. For example, the rates and bands of tax that are levied do not have to be the same. I am sure this will be a feature of land transaction tax that many people will be most interested in. Again, we are interested in receiving views through our consultation on what rates and bands might be appropriate for Wales.

The experience in Scotland also highlights how important it will be to announce the rates and bands of the tax much closer to the implementation date in 2018. The property market and the tax it will replace can all change quickly and radically, so any announcements on rates and bands made today may become outdated and unsuitable for Wales way before they even apply. In Scotland, two sets of bands and rates have been announced and their tax is not even running yet. Therefore, this is an issue that should not be decided now but during the next Assembly term.

In developing the new Welsh taxes, I am seeking clear rules and simplicity, as I have set out in my tax principles. While these will help to minimise the cost of compliance and administration, they will also help reduce the opportunities for tax avoidance and tax evasion. Our taxes help pay for the public services that our communities and businesses depend on, but while most of us pay the taxes that are due, there will always be a minority who will seek to avoid payment. In my book, that is totally unacceptable. Yesterday, in my written statement on the responses to the White Paper on the collection and management of devolved taxes in Wales, I announced that I would develop a Welsh tax avoidance rule. The scope and nature of this rule will be developed in light of the responses received through this consultation, the land disposal tax consultation, and comments we have already received through our previous White Paper on the collection and management of devolved taxes in Wales. The approach we take will also consider and draw on the experiences of elsewhere, such as the UK general anti-abuse rule and the Scottish general anti-avoidance rule. However, it will be important to learn from the experience and knowledge of those interacting with the devolved taxes when considering how widely to apply this rule.

Mae datblygiadau yn yr Alban, gyda'u treth trafodiadau tir ac adeiladau newydd, yn dangos inni y gellir datblygu treth yn ysbryd y dreth y'i cynlluniwyd i'w disodli, ond gan roi rhai nodweddion gwahanol iawn iddi. Er enghraifft, nid oes rhaid i'r cyfraddau a'r bandiau treth a godir fod yr un fath. Rwyf yn sicr y bydd hyn yn un o'r nodweddion treth trafodiadau tir y bydd o fwyaf o ddiddordeb i lawer o bobl. Unwaith eto, mae gennym ddiddordeb mewn derbyn barn drwy ein hymgyngoriad am ba gyfraddau a bandiau a allai fod yn briodol i Gymru.

Mae'r profiad yn yr Alban hefyd yn amlgu pa mor bwysig fydd cyhoeddi cyfraddau a bandiau'r dreth yn llawer agosach at ddyddiad eu rhoi ar waith yn 2018. Gall y farchnad eiddo a'r dreth y bydd yn ei disodli i gyd newid yn gyflym ac yn sylfaenol, felly gall unrhyw gyhoeddiadau am gyfraddau a bandiau a wneir heddiw fynd yn hen-ffasiwn ac yn anaddas i Gymru ymhell cyn iddynt ddod i rym hyd yn oed. Yn yr Alban, mae dwy gyfres o fandiau a chyfraddau wedi eu cyhoeddi ac nid yw eu treth nhw hyd yn oed ar waith eto. Felly, mae hwn yn fater na ddylid ei benderfynu yn awr ond yn ystod tymor nesaf y Cynulliad.

Wrth ddatblygu trethi newydd Cymru, hoffwn weld rheolau clir a symlrwydd, fel yr wyf wedi'i nodi yn fy egwyddorion treth. Bydd y rhain yn helpu i leihau cost cydymffurfio a gweinyddu, ond byddant hefyd yn helpu i leihau'r cyfleoedd i osgoi trethi ac efnid trethi. Mae ein trethi'n helpu i dalu am y gwasanaethau cyhoeddus y mae ein cymunedau a'n busnesau'n dibynnu arnynt, ond er bod y rhan fwyaf ohonom yn talu'r trethi sy'n ddyledus, bydd bob amser leiafrif a fydd yn ceisio osgoi talu. I mi, mae hynny'n gwbl annerbyniol. Ddoe, yn fy natganiad ysgrifenedig am yr ymatebion i'r Papur Gwyn ar gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru, cyhoeddais y byddwn yn datblygu rheol osgoi trethi i Gymru. Caiff cwrpas a natur y rheol hon eu datblygu yng ngoleuni'r ymatebion a dderbynnir drwy'r ymgynghoriad hwn, yr ymgynghoriad treth gwaredu tir, a sylwadau yr ydym eisoes wedi'u derbyn drwy ein Papur Gwyn blaenorol ar gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru. Bydd y dull gweithredu a ddefnyddiwn hefyd yn ystyried profiadau mewn manau eraill ac yn manteisio arnynt, megis rheol gyffredinol y DU yn erbyn cam-drin a rheol gyffredinol yr Alban yn erbyn osgoi. Fodd bynnag, bydd yn bwysig dysgu o brofiad a gwybodaeth y bobl hynny sy'n rhyngweithio â'r trethi datganoledig wrth ystyried pa mor eang i ddefnyddio'r rheol hon.

Therefore, through the consultation I am launching today, I am seeking evidence on the main avoidance challenges in relation to the current stamp duty land tax and their considerations for a future land transaction tax. This will inform the development of the Welsh tax avoidance rule. Finally, in my first Treasury paper published in December, I outlined my commitment to making devolution work for all of Wales, with outcomes and benefits that include: taxes better fitted to meet our needs; a greater choice of policy options; a more accountable relationship between the Welsh Government and the people of Wales; greater flexibility and capability with financial tools and/or levers; improved organisational knowledge and effectiveness for the Welsh Government; and better informed decision making to seek the common good. The consultation on land transaction tax will be open and wide-ranging. This is another important step forward on the road to Welsh taxes, and I encourage a widespread response to this consultation.

Felly, drwy'r ymgynghoriad yr wyf yn ei lansio heddiw, rwyf yn ceisio tystiolaeth am y prif heriau o ran osgoi treth dir y doll stamp bresennol a'u meddyliau am dreth trafodiadau tir yn y dyfodol. Bydd hyn yn llywio datblygiad y rheol osgoi treth yng Nghymru. Yn olaf, yn fy mhapur Trysorlys cyntaf a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, amlinellais fy ymrwymiad i wneud i ddatganoli weithio i Gymru gyfan, gyda chanlyniadau a buddion sy'n cynnwys: trethi mwy addas i ddiwallu ein hanghenion; mwy o ddewis o ddewisiadau polisi; perthynas fwy atebol rhwng Llywodraeth Cymru a phobl Cymru; mwy o hyblygrwydd a gallu gydag offer a/neu ysgogiadau ariannol; gwell gwybodaeth ac effeithiolrwydd sefydliadol i Lywodraeth Cymru; a gwneud penderfyniadau mwy gwybodus er lles pawb. Bydd yr ymgynghoriad ar dreth trafodiadau tir yn agored ac yn eang. Mae hwn yn gam pwysig arall ymlaen ar y ffordd at drethi i Gymru, ac rwyf yn annog ymateb eang i'r ymgynghoriad hwn.

16:01

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank the Minister for her statement this afternoon? I'm pleased to be able to contribute my thoughts on this issue and to ask you some questions now that this consultation has been launched. I would also very much encourage, as you did yourself, Minister, as many groups and businesses as possible to get involved in the consultation process. As you say in your statement, this is the first new tax proposal in Wales in 800 years. So, I think we would all believe that we need to get it right.

As we know, the Federation of Master Builders have welcomed the devolution of stamp duty as a vital tool, as you yourself said, so that it can be tailored to the needs of the Welsh construction and business sector. Minister, the Royal Institution of Chartered Surveyors' residential market survey found that, while the average surveyor in Wales sold 24 properties in December, just 10% of respondents saw prices rise, and it's popular opinion that the UK Government's stamp duty reforms will deliver a 2% to 5% boost in both sales and prices over the next 12 months. What will having different systems across the UK mean for Welsh home buyers? I think that 1.3% is the average expected rise here in Wales, given the changes that the Chancellor of the Exchequer has made. So, will there be any economic distortions on the Wales-England border? Most of the fears being raised about stamp duty changes relate to cross-border issues. Wales has a much more porous border than Scotland, with a large chunk of the population living very near it. Do you share the concerns of the Royal Institution of Chartered Surveyors or indeed have you spoken, or will you be speaking, with them regarding the effect of any wholesale redesign of the system, or any rate changes, that could lead to people and businesses choosing locations that are otherwise economically suboptimal in an effort to reduce the liability of stamp duty?

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma? Rwy'n falch o allu cyfrannu fy meddyliau am y mater hwn a gofyn rhai cwestiynau ichi nawr bod yr ymgynghoriad hwn wedi ei lansio. Byddwn hefyd yn annog yn gryf iawn, fel y gwnaethoch eich hun, Weindog, cymaint â phosibl o grwpiau a busnesau i gymryd rhan yn y broses ymgynghori. Fel y dywedwch yn eich datganiad, hwn yw'r cynnig treth newydd cyntaf yng Nghymru ers 800 mlynedd. Felly, rwyf yn meddwl ein bod i gyd yn credu bod angen inni ei wneud yn iawn.

Fel y gwyddom, mae Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr wedi croesawu datganoli treth stamp fel arf hollbwysig, fel y dywedasoch eich hun, fel y gellir ei deilwra i anghenion sector adeiladu a busnes Cymru. Weindog, canfu arolwg Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig o'r farchnad breswyl, er bod y syrfewr cyfartalog yng Nghymru wedi gwerthu 24 o dai ym mis Rhagfyr, mai dim ond 10% o'r ymatebwyr a welodd brisiau'n codi, a'r farn boblogaidd yw y bydd diwygiadau treth stamp Llywodraeth y DU yn cyflawni hwb o rhwng 2% a 5% mewn gwerthiannau a phrisiau dros y 12 mis nesaf. Beth fydd y ffaith bod systemau gwahanol ar draws y DU yn ei olygu i brynwyr cartrefi yng Nghymru? Credaf mai 1.3% yw'r cynnydd cyfartalog a ddisgwylir yma yng Nghymru, o ystyried y newidiadau y mae Canghellor y Trysorlys wedi'u gwneud. Felly, a fydd unrhyw afluniadau economaidd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr? Mae'r rhan fwyaf o'r ofnau sy'n cael eu codi am newidiadau i'r dreth stamp yn ymwneud â materion trawsffiniol. Mae gan Gymru ffin lawer mwy mândyllog na'r Alban, a chyfran fawr o'r boblogaeth yn byw'n agos iawn ati. A ydych chi'n rhannu pryderon Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig neu yn wir a ydych chi wedi siarad â hwy, neu a fyddwch chi'n siarad â hwy, ynglŷn ag effaith unrhyw ailgynllunio sylfaenol o'r system, neu unrhyw newidiadau i gyfraddau, a allai olygu y bydd pobl a busnesau'n dewis lleoliadau sydd fel arall yn is-optimadd o safbwynt economaidd er mwyn ceisio lleihau atebolrwydd y dreth stamp?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In 2011-12, non-residential SDLT accounted for only 11% of total transactions in England and Wales, but accounted for 30% of receipts, so do you agree with me that the Welsh Government needs to be liaising with businesses on both sides of the border on the effect of any potential changes? On your announcements today, how will this work with other policy areas? Will there be incentives in enterprise zones? Will there be incentives, indeed, in business improvement districts, such as in Swansea? Will the Welsh Government look at best practice from around the world? I was looking through some best practice myself earlier and I see that, in India, there is a discussion about whether Governments should provide incentives, such as lower stamp duty, on properties for the newly created real estate investment trust structure. So, again, will you look at the potential for cutting stamp duty in areas such as enterprise zones?

To close, Minister, in some ways, events have overtaken the Welsh Government, in this case with the Chancellor's autumn statement removing what you have called in the past a very crude, slab structure. I wouldn't overplay the role of the case 'made in Wales' in this change, given that the UK did act first in this area, but I know that you have been in discussions with the Chancellor over this. I know you will not be seeking to reinstate a slab-structure-type system, so, how do you envisage the Welsh model broadly following the English structure?

At the very end of your statement, I think you made the most significant point when you said that the real benefit of this is to be able to vary the rates and the levels of the new tax. Clearly, going back to the cross-border issues, that will have an effect along the border. I'm sure you'd agree with me that we don't want to make some types of houses, particularly more expensive houses near the border, less competitive in terms of stamp duty, than those houses not far away the other side of the border, because we all know what the effect of that could be.

Yn 2011-12, roedd treth dir y doll stamp ddibreswyl yn cyfrif am ddim ond 11% o'r holl drafodion yng Nghymru a Lloegr, ond roedd yn cyfrif am 30% o'r derbyniadau, felly a ydych chi'n cytuno â mi bod angen i Lywodraeth Cymru gysylltu â busnesau ar y ddwy ochr i'r ffin ynglŷn ag effaith unrhyw newidiadau posibl? O ran eich cyhoeddiadau heddiw, sut y bydd hyn yn gweithio gyda meysydd polisi eraill? A fydd cymhellion mewn ardaloedd menter? A fydd cymhellion, yn wir, mewn ardaloedd gwella busnes, fel yn Abertawe? A fydd Llywodraeth Cymru'n edrych ar yr arferion gorau o bedwar ban byd? Roeddwn yn edrych ar rai arferion gorau fy hun yn gynharach a gwelaf fod trafodaeth yn India ynghylch pa un a ddylai Llywodraethau ddarparu cymhellion, megis treth stamp is, ar eiddo ar gyfer y strwythur ymddiriedolaeth fuddsoddi eiddo tiriog sydd newydd ei greu. Felly, unwaith eto, a wneuch chi edrych ar y potensial i dorri treth stamp mewn mannau fel ardaloedd menter?

I gloi, Weinidog, mewn rhai ffyrdd, mae digwyddiadau wedi goddiweddyd Llywodraeth Cymru, yn yr achos hwn drwy i ddatganiad y Canghellor yn yr hydref gael gwared ar yr hyn yr ydych wedi'i alw yn y gorffennol yn strwythur slab bras iawn. Ni fyddwn yn gorbwysleisio rhan yr achos a 'wnaethpwyd yng Nghymru' yn y newid hwn, o gofio mai'r DU wnaeth weithredu gyntaf yn y maes hwn, ond gwn eich bod wedi cael trafodaethau â'r Canghellor ynghylch hyn. Rwy'n gwybod na fyddwch yn ceisio adfer system strwythur slab, felly, sut yr ydych chi'n rhagweld y bydd model Cymru'n fras yn dilyn y strwythur yn Lloegr?

Ar ddiwedd un eich datganiad, rwyf yn meddwl eich bod wedi gwneud y pwynt mwyaf arwyddocaol wrth ddweud mai budd gwirioneddol hyn yw gallu amrywio cyfraddau a lefelau'r dreth newydd. Yn amlwg, i fynd yn ôl at y materion traws-ffiniol, bydd hynny'n cael effaith ar hyd y ffin. Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno â mi nad ydym yn dymuno gwneud rhai mathau o dai, yn enwedig tai drutach ger y ffin, yn llai cystadleuol o ran treth stamp, na'r tai hynny sy'n agos at ochr arall y ffin, oherwydd rydym i gyd yn gwybod yr effaith y gallai hynny ei chael.

16:05

Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

Well, I thank Nick Ramsay very much for his very positive and constructive response. Also, to acknowledge the role of the Federation of Master Builders, because they were very instrumental in supporting us and advising us in developing our case with the UK Government to secure the devolution of this tax to Wales, and recognising that they played their part in ensuring that we did get a response to the Silk commission. As you will recall, we were waiting rather impatiently for that for some time and they played an important role.

Wel, rwyf yn diolch yn fawr iawn i Nick Ramsay am ei ymateb cadarnhaol ac adeiladol iawn. Hefyd, am gydnabod rhan Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr, oherwydd roeddent yn allweddol iawn wrth ein cefnogi a'n cynghori wrth inni ddatblygu ein hachos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau datganoli'r dreth hon i Gymru, a chydabod eu bod wedi chwarae eu rhan i sicrhau ein bod wedi cael ymateb i gomisiwn Silk. Fel y cofiwch, buom yn aros yn ddiarnedd braidd am hynny am gryn amser a gwnaethant hwy chwarae rhan bwysig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I think it is important that we look at the impact of the changes that may come along in terms of the responsibilities that we have impacting on businesses. Of course, it is important, in terms of the way in which we respond to the consultations that we have, that there are benefits to consistency for businesses that operate and purchase properties across the UK, not just in Wales. Any potential changes would need to be considered in terms of what will work for Wales, given that Wales has such an integrated property market with England. Of course, it is likely that, as far as the land transaction tax is concerned, much of it will, depending on the responses that we get—. It's very early, at this point, to say how it could differ from stamp duty land tax, but it's unlikely to be radically different. The provisions being given to the Assembly are very specific, in that we can only tax transactions involving interest in land and therefore, also, buildings.

I think it is important that we recognise that there could be some properties that straddle both sides, for example, of the Wales-England border, and we've got provisions in the Wales Act to treat such circumstances. There would be two transactions, one of which would be liable to SDLT and the other, of course, would be liable to our land transaction tax.

Of course, the engagement of business has been fundamental in the development, not just in terms of making the case for devolution of the stamp duty land tax to Wales, but also in advising us in preparing the consultation. The Confederation of British Industry, for example, which sits on my tax advisory group alongside the Institute of Directors and the Federation of Small Businesses, of course, are coming and representing not only the interests of businesses in Wales, but also giving their views in terms of CBI views across the whole of the UK.

I think it is important, just in terms of the way in which we're taking this forward, the best practice and the understanding of the impact of these changes, that we look to what is happening in Scotland, certainly, as well as further abroad.

I think the issues about the purpose and the opportunities—. These are, of course, powers for a purpose. We can look at, for example, the ways in which there are reliefs. Of course, reliefs within stamp duty land tax can play an important part in the tax system. In terms of reliefs, there have been reliefs that we would have to consider in terms of replication for land transaction tax, which, of course, could also be considered not just for residential, but non-residential land transaction tax, as well, which, of course, we are consulting on.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn edrych ar effaith y newidiadau a all ddigwydd o ran effaith ein cyfrifoldebau ar fusnesau. Wrth gwrs, mae'n bwysig, o ran y ffordd yr ydym yn ymateb i'r ymgynghoriadau yr ydym yn eu cynnal, bod manteision i gysondeb i fusnesau sy'n gweithredu ac yn prynu eiddo ledled y DU, nid dim ond yng Nghymru. Byddai angen ystyried unrhyw newidiadau posibl o ran yr hyn a fydd yn gweithio i Gymru, o gofio bod marchnad eiddo Cymru mor integredig ag un Lloegr. Wrth gwrs, mae'n debygol, cyn belled ag y mae'r dreth trafodiadau tir dan sylw, y bydd llawer ohono, gan ddibynnu ar yr ymatebion a gawn—. Mae'n gynnar iawn, ar hyn o bryd, i ddweud sut y gallai fod yn wahanol i dreth dir y doll stamp, ond mae'n annhebygol y bydd yn wahanol iawn. Mae'r darpariaethau sy'n cael eu rhoi i'r Cynulliad yn benodol iawn: dim ond trafodion sy'n cynnwys buddiant mewn tir, ac felly, hefyd, mewn adeiladau, y cawn eu trethu.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn cydnabod y gallai fod rhai eiddo sy'n pontio dwy ochr, er enghraifft, y ffin rhwng Cymru a Lloegr, ac mae gennym ddarpariaethau yn Neddff Cymru i drin amgylchiadau o'r fath. Byddai dau drafodiad, a byddai un yn atebol i dreth dir y doll stamp a'r llall, wrth gwrs, yn atebol i'n treth trafodiadau tir ni.

Wrth gwrs, mae ymgysylltu â busnes wedi bod yn hanfodol i'r datblygiad, nid yn unig o ran gwneud achos dros ddatganoli treth dir y doll stamp i Gymru, ond hefyd o ran ein cynghori wrth inni barato'r ymgynghoriad. Mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, er enghraifft, sy'n aelod o fy ngrŵp cynghori ar drethi ochr yn ochr â Sefydliad y Cyfarwyddwyr a Ffederasiwn y Busnesau Bach, wrth gwrs, yn dod i gynrychioli nid yn unig fuddiannau busnesau yng Nghymru, ond maent hefyd yn rhoi eu barn o ran safbwyntiau Cydffederasiwn Diwydiant Prydain ledled y DU.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig, dim ond o ran y ffordd yr ydym yn bwrw ymlaen â hyn, yr arfer gorau a'r ddealltwriaeth o effaith y newidiadau hyn, ein bod yn edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn yr Alban, yn sicr, yn ogystal ag ymhellach i ffwrdd.

Rwy'n meddwl bod y materion ynghylch y diben a'r cyfleoedd—. Mae'r rhain, wrth gwrs, yn bwerau at ddiben. Gallwn edrych, er enghraifft, ar y ffyrdd o ddarparu gostyngiadau. Wrth gwrs, gall gostyngiadau i dreth tir y doll stamp chwarae rhan bwysig yn y system dreth. O ran gostyngiadau, bu gostyngiadau y byddai'n rhaid inni eu hystyried o ran dyblygu ar gyfer treth trafodiadau tir, y gellid eu hystyried hefyd, wrth gwrs, nid yn unig ar gyfer treth trafodiadau tir preswyl, ond achosion dibreswyl, hefyd, sydd, wrth gwrs, yn rhywbeth yr ydym yn ymgynghori amdano.

I think it is important that we recognise that a major reform has taken place as a result of the autumn statement, which we do believe we had a significant influence on. So, in terms of the changes and the consultation that we are undertaking now, that we now have to look at ways in which we can not only implement our policy objectives in terms of these new taxes to meet the needs of Wales, and particularly in relation to our housing market, but also we will have the opportunity, in preparing for this, in preparing for the switch off, which will happen in April 2018, to look at the impact of the changes, of the reform, which we welcome, not just in Scotland, but in England, as well.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn cydnabod bod diwygio mawr wedi digwydd o ganlyniad i ddatganiad yr hydref; rydym yn credu ein bod wedi dylanwadu'n sylweddol arno. Felly, o ran y newidiadau a'r ymgynghoriad yr ydym yn ei gynnal yn awr, mae'n rhaid i ni edrych yn awr ar ffyrdd y gallwn nid yn unig weithredu ein hamcanion polisi o ran y trethi newydd hyn i ddiwallu anghenion Cymru, ac yn enwedig ar gyfer ein marchnad dai, ond hefyd bydd gennym y cyfle, wrth baratoi am hyn, wrth baratoi am y newid, a fydd yn digwydd ym mis Ebrill 2018, i edrych ar effaith y newidiadau, y diwygio, yr ydym yn ei groesawu, nid yn unig yn yr Alban, ond yn Lloegr, yn ogystal.

16:10

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd like to thank the Minister for both the statement she has delivered this afternoon and also for the written statement she gave Members yesterday. I think many of us would welcome the work, Minister, that you've undertaken in this matter. I think, quite often, people underestimate the amount of detail and sheer hard work that goes into establishing and using these new taxation powers. I hope that people across the Chamber will welcome the work that you're doing and the statements that you've made this afternoon.

In your oral statement, and you announced it to Nick Ramsay, you did outline some of the barriers, if you like, or the parameters of the devolution settlement as is currently with us. I hope, Minister, that you will take a radical approach within the boundaries that are available to you. Some of the issues that we're facing in Wales in terms of growing a sustainable economy and tackling poverty demand far more than simply a pale imitation of what the stamp duty regime currently is in England.

I hope, Minister, you will revise the principles upon which you are basing taxation powers, and the Welsh Government is basing the use of its taxation powers, to include sustainability. It is a core function and a core driving principle of this Government that sustainability is a part of all of the functions that it delivers. It's a disappointment to me, and I think many others, that there was no mention of sustainability in the statements made this afternoon and yesterday and no mention of sustainability in the Treasury paper published in December. So, I hope that is something where you will be able to reassure me.

I hope, also, that you will use these powers to stimulate sustainable economic activity, to reward low-carbon building, to reward low-carbon construction methods and to tax heavily the use of carbon wherever you're able to do so.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am y datganiad y mae hi wedi'i gyflwyno y prynhawn yma a hefyd am y datganiad ysgrifenedig a roddodd i'r Aelodau ddoe. Rwy'n credu y byddai llawer ohonom yn croesawu'r gwaith, Weinidog, yr ydych wedi'i wneud ar y mater hwn. Rwyf yn meddwl, yn aml iawn, nad yw pobl yn sylweddoli faint o fanylder a gwaith caled sydd ei angen i sefydlu a defnyddio'r pwerau trethu newydd hyn. Rwy'n gobeithio y bydd pobl ar draws y Siambr yn croesawu'r gwaith yr ydych yn ei wneud a'r datganiadau yr ydych wedi'u gwneud y prynhawn yma.

Yn eich datganiad llafar, ac fe wnaethoch ei gyhoeddi i Nick Ramsay, amlinellwyd gennych rai o'r rhwystrau, os mynnwch chi, neu bamedrau'r setliad datganoli sydd gennym ar hyn o bryd. Rwyf yn gobeithio, Weinidog, y gwnewch fabwysiadu ymagwedd radical o fewn y ffiniau sydd ar gael ichi. Mae rhai o'r materion yr ydym yn eu hwynebu yng Nghymru o ran tyfu economi gynaliadwy a threchu tlodi yn mynnu llawer mwy na dim ond efelychiad gwan o gyfundrefn treth stamp bresennol Lloegr.

Rwyf yn gobeithio, Weinidog, y gwnewch chi adolygu'r egwyddorion yr ydych yn seilio pwerau trethu arnynt, ac y mae Llywodraeth Cymru'n seilio defnyddio eu pwerau trethu arnynt, i gynnwys cynaliadwyedd. Mae'n un o swyddogaethau craidd y Llywodraeth hon, ac yn un o'r egwyddorion craidd sy'n ei llywio, bod cynaliadwyedd yn rhan o bob un o'r swyddogaethau y mae'n eu darparu. Mae'n siom i mi, ac i lawer o bobl eraill, rwy'n credu, nad oedd unrhyw sôn am gynaliadwyedd yn y datganiadau a wnaethpwyd y prynhawn yma a ddoe na dim sôn am gynaliadwyedd yn y papur Trysorlys a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr. Felly, rwyf yn gobeithio bod hwnnw'n rhywbeth y gallwch dawelu fy meddwl yn ei gylch.

Rwyf yn gobeithio, hefyd, y byddwch yn defnyddio'r pwerau hyn i ysgogi gweithgarwch economaidd cynaliadwy, i wobrwyo adeiladu carbon isel, i wobrwyo dulliau adeiladu carbon isel ac i roi treth drom ar ddefnyddio carbon lle bynnag y gallwch wneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Alun Davies for his question and very important points. I will just go back to the tax principles that I've laid out: fair to business and individuals who are paying taxes; and, simple and clear rules, minimising compliance and administration costs, but also supporting growth and jobs, which, in turn, help to tackle poverty, and providing that stability and certainty for taxpayers. Of course, quite shortly, later on in this month, I will be launching the consultation document on our landfill disposal tax as well.

The point about sustainable development is key. It really is. I don't have to say it; it's the Welsh Government's central organising principle, of course, and it underpins our approach to legislation. Also, of course, it's important in recognising the opportunities that we have, with our new tax powers, that we look at this in terms of opportunities to be clear where we can deliver that kind of change, which we aspire to. It's not just aspirations. In terms of Welsh Government's 'Towards Zero Waste' strategy, our Welsh Government's climate change strategy and, indeed, in the environment Bill White Paper, as well as Green Growth Wales and the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, we do recognise that our new tax powers can be and will be reflected through our obligations and our ambitions in our programme for government.

I think it is important that we recognise there are opportunities: particularly, I've mentioned the fact that there could be new reliefs, which is the sort of thing that we need to look at. We also need to look at the opportunities—and this is something that we've discussed with business—in terms of ways in which we can ensure that there is green growth and there are opportunities for environmental impacts to be made in terms of our new tax regime. So, this will have a real impact, I think, in terms of the consultation that is now being launched.

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wel, rwy'n croesawu'r datganiad ac yn cytuno, i raddau helaeth, â'r bwriadau. Mi fydd datganoli dreth dir y doll stamp yn 2018 yn gam arwyddocaol ymlaen i Gymru. Nid bod y swm yn enfawr, ond mae'r cam yn un pwysig ac mae trethi eiddo a thir, wrth gwrs, yn fanteisiol iawn fel ffrydiau refeniw am eu bod nhw'n anodd iawn i'w hosgoi. Ar yr un pryd, mi fydd yn gyfle i ail-lunio'r dreth i gwrdd ag anghenion Cymru, yn unol â'r hyn yr oedd Alun Davies yn ei ddweud yn gynharach.

I'd like to refer to your fifth paragraph, where you state that

'I am seeking a Barnett "floor" that will deliver fair funding for Wales'.

I think a Barnett floor would certainly deliver fairer funding for Wales, but the only fair funding for Wales, surely, is parity with Scotland, and that is what is going to keep libraries open, school budgets adequate and a viable health service.

Rwyf yn diolch i Alun Davies am ei gwestiwn a'i bwyntiau pwysig iawn. Rwyf am droi'n ôl at yr egwyddorion treth yr wyf wedi'u hamlinellu: tegwch i fusnesau ac unigolion sy'n talu trethi; a, rheolau syml a chllir, i leihau costau cydymffurfio a gweinyddu, ond hefyd i gefnogi twf a swyddi, rhywbeth a fydd, yn ei dro, yn helpu i drechu tlodi, a rhoi'r sefydlogrwydd a'r sicrwydd hwnnw i drethdalwyr. Wrth gwrs, yn eithaf buan, yn nes ymlaen yn ystod y mis hwn, byddaf yn lansio'r ddogfen ymgynghori ar ein treth dirlenwi hefyd.

Mae'r pwynt am ddatblygu cynaliadwy'n un allweddol. Mae'n wirioneddol allweddol. Nid oes rhaid i mi ddweud hynny; dyna yw prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, ac mae'n tanategu ein hymagwedd at ddeddfu. Hefyd, wrth gwrs, mae'n bwysig wrth gydnabod y cyfleoedd sydd gennym, gyda'n pwerau treth newydd, ein bod yn edrych ar hyn o safbwynt cyfleoedd i fod yn glir ble y gallwn ddarparu'r math hwnnw o newid, yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Nid dim ond dyheadau yw'r rhain. O ran strategaeth Llywodraeth Cymru 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', strategaeth newid yn yr hinsawdd ein Llywodraeth Cymru ac, yn wir, Papur Gwyn y Bil amgylchedd, yn ogystal â Thwf Gwyrdd Cymru a Bil Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), rydym yn cydnabod y gellir adlewyrchu ein pwerau treth newydd drwy ein rhwymedigaethau a'n huchelgeisiau yn ein rhaglen lywodraethu, ac y bydd hynny'n digwydd.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn cydnabod bod cyfleoedd yn bodoli: yn benodol, rwyf wedi sôn am y ffaith y gallai fod gostyngiadau newydd; dyna'r math o beth y mae angen inni edrych arno. Mae angen inni hefyd edrych ar y cyfleoedd—ac mae hyn yn rhywbeth yr ydym wedi'i drafod â sefydliadau busnes—o ran ffyrdd y gallwn sicrhau twf gwyrdd a bod cyfleoedd i wneud effeithiau amgylcheddol o ran ein cyfundrefn dreth newydd. Felly, bydd hyn yn cael effaith wirioneddol, yn fy marn i, ar yr ymgynghoriad sydd nawr yn cael ei lansio.

I welcome the statement and agree, to a great extent, with the intentions. The devolution of SDLT in 2018 will be a significant step forward for Wales. Not that the sum is huge, but it's an important step, and land and property transaction taxes are very advantageous as sources of revenue, as they are very difficult to avoid. At the same time, it will be an opportunity to reconfigure the tax to meet Welsh objectives and needs, in accordance with what Alun Davies said earlier.

Hoffwn gyfeirio at eich pumed paragraff, lle'r ydych yn datgan

'Rwyf yn ceisio "llawr" Barnett a fydd yn darparu cyllid teg i Gymru'.

Rwy'n credu y byddai llawr Barnett yn sicr yn darparu cyllid tecach i Gymru, ond yr unig gyllid teg i Gymru, does bosib, yw cydraddoldeb â'r Alban, a dyna beth sy'n mynd i gadw llyfrgelloedd ar agor, cyllidebau ysgolion yn ddigonol a'r gwasanaeth iechyd yn hyfyw.

Ond, i droi yn ôl at y dreth, dewis Plaid Cymru yn lle'r doll stamp fyddai cael strwythur mwy blaengar gan wneud i ffwrdd â'r effaith slab, fel mae'n cael ei alw. Fe wyddom ni fod treth fwy blaengar yn mynd i gael ei gweithredu yn yr Alban, ac mae Canghellor y Deyrnas Gyfunol hefyd wedi symud i'r cyfeiriad hwnnw yn natganiad diwedd yr hydref, fel y cyfeirioch chi ato fo. Rwy'n nodi bod y Gweinidog yn ffafrio llwybr tebyg.

Mi ddaeth y newidiadau a gyflwynwyd gan y Canghellor i rym yn syth cyn cyflwyno treth trafodion tir ac adeiladau'r Alban, er bod Llywodraeth yr Alban eisoes wedi cynllunio a chreu rhagamcanion ar gyfer y dreth newydd honno. Mi fydd newidiadau'r Canghellor nawr yn cael effaith ar referniw Llywodraeth yr Alban ym mlwyddyn gyntaf y dreth newydd, oherwydd newidiadau mewn ymddygiad na allai Llywodraeth yr Alban fod wedi eu rhagweld. O ystyried hyn i gyd, a ydy'r Gweinidog yn caniatáu digon o hyblygrwydd yn ei hagwedd hi? Rwy'n gwybod ei bod hithau wedi cyfeirio at hynny yn ei datganiad y prynhawn yma.

Yn olaf, mi ddylem ni hefyd ystyried y pwnc prynwyr tro cyntaf. Yn ei datganiad gweinidogol, roedd y Gweinidog yn pwysleisio tegwch, symrlwydd a sefydlogrwydd i drethdalwyr a busnesau wrth gynllunio'r dreth newydd, ond a oes cyfleoedd i ddefnyddio unrhyw agweddau o'r dreth newydd i helpu prynwyr tro cyntaf?

But, to return to the tax, Plaid Cymru's option to replace the stamp duty would be to have a more innovative structure to do away with the slab effect, as it's been described. We know that a more innovative tax is going to be implemented in Scotland, and the UK Chancellor has also moved in that direction in the autumn statement, as you referred to. I note that the Minister favours a similar route.

The changes introduced by the Chancellor came into force immediately before the introduction of the land and buildings transaction tax in Scotland, although the Scottish Government had already planned and created forecasts for that new tax. The Chancellor's changes will now have an impact on the Scottish Government's revenue in the first year of the new tax, because of changes in behaviour that the Scottish Government could not have anticipated. Bearing all this in mind, is the Minister allowing adequate flexibility in her approach? I know that she has referred to that in her statement this afternoon.

Finally, we should also consider the issue of first-time buyers. In her ministerial statement, the Minister emphasised fairness, simplicity and stability for taxpayers and businesses in planning the new tax, but are there opportunities to use any aspects of the new tax to assist first-time buyers?

16:18

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Alun Ffred Jones for his questions and also for recognising this is an important step for us in terms of the future of devolution in Wales and that we must, with these new powers, reconfigure as and how is appropriate according to the response to our consultation and the influence and scrutiny that will come as a result of the tabling of this Bill in due course. Of course, it is going to be about how we reconfigure to meet Welsh needs and objectives.

I thank you for your comment on our aspirations, which are shared across this Chamber, in terms of fair funding for Wales. Securing the Barnett floor, of course, is key in terms of the future prospects when convergence will start up again as public expenditure grows. If we don't have that floor in place, we will be disadvantaged in the future and continue to be disadvantaged, so support for the floor—the Barnett floor—of course, is welcome. You make that commitment again today, as we did in the motion last October.

Diolch i Alun Ffred Jones am ei gwestiynau a hefyd am gydnabod bod hwn yn gam pwysig inni o ran dyfodol datganoli yng Nghymru a bod rhaid inni, gyda'r pwerau newydd hyn, ad-drefnu fel y bo'n briodol yn unol â'r ymateb i'n hymgyngoriad a'r dylanwad a'r craffu a ddaw yn sgil cyflwyno'r Bil hwn maes o law. Wrth gwrs, bydd yn fater o sut y byddwn yn ad-drefnu i ddiwallu anghenion ac amcanion Cymru.

Diolch ichi am eich sylw am ein dyheadau, sy'n cael eu rhannu ar draws y Siambr hon, o ran ariannu teg i Gymru. Mae sicrhau llawr Barnett, wrth gwrs, yn allweddol o ran y rhagolygon i'r dyfodol pan fydd cydgyfeirio yn ailddechrau wrth i wariant cyhoeddus dyfu. Os nad yw'r llawr hwnnw gennym, byddwn o dan anfantais yn y dyfodol ac yn parhau i fod o dan anfantais, felly mae cefnogaeth i'r llawr—llawr Barnett—i'w groesawu, wrth gwrs. Rydych yn gwneud yr ymrwymiad hwnnw eto heddiw, fel y gwnaethom ni yn y cynnig fis Hydref diwethaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Now, of course, the Chancellor's changes, which came through in the autumn statement, were very much in line with the discussions and the modelling that we were undertaking in response to the consultations and early consideration of reform to the stamp duty land tax, particularly getting rid of the slab. Of course, that slab regime, which was bad for home buyers and sellers, bad for house builders, and helped the side-effects in terms of the impact of that when we had, as I said, those dramatic jumps in the amount of tax that was due when house prices moved from one tax band to another. Of course, Scottish Government had already made reforms and had set their bands and rates, as they did with their budget, which, of course, will be the time when the Welsh Government in the future, in 2018, will want to then be able to set their bands and rates, in accordance with budget setting. But I think it is very important that the consultation that we're undertaking, which I'm launching today, enables us to prepare for that time, to ensure that we can meet those policy needs, such as, as you said, helping first-time buyers. Of course, we can look already to the experience, not just from Scotland but from England, where there are now different rates and bands operating in terms of eligibility to pay the stamp duty land tax and the land and buildings transaction tax in Scotland.

Certainly, in terms of consultation, I want views, as I said, on rates and bands, bearing in mind that we have got to be very clear about the fact that we are talking about a replacement—this is for our budget—and we're talking about the switch off of the tax in London. Now, if the Office for Budget Responsibility, in terms of their predictions and forecasting of the tax for that time, where we're going up to £230 million and more—. We've got to recognise, if we don't actually raise, settle and instigate a tax that can bring in that kind of income, we won't have it in our block grant, so we will have to manage it in terms of our budget. Of course, that is going to be the key responsibility in terms of policy and bands and rates.

16:22

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, can I welcome this consultation? I think it's quite historic that we are starting to consult on changes to taxation as a Welsh Assembly and you as a Welsh Government. I think that, in considering changes to the stamp duty land tax, we do need to take account of ensuring that there is consistency, fairness and clarity for everybody in terms of whatever we end up with. I hope—and I hear you acknowledge that the UK Government has already made changes to get rid of the slab, which I think is very welcome—that, before we do rush into changes, we can allow that system to settle down, so that people can get used to it and we can make a proper settlement of how that particular system is working for Wales, and whether or not it needs to be tweaked to make improvements. I think, clearly, the main changes which we may want to look at will most probably be in relation to the bands, to reflect property prices in Wales, as opposed to property prices across the UK.

Nawr, wrth gwrs, roedd newidiadau'r Canghellor, a ddaeth i'r amlwg yn natganiad yr hydref, yn cyd-fynd yn gryf â'r trafodaethau a'r gwaith modelu yr oeddem yn ei wneud mewn ymateb i'r ymgynghoriadau a'r ystyriaeth gynnar o ddiwygio treth dir y doll stamp, yn enwedig cael gwared ar y slab. Wrth gwrs, roedd y gyfundrefn slab honno'n ddrwg i brynwyr a gwerthwyr cartrefi, yn ddrwg i adeiladwyr tai, ac yn helpu'r sgil effeithiau o ran effaith hynny pan gawsom, fel y dywedais, y neidiau dramatig hynny yn swm y dreth a oedd yn ddyledus pan oedd prisiau tai'n symud o un band treth i un arall. Wrth gwrs, roedd Llywodraeth yr Alban eisoes wedi gwneud diwygiadau ac wedi gosod eu bandiau a'u cyfraddau, fel y gwnaethant gyda'u cyllideb, sef, wrth gwrs, yr amser y bydd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, yn 2018, yn awyddus wedyn i allu pennu ei bandiau a'i chyfraddau, yn unol â gosod cyllideb. Ond rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn bod yr ymgynghoriad yr ydym yn ei gynnal, yr wyf fi'n ei lansio heddiw, yn ein galluogi i baratoi ar gyfer y cyfnod hwnnw, er mwyn sicrhau y gallwn ddiwallu'r anghenion polisi hynny, megis, fel y dywedaisoch, helpu prynwyr tro cyntaf. Wrth gwrs, gallwn edrych nawr ar y profiad, nid yn unig yn yr Alban ond yn Lloegr, lle mae gwahanol gyfraddau a bandiau nawr ar waith o ran cymhwysedd i dalu treth dir y doll stamp a'r dreth trafodiadau tir ac adeiladau yn yr Alban.

Yn sicr, o ran ymgynghori, hoffwn gael safbwyntiau, fel y dywedais, am gyfraddau a bandiau, o gofio bod yn rhaid inni fod yn glir iawn am y ffaith ein bod yn sôn am ddisodli—mae hyn ar gyfer ein cyllideb ni—ac rydym yn sôn am ddiffodd y dreth yn Llundain. Nawr, os yw'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, o ran ei rhagfynegiadau a'i rhagolygon o'r dreth ar gyfer y cyfnod hwnnw, pryd yr ydym yn mynd i fyny hyd at £230 miliwn a mwy—. Mae'n rhaid inni gydnabod, os na wnawn mewn gwirionedd godi, setlo a chychwyn treth a all greu'r math hwnnw o incwm, na fydd hynny gennym yn ein grant bloc, felly bydd yn rhaid inni ei reoli yn nhermau ein cyllideb. Wrth gwrs, dyna fydd y cyfrifoldeb allweddol o ran polisi a bandiau a chyfraddau.

Weinidog, a gaf fi groesawu'r ymgynghoriad hwn? Rwy'n credu ei bod yn eithaf hanesyddol ein bod yn dechrau ymgynghori ar newidiadau i drethiant fel Cynulliad a chithau fel Llywodraeth Cymru. Credaf, wrth ystyried newidiadau i dreth dir y doll stamp, fod angen inni gofio sicrhau bod beth bynnag a gawn yn y pen draw yn rhoi cysondeb, tegwch ac eglurder i bawb. Rwyf yn gobeithio—ac rwyf wedi clywed eich bod yn cydnabod bod Llywodraeth y DU eisoes wedi gwneud newidiadau i gael gwared ar y slab, sydd i'w groesawu'n fawr yn fy marn i—y gallwn, cyn inni ruthro i wneud newidiadau, ganiatáu i'r system honno sefydlu ei hun, fel y gall pobl ddod i arfer â hi ac fel y gallwn wneud setliad priodol o sut y mae'r system benodol honno'n gweithio dros Gymru, ac a oes angen ei haddasu i wneud gwelliannau. Rwyf yn meddwl, yn amlwg, mai'r prif newidiadau y mae'n bosibl y byddwn yn dymuno edrych arnynt fydd rhai sy'n ymwneud â'r bandiau, i adlewyrchu prisiau eiddo yng Nghymru, yn hytrach na phrisiau eiddo ledled y DU.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The only question I've got, Minister is: in the very interesting consultation document—the very technical consultation document, which took me back to my Land Registry days—you say that there are 51,600 stamp duty land tax transactions in 2013-14, but there isn't any detail as to at what level of those transactions took place, and I know from my own enquiries, getting hold of that detail is very difficult. Would it be possible for the Government to use its resources to actually publish a more detailed breakdown of those transactions, so that we can make an assessment of the costs of any change, in terms of changes to the banding? I think we would better understand the impact of the changes you're consulting on if we had that detail in front of us. Would it be possible for Welsh Government to get that detail and to publish it as part of this consultation?

Yr unig gwestiwn sydd gennyf, Weinidog yw: yn nogfen ddi-ddorol iawn yr ymgynghoriad—dogfen dechnegol iawn yr ymgynghoriad, a oedd yn fy atgoffa o fy nyddiau yn y Gofrestrfa Tir—rydych yn dweud bod 51,600 o drafodiadau treth dir y doll stamp yn 2013-14, ond nid oes unrhyw fanylion ynghylch ar ba lefel y digwyddodd y trafodion hynny, ac rwyf yn gwybod o fy ymholiadau fy hun ei bod yn anodd iawn cael gafael ar y manylion hynny. A fyddai'n bosibl i'r Llywodraeth ddefnyddio'i hadnoddau i gyhoeddi dadansoddiad manylach o'r trafodion hynny mewn gwirionedd, fel y gallwn wneud asesiad o gostau unrhyw newid, o ran newidiadau i'r bandio? Rwyf yn meddwl y gallm ddeall effaith y newidiadau yr ydych yn ymgynghori yn eu cylch yn well pe byddai gennym y manylion o'n blaenau. A fyddai'n bosibl i Lywodraeth Cymru gael y manylion hynny a'u cyhoeddi yn rhan o'r ymgynghoriad hwn?

16:24 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Peter Black. Of course, your experience at the Land Registry will be very useful, I'm sure, in terms of your role in scrutinising this Bill, but, obviously, in response to this consultation. But I think you're much more interested in the policy impacts of this new land transaction tax, which, of course, I welcome. You know, it is about consistency and fairness. I think one of the important points that have been raised this afternoon is about, you know, how we can support—how this can help in terms of tackling poverty, looking at relief for first-time buyers, and in considering zero-carbon homes. All of these are policy issues that we can look at, but, just in answer to your question on 2013-14, I can give you some information. As you say, there were 51,600 property transactions in Wales, 4.2%, actually, of the UK total. Of this total, 47,000 were residential transactions, and 4,600 were non-residential, including mixed property transactions.

Diolch yn fawr iawn, Peter Black. Wrth gwrs, bydd eich profiad yn y Gofrestrfa Tir yn ddefnyddiol iawn, rwy'n siŵr, o ran eich gwaith o graffu ar y Mesur hwn, ond, yn amlwg, mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Ond rwyf yn meddwl bod gennych lawer mwy o ddiddordeb yn effeithiau polisi'r dreth trafodiadau tir newydd hon, ac wrth gwrs, rwyf yn croesawu hynny. Wyddoch chi, mae'n fater o gysondeb a thegwch. Rwy'n credu mai un o'r pwyntiau pwysig a godwyd y prynhawn yma yw, wyddoch chi, sut y gallwn gefnogi—sut y gall hyn helpu o ran trechu tlodi, edrych ar ostyngiadau i brynwyr tro cyntaf, ac wrth ystyried cartrefi di-garbon. Mae'r rhain i gyd yn faterion polisi y gallwn edrych arnynt, ond, i ateb eich cwestiwn am 2013-14 yn unig, gallaf roi rhywfaint o wybodaeth ichi. Fel y dywedwch, roedd 51,600 o drafodiadau eiddo yng Nghymru, 4.2%, mewn gwirionedd, o gyfanswm y DU. O'r cyfanswm hwn, roedd 47,000 yn drafodiadau preswyl, a 4,600 yn ddibreswyl, gan gynnwys trafodiadau eiddo cymysg.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:25 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also welcome the statement, remembering that stamp duty land tax has been a highly volatile tax. One year you can a third or three times as much as you have another year.

Rwyf finnau hefyd yn croesawu'r datganiad, gan gofio bod treth dir y doll stamp wedi bod yn dreth hynod gyfnewidiol. Mewn un flwyddyn, gallwch gael traean neu deirgwaith cymaint ag a gewch mewn blwyddyn arall.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Firstly, I think it's important to remember the primary reason for taxation is to provide finance for the public services we all rely on. It is very important to ensure that any tax is not avoided. I know Scotland has set out to replace stamp duty land tax by a new land and buildings transaction tax. Does the Minister agree that any tax brought in must meet these criteria: be simple to operate and easy to understand; bring in the same or more money than the current system; be very difficult to avoid or reduce by using technicalities; and be cheap to collect? Finally, is it not true that any change in the tax will only increase or decrease land and house prices, i.e. price plus tax will remain constant?

Yn gyntaf, rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig cofio mai'r prif reswm dros drethu yw darparu cyllid ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt. Mae'n bwysig iawn sicrhau nad oes unrhyw dreth yn cael ei hosgoi. Rwyf yn gwybod bod yr Alban wedi mynd ati i ddisodli treth dir y doll stamp drwy dreth trafodiadau tir ac adeiladau newydd. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod yn rhaid i unrhyw dreth newydd fodloni'r meini prawf hyn: bod yn syml i'w gweithredu ac yn hawdd i'w deall; codi cymaint neu fwy o arian na'r system bresennol; bod yn anodd iawn ei hosgoi neu ei lleihau drwy ddefnyddio manylion technegol; a bod yn rhad i'w chasglu? Yn olaf, onid yw'n wir mai'r oll a wnaiff unrhyw newid i'r dreth yw cynyddu neu ostwng prisiau tir a thai, h.y. bydd y pris a'r dreth gyda'i gilydd yn aros yn gyson?

16:26

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I thank Mike Hedges for that, and I think I shall commission Mike Hedges to write the simple-to-read-and-understand guide to this new land transaction tax. Clearly, this is something where we have got an opportunity. I've talked about developing a Welsh tax avoidance rule, but it is an opportunity for us to then develop a made-in-Wales tax, which, I believe, will meet the needs that Mike Hedges is outlining.

Wel, diolch i Mike Hedges am hynna, ac rwyf yn meddwl y gwnaf gomisiynu Mike Hedges i ysgrifennu'r canllaw hawdd ei ddarllen a'i ddeall i'r dreth trafodiadau tir newydd. Yn amlwg, mae hwn yn faes lle mae gennym gyfle. Rwyf wedi sôn am ddatblygu rheol osgoi treth i Gymru, ond mae'n gyfle inni wedyn i ddatblygu treth a wnaed yng Nghymru, a fydd, yn fy marn i, yn diwallu'r anghenion y mae Mike Hedges yn eu hamlinellu.

16:26

6. Datganiad: Adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn: Lle i'w Alw'n Gartref? Adolygiad o Ansawdd Bywyd a Gofal Pobl Hŷn sy'n byw mewn Cartrefi Gofal Preswyl yng Nghymru

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to a statement by the Minister for Health and Social Services on the older people's commissioner's report, 'A Place to Call Home?' I call on the Minister for Health and Social Services to present the report. Minister.

6. Statement: The Older People's Commissioner's Report: A Place to Call Home? A Review into the Quality of Life and Care of Older People living in Care Homes in Wales

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Symudwn yn awr at ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am adroddiad y comisiynydd pobl hŷn, 'Lle i'w Alw'n Gartref?' Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflwyno'r adroddiad. Weinidog.

16:27

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Diolch yn fawr, Lywydd. Heddiw, rwy'n amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y comisiynydd pobl hŷn ar ansawdd gofal preswyl, sef, 'Lle i'w Alw'n Gartref?' Cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi ym mis Tachwedd y llynedd, yn dilyn ymchwiliad o fwy na 12 mis. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar wella ansawdd a disgwyliadau. Roedd hefyd yn cadarnhau bod gofal preswyl yn opsiwn cadarnhaol i nifer o bobl, ac yn un sy'n gwella ansawdd eu bywyd.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys 43 o gamau gweithredu gofynnol. Llywodraeth Cymru sydd yn gyfrifol am rai o'r rhain, tra bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, CSSIW, Cyngor Gofal Cymru, ac, wrth gwrs, darparwyr cartrefi gofal eu hunain, sy'n gyfrifol am y camau gweithredu eraill.

Man cychwyn y comisiynydd yw bod yn rhaid i ofal preswyl gynnig yr un syniad o 'gartref' y mae pob un ohonom ni yn ei werthfawrogi yn ein bywydau pob dydd—rhywle diogel, preifat a phersonol, ond un sydd hefyd yn rhan o gymuned ehangach.

Thank you, Presiding Officer. Today, I set out the Welsh Government's response to the older people's commissioner's report on the quality of residential care, namely, 'A Place to Call Home?' The report was published in November last year, following more than 12 months' investigation. It focused on raising quality and expectations. It also confirmed that residential care is a positive choice for many people and one that enhances their quality of life.

The report included 43 required action points. The Welsh Government is responsible for some of these, while local authorities and local health boards, CSSIW, the Care Council for Wales, and, of course, providers of care homes themselves, are responsible for the other action points.

The starting point for the commissioner is that residential care had to provide the same idea of 'home' that all of us appreciate in our daily lives—somewhere that is safe, private and personal, but that is also part of a wider community.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'r comisiynydd yn cynnig set o argymhellion am rôl deddfwriaeth a chynllunio i wella gwasanaethau gofal preswyl. Yma yn y Cynulliad Cenedlaethol y llynedd, cafodd Deddf ei phasio a oedd yn rhoi sylfaen newydd i ofal cymdeithasol. Mewn ffordd, mae adroddiad y comisiynydd yn sôn am sector sy'n dal i weithio gyda deddfwriaeth yr oes o'r blaen, gan fod rhai o'r cyfreithiau yn dyddio yn ôl mor bell ag 1948. Wrth i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gael ei rhoi ar waith y flwyddyn nesaf, bydd hyn yn creu newid sylfaenol yn y berthynas rhwng dinasgyddion a'r gwasanaethau y maen nhw'n eu derbyn. Bydd hefyd yn moderneiddio gofal cymdeithasol ledled Cymru.

O ran gofal preswyl, bydd y Ddeddf yn golygu bod angen cydweithio rhwng y gwasanaethau y mae'r comisiynydd wedi dweud eu bod yn flaenoriaeth. Bydd yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio ar y cyd ar gyfer anghenion pobl. Bydd y bwrdd comisiynu cenedlaethol newydd yn cydlynu'r broses o gynllunio gwasanaethau gofal preswyl ar gyfer Cymru gyfan, a bydd pwerau newydd sylweddol yn dod i rym a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid yn y maes iechyd a llywodraeth leol gyfuno cyllidebau.

Llywydd, in further deploying legislation as a tool to bring about improvement, I will, later this month, publish the regulation and inspection of social care (Wales) Bill. It will set out proposals to deliver ongoing improvement, increasing transparency and accountability across social care. The commissioner proposes a national approach to improvement; I agree, and the Bill will propose reform of the Care Council for Wales to strengthen our Wales-wide approach to social care service development and improvement. The new body will play a central role in supporting local authorities and others in the sector to deliver high-quality care. I will also consider the commissioner's suggestions for a strengthened inspection and regulatory regime alongside the recommendations made by Ruth Marks in her independent review of Healthcare Inspectorate Wales. She, too, advocates a more integrated approach to inspection across health and social care. I will set out our proposals for how best to achieve this later this year.

Llywydd, 'A Place to Call Home?' makes a series of recommendations for national action, of the sort I have just described, but it also has a very clear message about the fundamental importance of the day-to-day interactions that shape the lives of residents in care homes. Many of the recommendations made by the commissioner here are directed to other agencies and organisations, but those that focus on meeting basic health needs lie firmly within the NHS, and I now want to concentrate on the practical actions that are being taken on those aspects of the commissioner's report.

The commissioner provides a set of recommendations about the role of legislation and planning in improving residential care services. Here in the National Assembly, last year, we passed a law that gave a new foundation to social care. In a way, the commissioner's report highlights a sector that still works with legislation from a previous generation, as some of the laws date back as far as 1948. As the Social Services and Well-being (Wales) Act (2014) comes into force next year, it will create a fundamental change in the relationship between citizens and the services they receive. It will also modernise social care across Wales.

In terms of residential care, the Act will mean that there is a need for joint working between services, which the commissioner identifies as a priority. Local authorities and health boards will work together to plan jointly for their population's needs. The new national commissioning board will take forward the co-ordinating of the planning of residential care services for the whole of Wales, and significant new powers will come into force that will require partners in the areas of health and local government pool budgets.

Llywydd, i wneud mwy i ddefnyddio deddfu fel arf i ysgogi gwelliant, byddaf, yn nes ymlaen y mis hwn, yn cyhoeddi'r Bil rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol (Cymru). Bydd yn nodi cynigion i sicrhau gwelliant parhaus, gan gynyddu tryloywder ac atebolrwydd ar draws gofal cymdeithasol. Mae'r comisiynydd yn cynnig dull cenedlaethol o welliant; rwyf yn cytuno, a bydd y Bil yn cynnig diwygio Cyngor Gofal Cymru er mwyn cryfhau ein dull gweithredu Cymru gyfan are gyfer datblygu a gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol. Bydd y corff newydd yn chwarae rhan ganolog wrth gefnogi awdurdodau lleol ac eraill yn y sector i ddarparu gofal o ansawdd uchel. Byddaf hefyd yn ystyried awgrymiadau'r comisiynydd am drefn arolygu a rheoleiddio gryfach ochr yn ochr â'r argymhellion a wnaeth Ruth Marks yn ei hadolygiad annibynnol o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae hithau hefyd yn argymhell dull mwy integredig o arolygu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Byddaf yn nodi ein cynigion ar gyfer y ffordd orau o gyflawni hyn yn ddiweddarach eleni.

Llywydd, mae 'Le i'w Alw'n Gartref?' yn gwneud cyfres o argymhellion ar gyfer gweithredu cenedlaethol, o'r math yr wyf newydd ei ddisgrifio, ond mae hefyd yn rhoi neges glir iawn ynghylch pwysigrwydd sylfaenol y rhyngweithio o ddydd i ddydd sy'n llunio bywydau preswylwyr cartrefi gofal. Mae llawer o'r argymhellion a wnaeth y comisiynydd yn y fan yma yn cael eu cyfeirio at asiantaethau a sefydliadau eraill, ond mae'r rhai sy'n canolbwyntio ar fodloni anghenion iechyd sylfaenol yn perthyn yn bendant i'r GIG, ac rwyf nawr yn awyddus i ganolbwyntio ar y camau ymarferol sy'n cael eu cymryd ar yr agweddau hynny ar adroddiad y comisiynydd.

Members will be aware of the intermediate care fund, which has allowed health, social care and third sector partners to develop new services in all parts of Wales. Few things can be more disruptive to the quality of lives of frail and vulnerable people in residential care than unnecessary and unplanned admissions to hospital. The ICF has seen LHBs and others put new arrangements in place to prevent such events and to promote timely discharge back to home when a stay in hospital has been a necessity. Using part of the £70 million autumn statement consequential, the Welsh Government will play our part in continuing to promote the dissemination of successful schemes and their continuation into the future.

At the same time, practical services for care home residents will benefit from the additional investment being provided for primary care in Wales. I entirely agree with the commissioner's conclusion that basic services in audiology, optometry and dentistry, for example, must be of at least an equal standard for people in residential care as for anyone living in their own homes. In response to her report, therefore, a series of practical actions will be taken. Yesterday, the Deputy Minister for Health, Vaughan Gething, launched a £0.25 million programme specifically designed to deliver improved oral health for older people living in care homes in Wales. Discussions are under way with Community Pharmacy Wales to expand the discharge medicines review service to the care home setting. More generally, I expect that primary care services for older people in residential care will go on taking their share of benefit from the new investment we have been able to make in this area, with £3.5 million already committed in this financial year and a total of £40 million for 2015-16. And we can already see plans to deploy the skills of the wider primary care team to meet the commissioner's requirements. I look forward to working with the 64 primary care clusters across Wales, so that the ambitions of 'A Place to Call Home?' can be realised in that way.

In the field of mental health, community mental health teams have links to and support care homes already when required, but I want to see these links formalised so that staff in residential care homes have a key contact within those teams to improve this part of primary care for residents.

Finally, Llywydd, I want to reiterate the point that the commissioner makes that the people who work in social care are the sector's principal asset. As the commissioner says very regularly, whenever examples of excellent care are to be found, they rest on an engaged and motivated workforce. The best care providers are good employers who support their workforce and take a long-term view. They invest in those members of their staff, often deploying the considerable resources that the Welsh Government continues to provide in this area. And over the next few months, for example, we will bring forward plans to enhance dementia training on a national basis for our care home staff. I agree with the older person's commissioner that we must recognise the social care workforce as the central pillar of high-quality care in sustainable social services.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r gronfa gofal canolraddol, sydd wedi caniatáu i iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid trydydd sector ddatblygu gwasanaethau newydd ym mhob rhan o Gymru. Ni all fod llawer o bethau'n fwy trafferthus i ansawdd bywydau pobl fregus ac agored i niwed mewn gofal preswyl na derbyniadau diangen a heb eu cynllunio i'r ysbty. Mae Hwyluso Cwynion Annibynnol wedi gweld Byrddau Iechyd Lleol ac eraill yn rhoi trefniadau newydd ar waith i atal digwyddiadau o'r fath a hybu rhyddhau cleifion yn amserol yn ôl i gartref ar ôl bod angen cyfnod yn yr ysbty. Gan ddefnyddio rhan o swm canlyniadol £70 miliwn datganiad yr hydref, bydd Llywodraeth Cymru yn chwarae ein rhan wrth barhau i hyrwyddo lledaeniad cynlluniau llwyddiannus a'u parhad i'r dyfodol.

Ar yr un pryd, bydd gwasanaethau ymarferol i breswylwyr cartrefi gofal yn elwa ar y buddsoddiad ychwanegol sy'n cael ei ddarparu i ofal sylfaenol yng Nghymru. Cytunaf yn llwyr â chasgliad y comisiynydd bod yn rhaid i wasanaethau sylfaenol awdioleg, optometreg a deintyddiaeth, er enghraifft, fod o leiaf o safon gyfartal i bobl mewn gofal preswyl ag i unrhyw un sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain. Mewn ymateb i'w hadroddiad, felly, cymerir cyfres o gamau ymarferol. Ddoe, lansiodd y Dirprwy Weinidog Iechyd, Vaughan Gething, raglen gwerth £0.25 miliwn a gynlluniwyd yn benodol i ddarparu gwell iechyd ceg i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Mae trafodaethau ar y gweill gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru i ehangu'r gwasanaeth adolygu meddyginaethau wrth ryddhau i'r lleoliad cartref gofal. Yn fwy cyffredinol, rwyf yn disgwyl y bydd gwasanaethau gofal sylfaenol i bobl hŷn mewn gofal preswyl yn parhau i gymryd eu cyfran o fudd o'r buddsoddiad newydd yr ydym wedi gallu ei wneud yn y maes hwn—mae £3.5 miliwn eisoes wedi'i ymrwymo yn y flwyddyn ariannol hon a chyfanswm o £40 miliwn ar gyfer 2015-16. A gallwn eisoes weld cynlluniau i ddefnyddio sgiliau'r tîm gofal sylfaenol ehangach i fodloni gofynion y comisiynydd. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r 64 o glystyrau gofal sylfaenol ledled Cymru, fel y gellir gwireddu uchelgeisiau 'Lle i'w Alw'n Gartref?' yn y ffordd honno.

Ym maes iechyd meddwl, mae gan dimau iechyd meddwl cymunedol gysylltiadau â chartrefi gofal ac maent eisoes yn eu cefnogi pan fo angen, ond hoffwn weld y cysylltiadau hyn yn cael eu ffurfioli er mwyn i staff mewn cartrefi gofal preswyl gael cyswllt allweddol o fewn y timau hynny i wella'r rhan hon o ofal sylfaenol i breswylwyr.

Yn olaf, Lywydd, hoffwn ailadrodd y pwynt a wnaeth y comisiynydd mai'r bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yw prif ased y sector. Fel y mae'r comisiynydd yn ei ddweud yn rheolaidd iawn, pryd bynnag y gwelir enghreifftiau o ofal gwych, cânt eu darparu gan weithlu ymgysylltiedig a brwdfrydig. Mae'r darparwyr gofal gorau yn gyflogwyr da sy'n cefnogi eu gweithlu ac yn ystyried y tymor hir. Maent yn buddsoddi yn yr aelodau staff hynny, yn aml gan ddefnyddio'r adnoddau sylweddol y mae Llywodraeth Cymru'n parhau i'w darparu yn y maes hwn. A dros yr ychydig fisoedd nesaf, er enghraifft, byddwn yn cyflwyno cynlluniau i wella hyfforddiant dementia'n genedlaethol i'n staff cartrefi gofal. Rwyf yn cytuno â'r comisiynydd pobl hŷn bod yn rhaid inni gydnabod mai'r gweithlu gofal cymdeithasol yw'r piler canolog ar gyfer gofal o safon uchel mewn gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy.

I am immensely grateful to the commissioner for her work. This report has been a major landmark, helping to ensure a good quality of life for people living in residential care services. The Government looks forward to playing our part in the wider effort required to realise that ambition.

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r comisiynydd am ei gwaith. Mae'r adroddiad hwn wedi bod yn dirlod pwysig, gan helpu i sicrhau ansawdd bywyd da i bobl sy'n byw mewn gwasanaethau gofal preswyl. Mae'r Llywodraeth yn edrych ymlaen at chwarae ein rhan yn yr ymdrech ehangach sydd ei hangen i wireddu'r uchelgais hwnnw.

16:36

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Minister, for your statement. At the outset, I just want to put on record my thanks to the commissioner and her team for what is an excellent report. It makes for difficult reading, in part, in terms of some of the findings about the quality of life, or lack of quality of life, that is being enjoyed by residents in some of Wales's care homes. Nevertheless, there are also some very good examples of good practice, which are also very heartening. And I think it is important that we consider those people in homes across Wales who are getting good experiences, as well as those who are having, all too often, a poor experience.

Diolch, Weinidog, am eich datganiad. Yn gyntaf, hoffwn gofnodi fy niolch i'r comisiynydd a'i thîm am yr adroddiad ardderchog hwn. Mae'n anodd ei ddarllen, mewn mannau, o ran rhai o'r canfyddiadau am yr ansawdd bywyd, neu'r diffyg ansawdd bywyd, y mae preswylwyr rhai o gartrefi gofal Cymru'n ei fwynhau. Serch hynny, mae hefyd yn rhoi rhai enghreifftiau da iawn o arfer da, sydd hefyd yn galonogol iawn. Ac rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn ystyried y bobl hynny mewn cartrefi ledled Cymru sy'n cael profiadau da, yn ogystal â'r rhai sydd, yn rhy aml, yn cael profiad gwael.

I've been pleased that the Minister has responded so positively to the report and its findings. I can appreciate that not all of the recommendations in the report are for the Minister to follow through. There will be a need for the Minister to work with partners in local government, and, of course, employers and care home forums, and in primary and secondary care as well, in order to resolve some of the issues that the commissioner has identified. But I can't help but feel that we have to have an approach to this that doesn't just focus on the architecture of new regulation and new frameworks for accountability, but something that will be able to deliver the cultural change that we need to see in the care home sector across Wales. We know that the sector faces challenges in terms of its ability to recruit sufficiently qualified and passionate staff, who feel called as a vocation, if you like, to the care industry. Part of the challenge that they have is, of course, the challenge in terms of their own fee income levels, to be able to invest in the staff in a way that they would like. I would appreciate it, Minister, if you could just help us to understand, as an Assembly, what action you might be able to take in order to improve the resources available to allow for an improvement in the quality of life in care homes across Wales, as a result of some of the announcements that you have made.

Rwyf wedi fy mhlesio bod y Gweinidog wedi ymateb mor gadarnhaol i'r adroddiad a'i ganfyddiadau. Gallaf werthfawrogi'r ffaith nad lle'r Gweinidog yw ymateb i bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad. Bydd angen i'r Gweinidog weithio gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol, ac, wrth gwrs, cyflogwyr a fforymau cartrefi gofal, ac mewn gofal sylfaenol ac eilaidd hefyd, er mwyn datrys rhai o'r materion y mae'r comisiynydd wedi'u nodi. Ond ni allaf lai na themlo bod yn rhaid inni ymdrin â hyn mewn ffordd nad yw'n canolbwyntio'n llwyr ar bensaerniaeth y rheoliad newydd a'r fframweithiau atebolrwydd newydd, ond sy'n rhywbeth a fydd yn gallu cyflawni'r newid diwylliannol y mae angen inni ei weld yn y sector cartrefi gofal ledled Cymru. Rydym yn gwybod bod y sector yn wynebu heriau o ran ei allu i recriwtio staff digon cymwysedig a brwdfrydig, sy'n teimlo bod galwedigaeth yn y diwydiant gofal yn eu galw, os mynnwch chi. Rhan o'r her sydd ganddynt yw, wrth gwrs, yr her o ran lefelau incwm eu ffioedd eu hunain, er mwyn gallu buddsoddi yn y staff fel y byddent yn dymuno ei wneud. Byddwn yn gwerthfawrogi, Weinidog, pe gallech ein helpu i ddeall, fel Cynulliad, pa gamau y gallai fod yn bosibl ichi eu cymryd i wella'r adnoddau sydd ar gael er mwyn caniatáu gwelliant mewn ansawdd bywyd mewn cartrefi gofal ledled Cymru, o ganlyniad i rai o'r cyhoeddiadau yr ydych wedi'u gwneud.

The role of primary care, of course, is absolutely essential. I was very pleased to see the announcement yesterday by the Deputy Minister for Health in terms of £0.25 million going into oral care. But I would question whether that is sufficient, particularly given the growing population in our care homes across Wales, and given the significantly much greater investment that is put into the Designed to Smile programme, for example, which, of course, is aimed at children and young people. So, there doesn't seem to be an adequate balance there in terms of resources available to tackle some of the problems in oral health for older people versus younger people.

Mae swyddogaeth gofal sylfaenol, wrth gwrs, yn gwbl hanfodol. Roeddwn yn falch iawn o weld y cyhoeddiad ddoe gan y Dirprwy Weinidog Iechyd bod £0.25 miliwn yn mynd tuag at ofal y geg. Ond byddwn yn cwestiynu a yw hynny'n ddigonol, yn enwedig o ystyried y boblogaeth sy'n tyfu yn ein cartrefi gofal ledled Cymru, ac o gofio'r buddsoddiad llawer iawn mwy sy'n cael ei roi i'r rhaglen Cynllun Gwên, er enghraifft, sydd, wrth gwrs, wedi'i fwriadu ar gyfer blant a phobl ifanc. Felly, nid yw'n ymddangos bod cydbwysedd digonol yno o ran yr adnoddau sydd ar gael i ymdrin â rhai o'r problemau ym maes iechyd y geg i bobl hŷn o'u cymharu â phobl iau.

In addition, I also welcome the announcement on medicines reviews taking place. We know that they have significant benefits in terms of preventing hospital readmissions and supporting recovery. But, of course, there is another issue that is identified in the report, and that is access to GP out-of-hours services being problematic in some parts of Wales, causing unnecessary hospital admissions. I wonder, Minister, if you could advise us as to what specific action you're taking to improve GP out-of-hours services in parts of the country where rotas et cetera are difficult to fill. We've seen a manifestation of some of those problems over the winter period, with unscheduled care across Wales.

So, I look forward to seeing these recommendations implemented. I would hope, Minister, that you will be able to commit today to providing a further update to Assembly Members in 12 months' time, so that we can keep track of these issues and not lose sight of them, so that all of the older people in Wales who do, for whatever reason, end up in a care home, can enjoy the quality of life that they deserve.

16:40

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you to Darren Millar for the very balanced way in which he introduced his remarks. I remain very keen to work with all others across the sector to pursue the recommendations made by the commissioner.

I agree with what Darren Millar said about the need for cultural change, and the commissioner makes this point as well—but she makes it in saying that, if as a society we want to be interested in the quality of life that older people in our residential care homes have, then we cannot expect to simply transfer that responsibility to others. Opening the door of the care home to connect it to the life of the community around it depends on a receptive community as well, and one that is prepared to take an interest and—to take Darren's other point—sometimes is prepared to pay the cost that goes with providing quality of care for people at that part of their lives.

On the point that Darren Millar made about oral healthcare, I think it's a different scheme to Designed to Smile, it's aimed at doing a different job. I think it will make some significant difference to the standards of oral care in our residential care homes.

Yn ogystal, rwyf hefyd yn croesawu'r cyhoeddiad ar gynnal adolygiadau meddyginiaethau. Rydym yn gwybod bod iddynt fanteision sylweddol o ran atal aildderbyniadau i'r ysbyty a chefnogi adferiad. Ond, wrth gwrs, mae'r adroddiad yn nodi mater arall, sef ei bod yn anodd cael mynediad at feddyg teulu y tu allan i oriau arferol mewn rhai rhannau o Gymru, sy'n achosi derbyniadau diangen i'r ysbyty. Tybed, Weinidog, a allech chi ein cynghori ynghylch pa gamau penodol yr ydych yn eu cymryd i wella gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau arferol mewn rhannau o'r wlad lle mae'n anodd llenwi rotas ac ati. Rydym wedi gweld rhai o'r problemau hynny'n dod i'r amlwg dros y gaeaf ym maes gofal heb ei drefnu ledled Cymru.

Felly, edrychaf ymlaen at weld yr argymhellion hyn yn cael eu rhoi ar waith. Byddwn yn gobeithio, Weinidog, y gallwch ymrwymo heddiw i roi diweddariad pellach i Aelodau'r Cynulliad ymhen 12 mis, fel y gallwn ddilyn y materion hyn a chadw golwg arnynt, fel bod yr holl bobl hŷn yng Nghymru sydd, am ba bynnag reswm, yn byw mewn cartrefi gofal, yn gallu mwynhau'r ansawdd bywyd y maent yn ei haeddu.

Diolch i Darren Millar am gyflwyno ei sylwadau yn y ffordd gytbwys iawn honno. Rwyf yn dal yn awyddus iawn i weithio gyda phawb arall ar draws y sector i fynd ar drywydd yr argymhellion a wnaed gan y comisiynydd.

Rwyf yn cytuno â'r hyn a ddywedodd Darren Millar fod angen newid diwylliannol, ac mae'r comisiynydd yn gwneud y pwynt hwn hefyd—ond mae hi'n ei wneud drwy ddweud, os ydym fel cymdeithas am fod â diddordeb yn yr ansawdd bywyd sydd gan bobl hŷn yn ein cartrefi gofal preswyl, na allwn felly ddisgwyl gallu trosglwyddo'r cyfrifoldeb hwnnw'n syml i bobl eraill. Mae agor drws y cartref gofal i'w gysylltu â bywyd y gymuned o'i gwmpas yn dibynnu ar gymuned sy'n ei dderbyn hefyd, ac un sy'n barod i ddangos diddordeb ac—i gymryd pwynt arall Darren—weithiau'n barod i dalu'r gost sy'n gysylltiedig â darparu gofal o safon i bobl ar yr adeg honno yn eu bywydau.

O ran y pwynt a wnaeth Darren Millar am ofal iechyd y geg, rwyf yn meddwl ei fod yn gynllun gwahanol i'r Cynllun Gwên; mae ganddo fwriad gwahanol. Rwy'n credu y bydd yn gwneud gwahaniaeth eithaf sylweddol i safonau gofal y geg yn ein cartrefi gofal preswyl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The medicines reviews are particularly important, given what we know about polypharmacy, the tendency of people to, you know, have falls and other infections if their medicines aren't kept properly in balance. There's some very interesting work that's gone on over this last winter, not directly in relation to out-of-hours, but in making sure that residential care home staff who are unsure whether somebody can continue to be looked after successfully in what is, let's remember, their own home, or may need to be taken elsewhere, can have direct access to A&E staff—senior A&E staff—and get advice in that way. We're interested in doing more on that. I recognise that we've responded to the older persons' commissioner's report within three months of its publication, as required. This is a start. I'm very happy to commit to further updates to Assembly Members as they become relevant.

Mae'r adolygiadau meddyginiaethau'n arbennig o bwysig, o ystyried yr hyn a wyddom am bolyfferylliaeth, tuedd pobl i, wyddoch chi, gael codymau a dioddef heintiau eraill os na chaiff eu meddyginiaethau eu cadw mewn cydbwysedd priodol. Gwnaethpwyd gwaith diddorol iawn dros y gaeaf diwethaf, nid yn uniongyrchol o ran gofal y tu allan i oriau arferol, ond o ran gwneud yn siŵr bod staff cartrefi gofal preswyl sy'n ansicr a oes modd i rywun barhau i dderbyn gofal yn llwyddiannus yn, dewch inni gofio, eu cartref eu hunain, ynteu a oes angen efallai mynd â nhw i fannau eraill, yn gallu cysylltu'n uniongyrchol â staff Damweiniau ac Achosion Brys—staff uwch Damweiniau ac Achosion Brys—a chael cyngor yn y ffordd honno. Mae gennym ddi-ddordeb mewn gwneud mwy ar hynny. Rwyf yn cydnabod ein bod wedi ymateb i adroddiad y comisiynydd pobl hŷn o fewn tri mis o'i gyhoeddi, fel oedd yn ofynnol. Mae hyn yn ddechrau. Rwy'n hapus iawn i ymrwymo i roi diweddariadau pellach i Aelodau'r Cynulliad wrth iddynt ddod yn berthnasol.

16:42

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Can I thank the Minister for his statement today and also place on record my thanks to the older people's commissioner for what is a very comprehensive report, and one that I hope the Welsh Government will take forward vigorously?

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw a chofnodi fy niolch hefyd i'r comisiynydd pobl hŷn am yr adroddiad cynhwysfawr iawn hwn, un yr wyf yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen ag ef yn egniol?

I do welcome much that's in the statement today, in particular the commitments to training and also the Deputy Minister's announcement yesterday of the additional funding for oral health. There were just several questions that I wanted to ask.

Rwyf yn croesawu llawer o'r hyn sydd yn y datganiad heddiw, yn enwedig yr ymrwymadau i hyfforddiant a hefyd gyhoeddiad y Dirprwy Weinidog ddoe am y cyllid ychwanegol ar gyfer iechyd y geg. Roedd nifer o gwestiynau yr oeddwn eisiau eu gofyn.

One of the main things running throughout the report is the emphasis on quality of life, and that improving life for older people in residential settings is not just about ensuring their basic needs are met, but ensuring that their quality of life is improved. I welcome what the Minister said about using the forthcoming Bill to address some of those issues, but I'd be grateful if he could outline how they will specifically address not just the standards of care but the quality of life issues that are so in need of addressing.

Un o'r prif themâu drwy gydol yr adroddiad yw'r pwyslais ar ansawdd bywyd, a bod gwella bywyd pobl hŷn mewn lleoliadau preswyl yn golygu mwy na dim ond sicrhau bod eu hanghenion sylfaenol yn cael eu diwallu; mae'n golygu sicrhau bod ansawdd eu bywyd yn cael ei wella. Rwyf yn croesawu'r yr hyn a ddywedodd y Gweinidog am ddefnyddio'r Bil sydd ar y gweill i ymdrin â rhai o'r materion hynny, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallai amlinellu sut y byddant yn ymdrin yn benodol â nid dim ond y safonau gofal, ond â'r materion ansawdd bywyd y mae cymaint o angen ymdrin â hwy.

The Minister is well aware of my concerns about the impact of care home closures in Wales, and also my concerns about the impact of the market in care home provision, and impact that has on the quality of provision for older people. One of the things that the older persons' commissioner called for was a national plan for future supply, which I think is absolutely fundamental, and I'd like to ask how the Minister is planning to address that specific recommendation and, in particular, how he is going to ensure that we have less dependence on the private sector and more input from not-for-profit providers in Wales.

Mae'r Gweinidog yn gwybod yn iawn am fy mhryderon ynghylch effaith cau cartrefi gofal yng Nghymru, a hefyd fy mhryderon ynghylch effaith y farchnad ar ddarpariaeth cartrefi gofal, ac effaith hynny ar ansawdd y ddarpariaeth i bobl hŷn. Un o'r pethau yr oedd y comisiynydd pobl hŷn yn galw amdano oedd cynllun cenedlaethol ar gyfer cyflenwi yn y dyfodol, sy'n gwbl hanfodol yn fy marn i, a hoffwn ofyn sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu rhoi sylw i'r argymhelliad penodol hwnnw ac, yn arbennig, sut y mae'n mynd i sicrhau ein bod yn llai dibynnol ar y sector preifat ac yn cael mwy o fewnbwn gan ddarparwyr dielw yng Nghymru.

Just finally, on the issue of training, I welcome what the Minister's said today about the training of the social care workforce. Specifically, the older persons' commissioner recommended that there should be dementia training for all of the social care force as a minimum, and I'd like to ask the Minister whether his plan for training will include that requirement. Thank you.

Ac yn olaf, ynglŷn â hyfforddiant, rwyf yn croesawu'r hyn a ddywedodd y Gweinidog heddiw am hyfforddiant y gweithlu gofal cymdeithasol. Yn benodol, argymhellodd y comisiynydd pobl hŷn y dylai fod hyfforddiant dementia i bawb yn y lluo gofal cymdeithasol o leiaf, a hoffwn ofyn i'r Gweinidog a fydd ei gynllun ar gyfer hyfforddiant yn cynnwys y gofyniad hwnnw. Diolch yn fawr.

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Lynne Neagle for those questions. She's absolutely right to draw attention to the theme in the Commissioner for Older People in Wales's report about quality of life. Those of us who heard the Reith lectures this year will have heard that very distinguished physician, Atul Gawande, also reflecting on the quality of life in residential care, and saying that the key thing that matters to all of us is having something to look forward to tomorrow, some reason for waking up, something that we are going to be able to do with our lives that day, and reflecting that there are many things that residential care homes can do to try and make sure that their residents wake up in exactly that way.

Diolch i Lynne Neagle am y cwestiynau yna. Mae hi'n hollol gywir i dynnu sylw at y thema yn adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n sôn am ansawdd bywyd. Bydd y rhai ohonom a glywodd ddarlithoedd Reith eleni wedi clywed meddyg nodedig iawn, Atul Gawande, hefyd yn myfyrto ar ansawdd bywyd mewn gofal preswyl, ac yn dweud mai'r peth allweddol sy'n bwysig i bawb ohonom yw cael rhywbeth i edrych ymlaen ato yfory, rhyw reswm i ddeffro, rhywbeth yr ydym yn mynd i allu ei wneud gyda'n bywydau y diwrnod hwnnw, gan nod bod llawer o bethau y gall cartrefi gofal preswyl eu gwneud i geisio gwneud yn siŵr bod eu preswylwyr yn deffro yn yr union ffordd honno.

As far as care home closures are concerned, and managing the market, this will be a major theme in the regulation and inspection of social care Bill that I hope to introduce on the floor of the Assembly after half term. We will require local market statements by local authorities and their healthcare partners, but we will have national market position statements, too, drawn up by the national commissioning board, to respond to that recommendation of the commissioner.

Cyn belled ag y mae cau cartrefi gofal yn y cwestiwn, a rheoli'r farchnad, bydd hyn yn thema bwysig yn y Bil rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yr wyf yn gobeithio ei gyflwyno ar lawr y Cynulliad ar ôl hanner tymor. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid gofal iechyd gyflwyno datganiadau am y farchnad leol, ond byddwn yn cael datganiadau am sefyllfa'r farchnad genedlaethol, hefyd, a luniwyd gan y bwrdd comisiynu cenedlaethol, i ymateb i'r argymhelliad hwnnw gan y comisiynydd.

We need a more balanced set of suppliers. It's not my ambition particularly to reduce dependence on the private sector, but more to make sure that we don't end up in the position that we did with Southern Cross, where we are over-dependent on any one supplier in the market, because that's not a safe place for older people to be.

Mae arnom angen cyfres fwy cytbwys o gyflenwyr. Nid yw'n uchelgais arbennig gennyf i leihau dibyniaeth ar y sector preifat, ond gwneud yn siŵr yn hytrach na fyddwn yn y pen draw yn yr un sefyllfa ag yr oeddem gyda Southern Cross, o fod yn or-ddibynnol ar unrhyw un cyflenwr yn y farchnad, oherwydd nid yw hynny'n sefyllfa ddiogel i bobl hŷn fod ynddi.

Finally, in relation to dementia: yes, it is my intention—and not too much later during this year—to bring together a number of strands in dementia that I've been discussing with the older persons' commissioner and others, and that will include a new national approach to dementia training.

Yn olaf, ynglŷn â dementia: ydw, rwyf yn bwriadu—ac nid yn llawer diweddarach eleni—dod â nifer o feysydd dementia yr wyf wedi bod yn eu trafod gyda'r comisiynydd pobl hŷn ac eraill at ei gilydd, a bydd hynny'n cynnwys dull gweithredu cenedlaethol newydd ar gyfer hyfforddiant dementia.

Lindsay Whittle [Bywgraffiad Biography](#)

Minister, I too welcome the report, as I did last week, and I also welcome your response, so you're going to have a good day today. I look forward indeed to the regulation and inspection Bill that we're to discuss in the future, because I believe that's all about setting very high standards. At the heart of the Social Services and Well-being (Wales) Act, though, is the key policy of enabling service users to play a key part in deciding on the kind of help and support they might need. My question is: what role do you see the older people's commissioner playing in helping to ensure that this part of the Act is being implemented?

Weinidog, rwyf finnau hefyd yn croesawu'r adroddiad, fel y gwneuthum yr wythnos diwethaf, ac rwyf hefyd yn croesawu eich ymateb, felly rydych yn mynd i gael diwrnod da heddiw. Edrychaf ymlaen yn wir at y Bil rheoleiddio ac arolygu y byddwn yn ei drafod yn y dyfodol, gan fy mod yn credu y bydd hwnnw'n gosod safonau uchel iawn. Wrth wraidd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru), fodd bynnag, mae'r polisi allweddol o alluogi defnyddwyr gwasanaeth i chwarae rhan allweddol wrth benderfynu pa fath o gymorth a chefnogaeth y gallai fod eu hangen arnynt. Fy nghwestiwn yw: pa ran yr ydych yn rhagweld y bydd y comisiynydd pobl hŷn yn ei chwarae wrth helpu i sicrhau bod y rhan hon o'r Ddeddf yn cael ei gweithredu?

You make reference to extra money for oral care. Well, have you seen the price of teeth recently? I too question whether that indeed is enough money, but you can suitably respond. As you know, the older people's commissioner's report makes it very clear indeed that she wants to see a comprehensive advocacy service developed to support and assist older people—something that the committee has supported. What plans, Minister, do you have to work with the Commissioner to move that particular idea forward over the coming months?

One of the points that I made last week was that if there is to be anything positive that should follow in the reduction in the number of local authorities in Wales, it is to actually develop a much greater consistency across the public sector—because I prefer the public sector—in how it responds to the health and social care needs of older people. What impact do you think any future local government reorganisation that certain Ministers here are hellbent on proceeding with, will have on progress in this matter?

Finally, a warm welcome to plans to enhance dementia training. It's been a consistent message from the committee: dementia training for our care homes staff, who play such a vital role, as you have reiterated, and I just wanted to re-echo that statement. Thank you.

16:49

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Lindsay Whittle for the last points that he made, and for drawing attention to the pivotal importance of the 2014 Act, as we move towards its full implementation. Gwenda Thomas, many, many times on the floor of this Assembly, said that the key purpose of the Bill—now an Act—was to make sure that service users themselves had a greater sense of voice and control in the way that services are provided, and that will shape the way in which residential care services for older people are provided as well. As Members will know, we've just completed consultation on the first tranche of regulations under the 2014 Act, and we will go out to consultation on the second tranche in May and June of this year, and advocacy, which is Part 10 of the Act, will be part of that second tranche of consultation. We will be working with the older people's commissioner as we move to publishing the draft regulations, code of practice and statutory guidance that go alongside Part 10.

Rydych yn cyfeirio at arian ychwanegol ar gyfer gofal y geg. Wel, a ydych chi wedi gweld pris dannedd yn ddiweddar? Rwyf finnau'n amau a yw hynny wir yn ddigon o arian, ond gallwch ymateb yn briodol. Fel y gwyddoch, mae adroddiad y comisiynydd pobl hŷn yn ei gwneud yn glir iawn wir ei bod eisiau gweld gwasanaeth eiriolaeth cynhwysfawr yn cael ei ddatblygu i gefnogi a chynorthwyo pobl hŷn—rhywbeth y mae'r pwyllgor wedi'i gefnogi. Pa gynlluniau, Weinidog, sydd gennych i weithio gyda'r Comisiynydd i fwrw ymlaen â'r syniad penodol hwnnw yn ystod y misoedd nesaf?

Un o'r pwyntiau a wneuthum yr wythnos diwethaf oedd, os oes unrhyw beth cadarnhaol a ddylai ddilyn y gostyngiad yn nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru, datblygu llawer mwy o gysondeb ar draws y sector cyhoeddus yw hwnnw—oherwydd mae'n well gennyf y sector cyhoeddus—o ran sut y mae'n ymateb i anghenion iechyd a gofal cymdeithasol pobl hŷn. Pa effaith yr ydych yn meddwl a gaiff unrhyw ad-drefnu llywodraeth leol yn y dyfodol, rhywbeth y mae rhai Gweinidogion yma'n benderfynol o fwrw ymlaen ag ef, ar gynydd o ran y mater hwn?

Yn olaf, croeso cynnes i gynlluniau i wella hyfforddiant dementia. Mae wedi bod yn neges gyson gan y pwyllgor: hyfforddiant dementia i staff ein cartrefi gofal, sy'n chwarae rhan mor bwysig, fel yr ydych wedi'i ailadrodd, ac roedd arnaf eisiau adleisio'r datganiad hwnnw. Diolch.

Diolch i Lindsay Whittle am ei bwyntiau olaf, ac am dynnu sylw at bwysigrwydd allweddol Deddf 2014, wrth inni symud tuag at ei rhoi ar waith yn llawn. Dywedodd Gwenda Thomas lawer, lawer gwaith ar lawr y Cynulliad hwn mai pwrpas allweddol y Bil—sydd bellach yn Ddeddf—oedd sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaeth eu hunain fwy o ymdeimlad o lais a rheolaeth yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, a bydd hynny'n llunio'r ffordd y caiff gwasanaethau gofal preswyl i bobl hŷn eu darparu hefyd. Fel y gŵyr yr Aelodau, rydym newydd gwblhau ymgynghoriad ar y gyfran gyntaf o reoliadau o dan Ddeddf 2014, a byddwn yn mynd allan i ymgynghoriad ar yr ail gyfran ym mis Mai a mis Mehefin eleni, a bydd eiriolaeth, sef Rhan 10 o'r Ddeddf, yn rhan o'r ail gyfran honno o'r ymgynghoriad. Byddwn yn gweithio gyda'r comisiynydd pobl hŷn wrth inni symud tuag at gyhoeddi'r rheoliadau, y cod ymarfer a'r canllawiau statudol drafft sy'n mynd ochr yn ochr â Rhan 10.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Finally, Lindsay Whittle made a very important point about local government reorganisation and its impact in this area. My message, and the message that Gwenda Thomas has given as chair of the national partnership forum, very clearly to local government colleagues, is that whatever happens in local government reorganisation, the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 places a statutory requirement on them to work together on regional footprints. Those regional footprints are already identified and the regional leadership arrangements are identified and they must put them in place. There is no excuse of being distracted by anything else that might be going on from fulfilling the statutory obligations that they know are there, and I have been encouraged by going with Gwenda, for example, down to the Hywel Dda area, and to the Cwm Taf area, to meet all the key players around the table, determined to put those regional arrangements in place, and we will hold them to that.

Yn olaf, gwnaeth Lindsay Whittle bwynt pwysig iawn ynghylch ad-drefnu llywodraeth leol ac effaith hynny yn y maes hwn. Fy neges, a'r neges y mae Gwenda Thomas wedi'i rhoi fel cadeirydd y fforwm partneriaeth cenedlaethol, yn glir iawn i gydweithwyr llywodraeth leol, yw beth bynnag sy'n digwydd o ran ad-drefnu llywodraeth leol, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn gosod gofyniad statudol arnynt i gydweithio ar olion traed rhanbarthol. Mae'r olion traed rhanbarthol hynny eisoes wedi'u nodi ac mae'r trefniadau arweinyddiaeth rhanbarthol wedi'u nodi ac mae'n rhaid iddynt eu rhoi ar waith. Nid oes esgus bod unrhyw beth arall a allai fod yn mynd ymlaen yn tynnu eu sylw rhag cyflawni'r rhwymedigaethau statudol y maent yn gwybod eu bod yno, ac rwyf wedi cael fy nghalonogi drwy fynd gyda Gwenda, er enghraifft, i lawr i ardal Hywel Dda, ac i ardal Cwm Taf, i gwrdd â'r holl chwaraewyr allweddol o amgylch y bwrdd, sy'n benderfynol o roi'r trefniadau rhanbarthol hynny ar waith, a byddwn yn sicrhau eu bod yn cadw eu haddewid.

16:51

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rwy'n meddwl bod yr adroddiad yma'n un pwysig ac rwyf hefyd yn croesawu eich datganiad chi yma heddiw. Nid wyf yn meddwl bod unrhyw un yn y Siambwr yma yn cwestiynu'ch diffuantrwydd chi ynglŷn â'r ffordd ymlaen, ond rwy'n meddwl hefyd ei fod yn bwysig, yn eich datganiad, eich bod wedi dweud bod perygl i ni drafod gofal hŷn mewn ffordd negyddol, ond bod rhai o'u profiadau nhw yn eithaf positif yn y sector. Mae'n rhaid i mi ddweud bod y trafodaethau yn ystod y pythefnos olaf yma ynglŷn â nifer o gynghorau yn y gogledd, a'r cydweithio rhwng y cynghorau hynny a'r bwrdd iechyd, ddim yn rhai positif. Felly, rwy'n meddwl bod wir angen i chi edrych ar y sefyllfa a deall yn union beth sy'n mynd ymlaen, o achos, ar lefel strategol, mae diffyg cydweithio rhwng y byrddau iechyd, rwy'n meddwl, a rhai o'n cynghorau ni.

Mae'ch datganiad chi'n sôn am y bwrdd comisiynu cenedlaethol ac rydych yn awyddus i'w gweld nhw'n gwrthio'r agenda hwn ymlaen. A ydych chi mewn sefyllfa prynhawn yma i ddweud yn union beth fydd yr amserlen o ran sefydliad y bwrdd cenedlaethol hwnnw a beth ydy'ch dyheadau chi ar gyfer gweithio yn y fan yna? Hefyd, rydych yn sôn am y rhaglen gwella cenedlaethol. Rydych yn dweud bod eich awgrymiadau chi'n seiliedig ar waith ac argymhellion y comisiynydd ac hefyd gwaith Ruth Marks, ddaru gynnal adolygiad annibynnol o waith yr arolygiaeth iechyd. Sut ydych chi'n mynd i sicrhau ein bod yn symud oddi wrth y parodwydd yma i greu system lle yr ydym jest yn ticio blychau, y mae sôn amdano yn yr adroddiad, o achos yn bendant o ran rhai penderfyniadau yn y gogledd, mewn nifer o gynghorau, mae teimlad ymysg y bobl hŷn a'u teuluoedd mai jest mynd trwy ymarfer o dicio blychau mae'r cynghorau lleol a'r bwrdd iechyd lleol yn y fan yna?

Mae'ch datganiad chi'n cloi trwy sôn am y staff fel prif ased y sector. Mae'n debyg, heb i ni sicrhau bod yna weithlu sefydlog, heb i ni sicrhau bod hyfforddiant yn dda, a, mwy na hynny, fod yna gyflogau teg ar gyfer y gweithlu yna, rwy'n credu bod yna berygl mai yn ofer fydd pob ymdrech. Felly, rwy'n meddwl mai beth sydd angen i ni ei wneud ydy gweld gweithredu ar lawr gwlad yn hytrach na'r athroniaeth yma. Nid wyf yn cwestiynu eich diffuantrwydd chi, fel rwy'n dweud, ond nid wyf hefyd yn tanbrisiu maint y dasg sydd o'ch blaen chi.

Minister, I think this report is an important one and I also welcome your statement here today. I don't think that anyone in the Chamber today questions your sincerity about the way forward, but I think also it's important that, in your statement, you said that there is a risk of us discussing older people's care in a negative way, but that some of their experiences are quite positive in the sector. But I must say that discussions during this last fortnight about a number of councils in north Wales, and the collaboration between those councils and the health board, have not been positive. So, I think there is a real need for you to look at the situation and to understand what's really going on because, on a strategic level, there is a lack of collaboration between the health boards and some of our councils.

Your statement speaks of the national commissioning board and you're keen to see them pushing this agenda forward. Are you in a situation this afternoon to say exactly what the time frame will be in terms of establishing that national board and what your expectations are for working with that? You also talk about the national improvement plan. You say that your suggestions are based on the work and recommendations of the commissioner and Ruth Marks's work, who undertook an independent review of the health inspectorate. How are you going to ensure that we move away from this willingness to create a system that's just a tick-box exercise, which is mentioned in the report, because certainly there is a need in terms of some decisions, again in north Wales, where, in a number of councils, there is a feeling among the older people and their families that local councils and the local health board are just going through a tick-box exercise there?

Your statement closes by discussing the staff as the main asset of the sector. Unless we establish a workforce that is stable, unless we ensure good training and, more than that, fair salaries for those workers, I think there is a danger that every effort will be in vain. So, I think what we need to do is to see action at a grass-roots level rather than this philosophy. I don't question your sincerity, as I said, but I also don't want to underestimate the size of the task before you.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

Diolch i Aled Roberts. Jest i gytuno â beth ddywedodd e yn gyntaf, mae'n hollol bwysig rwy'n meddwl i siarad am y sector a beth mae'r sector yn gallu ei wneud ac nid canolbwyntio trwy'r amser ar bethau nid yw'r sector yn eu gwneud. Heddiw, dros y Siambr, beth ddywedodd Darren Millar a beth roedd Lindsay Whittle yn ei ddweud hefyd; os ydym jest yn canolbwyntio ar bethau negyddol trwy'r amser, nid ydym yn mynd i lwyddo i godi'r ymwybyddiaeth yn y sector a'u helpu nhw i wneud y gwaith rydym ni eisiau iddyn nhw ei wneud.

Clywais beth ddywedodd Aled Roberts am bethau yn y gogledd. Wrth gwrs, mae'n hollol bwysig i'r bwrdd a'r awdurdodau lleol yn y gogledd i ddod at ei gilydd i gynllunio am y dyfodol ac i'w wneud gyda'i gilydd. Rwyf newydd apwyntio aelod newydd i fwrdd Betsi Cadwaladr i gynrychioli'r awdurdodau lleol ar y bwrdd. 'So', gobeithio y bydd hynny'n helpu.

On the national commissioning board, it is already in place; it's been established; it has senior people from health, local authorities and the providers, and has already begun to flesh out its original work programme. That would include the development of integrated commissioning of care home places. One of the things we hear a lot from in the sector is about different requirements from health boards and local authorities, sometimes competitive actions between the two sectors in trying to commission places, and the national board will make sure that we do a better job of that in the future. It will, as I said in answer to Lynne Neagle, undertake the national market analysis of the care home sector here in Wales.

I entirely agree with Aled Roberts's point about the need to move beyond a tick-box culture in the way that we carry out regulation and inspection, and I hope that when he sees the Bill and has a chance to be briefed on its contents, he will see how we hope to move in that direction.

Finally, I can't disagree with the point that Aled made about the challenge there is to create the workforce of the future in this sector, which is a low-paid sector. We have to give it the status that it deserves, partly through the training we're able to offer it, but also by the way that we position it in the minds of the public and emphasise the outstanding work that is done in the sector and the necessary work that we rely on those people to carry out on our behalf.

Thank you to Aled Roberts. I just want to agree with what he said first of all; I think it is crucially important to discuss the sector and what the sector can achieve and not always concentrate on failings within the sector. Today, across the Chamber, the comments made by Darren Millar and Lindsay Whittle have done that; if we simply concentrate on the negatives, then we are not going to succeed in raising awareness within the sector and assist them in doing the work that we want to see them doing.

I heard Aled Roberts's comments about the situation in north Wales. Of course, it is crucially important for the health board and the local authorities in north Wales to come together to plan for the future and to do that collaboratively. I have recently appointed a new member of the Betsi Cadwaladr board in order to represent the local authorities at board level. So, I do hope that that will assist in this process.

O ran y bwrdd comisiynu cenedlaethol, mae eisoes ar waith; mae wedi ei sefydlu; mae'n cynnwys swyddogion uwch o feysydd iechyd, awdurdodau lleol a'r darparwyr, ac mae eisoes wedi dechrau rhoi cawd ar esgyrn ei raglen waith gwreiddiol. Byddai hynny'n cynnwys datblygu comisiynu integredig lleoedd mewn cartrefi gofal. Un o'r pethau yr ydym yn dlywed llawer amdano yn y sector yw'r gofynion gwahanol gan fyrdau iechyd ac awdurdodau lleol, camau gweithredu sydd weithiau'n gystadleuol rhwng y ddau sector wrth geisio comisiynu lleoedd, a bydd y bwrdd cenedlaethol yn sicrhau ein bod yn gwneud hynny'n well yn y dyfodol. Bydd, fel y dywedais wrth ateb Lynne Neagle, yn ymgymryd â'r dadansoddiad o farchnad genedlaethol y sector cartrefi gofal yma yng Nghymru.

Cytunaf yn llwyr â phwynt Aled Roberts am yr angen i symud y tu hwnt i ddiwylliant ticio blychau yn y ffordd yr ydym yn rheoleiddio ac yn arolygu, ac rwyf yn gobeithio, pan fydd yn gweld y Bil ac yn cael cyfle i gael ei friffio ar ei gynnwys, y bydd yn gweld sut yr ydym yn gobeithio symud i'r cyfeiriad hwnnw.

Yn olaf, ni allaf anghytuno â'r pwynt a wnaeth Aled am yr her o greu gweithlu'r dyfodol yn y sector hwn, sy'n sector o gyflogau isel. Mae'n rhaid inni roi'r statws y mae'n ei haeddu iddo, yn rhannol drwy'r hyfforddiant y gallwn ei gynnig iddo, ond hefyd drwy'r ffordd yr ydym yn ei leoli mewn meddyliau'r cyhoedd ac yn pwysleisio'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud yn y sector a'r gwaith angenrheidiol yr ydym yn dibynnu ar y bobl hynny i'w gyflawni ar ein rhan.

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Like others this afternoon, I'd also like to put on record my thanks to the commissioner for her work and the work that she's put into publishing this report. Reading the report, it was a shocking report that, to me, outlined a significant and systemic failure within the sector. I welcome the Government's and the Minister's remarks this afternoon, where they highlight a sector governed by the old world. I think that's a very important statement and I certainly read that as meaning this Government intends to move on quickly and with a sense of urgency to put in place the sorts of public structures that will deliver both simplified and clear regulation of the sector, and will also remove what's already been referred to as the cultural aspects of the way that regulation has operated in this sector already.

Minister, I believe that there needs to be a profound intervention by Government in this area. My colleague Lynne Neagle spoke about the not-for-profit model for the delivery of care. I agree with her. I believe we do need to take a radical look at how we not only regulate what is done in the market, but we also look at how the market operates. It is clear from this report that the market alone is not delivering the quality of care that is required. It is extraordinary and shocking that, in the report, it refers to an under-pressure staff, an under-pressure workforce delivering acts of individual kindness to people, as an exception and not the rule. That is something that we really do need to address.

I hope, this afternoon, Minister, you'll be able to outline, certainly, with a sense of urgency, how you see your reforms to the Care Council for Wales strengthening the delivery of care in the sector, but also how the regulation and inspection of social care Bill will fundamentally change the way the sector operates. I hope that the Government will also look at a more profound intervention in the marketplace in this sector. I agree with other Members here this afternoon that we simply cannot expect regulation alone to deliver the sort of cultural change that perhaps we want to see.

Fel eraill y prynhawn yma, hoffwn hefyd gofnodi fy niolch i'r comisiynydd am ei gwaith a'r gwaith y mae hi wedi'i wneud i gyhoeddi'r adroddiad hwn. Wrth ddarllen yr adroddiad, roedd yn adroddiad brawyclus a oedd, i mi, yn amlinellu methiant sylweddol a systemig o fewn y sector. Rwy'n croesawu sylwadau'r Llywodraeth a'r Gweinidog y prynhawn yma, sydd wedi tynnu sylw at sector sy'n cael ei lywodraethu gan yr hen fyd. Rwy'n credu bod hwnnw'n ddatganiad pwysig iawn a fy nehongliad i o hynny yn sicr yw mai bwriad y Llywodraeth hon yw symud ymlaen yn gyflym a gydag ymdeimlad o frys i sefydlu'r mathau o strwythurau cyhoeddus a fydd yn rheoleiddio'r sector yn symlach ac yn gliriach, ac a fydd hefyd yn cael gwared ar yr hyn y cyfeiriwyd ato eisoes fel agweddau diwylliannol y modd y mae rheoleiddio eisoes wedi gweithredu yn y sector hwn.

Weinidog, credaf fod angen ymyrraeth ddwys gan y Llywodraeth yn y maes hwn. Siarodd fy nghyd-Aelod Lynne Neagle am y model dielw ar gyfer darparu gofal. Rwyf yn cytuno â hi. Rwyf yn credu bod angen inni gymryd golwg radical ar sut y gallwn, yn ogystal â rheoleiddio'r hyn a wneir yn y farchnad, edrych ar sut y mae'r farchnad yn gweithredu hefyd. Mae'n amlwg o'r adroddiad hwn nad yw'r farchnad ar ei phen ei hun yn cyflawni gofal o'r ansawdd sydd ei angen. Mae'n rhyfeddol ac yn frawychus bod yr adroddiad yn cyfeirio at staff o dan bwysau, gweithlu o dan bwysau sy'n gwneud pethau caredig i unigolion, fel eithriad ac nid yr arfer. Mae hwnnw'n rhywbeth y mae gwir angen inni roi sylw iddo.

Rwyf yn gobeithio, y prynhawn yma, Weinidog, y gallwch amlinellu, yn sicr, gydag ymdeimlad o frys, sut yr ydych yn gweld eich diwygiadau i Gyngor Gofal Cymru'n cryfhau darpariaeth gofal yn y sector, ond hefyd sut y bydd y Bil rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yn newid yn sylfaenol y ffordd y mae'r sector yn gweithredu. Gobeithiaf y bydd y Llywodraeth hefyd yn edrych ar ymyrraeth ddwysach yn y farchnad yn y sector hwn. Rwyf yn cytuno ag Aelodau eraill yma y prynhawn yma na allwn ddisgwyl i reoleiddio ei hun gyflawni'r math o newid diwylliannol yr hoffem efallai ei weld.

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thanks to Alun Davies for that. Of course, I entirely agree with him. Members on this side of the Chamber would have no surprise in recognising that, left to itself, the market is never going to be an adequate supplier of essential public goods and services. What we have to do is to manage the market here in Wales, to shape the market, not simply to respond to what the market itself does. We want local authorities and we will want our new national bodies to be active players on the field of residential care, making a difference to the way that the market operates, and to encourage those parts of the market that already operate in the best way.

Diolch i Alun Davies am hynna. Wrth gwrs, rwyf yn cytuno'n llwyr ag ef. Ni fyddai'n ddim syndod i'r Aelodau ar yr ochr hon i'r Siambr i sylweddoli nad yw'r farchnad, ar ei phen ei hun, byth yn mynd i gyflenwi digon o nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Yr hyn y mae'n rhaid inni ei wneud yw rheoli'r farchnad yma yng Nghymru, llunio'r farchnad, nid dim ond ymateb i'r hyn y mae'r farchnad ei hun yn ei wneud. Mae arnom eisiau awdurdodau lleol a bydd arnom eisiau i'n cyrrff cenedlaethol newydd fod yn chwaraewyr gweithredol ar faes gofal preswyl, gan wneud gwahaniaeth i'r ffordd y mae'r farchnad yn gweithredu, ac i annog y rhannau hynny o'r farchnad sydd eisoes yn gweithredu yn y ffordd orau.

A number of Members have mentioned staffing issues. We know that there is a 25% to 30% turnover in staffing in the residential care sector here in Wales. What my message to employers in the sector is, is this: where you have a good employer who invests in staff and who does not try to drive terms and conditions down to the barest minimum that the market will bear, what you'll find is that staff stay working for that employer, that they save costs then in terms of re-advertising and re-training, but, more than that, they contribute to the reputation of that business so that it can go on being a successful business in the future. So, by managing the market, we can create a market that works best for people who provide services and people who rely on them.

Mae nifer o Aelodau wedi sôn am faterion staffio. Rydym yn gwybod bod trosiant o 25% i 30% mewn staffio yn y sector gofal preswyl yma yng Nghymru. Dyma fy neges i gyflogwyr yn y sector: os oes gennych gyflogwr da sy'n buddsoddi mewn staff ac nad yw'n ceisio gwthio telerau ac amodau i lawr i'r lleiafswm isaf y gall y farchnad ei oddef, fe welwch fod staff yn parhau i weithio i'r cyflogwr hwnnw, ei fod yna'n arbed costau o ran ailhysbysebu ac ailhyfforddi, ond, yn fwy na hynny, mae'n cyfrannu at enw da'r busnes hwnnw er mwyn iddo allu parhau i fod yn fusnes llwyddiannus yn y dyfodol. Felly, drwy reoli'r farchnad, gallwn greu marchnad sy'n gweithio orau i bobl sy'n darparu gwasanaethau a'r bobl sy'n dibynnu arnynt.

17:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

And, finally, Mark Isherwood.

Ac, yn olaf, Mark Isherwood.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:01 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you. Care Forum Wales has called for radical reform, and it's long overdue if we are to reverse the decline in nursing homes and now care homes, but that will require true partnership between the independent and public sectors. Given that the older people's commissioner highlighted stories, people's lives, mostly related to failures of inspection where there have been failures of being person centred or patient centred or resident centred, delays in inspections after concerns being raised, and then delays in making reports publicly available—often only published after intervention by families—how will you ensure that the proposed regulation and inspection of social care Bill you referred to will be completely objective in challenging all players and listening to affected families to ensure that the facts are identified and, in future, the person is at the centre of the inspections that go forward?

Diolch yn fawr. Mae Fforwm Gofal Cymru wedi galw am ddiwygio radical, ac mae'n hen bryd os ydym am wrthdroi'r dirywiad mewn cartrefi nyrsio ac nawr mewn cartrefi gofal, ond bydd hynny'n golygu bod angen gwir bartneriaeth rhwng y sectorau annibynnol a chyhoeddus. O ystyried bod y comisiynydd pobl hyn wedi tynnu sylw at straeon, bywydau pobl, yn ymwneud yn bennaf â methiannau arolygu lle bu methiannau o ran canolbwyntio ar unigolion neu ganolbwyntio ar gleifion neu ar breswylwyr, oediadau i arolygiadau ar ôl i bryderon gael eu codi, ac yna oediadau cyn i adroddiadau fod ar gael i'r cyhoedd—yn aml dim ond ar ôl ymyrraeth gan deuluoedd y cânt eu cyhoeddi—sut y gwnewch chi sicrhau bod y Bil rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol arfaethedig yr oeddech chi'n sôn amdano yn gwbl wrthrychol wrth herio pob chwaraewr ac wrth wrando ar deuluoedd yr effeithir arnynt er mwyn sicrhau ein bod yn canfod y ffeithiau ac, yn y dyfodol, mai'r unigolyn sy'n ganolog i'r arolygiadau a gynhelir?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:02 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Mark Isherwood for that. Well, CSSIW has already responded to the commissioner in relation to the recommendations she makes that fall within their remit. They point to the forthcoming regulation and inspection Bill. I've tried to resist the temptation that's been dangled several times this afternoon for me to make the statement today that I intend to make shortly after half term. But I will say this to Mark Isherwood: key to the changes that we will want to make in the inspection regime is to make sure that the voice of care home residents themselves, but also of those family members and others who have an interest in their welfare, is far more central to the way in which the inspectorate will operate in future, making sure that those direct experiences of care that is received every day are fully reflected in the way that judgments are made, reports are published and information, therefore, supplied to other people who will have an interest in what goes on in that home.

Diolch i Mark Isherwood am hynna. Wel, mae AGGCC eisoes wedi ymateb i'r comisiynydd ynglŷn â'r argymhellion y mae'n eu gwneud sydd o fewn eu cylch gwaith. Maent yn cyfeirio at y Bil rheoleiddio ac arolygu sydd ar ddod. Rwyf wedi ceisio gwrthsefyll y demtasiwn sydd wedi'i rhoi imi sawl gwaith y prynhawn yma i wneud y datganiad heddiw yr wyf yn bwriadu ei wneud yn fuan ar ôl hanner tymor. Ond fe wnafe ddweud hyn wrth Mark Isherwood: yr hyn sy'n allweddol i'r newidiadau y byddwn yn dymuno eu gwneud i'r drefn arolygu yw gwneud yn siŵr bod llais preswylwyr cartrefi gofal eu hunain, a hefyd llais yr aelodau teulu hynny ac eraill sydd â diddordeb yn eu lles, yn llawer mwy canolog i'r ffordd y bydd yr arolygiaeth yn gweithredu yn y dyfodol, gan sicrhau bod y profiadau uniongyrchol hynny o ofal a dderbynir bob dydd yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y ffordd y caiff dyfarniadau eu gwneud, y caiff adroddiadau eu cyhoeddi ac y caiff gwybodaeth, felly, ei chyflenwi i bobl eraill a fydd â diddordeb yn yr hyn sy'n digwydd yn y cartref hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:03

7. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dadreoleiddio—Diwygiad mewn perthynas â Gorchymyn Tai (Blaendaliadau Tenantiaeth) (Gwybodaeth Ragnodedig) 2007 (Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol—Memorandwm Rhif 6)

We now move to item 7, which is the legislative consent motion on the Deregulation Bill—amendment in relation to Housing (Tenancy Deposits) (Prescribed Information) Order 2007 (supplementary legislative consent memorandum—memorandum No. 6). I call on the Minister to move the motion.

Cynnig NDM5689 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Dadreoleiddio sy'n ymwneud â Gorchymyn Tai (Blaendaliadau Tenantiaeth) (Gwybodaeth Ragnodedig) 2007 i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynigiwyd y cynnig.

17:04

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Formally move.

17:04

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Formally move. I have no speakers. So, if you're content, the proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections. Therefore, it is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

7. Legislative Consent Motion on the Deregulation Bill—Amendment in relation to Housing (Tenancy Deposits) (Prescribed Information) Order 2007 (Supplementary Legislative Consent Memorandum—Memorandum No. 6)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Symudwn yn awr at eitem 7, sef y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Dadreoleiddio—gwelliant mewn perthynas â Gorchymyn Tai (Blaendaliadau Tenantiaeth) (Gwybodaeth Ragnodedig) 2007 (memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol—memorandwm Rhif 6). Galwaf ar y Gweinidog i gynnig y cynnig.

Motion NDM5689 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Deregulation Bill relating to Housing (Tenancy Deposits) (Prescribed Information) Order 2007 in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

Motion moved.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

8. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Troseddu Difrifol—Diwygiad mewn perthynas â Chyfathrebu'n Rhywiol â Phlentyn (Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3)

We now move to item 8, which is a legislative consent motion on the Serious Crime Bill—amendment in relation to sexual communication with a child (supplementary legislative consent memorandum No. 3). I call on the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.

Cynnig NDM5690 Mark Drakeford

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Troseddu Difrifol sy'n ymwneud â'r drosedd o gyfathrebu'n rhywiol â phlentyn i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynigiwyd y cynnig.

8. Legislative Consent Motion on the Serious Crime Bill— Amendment in relation to Sexual Communication with a Child (Supplementary Legislative Consent Memorandum No. 3)

Llywydd / The Presiding

Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Symudwn yn awr at eitem 8, sef cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Troseddau Difrifol—gwelliant mewn perthynas â chyfathrebu'n rhywiol â phlentyn (memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol Rhif 3). Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnal y cynnig—Mark Drakeford.

Motion NDM5690 Mark Drakeford

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Serious Crime Bill, relating to the creation of an offence of sexual communication with a child in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

Motion moved.

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Diolch yn fawr, Lywydd. Thank you for the opportunity to explain the background to this legislative consent motion in relation to the Serious Crime Bill. This LCM is required because a very late amendment to the Bill before Parliament seeks to create a new offence of sexual communication with a child and does so in a way that the Welsh Government believes seeks to legislate in an area of devolved competence. The Bill inserts a new clause into the Sexual Offences Act 2003 to provide for a new offence where an adult communicates with a child under 16 for the purpose of obtaining sexual gratification and where that communication is sexual or intended to encourage a sexual response. The maximum penalty for the offence will be two years' imprisonment.

Diolch yn fawr, Lywydd. Diolch ichi am y cyfle i esbonio cefndir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Troseddau Difrifol. Mae angen y cynnig cydsyniad deddfwriaethol gan fod gwelliant hwyr iawn i'r Bil gerbron y Senedd yn ceisio creu trosedd newydd o gyfathrebu'n rhywiol â phlentyn ac yn gwneud hynny mewn modd y mae Llywodraeth Cymru yn credu sy'n ceisio deddfu mewn maes cymhwysedd sydd wedi'i ddatganoli. Mae'r Bil yn mewnosod cymal newydd yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003 i ddarparu ar gyfer trosedd newydd lle y mae oedolyn yn cyfathrebu â phlentyn dan 16 oed er mwyn cael boddhad rhywiol a lle y bo'r cyfathrebu hwnnw'n rhywiol neu y bwriedir iddo annog ymateb rhywiol. Dwy flynedd o garchar fydd uchafswm y gosb am y drosedd.

It has been the view of the UK Government from the outset that no single aspect of the Bill required an LCM, and that is their view of this matter too. In contrast, it is the view of the Welsh Government that clause 67 as it appears in the Bill as amended does fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales insofar as it relates to the protection and wellbeing of children, which appears in paragraph 15 under Part 1 of Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006. The Welsh Government believes, however, that it is appropriate to take the opportunity that has arisen to deal with these provisions in the UK Bill. So, it follows that we believe that the LCM should be supported in order to bring Wales within the new provisions that the Bill includes. These are new offences that may be committed either in person or via phone or other digital means, meaning that it may often be that the victim and perpetrator are on different sides of the border with England or, indeed, across international borders. It therefore makes sense, both in terms of enforcement and prevention, that the new provisions should be introduced via a single statute, given the interconnected nature of the relevant Welsh and English prevention, protection and prosecution mechanisms.

I would wish to pay tribute to the National Society for the Prevention of Cruelty to Children's Flaw in the Law campaign, which has been instrumental in bringing about this important change in the law.

Members will be aware that this is the third legislative consent motion that the Government has had to table in respect of this Bill. This LCM has not had the benefit of scrutiny by an Assembly committee and, of course, I regret that that has not been possible, but the UK Government tabled this amendment at a late stage in the Bill, which severely reduces the time available for consideration. But today's debate will allow consideration of the LCM before the Bill reaches its final stage in the House of Commons, which is currently scheduled for 23 February.

The amendment introducing this offence was one of five substantive Government amendments tabled by the Home Office. Each has required careful consideration as to whether or not they give rise to the need for the legislative consent of this National Assembly. In this case, for reasons that I set out earlier, we believe that it does fall within competence, but allowing these provisions to apply in Wales at the earliest possible juncture will enhance the ability of the police and the courts to continue to work together to deal with child sexual exploitation. Passing today's LCM will allow that protection to be put in place for Welsh children in a timely, practicable and proportionate way, and I move the motion on that basis.

Barn Llywodraeth y DU o'r cychwyn oedd nad oedd angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer yr un agwedd ar y Bil, a dyna ei barn am y mater hwn hefyd. Ar y llaw arall, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cymal 67 fel y mae'n ymddangos yn y Bil fel y'i diwygiwyd yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n ymwneud ag amddiffyn plant a lles plant, sy'n ymddangos ym mharagraff 15 o dan Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, fodd bynnag, ei bod yn briodol manteisio ar y cyfle sydd wedi codi i ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil y DU. Felly, mae'n dilyn y credwn y dylid cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol er mwyn dod â Chymru o fewn y darpariaethau newydd y mae'r Bil yn eu cynnwys. Mae'r rhain yn droseddau newydd a allai gael eu cyflawni naill ai'n bersonol neu dros y ffôn neu drwy dduiliau digidol eraill, sy'n golygu yn aml y gallai'r dioddefwr a'r tramgwyddwr fod ar ochrau gwahanol o'r ffin â Lloegr, neu, yn wir, ar draws ffiniau rhyngwladol. Felly, mae'n gwneud synnwyr, o ran gorfodi ac atal, y dylai'r darpariaethau newydd gael eu cyflwyno trwy un statud, o ystyried natur gydgyssylltiedig mecanweithiau perthnasol atal, amddiffyn ac erlyn Cymru a Lloegr.

Rwyf am dalu teyrnged i ymgyrch Nam yn y Gyfraith y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant, sydd wedi bod yn allweddol o ran sicrhau'r newid pwysig hwn yn y gyfraith.

Bydd yr Aelodau'n gwybod mai hwn yw'r trydydd cynnig cydsyniad deddfwriaethol y mae'r Llywodraeth wedi gorfod ei gyflwyno mewn perthynas â'r Bil hwn. Nid yw'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn wedi cael mantais craffu gan un o bwyllgorau'r Cynulliad ac, wrth gwrs, rwyf yn gresynu nad yw hynny wedi bod yn bosibl, ond cyflwynodd Llywodraeth y DU y gwelliant hwn yng nghyfnodau hwyr y Bil, sy'n lleihau'n arw yr amser sydd ar gael i'w ystyried. Ond bydd y ddadl heddiw'n caniatáu inni ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol cyn i'r Bil gyrraedd ei gyfnod olaf yn Nhŷ'r Cyffredin, sydd wedi ei drefnu ar hyn o bryd ar gyfer 23 Chwefror.

Roedd y gwelliant a oedd yn cyflwyno'r drosedd hon yn un o bum gwelliant sylweddol y Llywodraeth a gyflwynwyd gan y Swyddfa Gartref. Mae pob un wedi gofyn am ystyriaeth ofalus ynghylch a ydynt yn golygu bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol hwn. Yn yr achos hwn, am resymau a nodais yn gynharach, rydym yn credu ei fod yn dod o fewn ein cymhwysedd, ond bydd caniatáu i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd yn gwella gallu'r heddlu a'r llysoedd i barhau i weithio gyda'i gilydd i ymdrin â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Bydd pasio'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol heddiw'n golygu y gellir rhoi'r amddiffyniad hwnnw ar waith i blant yng Nghymru mewn modd amserol, ymarferol a chymesur, a chynigiad y cynnig ar y sail honno.

Well, I am pleased to welcome this legislative consent motion today—especially today, actually, because it's Safer Internet Day today. I know that, within this Chamber, much of our knowledge, of course, of these cases comes from the media when prosecutions are actually taking place, so we never know about the failed cases where the law couldn't bite. I hope that this change in the law will give new teeth, if you like, to stop abusive and predatory behaviour and that prosecutors are better placed to pursue perpetrators.

Of course, online grooming often starts with abusers pretending to be a child themselves online to gain the trust of their victims, and I wondered if the Minister was aware if there were any plans to make that an offence—for an adult to pretend to be a child online. Perhaps you'd consider pressing the UK Government on that matter.

I'm glad that you mentioned the NSPCC campaign, the Flaw in the Law campaign, and I would join you in congratulating them on a successful campaign, because it does appear that this, now, is the result of that.

Offenders, of course, often contact many hundreds of children at any one time on open sites and then home in and groom those who respond to them. I'm aware that there were concerns about that, about this loophole, and that someone then has to contact a child twice before they can be prosecuted. Obviously, that, in the past, has been a barrier to prosecution. So, I wonder if you'd confirm whether this LCM addresses that issue—that there wouldn't need to be two contacts from an abuser before it would be possible to prosecute.

Just to finish, I wonder if the Minister would agree that children and young people need support to understand the messages that they encounter online and the dangers of sharing too much information about themselves. Of course, I'll make a bid that the Welsh Government drops its resistance to introducing a mandatory whole-school approach to teaching young people and children healthy relationships and respect and how that could actually impact on their behaviour online.

As this is Safer Internet Day today, I hope you'll join with me to thank the St Teilo's school pupils for coming here today, as part of that NSPCC campaign for better safety online. After all, 50% of our 11-year-olds are, I think, are regular users of social media networks. The St Teilo's pupils told us today that parents and carers need to talk to children about safety online—and, actually, the NSPCC have got some excellent materials and resources available—so that we can start to have that conversation with young people about how they can make themselves safer online and then, hopefully, there won't be a need to resort to prosecutions if children were much safer. Thank you.

Wel, rwyf yn falch o groesawu'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol heddiw—yn arbennig heddiw, mewn gwirionedd, am ei bod yn Ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngwrwd yn Fwy Diogel. Gwn, o fewn y Siambr hon, fod llawer o'n gwybodaeth am yr achosion hyn yn dod drwy'r cyfryngau, wrth gwrs, pan fo erlyniadau'n mynd rhagddynt, felly ni chawn byth wybod am yr achosion sydd wedi methu lle na allai'r gyfraith frathu. Gobeithiaf y bydd y newid hwn yn y gyfraith yn rhoi dannedd newydd, os mynnwch, i atal ymddygiad camdriniol a rheibus ac y bydd erlynwyr mewn gwell sefyllfa i fynd ar ôl tramgwyddwyr.

Wrth gwrs, mae meithrin perthynas amhriodol ar-lein yn aml yn dechrau wrth i'r tramgwyddwyr esgus bod yn blant eu hunain ar-lein er mwyn ennyn ymddiriedaeth eu dioddefwyr, a tybed a yw'r Gweinidog yn gwybod a oes unrhyw gynlluniau i wneud hynny'n drosedd—i oedolyn esgus bod yn blentyn ar-lein. Efallai y byddech yn ystyried pywso ar Lywodraeth y DU ar y mater hwnnw.

Rwyf yn falch eich bod wedi sôn am ymgyrch yr NSPCC, Nam yn y Gyfraith, ac rwyf finnau hefyd am eu llongyfarch ar ymgyrch lwyddiannus, gan ei bod yn ymddangos yn awr mai dyma ganlyniad hynny.

Mae tramgwyddwyr, wrth gwrs, yn aml yn cysylltu â channoedd o blant ar unrhyw adeg ar safleoedd agored ac yna'n targedu rhai'n benodol ac yn meithrin perthynas â'r rhai sy'n ymateb iddynt. Gwn fod pryderon ynghylch hynny, am y bwch hwn, a bod yn rhaid i rywun wedyn gysylltu â phlentyn ddwywaith cyn y gellir ei erlyn. Wrth gwrs, mae hynny, yn y gorffennol, wedi bod yn faen tramgwydd i erlyn. Felly, tybed a allwch gadarnhau a yw'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn ymdrin â'r mater hwnnw—na fyddai angen i'r tramgwyddwr gysylltu ddwywaith cyn y byddai'n bosibl erlyn.

I gloi, tybed a fyddai'r Gweinidog yn cytuno bod angen cynorthwyo plant a phobl ifanc i ddeall y negeseuon y maent yn dod ar eu traws ar-lein a pheryglon rhannu gormod o wybodaeth amdanynt eu hunain. Wrth gwrs, byddaf yn gwneud cais ar i Lywodraeth Cymru ollwng ei gwrthwynebiad i gyflwyno ymagwedd ysgol gyfan orfodol i ddysgu perthnasoedd iach a pharch i bobl ifanc a phlant â'r ffordd y gallai hynny mewn gwirionedd effeithio ar eu hymddygiad ar-lein.

Gan ei bod yn Ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngwrwd yn Fwy Diogel heddiw, rwyf yn gobeithio y byddwch yn ymuno â mi ac yn diolch i ddisgyblion Ysgol Teilo Sant am ddod yma heddiw, fel rhan o ymgyrch yr NSPCC dros fwy o ddiogelwch ar-lein. Wedi'r cyfan, mae 50% o'n plant 11 mlwydd oed, rwyf yn credu, yn ddefnyddwyr rheolaidd ar rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd disgyblion Teilo Sant wrthym heddiw fod angen i rieni a gofawyr siarad â phlant am ddiogelwch ar-lein—ac, a dweud y gwir, mae gan yr NSPCC rai deunyddiau ac adnoddau rhagorol ar gael—fel y gallwn ddechrau cael y sgwrs honno â phobl ifanc am sut y gallant fod yn fwy diogel ar-lein ac yna, gobeithio, ni fydd angen troi at erlyniadau os yw plant yn llawer mwy diogel. Diolch yn fawr.

17:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The Minister to reply. Y Gweinidog i ymateb.

17:11 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

I thank Jocelyn Davies for those remarks. I thank her particularly for drawing attention to the fact that it is Safer Internet Day today, which makes it a particularly suitable day to have had this debate. I knew about it from early in the day, as Julie James, my colleague in Government, had been involved early in the day in events to mark it. What she said to me earlier chimes very much with what Jocelyn just said about the importance of learning from young people themselves, from their experiences and from what they have to tell us about ways in which we can assist them to remain safe in this new environment, which we are all learning about, as it develops in front of us. I think that's a very important point that she made.

Diolch i Jocelyn Davies am y sylwadau hynny. Diolch iddi yn arbennig am dynnu sylw at y ffaith ei bod yn Ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngwrwyd yn Fwy Diogel heddiw, sy'n ei gwneud yn ddiwrnod arbennig o addas i gael y ddadl hon. Roeddwn yn gwybod am hyn yn gynnar heddiw, gan fod Julie James, fy nghydweithiwr yn y Llywodraeth, wedi cymryd rhan yn gynnar heddiw mewn digwyddiadau i nodi hynny. Mae'r hyn a ddywedodd wrthyf yn gynharach yn cyd-fynd i raddau helaeth iawn â'r hyn y mae Jocelyn newydd ei ddweud am bwysigrwydd dysgu oddi wrth bobl ifanc eu hunain, o'u profiadau ac o'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud wrthym am ffyrdd y gallwn eu helpu i fod yn ddiogel yn yr amgylchedd newydd hwn, yr ydym i gyd yn dysgu amdano, wrth iddo ddatblygu o'n blaenau. Rwyf yn credu bod hynny'n bwynt pwysig iawn a wnaed ganddi.

Can I say, in answer to some of her other points, that a great deal of the detail that lies behind this amendment will be pursued through regulations? There are some significant things to navigate here to make sure that, in protecting children from communication that we would wish to see them protected from, we do not end up capturing communication that is absolutely valid, of an educational nature, and which we would want young people and adults to be jointly involved in. I know the Home Office is alert to that and is going to work with the NSPCC and others to make sure that the regulations are sensitive to some of the issues that she has already raised.

A gaf fi ddweud, i ateb rhai o'i phwyntiau eraill, y bydd llawer iawn o'r manylion y tu ôl i'r gwelliant hwn yn cael eu canlyn drwy reoliadau? Mae rhai pethau pwysig i lywio drwyddynt yma i wneud yn siŵr, wrth amddiffyn plant rhag cyfathrebu y byddem yn dymuno eu gweld yn cael eu diogelu rhagddo, nad ydym yn y diwedd yn cynnwys cyfathrebu sy'n gwbl ddilys, o natur addysgol, ac y byddem yn dymuno i bobl ifanc ac oedolion ymwneud ag ef gyda'i gilydd. Gwn fod y Swyddfa Gartref yn effro i hynny ac y bydd yn gweithio gyda'r NSPCC ac eraill i wneud yn siŵr bod y rheoliadau'n sensitif i rai o'r materion y mae hi eisoes wedi'u codi.

So, thanks to Jocelyn for that opportunity. I continue to ask Members to support the LCM, which will help protect children in Wales from the dangers of sexual exploitation.

Felly, diolch i Jocelyn am y cyfle hwnnw. Rwyf yn parhau i ofyn i'r Aelodau gefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol, a fydd yn helpu i ddiogelu plant yng Nghymru rhag peryglon camfanteisio rhywiol.

17:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you very much. So, the proposal is to agree the motion. Does anyone object? No objections. Therefore, it is agreed under Standing Order 12.36.

Diolch yn fawr iawn. Felly, y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, mae wedi'i dderbyn o dan Reol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

17:13 **9. & 10. Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2015 a Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Swyddogaethau Ychwanegol a Dirymu) (Cymru) 2015** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

9. & 10. The Education Workforce Council (Registration Fees) (Wales) Regulations 2015 and the Education Workforce Council (Additional Functions and Revocation) (Wales) Order 2015

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Education Workforce Council (Registration Fees) (Wales) Regulations 2015 and I call on the Minister to move the motion.

Symudwn yn awr at Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2015 a galwaf ar y Gweinidog i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5693 Huw Lewis

Motion NDM5693 Huw Lewis

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2015.

Approves that the draft the Education Workforce Council (Registration Fees) Wales Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 16 January 2015.

Cynnig NDM5694 Huw Lewis

Motion NDM5694 Huw Lewis

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Swyddogaethau Ychwanegol a Dirymu) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2015.

Approves that the draft the Education Workforce Council (Additional Functions and Revocation) (Wales) Order 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 16 January 2015.

Cynigiwyd y cynigion.

Motions moved.

17:13

Huw Lewis [Bywgraffiad Biography](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

Thank you, Presiding Officer. The establishment of the education workforce council, planned for April 2015, is one of the outcomes arising from the Education (Wales) Act 2014, which reconfigures the remit and composition of the existing General Teaching Council for Wales. The new council will establish a wider system of registration that aims to bring greater coherence and recognition to the contribution of the whole education workforce. I'm sure Members will agree that the registration of the wider education workforce is good news, as it provides reassurance to parents, learners, employers and the general public that teaching staff are deemed suitable for registration.

There are clear benefits to registration for the education workforce also. It enhances the status and recognises that all practitioners play a vital role in supporting teaching and learning and raising standards, as part of a single and coherent education workforce. In addition, registrants will be seen as part of a credible and valued workforce and as having professional status with specific standards for entry and continued membership of that profession.

Diolch i chi, Lywydd. Sefydlu cyngor y gweithlu addysg, y bwriedir iddo ddigwydd ym mis Ebrill 2015, yw un o'r canlyniadau sy'n deillio o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, sy'n ad-drefnu cylch gwaith a chyfansoddiad Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Bydd y cyngor newydd yn sefydlu system ehangach o gofrestru â'r nod o ddod â mwy o gydlyniant a chydnyddiaeth i gyfraniad y gweithlu addysg cyfan. Rwyf yn siŵr y bydd yr Aelodau'n cytuno bod cofrestru'r gweithlu addysg ehangach yn newyddion da, gan ei fod yn cynnig sicrwydd i rieni, dysgwyr, cyflogwyr a'r cyhoedd y bernir bod staff dysgu'n addas i'w cofrestru.

Mae manteision amlwg i gofrestru o safbwynt y gweithlu addysg hefyd. Mae'n gwella statws ac yn cydnabod bod pob ymarferydd yn chwarae rhan hanfodol er mwyn cefnogi dysgu ac addysgu a chodi safonau, fel rhan o un gweithlu addysg cydlynol. Yn ogystal, bydd y rhai sydd wedi'u cofrestru'n cael eu gweld fel rhan o weithlu credadwy a gwerthfawr a chanddynt statws proffesiynol â safonau mynediad penodol ac aelodaeth barhaus o'r proffesiwn hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The fees regulations we are debating today set out the fees structure that schoolteachers and FE teachers will be required to pay during the transitional year of the council. As Members will be aware, schoolteachers' pay and conditions are currently non-devolved, and remain the responsibility of the Department for Education in Whitehall. Pay and conditions for teachers in maintained schools in Wales and England are set out in the school teachers' pay and conditions document—a statutory document published in September for the start of each academic year. The £33 subsidy that teachers in Wales currently receive in their pay to subsidise the GTCW registration fee is included within the current issue of the STPCD.

Currently, schoolteachers in Wales are required to pay an annual registration fee of £45—that's before any subsidy—in order to maintain their registration with the GTCW. The fee is taken directly from their pay by their employers and transferred to the GTCW in April every year. The latest school teachers' review body report was published in February 2014 and recommended that the current subsidy continues during the 2015-16 financial year. As a result, I'm proposing to keep the fee at its current level of £45 for both school teachers and FE teachers. I think this is reasonable because FE teachers' salary structure is comparable to that of school teachers. However, to ensure fairness, FE teachers will also have their fee subsidised for their first year of registration, and therefore will pay a contribution of £18 towards the full £45 registration fee. The amount school teachers actually pay, following adjustments for income tax, equates also to approximately £18.

The fee subsidy for FE teachers will be met by the Welsh Government for this transitional year, and will be paid directly to the council. Details of the subsidy will be published on the Welsh Government website, ensuring that the council only requests the subsidised amount from registrants and their employers. I will set out the fee structure for 2016 in a separate set of regulations prior to the registration of school and FE learning support workers, and following a formal Government response to the consultation on proposals for the registration fees for the wider education workforce in Wales for 2016. Now, that consultation closed on 7 November. Primary discussions have also taken place with the Department for Education.

Turning to the Education Workforce Council (Additional Functions and Revocation) (Wales) Order 2015, this Order simply re-enacts the General Teaching Council for Wales (Additional Functions) Order 2005, ensuring that the reconfigured council continues to have the same functions and powers as the current GTCW. It will ensure the council continues to be deemed as a designated authority for the purposes of authorising the recognition of teaching qualifications gained in relevant states. So, I urge Members to support the motion in order to ensure that the council is operational as of 1 April this year.

Mae'r rheoliadau ffioedd yr ydym yn eu trafod heddiu yn nodi'r strwythur ffioedd y bydd yn ofynnol i athrawon ysgol ac athrawon addysg bellach eu talu yn ystod blwyddyn drosiannol y cyngor. Fel y gŵyr yr Aelodau, nid yw cyflogau ac amodau athrawon ysgol ar hyn o bryd wedi'u datganoli, ac maent yn dal i fod yn gyfrifoldeb ar yr Adran Addysg yn Whitehall. Mae tâl ac amodau athrawon mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr wedi'u nodi yn y ddogfen cyflog ac amodau athrawon ysgol—dogfen statudol a gyhoeddir ym mis Medi ar gyfer dechrau pob blwyddyn academaidd. Mae'r cymhorthdal o £33 y mae athrawon yng Nghymru'n ei dderbyn ar hyn o bryd yn eu cyflog tuag at ffi gofrestru Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru wedi'i gynnwys yn rhifyn cyfredol Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i athrawon ysgol yng Nghymru dalu ffi gofrestru flynyddol o £45—mae hynny cyn unrhyw gymhorthdal—er mwyn parhau i fod wedi'u cofrestru â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Mae'r ffi'n cael ei thynnu'n syth o'u cyflog gan eu cyflogwyr a'i throsglwyddo i CACC ym mis Ebrill bob blwyddyn. Cyhoeddwyd adroddiad diweddaraf y corff adolygu athrawon ysgol ym mis Chwefror 2014, ac roedd yn argymhell y dylai'r cymhorthdal presennol barhau yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16. O ganlyniad, rwyf yn bwriadu cadw'r ffi ar ei lefel bresennol o £45 ar gyfer athrawon ysgol ac athrawon addysg bellach. Rwyf yn credu bod hyn yn rhesymol oherwydd bod strwythur cyflogau athrawon addysg bellach yn debyg i un athrawon ysgol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau tegwch, bydd athrawon addysg bellach hefyd yn cael cymhorthdal tuag at eu ffi yn eu blwyddyn gyntaf o gofrestru, ac felly byddant yn talu cyfraniad o £18 tuag at y ffi gofrestru lawn o £45. Mae'r swm y mae athrawon ysgol yn ei dalu, yn dilyn addasiadau ar gyfer treth incwm, hefyd yn cyfateb i tua £18.

Bydd cymhorthdal y ffi i athrawon addysg bellach yn cael ei dalu gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn drosiannol hon, a bydd yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r cyngor. Cyhoeddir manylion y cymhorthdal ar wefan Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau nad yw'r cyngor ond yn gofyn am y swm cymorthdaledig gan unigolion cofrestredig a'u cyflogwyr. Byddaf yn nodi'r strwythur ffioedd ar gyfer 2016 mewn set ar wahân o reoliadau cyn cofrestru gweithwyr cynnal dysgu ysgolion ac addysg bellach, ac yn dilyn ymateb ffurfiol y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer ffioedd cofrestru'r gweithlu addysg ehangach yng Nghymru ar gyfer 2016. Yn awr, daeth yr ymgynghoriad hwnnw i ben ar 7 Tachwedd. Mae trafodaethau sylfaenol hefyd wedi eu cynnal â'r Adran Addysg.

A throi at Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Swyddogaethau Ychwanegol a Dirymu) (Cymru) 2015, mae'r Gorchymyn hwn yn ailddeddfu Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2005, gan sicrhau bod y cyngor ar ei newydd wedd yn parhau i fod â'r un swyddogaethau a phwerau â CACC ar hyn o bryd. Bydd yn sicrhau bod y cyngor yn parhau i gael ei ystyried yn awdurdod dynodedig at ddibenion awdurdodi cydnabod cymwysterau addysgu a enillwyd mewn gwladwriaethau perthnasol. Felly, galwaf ar yr Aelodau i gefnogi'r cynnig er mwyn sicrhau bod y cyngor yn weithredol o 1 Ebrill eleni.

17:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am proposing, in accordance with Standing Order 12.24, that items 9 and 10 are grouped for debate. The Minister has moved them both. Does anyone object? There are no objections.

Cynigiad, yn unol â Rheol Sefydlog 12.24, fod eitemau 9 a 10 yn cael eu grwpio ar gyfer y ddafl. Mae'r Gweinidog wedi cynnig y ddwy. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad.

17:19 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae Plaid Cymru yn mynd i gefnogi'r ddau set o reoliadau, ond mae gennyf rai cwestiynau penodol ynglŷn â Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2015, ac rwyf am ofyn y rhain i'r Gweinidog heddiw.

Plaid Cymru will support both sets of regulations, but I do have some specific questions about the Education Workforce Council (Registration Fees) (Wales) Regulations 2015, and I want to ask these of the Minister today.

Mae wedi cyfeirio at y ffaith, wrth gwrs, ein bod ni mewn cyfnod trosiannol o un cyngor addysg, yn benodol i athrawon, i gyngor newydd sy'n ymwneud â nifer o weithwyr yn fwy eang yn y sector addysg, a hyd yn oed, o fewn blwyddyn, i gynnwys cynorthwyr dysgu ac ati. Yn y cyd-destun yma, mae Plaid Cymru a finnau'n gallu derbyn y set yma o reoliadau, ond mae yna rai pethau rwy'n bryderus yn eu cylch fel cynsail fan hyn. Mae'r rheoliadau yn gosod yr un ffi ar gyfer pob athro, os liciwch chi, neu weithiwr coleg yn y cyd-destun yma, sef £45 y flwyddyn. Nawr, nid yw'r ffi ei hunan yn grocbris, mae'n rhaid derbyn hynny, ac mae wedi ei rhewi ers sawl blwyddyn bellach, ond wrth gwrs, nid yw'n adlewyrchu'r ffaith bod rhai yn y sector yma bellach yn gweithio yn rhan amser, nid yn llawn amser, nac ychwaith yn adlewyrchu'r ffaith nad yw pob un yn derbyn y 'subsidy' y bu i'r Gweinidog sôn amdano. Rwy'n derbyn bod y Llywodraeth wedi gosod 'subsidy' dros dro i mewn am flwyddyn, ond o hyn ymlaen, mae'n bosibl y bydd gwahaniaeth sylfaenol yn y gweithlu addysg rhwng athrawon sy'n derbyn 'subsidy' ar gyfer y ffi yma oherwydd cytundeb Cymru a Lloegr ynglŷn â thâl ac amodau gwaith athrawon a'r gweithwyr eraill yn y sector addysg bellach, ac, yn wir, gweithwyr yn y sector ysgolion, unwaith rydym yn cynnwys cynorthwyr dysgu a gweithwyr eraill yn y sector yma.

He has referred to the fact, of course, that we are in a transitional period from one council specifically covering teachers to a new council that relates to a broader workforce within the education sector, and, within a year, it will also include teaching assistants et cetera. In this context, Plaid Cymru and I can accept this set of regulations, but there are a few things I'm concerned about as a precedent here. The regulations set the same fee for all teachers, if you like, or college staff in this context, namely £45 per annum. Now, the fee itself is not extortionate, we have to accept that, and it has been frozen for many years now, but of course, it doesn't reflect the fact that there are some in this sector who work part time, rather than full time, nor does it reflect the fact that not every one receives the subsidy that the Minister mentioned. I accept that the Government has set an interim subsidy for a year, but from here on out, there may be a fundamental difference in the education workforce between teachers who receive a subsidy for this fee because of the England and Wales agreement on teachers' pay and conditions and other employees in the further education sector and in schools, once we include teaching assistants and other workers in this sector.

Bydd rhaid, rwy'n meddwl, mynd i'r afael â hyn yn y tymor hir. Er ein bod ni'n gallu derbyn beth sy'n digwydd dros dro, mae'n rhaid dod i ben â chynnwys pawb—cae gwastad, os liciwch chi—a gwneud yn siŵr hefyd bod y ffioedd yn adlewyrchu pobl sy'n gweithio yn rhan amser a hefyd pobl sy'n athrawon cyflenwi, sydd mewn sefyllfa gwbl wahanol.

We will, I think, need to tackle this issue in the long term. Although we can accept the interim arrangements, we must actually include everyone—a level playing field, if you like—and also ensure that the fees reflect issues of people working part time and those who are supply teachers, who are in a completely different situation.

Yn ôl beth rwy'n deall o'r rheoliadau a sylwadau'r Gweinidog, £45 yw'r swm y bydd pob person sy'n gymwys yn ei dalu i'r cyngor flwyddyn nesaf. Felly, i bob pwrpas, mae athrawon yn talu £18 yn unig, ac mae gweithwyr yn y sector addysg bellach yn derbyn 'subsidy' am flwyddyn yn unig. Rwy'n ofni y bydd hyn yn gadael y cyngor newydd ar ei geiniog olaf. Mae'r cyngor presennol eisoes wedi bod yn cwyno ers sawl blwyddyn am y diffyg cyllideb sydd ganddynt, a bydd y cyngor newydd yn gorfod wynebu heriau newydd ac yn gorfod hysbysebu ei hunan, estyn allan i grŵp newydd o bobl, gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu cynnwys yn y cyngor gweithlu addysg, a gwneud tipyn o waith i hyrwyddo'r proffesiwn, fel y mae'r Gweinidog wedi ei amlinellu. Felly, yn y tymor hir, nid wyf yn siŵr a fydd y ffi yma yn ddigonol, yn y ffordd y mae wedi cael ei bortredu heddiw.

From what I understand of the regulations and the Minister's comments, £45 is the sum that each person eligible will pay to the council next year. So, effectively, teachers only pay £18, and workers in the FE sector will receive a subsidy for one year only. I am concerned that this will leave the new council working with very limited means. The current council has already been complaining for many years about the budgetary inadequacies that it has faced, and the new council will have to face new challenges and will have to advertise itself, reaching out to a new group of people, making sure that everyone is included within the education workforce council, and will need to do a lot of work to promote the profession, as the Minister has outlined. So, in the long term, I am not sure whether this fee is going to be adequate, in the way it has been set out today.

Rwy'n derbyn bod angen i gorff proffesiynol godi ffi ar ei aelodau, ac rwy'n meddwl bod pwynt o egwyddor fan hyn y dylid ei danlinellu: mae unrhyw gorff proffesiynol sy'n ennyn hygredd aelodau a hygredd y cyhoedd yn derbyn ffi broffesiynol gan ei aelodau, sy'n rhoi, os liciwch chi, cyfraniad gan yr aelodau yn y corff yna ac yn gwneud yn siŵr bod yr aelodau yn parchu'r corff ac yn derbyn y corff fel y corff proffesiynol ar eu cyfer. Rwy'n credu ein bod ni i gyd yn gwybod bod gan y cyngor gweithlu addysg efallai dipyn o job i'w gwneud o ran hynny i ennill yr hyder yna ymysg y gweithlu addysg yn ehangach, ac, yn wir, ymysg hyd yn oed rhai athrawon, i ennill y parch yna. Rydym am weld—yn sicr, mae Plaid Cymru am weld—y corff yma yn symud i ffwrdd o gael ei weld fel corff disgyblu yn unig i gael ei weld fel corff sydd wir yn gosod safonau proffesiynol yn gyffredinol ar gyfer y gweithlu addysg, ac i athrawon a gweithwyr coleg. Mae hynny'n golygu ffioedd cofrestru priodol, ac mae hefyd yn golygu bod y corff yn ehangu ei waith o godi'r safonau hynny.

Wrth gwrs, mewn fawr o dro, efallai y byddwn yn gweld datganoli tâl ac amodau gwaith athrawon i Gymru, a bydd rhaid i'r corff a'r ffioedd adlewyrchu'r broses yma. Felly, rwy'n gweld y rheoliadau heddiw yn rhywbeth dros dro yn unig. Yn y cyd-destun yna, byddwn yn eu derbyn a'u cefnogi nhw, ond rwy'n gobeithio y bydd rhai o'r sylwadau rwyf wedi eu gwneud yn cael eu hystyried gan y Gweinidog yn y broses ymgynghori sydd ganddo ar y gweill ar hyn o bryd, a bod modd iddo ymateb hefyd i rai o'r pryderon rwyf wedi eu codi.

I accept that a professional body needs to charge a fee of its members, and I think there's a point of principle here that should be underlined: any professional body that is to engender the credibility of its members and the public should receive a professional fee from its members, which, if you like you, is the members' contribution to the body, making sure that members respect the body and accept it as their representative professional organisation. I think we all know that the education workforce council perhaps has some work to do in this area to garner that support among the wider education workforce, and, indeed, even among some teachers, to gain that respect. We want to see—certainly, Plaid Cymru wants to see—this body moving away from being seen as simply a disciplinary body to be seen as a body that truly sets professional standards for the education workforce, and for teachers and college workers. That means appropriate registration fees, and it also means that the body should enhance its work in raising those standards.

Of course, in due course, we may see the devolution of teachers' pay and conditions to Wales, and the body and the fees will have to reflect that process. So, I see today's regulations as a temporary solution only. In this context, we will accept and support them, but I hope that some of the comments I have made will be taken on board by the Minister in the consultation process that is currently under way, and that he can also respond to some of the concerns I have expressed.

17:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I have no other speakers. The Minister to reply.

Nid oes gennyf ddim siaradwyr eraill. Y Gweinidog i ymateb.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:24 **Huw Lewis** [Bywgraffiad Biography](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

Thank you, Presiding Officer. I have no disagreement with any of the very important points that Simon Thomas has raised. I agree with him in that I think it is important that, in terms of recognising a profession as a profession, this sort of fee is a valuable signal to everyone concerned. It is also worth bearing in mind that, currently, professions such as nurses, midwives and physiotherapists have their own registration fees, as we all know, and they are considerably higher than what is proposed here, at anywhere between £80 and £120 per year. Of course, registration with the new workforce council would be considerably lower. But Simon Thomas is also correct to point out that this is, and I accept completely, a temporary transitional arrangement that we are talking about here.

Diolch ichi, Lywydd. Nid wyf yn anghytuno â'r un o'r pwyntiau pwysig iawn y mae Simon Thomas wedi'u codi. Cytunaf ag ef o safbwynt y ffaith fy mod yn credu ei bod yn bwysig, o ran cydnabod proffesiwn fel proffesiwn, fod y math hwn o ffi yn arwydd gwerthfawr i bawb dan sylw. Mae hefyd yn werth cofio bod gan broffesiynau megis nyrsys, bydwragedd a ffisiotherapyddion, ar hyn o bryd, eu ffioedd cofrestru hwythau, fel y gwyddom i gyd, ac maent yn sylweddol uwch na'r hyn a gynigir yma, rhywbeth rhwng £80 a £120 y flwyddyn. Wrth gwrs, byddai cost cofrestru â chyngor newydd y gweithlu yn sylweddol is. Ond mae Simon Thomas hefyd yn gywir i nodi mai trefniant trosiannol dros dro yw hwn, ac rwyf yn derbyn hynny'n llwyr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

In terms of addressing the issue he raised around having to recognise that, when support staff come on board, there are issues to be tackled, he is quite right, although we will also have to bear in mind that any kind of increase in the complexity of administration of fees will have a knock-on effect to the level of the fees themselves. For instance, it was established by my officials that distinguishing between full-time and part-time staff in this current model would have led to higher administration costs and higher fees for all concerned. So it was felt, particularly in this heavily subsidised round of fees, that that distinction wasn't worth investigating and pursuing, and would have led to complications that weren't worth anyone's while.

I would point out this is a debate. These regulations are about the first year. As I've said, the fee structure for 2016 would be the subject of a separate set of regulations prior to the registration of learning support workers, and any discussion about that does not really impinge upon these regulations today. Indeed, if I were to go further perhaps, that would pre-empt my response to the consultation.

But just finally, I do accept that the debate around an evolving, wider role for the workforce council is something—and Simon Thomas will be aware I've signalled this—we will need to consider.

O ran ymdrin â'r mater a gododd ynghylch gorfod cydnabod, pan fydd staff cynnal yn dod yn rhan o hyn, fod materion y bydd yn rhaid ymdrin â hwy, mae yn llygad ei le, er y bydd yn rhaid hefyd cadw mewn cof bod unrhyw fath o gynnydd o ran cymhlethdod gweinyddu ffioedd yn cael sgil-ffaith ar lefel y ffioedd eu hunain. Er enghraifft, cafodd fy swyddogion wybod y byddai gwahaniaethu rhwng staff llawn amser a rhan-amser yn y model presennol wedi arwain at gostau gweinyddu uwch a ffioedd uwch i bawb dan sylw. Felly, y teimlad oedd, yn enwedig yn y cylch hwn o ffioedd lle telir llawer o gymhorthdal, nad oedd yn werth ymchwilio i'r gwahaniaeth hwnnw a'i ganlyn, ac y byddai wedi arwain at gymhlethdodau nad oedd o werth i neb.

Tynnaf eich sylw at y ffaith mai dadl yw hon. Mae'r rheoliadau hyn yn ymwneud â'r flwyddyn gyntaf. Fel y dywedais, byddai'r strwythur ffioedd ar gyfer 2016 yn destun cyfres ar wahân o reoliadau cyn cofrestru gweithwyr cynnal dysgu, ac nid yw unrhyw drafodaeth ar hynny mewn gwirionedd yn effeithio ar y rheoliadau hyn heddiw. Yn wir, pe bawn yn mynd ymhellach efallai, byddai hynny'n achub y blaen ar fy ymateb i'r ymgynghoriad.

Ond yn olaf, rwyf yn derbyn y bydd y ddadl ynghylch swyddogaeth ehangach sy'n esblygu i gyngor y gweithlu yn rhywbeth—a bydd Simon Thomas yn gwybod fy mod wedi dweud hyn—y bydd angen inni ei ystyried.

17:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. The proposal is to agree the motion under item 9. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Diolch yn fawr. Y cynnig yw cytuno ar y cynnig o dan eitem 9. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion under item 10. Does any Member object? No objections. Therefore, that is agreed under Standing Order 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig o dan eitem 10. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, mae hynny wedi'i dderbyn o dan Reol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:27 **11. Dadl: Egwyddorion Cyffredinol y Bil Cynllunio (Cymru)**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 11, which is a debate on the general principles of the Planning (Wales) Bill, and I call on the Minister for Natural Resources to move the motion—Carl Sargeant.

Cynnig NDM5691 Carl Sargeant

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Cynllunio (Cymru).

Cynigiwyd y cynnig.

11. Debate: The General Principles of the Planning (Wales) Bill

Symudwn yn awr at eitem 11, sef dadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Cynllunio (Cymru), a galwaf ar y Gweinidog Adnoddau Naturiol i gynnig y cynnig—Carl Sargeant.

Motion NDM5691 Carl Sargeant

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:

Agrees to the general principles of the Planning (Wales) Bill.

Motion moved.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Thank you, Presiding Officer. I formally move the motion.

Diolch ichi, Lywydd. Cynigiau y cynnig yn ffurfiol.

I'm pleased to have the opportunity to open this debate on the general principles of the Planning (Wales) Bill. The Bill is our first opportunity to use primary legislation to improve how we deliver planning in Wales, and thank you to the Chairs and the members of the Environment and Sustainability Committee, the Constitutional and Legislative Affairs Committee and the Finance Committee for their thorough scrutiny of the Bill at this stage. I also thank all those Members who've helped to prepare the evidence base for the Bill and those who took the time to give written and oral evidence to the Environment and Sustainability Committee.

Rwy'n falch o gael y cyfle i agor y ddatl hon ar egwyddorion cyffredinol y Bil Cynllunio (Cymru). Y Bil yw ein cyfle cyntaf i ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol i wella'r ffordd yr ydym yn ymdrin â gwaith cynllunio yng Nghymru, a diolch i Gadeiryddion ac aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Cyllid am eu gwaith craffu trylwyr ar y Bil ar y cam hwn. Diolch hefyd i'r holl Aelodau hynny sydd wedi helpu i baratoi'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Bil a'r rhai a roddodd o'u hamser i roi dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 17:27.

The Deputy Presiding Officer took the Chair am 17:27.

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is agreed by everyone that the planning system needs to be refreshed to deliver our priorities to promote sustainable development. The general principles of the Bill have been broadly supported, and I'm grateful for this. The planning Bill builds on and amends the existing legal framework for planning in Wales, and I make no apologies for this. Planning reform, planning improvements and planning delivery require changes now. The framework will be supported by secondary legislation and revised guidance, and the adoption of the positive planning culture in Wales.

Mae pawb yn cytuno bod angen i'r system gynllunio gael ei hadnewyddu er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy. Cafwyd cefnogaeth drwyddi draw i egwyddorion cyffredinol y Bil, ac rwy'n ddiolchgar am hyn. Mae'r Bil cynllunio yn adeiladu ar y fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer cynllunio yng Nghymru ac yn ei ddiwygio, ac nid wyf yn ymddiheuro am hyn. Mae diwygio'r system gynllunio, gwella'r system gynllunio a rhoi'r system gynllunio ar waith yn gofyn am newidiadau nawr. Bydd y fframwaith yn cael ei gefnogi gan is-ddeddfwriaeth a chanllawiau diwygiedig, a thrwy fabwysiadu'r diwylliant cynllunio cadarnhaol yng Nghymru.

We need legislation that secures a modernised service, strengthens the plan-led approach, improves resilience for the service, improves the development management system and enables effective enforcement and appeals. The committees made a number of recommendations about the planning Bill, and I've given these careful consideration.

Mae arnom angen deddfwriaeth sy'n sicrhau gwasanaeth wedi'i foderneiddio, yn cryfhau'r dull gweithio sy'n cael ei arwain gan gynllun, yn gwella cadernid ar gyfer y gwasanaeth, yn gwella system rheoli datblygiadau ac yn galluogi gweithdrefnau gorfodi ac apelio effeithiol. Gwnaeth y pwyllgorau nifer o argymhellion ynghylch y Bil cynllunio, ac rwyf wedi ystyried y rhain yn ofalus.

While some of these recommendations call for amendment to the Bill, others ask for ministerial assurance on future policy work. I will write to the Chairs of committees to explain my approach. Where the committees ask for an amendment, I'm giving them careful consideration, as I said earlier, specifically where recommendations relate to secondary legislation, and recommending a change from negative procedure to affirmative. I'm considering how legislation that will have an effect on local decision-making processes could benefit from greater democratic accountability through further debate in this Assembly Chamber.

Er bod rhai o'r argymhellion hyn yn galw am welliannau i'r Bil, mae eraill yn gofyn am sicrwydd gan y Gweinidogion ynglŷn â gwaith polisi yn y dyfodol. Byddaf yn ysgrifennu at Gadeiryddion pwyllgorau i esbonio fy null gwaith. Pan fo pwyllgorau'n gofyn am welliant, rwy'n rhoi ystyriaeth ofalus iddynt, fel y dywedais yn gynharach, yn benodol lle mae argymhellion yn ymwneud ag is-ddeddfwriaeth, ac yn argymhell newid o weithdrefn negyddol i un gadarnhaol. Rwy'n ystyried sut y gallai deddfwriaeth a fydd yn cael effaith ar brosesau lleol o wneud penderfyniadau elwa ar fwy o atebolrwydd democrataidd drwy drafodaeth bellach yn y Siambr hon.

Further, where I've given the assurances to committee that I will bring forward amendments to the Bill, such as for the town and village greens and strategic planning panels, I've asked my team to prepare appropriate amendments now.

Yn ogystal, lle rydw i wedi rhoi'r sicrwydd i'r pwyllgor y byddaf yn cyflwyno gwelliannau i'r Bil, megis ar gyfer meysydd trefi a phentrefi a'r paneli cynllunio strategol, rwyf wedi gofyn i fy nhim baratoi gwelliannau priodol yn awr.

I've shared with the committee my passion for exploring how far I can push the boundaries on achieving gender balance on public bodies, which includes strategic planning panels. I note that the committee did not make recommendations in this area, however I remain committed to achieving gender balance in all areas of public life, and I'm exploring the options for an amendment in this area.

I'm grateful for the Environment and Sustainability Committee's recommendations in relation to the protection of the Welsh language. I am again considering proposals carefully on how we deal with this issue.

The committee made it very clear that a person's right to register land as a town and village green is an important right. I heard the evidence from key stakeholders, such as the Open Spaces Society, and I agree that that is a right worth retaining. This issue is and does continue indefinitely—and can a line be drawn in this if sufficient opportunity to exercise that right has been proved? I believe that a line can be drawn on this, and I intend to bring forward an amendment that will seek to limit the trigger events for removing the right to register land as town or village greens, in effect, only when a site has received planning consent. I note also the committee have made further recommendations in relation to retaining a two-year period for making a town and village green application, and I intend to write to the committee on this point.

Twenty five planning authorities for Wales, for this country, I believe is far too many. We need larger, more resilient bodies with a range of specialist skills, better equipped to deliver for community. The Williams report recommended there should be 10 to 12 local authorities, and the public services Minister will bring forward his proposals in due course. However, ahead of the wider reforms, the Planning Bill brings forward a number of initiatives to secure increased collaborative working. The introduction of a strategic development plan will enable collaboration at a strategic level, ensuring that larger-than-local issues, such as housing, strategic housing sites and transport infrastructure, are not limited by local authority boundaries. The committee recognise the need for a larger-than-local regional approach and are supportive of these provisions.

The planning Bill will also strengthen the existing joint planning board legislation, ensuring local planning authorities work together to deliver for the people of Wales. I am committed to supporting local planning authorities to ensure their resilience going forward, which will, in turn, secure the efficiency and robustness of the planning system in Wales.

On national parks, I recognise the invaluable role the national park authorities play in conserving our special landscape and promoting sustainable development opportunities, and delivering significant benefits for their local and the much wider Wales as a whole. I recently received the first report of the independent review on protected landscapes and look forward to their second report, which will provide me with more recommendations on future governance options, and I've noted the committee's recommendations.

Rwyf wedi rhannu gyda'r pwyllgor fy mrawdfrwydedd dros archwilio pa mor bell y gallaf wthio'r ffiniau ar gyflawni cydbwysedd rhwng y rhywiâu ar gyrrff cyhoeddus, sy'n cynnwys paneli cynllunio strategol. Nodaf na wnaeth y pwyllgor argymhellion yn y maes hwn, fodd bynnag, rwy'n dal wedi ymrwymo i gyflawni cydbwysedd rhwng y rhywiâu yn mhob maes o fywyd cyhoeddus, ac rwy'n edrych ar y dewisiadau ar gyfer cyflwyno gwelliant yn y maes hwn.

Rwy'n ddiolchgar am argymhellion y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd mewn cysylltiad ag amddiffyn yr iaith Gymraeg. Rwyf eto'n ystyried cynigion yn ofalus ar sut yr ydym yn ymdrin â'r mater hwn.

Gwnaeth y pwyllgor yn glir iawn bod hawl rhywun i gofrestru tir fel maes tref a phentref yn hawl bwysig. Clywais dystiolaeth gan randdeiliaid allweddol, megis y Gymdeithas Mannau Agored, a chytunaf fod honno'n hawl gwerth ei chadw. Mae'r mater hwn yn parhau am gyfnod amhenodol—ac a ellir tynnu llinell yn hyn o beth os profwyd digon o gyfle i arfer yr hawl honno? Credaf y gellir tynnu'r llinell honno yn hyn o beth, ac rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliant a fydd yn ceisio cyfyngu ar y digwyddiadau sbardun ar gyfer cael gwared ar yr hawl i gofrestru tir yn feysydd tref neu bentref, i bob pwrpas, dim ond pan fydd safle wedi derbyn caniatâd cynllunio. Nodaf hefyd fod y pwyllgor wedi gwneud rhagor o argymhellion mewn cysylltiad â chadw cyfnod o ddwy flynedd ar gyfer gwneud cais am feysydd trefi a phentrefi, ac rwy'n bwriadu ysgrifennu at y pwyllgor ar y pwynt hwn.

Mae pump ar hugain o awdurdodau cynllunio i Gymru, i'r wlad hon, yn fy marn i yn ormod o lawer. Mae arnom angen cyrrff mwy o faint, mwy gwydn gydag ystod o sgiliau arbenigol, mewn sefyllfa well i gyflawni ar ran y gymuned. Argymhellodd adroddiad Williams y dylid cael 10 i 12 o awdurdodau lleol, a bydd y Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus yn cyflwyno ei gynigion maes o law. Fodd bynnag, cyn y diwygiadau ehangach, mae'r Bil Cynllunio'n cyflwyno nifer o fentrau i sicrhau mwy o gydweithio. Trwy gyflwyno cynllun datblygu strategol, gellir cydweithio ar lefel strategol, gan sicrhau nad yw ffiniau awdurdodau lleol yn cyfyngu ar faterion mwy na lleol, megis tai, safleoedd tai strategol a seilwaith trafnidiaeth. Mae'r pwyllgor yn cydnabod yr angen am ddull gweithio ranbarthol sydd ar raddfa fwy na'r raddfa lleol ac mae'n gefnogol i'r darpariaethau hyn.

Bydd y Bil cynllunio hefyd yn cryfhau'r ddeddfwriaeth cydbwyllgorau cynllunio sy'n bodoli eisoes, gan sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yn cydweithio i gyflawni dros bobl Cymru. Rwyf wedi ymrwymo i gefnogi awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau eu bod yn wydn at y dyfodol, a bydd hynny, yn ei dro, yn sicrhau effeithlonrwydd a chadernid y system gynllunio yng Nghymru.

O ran parciau cenedlaethol, rwy'n cydnabod y rôl amhrisiadwy y mae awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn ei chwarae i warchod ein tirwedd arbennig a hyrwyddo cyfleoedd datblygu cynaliadwy, a dod â manteision sylweddol ar gyfer eu hardal leol a Chymru yn ei chyfanrwydd. Yn ddiweddar, derbyniais adroddiad cyntaf yr adolygiad annibynnol ar dirweddau gwarchoddedig ac rwy'n edrych ymlaen at eu hail adroddiad, a fydd yn rhoi rhagor o argymhellion imi ar opsiynau llywodraethu yn y dyfodol, ac rwyf wedi nodi argymhellion y pwyllgor.

Finally, I look forward to the debate, Deputy Presiding Officer. I'm grateful to the committee and to the Assembly for their comments and recommendations. The scrutiny processes should make for better law that is fit for purpose and will benefit the people of Wales. I look forward to working with the Assembly and the members of committees to achieve a planning system that will be fit for the twenty-first century. Diolch yn fawr.

Yn olaf, edrychaf ymlaen at y ddatl, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n ddiolchgar i'r pwyllgor ac i'r Cynulliad am eu sylwadau a'u hargymhellion. Dylai'r prosesau craffu wneud cyfraith well sy'n addas at y diben ac a fydd o fudd i bobl Cymru. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Cynulliad ac aelodau o bwylgorau i sicrhau system gynllunio a fydd yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Diolch yn fawr.

17:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Chair of the Environment and Sustainability Committee, Alun Ffred Jones.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Alun Ffred Jones.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:33 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr iawn. Rwy'n falch i gyfrannu at y ddatl yma heddiw fel Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, a fu'n gyfrifol am graffu ar y Bil yn ystod Cyfnod 1. Fe glywsom ni gan amryw o randdeiliaid i gasglu eu barn ynglŷn ag a fyddai'r Bil yn cyflawni'r hyn y maen nhw'n yn ei ddisgwyl gan ddeddfwriaeth. Rwy'n diolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor.

Thank you very much. I am pleased to contribute to this debate as Chair of the Environment and Sustainability Committee, which was responsible for the scrutiny of the Bill at Stage 1. We heard from various stakeholders in order to gather their views on whether the Bill would achieve what they expect from legislation. I thank everyone who gave evidence to the committee.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

O ran yr egwyddorion cyffredinol, fe fyddwch chi'n gweld o'r adroddiad ein bod ni fel pwyllgor yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil. Mae'n werth nodi, ar y llaw arall, ein bod ni wedi gwneud 42 o argymhellion sy'n ceisio mynd i'r afael â phryderon bod angen i'r Bil fod yn fwy cyson, yn fwy effeithlon ac, yn fwy na dim efallai, yn fwy democrataidd. Fe fyddaf i nawr yn cyfeirio at rai o'r prif argymhellion hyn.

In terms of the general principles, you will see from the report that, as a committee, we support the general principles of the Bill. It is worth noting, on the other hand, that we have made 42 recommendations aimed at addressing concerns that the Bill needs to be more consistent, more efficient and, above all else perhaps, more democratic. I will now refer to some of the main recommendations.

Un feirniadaeth oedd cymhlethdod y gyfundrefn gynllunio sy'n cael ei hargymell. Mae rhai tystion wedi dadlau fod y trefniadau newydd sy'n cael eu nodi yn y Bil yn ddiangen o gymhleth ac y byddan nhw'n creu strwythur pedair haen o gynllunio. Mae'n werth nodi hefyd y bydd angen pasio 65 o ddarnau o is-ddeddfwriaeth cyn bod y Bil yn weithredol. Mae yna bryderon wedi'u mynegi hefyd fod y strwythur newydd yn gweithredu o'r brig i lawr ac yn rhoi pwerau ychwanegol sylweddol i Weinidogion Cymru. Rydym wedi galw yn y gorffennol am ddiwygiadau i'r system gynllunio, ond, fodd bynnag, mi allai canoli pwerau a diwygio prosesau symud pŵer oddi wrth cymunedau ac unigolion a'i gwneud hi'n anoddach i'r gymuned gymryd rhan yn y system, gan erydu democratiaeth leol. Rwy'n meddwl bod hwn yn rhybudd y dylai'r Llywodraeth ei gymryd o ddirfi. Felly rydym ni'n argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i roi statws cynllun datblygu ffurfiol i gynlluniau lleoedd a rhoi rhagor o ystyriaeth i sut gall cymunedau lleol gael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan.

One criticism was of the complexity of the proposed planning system. Some witnesses argued that the new arrangements set out in the Bill are unnecessarily complicated and that they will create a four-tier planning structure. It is also worth noting that there will be a need to pass 65 pieces of secondary legislation before the Bill comes into force. Concerns have also been expressed that the Bill operates from the top down and gives significant additional powers to Welsh Ministers. We have called in the past for reform of the planning system. However, centralising powers and reforming processes could move power away from communities and individuals and make it harder for the community to take part in the system, eroding local democracy. I think that this is a warning that the Government should take seriously. So, we recommend that the Minister should bring forward an amendment to give the status of a formal development plan to place plans and give more consideration to how local communities can have more opportunities to take part.

O ran diben statudol ar gyfer cynllunio, pan ystyriodd y pwyllgor y Bil drafft, fe argymhellodd grŵp cynghori annibynnol y dylid cynnwys diben statudol ar gyfer cynllunio ar wyneb y Bil. Mae'r Gweinidog yn dadlau bod bodolaeth y Bil yn dileu'r angen am ddiben statudol. Fodd bynnag, oherwydd swmp y dystiolaeth a ddaeth i law, rydym ni'n argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn cynnwys diben statudol ar gyfer cynllunio ynddo. Rwy'n nodi sylwadau'r Gweinidog, ac yn ddiolchgar amdany'n nhw, parthed y Gymraeg a chynllunio. Mae'r rhain yn gyson ag argymhelliad a wnaeth y Prif Weinidog yn ystod yr haf diwethaf. Fel pwyllgor, rydym ni'n credu fod y Bil yn gyfle i gefnogi twf y Gymraeg ledled Cymru ac y dylai sefyllfa'r Gymraeg yn y system gynllunio gael ei chryfhau i sicrhau cydraddoldeb ag ystyriaethau eraill. Rydym yn cydnabod, ar y llaw arall, y dystiolaeth a gawsom ni na ddylai'r Gymraeg gael ei hystyried uwchlaw pob ystyriaeth berthnasol arall. Oherwydd hyn, mae'r pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i osod gofynion ar y rhai sy'n llunio cynlluniau i gynnal asesiad o effaith cynlluniau datblygu ar y Gymraeg, ac i nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol bod y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol. Rydym ni hefyd yn credu y dylai Comisiynydd y Gymraeg gael rôl o ran asesu ansawdd yr asesiadau effaith ieithyddol ar gyfer cynlluniau datblygu. Nid yw hynny yr un fath â dweud y dylai'r comisiynydd fod yn ymddrin â cheisiadau cynllunio mewn unrhyw ffordd.

O ran cysylltiadau â chyfundrefnau eraill, sef argymhellion 11 ac 12, mae nifer o dystion wedi galw am wybodaeth fwy pendant am ba fath o gysylltiad a fydd rhwng y gwahanol fathau o gynlluniau sydd wedi'u cynnig ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Bil Cynllunio (Cymru), a Bil yr amgylchedd a fydd yn dod maes o law. Rydym ni'n pryderu nad oes cysylltiad penodol wedi'i wneud yn y Bil rhwng trefniadau ar gyfer cynlluniau trafniadaeth cenedlaethol statudol a'r fframwaith datblygu cenedlaethol newydd a fyddai'n cael ei greu gan y Bil. Felly, rydym ni'n argymhell y dylai'r Gweinidog ddod â gwelliannau gerbron i sefydlu cysylltiadau statudol newydd rhwng y systemau hyn.

O ran y parciau cenedlaethol, fel y mae'r Gweinidog wedi sôn, sef argymhelliad 15, yr argymhelliad ydy y dylai'r Gweinidog adael y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio o ran y parciau cenedlaethol. Os nad yw'n bwriadu gwneud dim byd ynglŷn â nhw, pam cymryd y cyfrifoldeb a pham rhoi'r pŵer iddo fo'i hun i allu eu dileu neu eu cyfuno â phwyllgorau cynllunio eraill?

O ran y fframwaith datblygu cenedlaethol, sef argymhellion 18 ac 19, un o'r prif newidiadau a wneir gan y Bil yw creu fframwaith datblygu cenedlaethol, sef yr NDF, i gymryd lle cynllun gofodol Cymru. Fel mae'r Bil wedi'i ddrafftio, nid oes raid i'r NDF gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad, ac nid oes raid i Weinidogion Cymru esbonio sut maen nhw'n cymryd barn y Cynulliad i ystyriaeth. Roedd nifer o dystion wedi codi pryderon am hyn, felly rydym ni'n argymhell y dylai'r Cynulliad allu pennu ei weithdrefnau ei hun o ran ystyried yr NDF drafft, ac y dylai fod yn ofynnol i'r NDF gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad.

In terms of a statutory purpose for planning, when the committee considered the draft Bill, an independent advisory group recommended that the statutory purpose for planning should be placed on the face of the Bill. Now, the Minister argues that the existence of the Bill removes the need for a statutory purpose. However, due to the bulk of evidence that came forward, we recommend that the Minister should bring forward an amendment to the Bill to include a statutory purpose for planning. I note the comments made by the Minister regarding the Welsh language, and I am grateful for them. These are consistent with the recommendation made by the First Minister last summer. As a committee, we do believe that the Bill is an opportunity to support the growth of the Welsh language throughout Wales and that the position of Welsh in the planning system should be strengthened to ensure equality with other considerations. We also acknowledge, on the other hand, the evidence we received that Welsh should not be considered above all other material considerations. Because of this, the committee recommends that the Minister should introduce amendments to place a requirement on those drawing up plans to undertake an assessment of the impact of development plans on the Welsh language and to note in primary legislation that Welsh is a material consideration. In addition, we believe that the Welsh Language Commissioner should have a formal role in assessing the quality of the language impact assessments for development plans. That is not the same as saying that the commissioner should deal with planning applications in any way.

If terms of links with other systems, in recommendations 11 and 12, a number of witnesses have called for more definite information about what type of link there will be between the different types of schemes proposed in the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, the Planning (Wales) Bill and the environment Bill that will come forward soon. We are concerned that there is no specific link made in the Bill between arrangements for national statutory transport schemes and the new national development framework that would be created by the Bill. We therefore recommend that the Minister brings forward amendments to establish new statutory links between these systems.

In terms of the national parks, as the Minister mentioned, namely recommendation 15, the recommendation is that the Minister should leave the Bill as it has been drafted in terms of the national parks. If he doesn't intend to do anything about it, why take that responsibility and why give that power to himself to be able to abolish them or combine them with other planning committees?

In terms of the national development framework, looking at recommendations 18 and 19, one of the major changes made by the Bill is the creation of the national development framework to replace the Wales spatial plan. As the Bill is drafted, the NDF doesn't have to be approved by the Assembly and Welsh Ministers don't have to explain how they take into account the views of the Assembly. A number of witnesses raised concerns about this, so we recommend that the Assembly should be able to determine its own procedures in considering the draft NDF and that it should be a requirement that the NDF is approved by the Assembly.

Rwy'n sylwi fy mod i'n mynd i redeg allan o amser, felly fe wnaif i jest gyfeirio at rai o'r meysydd eraill. O ran y cynlluniau datblygu strategol a'r paneli cynllunio strategol, mae yna bryderon ynglŷn ag atebolrwydd ac aeolodaeth y paneli. Ond mae yna bryder cyffredinol hefyd ein bod ni'n creu strwythur rhy gymhleth yn y maes yma, ac mae pryderon wedi'u mynegi ynglŷn â'r haen yma.

O ran datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, mae'r Bil yn cyflwyno cyfundrefn newydd o ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, sy'n golygu y byddai Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar rai ceisiadau.

Rŵan 'te, mi glywsom bryderon y gallai diffyg diffiniad ar wyneb y Bil arwain at Lywodraeth yn y dyfodol yn diwygio'r diffiniad er mwyn cyfiawnhau cyflwyno'r categorïau newydd hyn o ddatblygiad. Felly, rydym ni yn argymhell y dylai'r Gweinidog gynnwys diffiniad o DNS ar wyneb y Bil yn hytrach nag mewn is-ddeddfwriaeth, ac rydym ni wedi cael ein perswadio hefyd y dylai fod amserlen statudol ar gyfer ystyried DNS gan Weinidogion Cymru.

Mae yna rai materion eraill hefyd yr ydym ni'n cyfeirio atyn nhw. Un ydy datganiadau dylunio a mynediad. Yr argymhelliad yn y Bil ydy dileu y rheini, ond rydym ni wedi cael ein perswadio eu bod nhw â rhan bwysig i'w chwarae yn y broses. Hefyd, mae'r Gweinidog wedi cyfeirio at feysydd tref a phentref, ac rydym ni'n croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi gwrandao ar y dystiolaeth yn hynny o beth.

Felly, at ei gilydd, mae yna gefnogaeth i'r egwyddorion cyffredinol, ond rwy'n credu bod yna bryderon mawr bod y Bil yn canoli pŵer a bod angen iddo fo fod yn fwy democrataidd o ran y sefydliad yma, o ran y Cynulliad ei hun, ond hefyd, er tegwch i awdurdodau lleol a chymunedau hefyd ledled Cymru. Diolch yn fawr.

I note that I'm going to run out of time, so, if I could just refer to some of the other areas, in terms of the strategic development plans and the strategic planning panels, there are concerns about the accountability and the membership of these panels. But there is a general concern as well that we are creating a structure that is too complex in this field, and concerns have been expressed about this layer.

In terms of developments of national significance, the Bill introduces a new system of developments of national significance, which means the Welsh Ministers would be responsible for making decisions on some applications.

Now then, we heard concerns about the lack of definition on the face of the Bill leading to a future Government amending the definition in order to justify the introduction of these new categories of development. So, we recommend that the Minister should include a definition of DNS on the face of the Bill rather than in secondary legislation, and we have been persuaded that there should be a statutory timetable for considering DNS by Welsh Ministers.

There are some other issues that we refer to. One is design and access statements. The recommendation in the Bill is that these should be removed, but we've been persuaded that they have an important part to play in the process. The Minister also referred to town and village greens, and we welcome the fact that the Minister has listened to the evidence regarding those.

So, overall, there is support for the general principles, but I think there are major concerns that the Bill centralises power and there is a need for it to be more democratic in terms of this institution, the Assembly itself, but also, in fairness, to local authorities and also communities across Wales. Thank you very much.

17:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Simon Thomas to speak on behalf of the Constitutional and Legislative Affairs Committee.

Rwy'n galw Simon Thomas i siarad ar ran y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:41 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n siarad ynglŷn ag adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Rydym ni wedi ystyried y Bil yma ac, yn ogystal, wedi gwneud naw o argymhellion i'r Gweinidog sydd yng ngofal y Bil.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm contributing today on the Constitutional and Legislative Affairs Committee's report. We have considered this Bill and, in addition, have made nine recommendations to the Minister in charge of the Bill.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Gyda'r sylwadau cyffredinol ar y Bil, roeddem ni o'r farn fod y Bil, fel cyfraith arfaethedig, yn dioddef o ddiffyg cydlyniant ac eglurder, gan ei wneud yn anodd ei ddilyn. Nid oeddem yn cytuno â barn y Gweinidog 'chwaith nad oedd y Bil yn un sy'n creu polisi. Yn ein barn ni, mae'r Bil yn amlwg yn creu polisi mewn sawl ffordd, ac rydym o'r farn y gallai achosi newidiadau sylweddol mewn polisi heb broses graffu briodol.

As general observations on the Bill, we were of the opinion that the Bill, as a proposed piece of law, lacks coherence and clarity, making it difficult to follow. We did not agree with the Minister's view that the Bill is not one that creates policy. In our view, the Bill is clearly policy-enabling in many respects, and we believe that it could allow for significant shifts in policy without proper scrutiny.

Roedd y Gweinidog yn disgrifio'r Bil fel 'fframwaith ysgerbydol' sydd yn ddisgrifiad a oedd yn codi braw ar y pwyllgor cyfansoddiadol, fel ninnau. Ni ddylid llunio deddfwriaeth sylfaenol mor fras â hyn, gyda'r bwriad o'i defnyddio fel cyfrwng i gyflwyno materion polisi sylweddol drwy is-ddeddfwriaeth, yn enwedig dros gyfnod hir o amser ac i fynd i'r afael â digwyddiadau yn y dyfodol. Mae'r dull hwn yn cyfyngu ar allu'r Cynulliad fel deddfwrfa i graffu, dylanwadu a thrafod gwelliannau posibl i faterion polisi sylweddol. Nid yw'n cynrychioli, felly, arfer da, yn ein tyb ni.

Rydym yn cydnabod bod lle amlwg i is-ddeddfwriaeth o ran ymdrin â materion penodol, er enghraifft agweddau ar fanylder, gweinyddiaeth a phroses. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru wedi sicrhau'r cydbwysedd cywir o ran y Bil hwn. Hoffwn dynnu sylw hefyd at un pwynt pwysig arall sy'n ymwneud â'r mater o gydbwysedd. Awgrymodd y Gweinidog yn ei dystiolaeth y byddai defnyddio is-ddeddfwriaeth yn osgoi'r angen am ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. Ni ddylid defnyddio dadl fel hon i gyfiawnhau hepgor deunydd pwysig oddi ar wyneb unrhyw Fil. Dull amgen fyddai cynnwys darpariaeth ar wyneb y Bil ac yna, yn sgil profiad, ei diwygio drwy is-ddeddfwriaeth, yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol. Rydym yn galw'r rheini'n bwerau Harri VIII, wrth gwrs. Nid yw'n ffordd ddefnyddol o ddeddfu, ond gall fod yn gyfaddawd rhesymol i Lywodraeth Cymru ei ystyried. Byddai hefyd yn rhoi mwy o sicrwydd i gynllunwyr, datblygwyr a rhanddeiliaid eraill ynghylch ffurf gyffredinol y system gynllunio a'r deddfwriaeth a fydd yn gymwys.

Hoffwn gyfeirio nawr at ambell un o'r argymhellion sydd gyda ni. Yn gyntaf, gydag adran 17 o'r Bil sy'n ymwneud â datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, roedd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol o'r un farn â'r pwyllgor amgylchedd ar y mater yma. Dyma'r rhan o'r Bil sydd yn darparu bod cais am ddatblygiad o'r math i gael ei wneud i Weinidogion Cymru yn hytrach nag i'r awdurdod cynllunio lleol. Mae hwn yn fater polisi sylweddol, ac eto, nid oes unrhyw ddiffiniad na dosbarth o ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ar wyneb y Bil. Mae hwn yn syndod, yn enwedig pan ymddangosodd gwybodaeth o'r fath mewn papur ymgynghorol gan Lywodraeth Cymru.

Felly, rydym wedi argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn cynnwys ar ei wyneb categorïau o ddatblygiadau sydd i'w dosbarthu'n ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol a chaniatáu i gategorïau o'r fath gael eu diwygio drwy is-ddeddfwriaeth a fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad hwn.

Yn anffodus, nid yw'r Gweinidog wedi dewis ymateb i unrhyw un o'r argymhellion y ddau bwyllgor sydd wedi adrodd ar y Bil yma heddiw. Rwy'n meddwl bod hyn yn anffodus ac yn gosod arfer gwael. Byddwn i'n licio gweld y rhan yma o'r broses ddeddfu yn clywed gan y Gweinidog beth yw ei ymateb i argymhellion y pwyllgor, yn hytrach na llythyr dilynol i Gadeiryddion y pwyllgorau.

The Minister described the Bill as a 'skeleton framework', which is a frightening thought for a constitutional committee, as well as for us. Primary legislation should not be drafted as broadly as this, with the intention of using it as a means to introduce significant policy vehicles through subordinate legislation, particularly over a long period of time and to deal with future events. This approach limits the ability of the Assembly as a legislature to scrutinise, influence and debate suggested improvements to significant policy matters. It, therefore, does not represent good practice in our view.

We recognise that there is a clear place for subordinate legislation in dealing with particular issues, for example aspects of the detail, administration and process. However, we are concerned that the Welsh Government has not struck the right balance with this Bill. I would also like to highlight one other important point relating to the issue of balance. The Minister suggested in his evidence that using subordinate legislation would avoid the need to amend primary legislation. This line of argument should not be used to justify leaving important material off the face of any Bill. An alternative approach would be to include provisions on the face of the Bill and then, in light of experience, to amend them through subordinate legislation subject to the affirmative procedure. We call those Henry VIII powers, of course. It's not an ideal way of making law, but it could be a reasonable compromise for the Welsh Government to consider. It would also give planners, developers and other stakeholders greater certainty over the broad shape of the planning system and the law that applies.

I'd like to refer now to some of our recommendations. First, with section 17 of the Bill relating to developments of national significance, the Constitutional and Legislative Affairs Committee was of the same view as the environment committee on this matter. This is the part of the Bill that provides that an application for a development of that kind should be made to Welsh Ministers rather than to the local planning authority. This is a significant policy matter, and yet there is no definition or classification of developments of national significance on the face of the Bill. This is surprising, particularly when such information appeared in a Welsh Government consultation paper.

Therefore, we have recommended that the Minister should table amendments to include on the face of the Bill categories of developments to be classified as developments of national significance and to allow such categories to be amended by subordinate legislation that will be subject to the affirmative procedure in this Assembly.

Unfortunately, the Minister has not chosen to respond to any of the recommendations made by the two committees that have reported on this Bill today. I think that's unfortunate and sets a poor precedent. I would like to see this part of the legislative process being informed by the Minister in terms of his response to committee recommendations, rather than by way of a follow-up letter to committee Chairs.

Eto, yn adran 20 y Bil, sef yr opsiwn i wneud cais i Weinidogion Cymru, rydym ni'n ffeindio bod y rhain yn bwerau eang iawn, yn enwedig o ran dynodi awdurdodau sy'n tangyflawni. Nid yw'n gwbl glir beth fyddai awdurdod lleol sy'n tangyflawni, ac rydym wedi nodi nad oes gan y Cynulliad unrhyw rôl benodol o ran y meini prawf a gaiff eu defnyddio. Unwaith eto, nid yw'r Gweinidog wedi ymateb i'r argymhelliad hwn.

Gan nad oes llawer o amser ar ôl, byddwn i jest yn tynnu sylw'r Cynulliad at ddau arall o argymhellion pwysig y pwyllgor: yn gyntaf oll yn ymwneud â chydysyniad y Goron, lle rydym wedi mynegi pryder ynghylch yr angen i gael caniatâd y Goron ar gyfer y Bil hwn, ac yn ail yn glŷn â hawliau dynol, lle rydym wedi nodi pryder pam na allai'r memorandwm esboniadol fod wedi amlinellu'n fanwl sut y mae'r Bil wedi cymryd materion hawliau dynol i ystyriaeth, o ystyried pa mor berthnasol yw'r materion hynny i faterion cynllunio.

Again, in section 20 of the Bill—the option to make application to Welsh Ministers—we see these as very broad-ranging powers, particularly in designating authorities that are underperforming. It is not entirely clear what a local authority underperforming would be, and we have noted that the Assembly has no specific role in terms of the criteria that will be used. Once again, the Minister has not responded to this recommendation.

As there is not much time left, I would just draw the Assembly's attention to two other important recommendations of the committee: first of all related to Crown consent, where we have expressed concern about the need to acquire Crown consent for this Bill, and secondly on human rights, where we have noted our concern as to why the explanatory memorandum could not have outlined in detail how the Bill has taken account of human rights issues, given their relevance to matters of planning.

17:46

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I talk to the substance of this Bill, can I also thank the environment committee staff for supporting us through the Stage 1 process and also all the witnesses that provided evidence? My Welsh Conservative colleagues and I have long called for a piece of legislation that is radical and that would transform the planning system in Wales. Unfortunately, the piece of proposed legislation that we have in front of us today is something, both in policy and technical terms, that is a long way from being adequate.

I have to say that the main problem with the Bill is that we have, again, another framework Bill with very minimal intent at this stage, but the expectation is that the detail will be fleshed out at a later date at the Government's leisure, then pushed through via subordinate legislation. Well, I don't think that's acceptable. You can't simply look to futureproof a piece of legislation by putting the bare minimum in it. I agree with Simon Thomas's comments in that regard. We need legislation that will make a difference to the planning system now and there has to be more focus and more detail of its policy intent on the face of the Bill at Stage 2. I hope the Minister will do that.

There's no question that the planning system requires modernisation and reform and that a Bill is the most effective way of achieving that. However, whether the framework structures, as set out in the Bill, are conducive to making the process more streamlined, straightforward and serviceable, I have my doubts, and so do many of the witnesses that came to give evidence.

Cyn imi siarad am sylwedd y Bil hwn, a gaf i hefyd ddiolch i staff y pwyllgor amgylchedd am ein cefnogi drwy'r broses Cam 1 a hefyd yr holl dystion a roddodd dystiolaeth? Mae fy nghydweithwyr yng Nghheidwadwyr Cymru a minnau wedi galw ers amser am ddarn o ddeddfwriaeth sy'n radical ac a fyddai'n trawsnewid y system gynllunio yng Nghymru. Yn anffodus, mae'r darn o ddeddfwriaeth arfaethedig sydd gennym o'n blaenau heddiw yn rhywbeth, o ran polisi a thermau technegol, sy'n bell o fod yn ddigonol.

Mae'n rhaid imi ddweud mai'r brif broblem gyda'r Bil yw bod gennym, unwaith eto, Fil fframwaith arall ag ychydig iawn o fwriad ar hyn o bryd, ond disgwylir y bydd y Llywodraeth yn rhoi cnawd ar yr asgwrn yn nes ymlaen wrth ei phwysau, ac yna'u gwthio trwodd drwy is-ddeddfwriaeth. Wel, nid wyf yn credu bod hynny'n dderbyniol. Ni allwch geisio diogelu darn o ddeddfwriaeth at y dyfodol drwy roi'r mymryn lleiaf ynddo. Rwy'n cytuno â sylwadau Simon Thomas yn hynny o beth. Mae arnom angen deddfwriaeth a fydd yn gwneud gwahaniaeth i'r system gynllunio nawr ac mae'n rhaid cael mwy o ffocws a mwy o fanylion ar ei bwriad polisi ar wyneb y Bil yng Nghyfnod 2. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn gwneud hynny.

Nid oes amheuaeth bod angen moderneiddio a diwygio'r system gynllunio ac mai Bil yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni hynny. Fodd bynnag, mae gennyf fy amheuan a yw'r strwythurau fframwaith, fel y'u nodir yn y Bil, yn ffafriol i wneud y broses yn fwy llyfn, syml a defnyddiol, ac mae gan lawer o'r tystion a ddaeth i roi dystiolaeth eu hamheuan hefyd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The Government is looking, in effect, to create four separate tiers of planning. I think the Government has made this proposed planning structure far too complicated in that it will, I believe, be a potential barrier to development. The other fundamental issue that requires rebalancing is the amount of powers that are being proposed to be centralised to Welsh Government. I always have concerns when Welsh Ministers try to secure more powers for themselves, but there is a real concern out there that there is a perception of centralising planning powers to Ministers, and I would agree with those concerns. I note that we recently had a petition in the Petitions Committee that makes points to that effect.

One of the key purposes of this Bill before it was introduced was how it could improve the relationship between the land use and planning system and Welsh communities—how residents in those communities could have a greater say on future developments in their locality, preventing any sort of planning imposition that was against the local will. So, there's hardly anything for communities to shout about with regard to improving local accountability and ensuring our communities' self-determination. I think the Welsh Language Society were most engaged in making this point when they came to give evidence to the committee. One of the points that they made was that the power of decision making should remain at the most local level possible, because that was the best way to shape policy and accommodate local needs.

Finally, I want to refer to the real concerns about the lack of provision in the Bill regarding using the planning system to strengthen the Welsh language, particularly given the First Minister's comments on this. There is cross-party agreement from all opposition parties on the need for the status of the Welsh language to be strengthened in the Bill. You will have noticed that all three opposition party spokespersons have tabled a joint statement of opinion to the Welsh Government on enshrining the importance of the Welsh language in the planning system. I'm sorry that I haven't got time to expand on that point, as I would like, but I would encourage Members to sign the statement of opinion.

Deputy Presiding Officer, there are still a number of issues that I would've liked to have gone into more detail on, particularly the issue of cost and resource, for example. The Welsh Conservatives will be backing the principles today, but there needs to be a lot of work done on the Bill. I hope the Minister will acknowledge that fact in his closing remarks and will bring forward amendments to get this Bill in the condition that it needs to be in order to achieve a real change to our economic and social wellbeing.

17:51

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is undoubtedly a hugely important debate in terms of Wales's future, because it's clearly essential that we have an efficient and effective planning system in place; a structure that delivers that very tricky balance between growth and economic development on the one hand and environmental concerns and the wider impact on the communities we represent on the other.

Mae'r Llywodraeth, i bob pwrpas, yn ceisio creu pedair haen gynllunio ar wahân. Rwy'n meddwl bod y Llywodraeth wedi gwneud y strwythur cynllunio arfaethedig yn llawer rhy gymhleth yn ffaith y bydd, yn fy marn i, yn rhwystro posibl rhag datblygiad. Y mater sylfaenol arall y mae angen dod o hyd i well cydbwysedd ar ei gyfer yw faint o bwerau y cynigir eu canoli i Lywodraeth Cymru. Rwyf bob amser yn pryderu pan fydd Gweinidogion Cymru'n ceisio sicrhau mwy o bwerau iddynt eu hunain, ond mae gan bobl bryder gwirioneddol mai'r canfyddiad yw bod bwerau cynllunio'n cael eu canoli i Weinidogion, a byddwn yn cytuno â'r pryderon hynny. Rwy'n nodi ein bod yn ddiweddar wedi cael deiseb yn y Pwyllgor Deisebau sy'n gwneud pwyntiau i'r perwyl hwnnw.

Un o ddibenion allweddol y Bil hwn cyn iddo gael ei gyflwyno oedd sut y gallai wella'r berthynas rhwng defnydd tir a'r system gynllunio a chymunedau Cymru—sut y gallai trigolion yn y cymunedau hynny gael mwy o lais ynglŷn â datblygiadau yn eu hardal leol yn y dyfodol, gan atal unrhyw fath o gynllunio rhag cael ei orfodi yn erbyn yr ewyllys lleol. Felly, nid oes fawr ddim i gymunedau weiddi yn ei gylch o ran gwella atebolrwydd lleol a sicrhau hunan-benderfyniad ein cymunedau. Rwy'n meddwl mai Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wnaeth ymgysylltu fwyaf wrth wneud y pwynt hwn pan ddaethant i roi tystiolaeth i'r pwyllgor. Un o'r pwyntiau a wnaethant oedd y dylai'r pŵer i wneud penderfyniadau aros ar y lefel fwyaf lleol bosibl, oherwydd mai dyna oedd y ffordd orau i lunio polisi a darparu ar gyfer anghenion lleol.

Yn olaf, rwyf am gyfeirio at y pryderon gwirioneddol ynghylch y diffyg darpariaeth yn y Bil ynghylch defnyddio'r system gynllunio i gryfhau'r iaith Gymraeg, yn enwedig o ystyried sylwadau'r Prif Weinidog ar hyn. Ceir cytundeb trawsbleidiol gan bob gwrthblaid ar yr angen i statws yr iaith Gymraeg gael ei gryfhau yn y Bil. Byddwch wedi sylwi bod pob un o dri llefarydd y gwrthbleidiau wedi cyflwyno datganiad barn ar y cyd i Lywodraeth Cymru ynghylch ymgorffori pwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn y system gynllunio. Mae'n ddrwg gennyf nad wyf wedi cael amser i ymhelaethu ar y pwynt hwnnw, fel y byddwn yn hoffi, ond byddwn yn annog yr Aelodau i lofnodi'r datganiad barn.

Ddirprwy Lywydd, mae nifer o faterion eraill y byddwn i wedi hoffi mynd i fwy o fanylion yn eu cylch, yn enwedig cost ac adnoddau, er enghraifft. Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi'r egwyddorion heddiw, ond mae angen gwneud llawer o waith ar y Bil. Rwy'n gobioethio y bydd y Gweinidog yn cydnabod y ffaith honno yn ei sylwadau i gloi ac y bydd yn cyflwyno gwelliannau i gael y Bil hwn i'r cyflwr y mae angen iddo fod er mwyn cyflawni newid gwirioneddol i'n lles economaidd a chymdeithasol.

Mae hon yn ddi-os yn ddadl hynod bwysig o ran dyfodol Cymru, gan ei bod yn hanfodol, yn amlwg, bod gennym system gynllunio effeithlon ac effeithiol ar waith; strwythur sy'n sicrhau'r cydbwysedd anodd iawn hwnnw rhwng twf a datblygiad economaidd ar y naill law a phryderon amgylcheddol a'r effaith ehangach ar y cymunedau yr ydym yn cynrychioli ar y llall.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

For me, it's a sign of just how fundamental planning is when I look at the major issues I've dealt with in my constituency over recent years; matters as diverse as post-16 provision, the future of Pontypool rugby club, and, of course, the opencast situation in Varteg. Planning is nearly always at the heart of it. So, while I applaud the Minister for seeking to grasp this particular nettle, at the same time, this means we have to tread very carefully and ensure we get this reform process right, particularly at a time when local government reorganisation and other factors, like the city regions push, remain the elephant in the room until we have clarity on the future shape and make-up of planning authorities in Wales.

Having consulted closely with local planners in Torfaen, with whom, I must say, I've always had an excellent working relationship, I think my overriding concern is that, while the intention and basic direction of travel is a good one, this Bill and the wider reform process currently offers too little carrot and too much in the way of stick when it comes to driving forward improvement within planning authorities that are deemed to be underperforming. So, I'm worried, for example, that, by being too arbitrary and judging performance solely on the basis of time taken to process applications rather than adopting a more nuanced approach, authorities fearful of being forced to pay application fees back to developers will instead seek to rush decisions at all costs, resulting in a dip, both in terms of the quality of decision making and the service offered to developers and key stakeholders, with proper consultation with individuals and communities also, potentially, sacrificed.

I can think of one really important local commercial development, just for example, which delayed the adoption of the local development plan in Torfaen, because of protracted negotiations between landowners and a prospective investor. But, the pragmatic approach shown by Torfaen's planning department and the flexibility built into the system that allowed it, resulted in a hugely beneficial outcome in the end, which saw vital local jobs safeguarded and local infrastructure investment secured. That would otherwise have been lost to the area, if the council had been forced to rush the LDP.

There's also an obvious danger we'll create a vicious circle in terms of local planning capacity due to the loss of planning fee income that would result if developers were able to bypass local planning authorities under special measures and, instead, had to apply directly to the Welsh Government.

I mi, mae'n arwydd o ba mor sylfaenol bwysig yw cynllunio pan fyddaf yn edrych ar y prif faterion yr wyf wedi delio â nhw yn fy etholaeth dros y blynyddoedd diwethaf; materion mor amrywiol â darpariaeth ôl-16, dyfodol clwb rygbi Pont-y-pŵl, ac, wrth gwrs, sefyllfa glo brig yn y Farteg. Mae cynllunio bron bob amser yn fater canolog. Felly, er fy mod yn canmol y Gweinidog am geisio mynd i'r afael â'r mater penodol hwnnw, ar yr un pryd, mae hyn yn golygu bod rhaid inni droedio'n ofalus iawn a sicrhau ein bod yn cael y broses ddiwygio'n iawn, yn enwedig ar adeg pan fo ad-drefnu llywodraeth leol a ffactorau eraill, fel yr ymgyrch i sefydlu dinas-ranbarthau, yn parhau i fod yn eliffant yn yr ystafell nes i siâp a gwneuthuriad awdurdodau cynllunio yng Nghymru yn y dyfodol fod yn eglur.

Ar ôl ymgynghori'n agos â chynllunwyr lleol yn Nhorfaen, ac mae'n rhaid imi ddweud y bu gennyf berthynas waith ardderchog â nhw bob amser, rwy'n meddwl mai fy mhryder pennaf, er bod y bwriad a'r cyfeiriad sylfaenol yn dda, yw bod y Bil hwn a'r broses ddiwygio ehangach ar hyn o bryd yn cynnig rhy ychydig o ysgogiad a gormod o gosb er mwyn sbarduno gwelliannau o fewn awdurdodau cynllunio y bernir eu bod yn tanberfformio. Felly, er enghraifft, trwy fod yn rhy fympwyl a barnu perfformiad ar sail yr amser a gymerir i brosesu ceisiadau yn unig yn hytrach na mabwysiadu dull mwy cynnil, rwy'n poeni y bydd awdurdodau sy'n ofni cael eu gorfodi i dalu ffioedd cais yn ôl i'r datblygwyr yn lle hynny yn ceisio rhuthro penderfyniadau ar bob cyfrif, gan arwain at ostyngiad yn ansawdd y broses o wneud penderfyniadau a'r gwasanaeth a gynigir i ddatblygwyr a rhanddeiliaid allweddol, gan aberthu'r broses ymgynghori briodol ag unigolion a chymunedau hefyd, o bosibl.

Gallaf feddwl am un datblygiad masnachol lleol pwysig iawn, dim ond fel enghraifft, a wnaeth ohirio'r broses o fabwysiadu'r cynllun datblygu lleol yn Nhorfaen, oherwydd trafodaethau maith rhwng tiffeddianwyr a darpar fuddsoddwr. Ond, arweiniodd yr agwedd ymarferol a ddangoswyd gan adran gynllunio Torfaen a'r hyblygrwydd a oedd yn rhan o'r system a'i caniatodd, at ganlyniad hynod fuddiol yn y diwedd, a welodd swyddi lleol hanfodol yn cael eu diogelu a buddsoddiad yn cael ei sicrhau mewn seilwaith lleol. Byddai hynny fel arall wedi cael ei golli i'r ardal, pe byddai'r cyngor wedi cael ei orfodi i ruthro'r cynllun.

Mae hefyd perygl amlwg y byddwn yn creu cylch dieflig o ran adnoddau cynllunio lleol yn sgil colli incwm ffioedd cynllunio pe byddai datblygwyr yn gallu osgoi awdurdodau cynllunio lleol dan fesurau arbennig ac, yn lle hynny, yn gorfod gwneud cais uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Frankly, given my experience with the Varteg application, where capacity issues within the Welsh Government planning department meant it was well over a year after the planning inspector delivered his report before we heard anything whatsoever from the Welsh Government, I think there are questions in terms of the capacity of officials to cope with the potentially huge increase in demand we could be looking at if a number of planning authorities are deemed to be underperforming. While I think that the proposed 15% increase of fees that's been mooted as part of the wider planning reform process is potentially very welcome, it will only help boost local capacity if we ensure that money is recycled into the planning system, which isn't necessarily straightforward at a time when councils are facing such severe spending pressures.

Finally, while I recognise there's an ongoing debate in terms of whether this should be on the face of the Bill or dealt with via regulations, given the push for developments considered of strategic national importance to be processed at Welsh Government level, I would personally be keen to see all opencast applications considered for inclusion within that new category. This would allow that moratorium I called for in January to be delivered, giving the Welsh Government that vital breathing space I believe it needs to carry out a review into an industry that is now facing huge questions from across the political divide, as I think the very thoughtful debate that took place during First Minister's questions today clearly illustrated. Thank you.

A dweud y gwir, o ystyried fy mhrofiad gyda chais y Farteg, lle mae materion adnoddau o fewn adran gynllunio Llywodraeth Cymru'n golygu bod ymhell dros flwyddyn wedi mynd heibio ar ôl i'r arolygydd cynllunio gyflwyno ei adroddiad cyn inni glywed dim o gwbl gan Lywodraeth Cymru, rwy'n meddwl bod cwestiynau o ran gallu swyddogion i ymdopi â'r cynnydd enfawr posibl yn y galw y gallem ei weld os bernir bod nifer o awdurdodau cynllunio'n tanberfformio. Er fy mod yn credu bod y cynnydd o 15% arfaethedig yn y ffioedd sydd wedi ei grybwyll fel rhan o'r broses ehangach o ddiwygio'r system gynllunio i'w groesawu'n fawr o bosibl, ni fydd ond yn helpu i roi hwb i'r gallu'n lleol os byddwn yn sicrhau bod arian yn cael ei ailgylchu i mewn i'r system gynllunio, ac nid yw o reidrwydd yn syml ar adeg pan mae cynghorau'n wynebu pwysau mor ddifrifol ar wariant.

Yn olaf, er fy mod yn cydnabod bod dadl barhaus a ddylai hyn fod ar wyneb y Bil neu gael ei drin drwy gyfrwng rheoliadau, o ystyried yr ymgyrch i ddatblygiadau yr ystyrir eu bod o bwysigrwydd cenedlaethol strategol gael eu prosesu ar lefel Llywodraeth Cymru, byddwn i yn bersonol yn awyddus i weld ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnwys yr holl geisiadau cloddio glo brig o fewn y categori newydd hwnnw. Byddai hyn yn caniatáu i'r moratorium y gelwais amdano ym mis Ionawr gael ei ddarparu, gan roi i Lywodraeth Cymru y seibiant hanfodol hwnnw sydd ei angen arni yn fy marn i i gynnal adolygiad i ddiwydiant sydd bellach yn wynebu cwestiynau mawr o bob ochr i'r rhaniad gwleidyddol, fel a ddangoswyd yn glir rwy'n meddwl yn y ddadl feddylgar iawn a gafwyd yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog heddiw. Diolch yn fawr.

17:56

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'r Bil yma, wrth gwrs, yn rhoi cyfle euraid inni ddiwygio'r drefn gynllunio yng Nghymru o'r bôn i'r brig—rhywbeth mae Plaid Cymru wedi bod yn dadlau drosto ers blynnyddoedd mawr. Rydym ni am symud oddi wrth y diwylliant sydd yn 'obsessed' â stopio a blocio a rhwystro datblygu, a symud i ddiwylliant sydd yn hyrwyddo ac yn hwyluso datblygu—ond y math iawn o ddatblygu, wrth gwrs, yn seiliedig ar griteria economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol cryf, a lle mae llais lleol yn ganolog i'r drefn honno. Rwy'n croesawu bod y Gweinidog yn rhannu'r un uchelgais, ond y cwestiwn, wrth gwrs, yw: i ba raddau mae'r Bil yma yn cyflawni hynny? Un o'r prif hanfodion i fi yw bod llais y cymunedau sy'n cael eu heffeithio yn ganolog i'r drefn arfaethedig; bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mor agos i'r gymuned ag sy'n bosib er mwyn adlewyrchu eu dyheadau nhw.

This Bill, of course, gives us a golden opportunity to reform the planning system in Wales from root to tip—something that Plaid Cymru has been arguing for for many years. We want to move from a culture that is obsessed with stopping, blocking and preventing development, and move towards a culture that promotes and facilitates development—but the right sort of development, based on economic, environmental, social and cultural criteria that are robust, and where the local voice is at the heart of that process. I welcome that the Minister shares that same ambition, but the question, of course, is: to what extent does this Bill achieve that? One of the crucial things for me is that the voices of the communities affected are at the very heart of the proposed system, that decisions are taken as close to the community as possible to reflect their aspirations.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Nawr, i ba raddau mae'r Bil yma yn cryfhau'r llais lleol? Wel, os rhywbeth, mae'r grym yn symud i fyny'r gadwyn yn hytrach nag i lawr. Mae'r Gweinidog yn gyfrifol am greu'r fframwaith datblygu cenedlaethol sydd yn gosod y ffiniau a'r fframwaith ar gyfer y cynlluniau strategol rhanbarthol, sydd, yn eu tro, yn gosod y ffiniau a'r fframwaith ar gyfer y cynlluniau datblygu lleol. Nawr, erbyn cyrraedd y lefel honno, mi fydd llawer o'r penderfyniadau wedi'u gwneud, a dwylo'r awdurdodau cynllunio lleol i raddau helaeth wedi'u clymu. Mae yna sôn am gynlluniau lleoedd—y 'place plans' yma—a fyddai o leiaf yn cyflwyno rhywfaint o reolaeth a phenderfyniadau lleol. Mi roedden nhw yn y Bil drafft, ond, wrth gwrs, erbyn hyn, maen nhw wedi diflannu. Oni ddylicd cychwyn gyda'r cynlluniau lleoedd a gweithio i fyny, yn hytrach na'r drefn o'r top i lawr rydym ni'n ei hwynebu, o bosib, gyda'r hyn sydd yn y Bil? Oes, mae angen ar adegau i benderfyniadau ag arwyddocâd ehangach, neu arwyddocâd cenedlaethol, gael eu gwneud ar lefel uwch, ond yr egwyddor sylfaenol yw eich bod chi'n cychwyn gyda dyhead y cymunedau—y rhai a fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y defnydd tir o'u cwrpas nhw.

Egwyddor ganolog arall unrhyw drefn gynllunio, wrth gwrs, yw atebolrwydd ddemocratiaidd, sydd, ysywaeth, yn mynd i gael ei glastwreiddio yn y Bil. Mae'n peri gofid i fi bod y Bil yn gosod aelodau anetholedig ar y paneli datblygu strategol, ac mi fyddwn i yn annog y Gweinidog i ddilyn esiampl yr Alban. Mae'n iawn bod y lleisiau yna yn cael eu clywed o fewn y drafodaeth, ond fe ddylai aelodau cyfetholedig fod yn aelodau heb bleidlais.

Ymhellach na hynny, wrth gwrs, mae'r Gweinidog ei hun yn meddiannu pwerau eang iawn yn y Bil. Mi gawsom ni ddisgrifiad lliwgar iawn yn y pwyllgor o'r Gweinidog mewn siop fferins yn dweud, 'Mi gymera i bach o hwn, rhag ofn y daw e'n handi rhywbryd; mi gymera i bach o'r pwerau yma, rhag ofn y bydd eu hangen nhw arna i rhyw ddydd'. Wrth gwrs, mae'r Llywodraeth yn gwneud hynny heb, efallai, ein bod ni'n ymwybodol o ba ddefnydd y byddan nhw'n ei wneud o'r pwerau hynny, os o gwbl, heb sôn am at pa bwrpas. Mae 65 enghraifft o is-ddeddfwriaeth, fel rydym ni wedi clywed, yn barod. Un o'r rhai mwy arwyddocaol, wrth gwrs, yw creu'r fframwaith datblygu cenedlaethol—olynydd cynllun gofodol Cymru, i bob pwrpas. Nawr, roedd y cynllun hwnnw, wrth gwrs, yn gorfod cael ei gytuno gan y Cynulliad cyfan, ond nid felly'r fframwaith cenedlaethol arfaethedig. Nid yw ond yn iawn bod y fframwaith—a fydd, wrth gwrs, yn gosod holl gywair, holl gyd-destun a therfynau cynlluniau datblygu strategol, a chynlluniau datblygu lleol yng Nghymru—yn cael sêl bendith y Cynulliad hwn. Byddai unrhyw beth llai yn gam yn ôl i ddemocratiaeth ac yn gwanychu dylanwad pobl Cymru ar y drefn cynllunio.

Nawr, mae Plaid Cymru hefyd, wrth gwrs, am weld pwrpas statudol i gynllunio yng Nghymru ar wyneb y Bil, fel yr argymhellodd y grŵp cynghori annibynnol, ac mae llawer o'u hargymhellion nhw wedi bod yn sail i weddill y Bil. Mae hawl i apêl trydydd parti hefyd yn faes pwysig, rwy'n meddwl, sydd angen trafodaeth bellach, ynghyd â mwy o eglurdeb ynglŷn â rôl y parciau cenedlaethol o fewn y drefn arfaethedig.

Now, to what extent does this Bill strengthen the local voice? Well, if anything, the power is moving up the chain rather than down. The Minister is responsible for creating the national development framework that sets the boundaries and the framework for the regional strategic plans, which, in turn, set the boundaries and the framework for the local development plans. Now, by the time you get to that level, many of the decisions will have been taken already, and the hands of the local planning authorities will, to a certain extent, be tied. There are talks of place plans, which would at least introduce some sort of local control and accountability. They were in the draft Bill, but, of course, they have now disappeared. But shouldn't we start with those place plans and work upwards, rather than this top-down approach that we are currently facing, possibly, with what is proposed in the Bill? Yes, there is at times a need for decisions of wider significance, or national significance, to be made at a higher level, but the basic principle should be that you should start with the aspirations of the communities themselves—of those directly affected by the use of the land surrounding them.

Another principle central to any planning system, of course, is democratic accountability, which, unfortunately, is going to be diluted in the Bill. It is a cause of concern for me that the Bill places unelected members on the strategic development panels, and I would encourage the Minister to follow the example of Scotland. It's quite right that those voices should be heard within the discussions, but co-opted members should not have a vote.

Further to that, of course, the Minister himself is taking broad-ranging powers in this Bill. We had a very colourful description in committee of the Minister in a sweetshop, saying, 'Well, I'll take a little bit of this in case it comes in handy; I'll take a few of these powers too, in case I may need them at some point in the future'. Of course, the Government does that without us necessarily being aware of what use they will make of those powers, if at all, never mind to what end. There are 65 examples of subordinate legislation, as we have heard, already. One of the most significant, of course, is creating the national development framework—a successor to the Wales spatial plan, in effect. Now, that spatial plan, of course, had to be agreed by the Assembly as a whole, but not so the proposed national development framework. It is only right that the framework—which will, of course, set the whole tone and context and limits of strategic development plans, and local development plans in Wales—should be approved by this Assembly. Anything less would be a retrograde step for democracy and would weaken the influence of the people of Wales on the planning system.

Now, Plaid Cymru also, of course, want to see a statutory purpose for planning in Wales on the face of the Bill, as recommended by the independent advisory group, and many of their recommendations have formed the basis for much of the rest of the Bill. Third party appeal right are another important area, I think, which needs further discussion, as well as greater clarity on the role of the national parks within the proposed system.

Rwyf hefyd yn meddwl bod angen i ni gael trafodaeth ar a oes angen cynlluniau datblygu strategol o gwbl. Rydym ni wedi clywed tystiolaeth y bydd ad-drefnu llywodraeth leol yn creu awdurdodau cynllunio lleol mwy o faint, mwy rhanbarthol, mwy strategol yn ei hanfod, beth bynnag, felly a oes angen y cynlluniau datblygu ar y lefel yna? Oes, mae angen cynllunio datblygu ar lefel ranbarthol, ond oni fyddai cynlluniau datblygu ar y cyd rhwng yr awdurdodau mwy yma yn ddigonol, yn hytrach na chreu haen newydd sbon o gynlluniau datblygu?

Yn olaf, rwyf am roi neges glir i'r Llywodraeth y bydd unrhyw beth llai na'r gofynion penodol yn adroddiad y pwyllgor amgylchedd ar yr iaith Gymraeg yn annerbyniol. Mae'r gwrthbleidiau, fel rydym ni wedi clywed, yn unfryd unfarn yn hynny o beth. Rydym ni'n disgwyl dim llai nag ymateb cadarnhaol a chadarn gan Lywodraeth Cymru i'r argymhellion ar y Gymraeg, os yw'r Bil yma am gyrraedd pen ei daith.

I also feel that we need to have a discussion on whether we need to have strategic development plans at all. We have heard some evidence that the reorganisation of local government will create larger local planning authorities, which will be more strategic, and more regional in nature in any case, so do we need the development plans at that level? Yes, we need to plan developments at the regional level, but wouldn't joint development plans between these larger authorities be sufficient, rather than creating a brand-new layer of development plans?

Finally, I want to express a clear message to Government that anything less than the specific requirements in the environment committee's report on the Welsh language would be unacceptable. The opposition parties, as we have heard, are united in that regard. We expect no less than a positive and firm response from the Welsh Government to the recommendations on the Welsh language, if this Bill is to proceed.

18:01

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Like others this afternoon, I want to welcome the Bill and also welcome the work of the Minister in taking forward the Bill at this point in time. I think many of us have at different times expressed extreme frustration with the planning system in all sorts of different ways, and I think it is important that we get to grips with this and that we do seek to reform the planning system in the way that the Minister has outlined. But can I say in doing so that I hope that we can agree that we need to be very clear in the objectives that we have for this piece of legislation? It needs to deliver clarity. If it does not deliver clarity, then it will have failed. It needs to simplify and deliver a far simplified system. If it does not do that, then it will have failed. And it needs to deliver certainty for people living and for people who wish to promote and to take forward developments. If it does not do that, then it will have failed as well.

Those objectives cannot be achieved in a values-free environment. For me, there needs to be a very clear purpose to this raft of legislation that we are considering at the moment. I see that the Environment and Sustainability Committee have recommended that there is a statutory purpose of sustainable development placed on the face of this legislation. I very much agree with that. I think there needs to be a clear statement that what this Government seeks to promote in Wales is sustainable development, and to do that in such a way as enhances the sustainability of individual communities where that development may take place. Without that clear statement on the face of the Bill, we have values-free legislation that could be the work of McKinsey's rather than the work of an elected Government, so I hope that we will see that.

Fel eraill y prynhawn yma, rwyf am groesawu'r Bil a hefyd am groesawu gwaith y Gweinidog wrth fwrw ymlaen â'r Bil ar yr adeg hon. Rwy'n credu bod llawer ohonom ar wahanol adegau wedi mynegi rhwystredigaeth fawr â'r system gynllunio mewn pob math o wahanol ffyrdd, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig inni fynd i'r afael â hyn a'n bod yn ceisio diwygio'r system gynllunio yn y ffordd y mae'r Gweinidog wedi'i amlinellu. Ond a gaf i ddweud wrth wneud hynny fy mod yn gobeithio y gallwn gytuno bod angen i'r amcanion sydd gennym ar gyfer y darn hwn o ddeddfwriaeth fod yn glir iawn? Mae angen iddo sicrhau eglurder. Os nad yw'n sicrhau eglurder, yna bydd wedi methu. Mae angen iddo symleiddio a darparu system lawer symlach. Os nad yw'n gwneud hynny, bydd wedi methu. Mae angen iddo ddarparu sicrwydd ar gyfer pobl sy'n byw ac ar gyfer pobl sy'n dymuno hyrwyddo a bwrw ymlaen â datblygiadau. Os nad yw'n gwneud hynny, bydd wedi methu hefyd.

Ni ellir cyflawni'r amcanion hynny mewn amgylchedd heb werthoedd. I mi, mae angen pwrpas clir iawn i'r holl ddeddfwriaeth yr ydym yn ei hystyried ar hyn o bryd. Gwelaf fod y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi argymhell y dylid rhoi diben statudol datblygu cynaliadwy ar wyneb y ddeddfwriaeth hon. Cytunaf yn llwyr â hynny. Rwy'n credu bod angen cael datganiad clir mai'r hyn y mae'r Llywodraeth hon yn ceisio'i hyrwyddo yng Nghymru yw datblygu cynaliadwy, a gwneud hynny mewn ffordd sy'n gwella cynaliadwyedd cymunedau unigol lle y gall y datblygiad hwnnw ddigwydd. Heb y datganiad clir hwnnw ar wyneb y Bil, mae gennym ddeddfwriaeth heb werthoedd a allai fod yn waith i McKinsey yn hytrach nag yn waith i Lywodraeth etholedig, felly rwy'n gobeithio y byddwn yn gweld hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Can I also say that I hope that, in considering the legislation, we will do more than that as well? One of the greatest frustrations I have found in supporting and promoting the development of renewable energy has been that planning, far from being an enabler, has been a barrier. All too often, we find ourselves in the ludicrous position where one arm of Government is funding a development that another arm of Government is actively seeking to frustrate, or prevent taking place. It happens all too often. Planning is all too often a barrier to us achieving our ambitions in terms of climate change, in terms of renewables, and it needs to be an enabler. And this Bill needs to make that happen.

The other point I'd like to make is about language. We already have a number of different impact assessments in terms of planning. We need to ensure that culture and language are a part of that. The Bill must ensure that the Welsh language is a material consideration in terms of planning decisions. It must ensure that the language is taken into consideration in terms of determining planning decisions. We cannot say that we will protect some of the most important landscapes in Wales but we won't protect the language of Wales, or the national language of Wales. We can't say that. So, we cannot take forward this legislation again in a values-free environment.

I know that the Minister has indicated that he wishes to consider further a lot of the issues that have been expressed to him, both in terms of the committee reports this afternoon but also in terms of the wider debate around the planning Bill that has been published so far. I welcome the debate that the Minister has sought to stimulate and take forward, and I welcome also the way that the Minister has done that in a positive way. I hope that we will also now be able to agree that the purpose of planning is to change Wales for the better and to enable that change to take place more quickly. Thank you.

18:05

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As has already been acknowledged on all sides of the Chamber, an efficient, responsive and cohesive planning system is absolutely vital if Wales is to develop in a positive and sustainable manner. I welcome many aspects of this Bill, but there are many other ways in which it needs significant improvement, and I'd like to speak to some of the committee recommendations in that area, from the Environment and Sustainability Committee.

During our scrutiny session with the Minister, I asked him if, given the coming of age that this Bill should represent for planning in Wales, the time had not come to consider having an independent planning inspectorate for Wales. At that time, his response was that it was not an option he was looking at at this time. However, applying the same logic that led to the creation of Natural Resources Wales, and especially in the light of increasing calls for the status of the Welsh language to be strengthened within the Bill, particularly referring to recommendations 6 to 9, I would urge you, Minister, to reconsider. The Planning (Wales) Bill calls for more than just superficial rebranding; it calls for a fundamental change in the way that planning is overseen in this country.

A gaf i ddweud hefyd fy mod yn gobeithio y byddwn, wrth ystyried y ddeddfwriaeth, yn gwneud mwy na hynny hefyd? Un o'r rhwystredigaethau mwyaf imi o ran cefnogi a hyrwyddo datblygiad ynni adnewyddadwy yw'r ffaith fod cynllunio, ymhell o alluogi'r broses, wedi bod yn rhwystr. Yn rhy aml, rydym yn ein cael ein hunain yn y sefyllfa chwerthinllyd lle mae un fraich o'r Llywodraeth yn ariannu datblygiad y mae braich arall o'r Llywodraeth yn mynd ati i geisio'i rwystro, neu ei atal rhag digwydd. Mae'n digwydd yn rhy aml. Mae cynllunio'n rhy aml yn ein rhwystro rhag cyflawni ein huchelgeisiau o ran newid yn yr hinsawdd, o ran ynni adnewyddadwy, ac mae angen iddo fod yn alluogwr. Ac mae angen i'r Bil hwn wneud i hynny ddigwydd.

Mae'r pwynt arall yr hoffwn ei wneud yn ymwneud ag iaith. Mae gennym eisoes nifer o wahanol asesiadau effaith o ran cynllunio. Mae angen inni sicrhau bod diwylliant ac iaith yn rhan o hynny. Mae'n rhaid i'r Bil sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol o ran penderfyniadau cynllunio. Rhaid iddo sicrhau bod yr iaith yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Ni allwn ddweud y byddwn yn diogelu rhai o'r tirweddau pwysicaf yng Nghymru, ond na fyddwn yn diogelu iaith Cymru, neu iaith genedlaethol Cymru. Ni allwn ddweud hynny. Felly, ni allwn fwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth hon eto mewn amgylchedd heb werthoedd.

Gwn fod y Gweinidog wedi nodi ei fod yn dymuno rhoi rhagor o ystyriaeth i lawer o'r materion a fynegwyd iddo, o ran yr adroddiadau pwyllgor brynhawn heddiw, ond hefyd o ran y drafodaeth ehangach ynghylch y Bil cynllunio sydd wedi cael ei gyhoeddi hyd yn hyn. Rwy'n croesawu'r ddadl y mae'r Gweinidog wedi ceisio'i hysgogi a'i symud ymlaen, ac rwy'n croesawu hefyd y ffaith fod y Gweinidog wedi gwneud hynny mewn ffordd gadarnhaol. Gobeithio y byddwn hefyd nawr yn gallu cytuno mai diben cynllunio yw newid Cymru er gwell a galluogi'r newid hwnnw i ddigwydd yn gynt. Diolch yn fawr.

Fel sydd eisoes wedi cael ei gydnabod ar bob ochr i'r Siambr, mae system gynllunio effeithlon, ymatebol a chydlynol yn gwbl hanfodol er mwyn i Gymru ddatblygu mewn modd cadarnhaol a chynaliadwy. Rwy'n croesawu llawer o agweddau ar y Bil hwn, ond mae llawer o ffyrdd eraill lle mae angen ei wella'n sylweddol, a hoffwn i siarad am rai o argymhellion y pwyllgor yn y maes hwnnw, gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwydd.

Yn ystod ein sesiwn graffu gyda'r Gweinidog, gofynnais iddo, o ystyried bod y Bil hwn yn cynrychioli'r ffaith bod y system gynllunio yng Nghymru'n dod i oed, onid oedd yr amser wedi dod i ystyried cael arolygiaeth gynllunio annibynnol i Gymru. Ar y pryd, ei ymateb oedd nad oedd yn opsiwn yr oedd yn edrych arno ar yr adeg hon. Fodd bynnag, gan ddefnyddio'r un rhesymeg a arweiniodd at greu Cyfoeth Naturiol Cymru, ac yn enwedig yng ngoleuni galwadau cynyddol am i statws yr iaith Gymraeg gael ei gryfhau yn y Bil, gan gyfeirio'n benodol at argymhellion 6 i 9, byddwn yn eich annog, Weinidog, i ailystyried. Mae'r Bil Cynllunio (Cymru) yn galw am fwy na dim ond ail-frandio arwynebol; mae'n galw am newid sylfaenol yn y ffordd y mae cynllunio'n cael ei oruchwylio yn y wlad hon.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Another important aspect of successful planning is assessing the deliverability of particular planning projects. In this context, I believe that utility companies such as Dŵr Cymru Welsh Water and Severn Trent Water should be made statutory consultees within the planning process, so that their expertise can be drawn on and taken into account fully when local planning determinations are made. Senior representatives from these bodies have raised these issues with me, and I'm clear that it will further enhance the planning system if we can draw on their expertise but also ensure that our communities in future are protected against inappropriate development. There is also the added benefit of life and limb being protected, as well as valuable funds being saved, by avoiding such inappropriate development, and for that reason I'd urge the Minister to accept recommendation 24 of the committee report.

In our 2011 Liberal Democrat manifesto for this Assembly, we stated our party's commitment to giving local planning authorities the power to protect buildings with a social or community significance, such as historic pubs, which may come under threat from time to time. Within the planning Bill, I would also like to see clear provision that would allow the protection of buildings that are of particular social and cultural significance. To this end, the powers available to protect buildings that meet such local criteria for listing should be strengthened. Granting communities this right to protect their key assets is a policy that has been championed by us on numerous occasions, and again I would like to see that brought forward within the context of this Bill. Our philosophy, very much as other colleagues within the opposition parties have stated, is one where local communities should be trusted to decide upon local development. For example, the community right to bid helps communities to protect treasured assets, and buildings can be nominated as an asset of community value. Then, if such an asset comes up for sale, it can trigger a six-month pause, which enables communities to take action. This, again, is important, and there are further lessons in this area that I think we need to draw on.

The community right to build is an alternative to the traditional application for planning permission, and again it empowers communities from the bottom up, so that they can decide for themselves upon what is and is not appropriate in their particular communities. Similarly, the right to reclaim land helps communities to improve their local area by giving them the right to ask that underused or unused land owned by local authorities and others should be sold so that it can be brought back into use. Again, we need to see some provisions in this area.

Finally, if such schemes are to succeed, we need not only the proper legislation in place; we also need to see it is properly promoted and communicated. This, again, is an important area that needs attention.

In summary, communities across our country need to remain at the heart of the planning process, and we need to ensure that their voice is safeguarded, rather than being drowned out.

Agwedd bwysig arall ar gynllunio llywyddiannus yw asesu'r gallu i gyflawni'r prosiectau cynllunio penodol. Yn y cyd-destun hwn, rwy'n credu y dylai cwmnïau cyfleustodau megis Dŵr Cymru Welsh Water a Severn Trent Water gael eu gwneud yn ymgynghoreion statudol yn y broses gynllunio, fel y gellir defnyddio ac ystyried eu harbenigedd yn llawn pan fydd penderfyniadau cynllunio lleol yn cael eu gwneud. Mae uwch gynrychiolwyr o'r cyrff hyn wedi codi'r materion hyn gyda mi, ac rwy'n glir y bydd yn gwella'r system gynllunio ymhellach os gallwn fanteisio ar eu harbenigedd, ond hefyd sicrhau bod ein cymunedau yn y dyfodol yn cael eu diogelu rhag datblygu amhriodol. Ceir hefyd y fantais ychwanegol o warchod bywydau, yn ogystal ag arbed arian gwerthfawr, drwy osgoi datblygiadau amhriodol o'r fath, ac am y rheswm hwnnw byddwn i'n annog y Gweinidog i dderbyn argymhelliad 24 yn adroddiad y pwyllgor.

Ym manifesto'r Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer y Cynulliad hwn yn 2011, fe wnaethom ddatgan ymrwymiad ein plaid i roi pŵer i awdurdodau cynllunio lleol i ddiogelu adeiladau sydd ag arwyddocâd cymdeithasol neu gymunedol, fel tafarndai hanesyddol, a allai ddod dan fgythyriad o bryd i'w gilydd. O fewn y Bil cynllunio, byddwn hefyd yn hoffi gweld darpariaeth glir a fyddai'n caniatáu gwarchod adeiladau sydd o arwyddocâd cymdeithasol a diwylliannol penodol. I'r perwyl hwn, dylid cryfhau'r pwerau sydd ar gael i ddiogelu adeiladau sy'n bodloni meini prawf o'r fath yn lleol ar gyfer cael eu rhestru. Mae'r hawl hwn i gymunedau ddiogelu eu hasedau allweddol yn bolisi yr ydym ni wedi ei hyrwyddo ar sawl achlysur, ac unwaith eto hoffwn ei weld yn cael ei ddwyn ymlaen yng nghyd-destun y Bil hwn. Mae ein hathroniaeth, fel y mae cydweithwyr eraill o fewn y gwrthbleidiau wedi nodi, yn un lle y dylid ymddiried mewn cymunedau lleol i benderfynu ar ddatblygiad lleol. Er enghraifft, mae'r hawl gymunedol i gynnig yn helpu cymunedau i ddiogelu asedau gwerthfawr, a gellir enwebu adeiladau fel ased o werth cymunedol. Yna, os yw ased o'r fath ar werth, gall sbarduno saib o chwe mis, sy'n galluogi cymunedau i weithredu. Mae hyn, unwaith eto, yn bwysig, ac mae rhagor o wersi yn y maes hwn yr wyf yn credu bod angen inni elwa arnynt.

Mae'r hawl hon i gymunedau gynnig yn ddewis gwahanol i'r cais traddodiadol am ganiatâd cynllunio, ac unwaith eto mae'n grymuso cymunedau o'r gwaelod i fyny, fel y gallant benderfynu drostynt eu hunain ar yr hyn sy'n briodol ac yn amhriodol yn eu cymunedau penodol. Yn yr un modd, mae'r hawl i adennill tir yn helpu cymunedau i wella eu hardal leol drwy roi hawl iddynt ofyn am werthu tir sy'n eiddo i awdurdodau lleol ac eraill ac nad yw'n cael ei ddefnyddio neu na wneir digon o ddefnydd ohono fel y gellir dechrau ei ddefnyddio unwaith eto. Unwaith eto, mae angen inni weld darpariaethau yn y maes hwn.

Yn olaf, os ydym am i gynlluniau o'r fath lwyddo, mae angen y ddeddfwriaeth briodol ar waith; ond mae angen inni hefyd weld ei bod yn cael ei hyrwyddo a'i chyfleu'n gywir. Mae hwn, unwaith eto, yn faes pwysig sydd angen sylw.

I grynhoi, mae angen i gymunedau ledled ein gwlad barhau i fod wrth wraidd y broses gynllunio, ac mae angen inni sicrhau bod eu llais yn cael ei ddiogelu, yn hytrach na chael ei foddi.

18:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Julie Morgan.

Julie Morgan.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:10 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, for calling me to speak on the general principles of the Planning (Wales) Bill. I know the Government's intention is to make the system simpler and more effective, and to have a more strategic approach, and I certainly support having a more strategic way of working.

Other Members have mentioned the balance between development and local communities, and how we want to make planning more responsive and more enabling than it is at the moment. I'm a member of the committee, and the Chair and other members have covered many of the amendments that have been put in the committee report, but I'd like to say that I think that the Minister has been very receptive, and has responded to many of the points that we put forward. I certainly welcome his statement today about his commitment to gender balance on any of the boards that are being set up.

I just wanted to make a few comments, firstly, about the national parks. I know the Minister was considering putting down an amendment about the planning powers of the national parks, and I think he's heard the views of the committee. I mean, I think we should be very cautious about any change to the status of the national parks. I don't, obviously, have a national park in my constituency, but I think they are very unique, and I think we have to all remember how they came about, with the mass trespass on Kinder Scout in the 1930s by the British Workers' Sports Federation, described as the most successful direct action in British history. So, we have to remember that history when we think about what we're going to do to the national parks, because, obviously, that trespass led to the 1949 Act to establish the national parks—and, of course, in the 1950s, led to the Snowdonia, Pembrokeshire Coast and Brecon Beacons national parks.

So, I'm very reassured that the Minister says he has no plans to remove their planning powers, but I think there isn't any evidence that the planning powers aren't working properly. Certainly, the consultation that was carried out about the planning powers were very supportive of the planning powers being retained. So, I hope that the Minister will ensure that these unique creations do keep their planning powers, and do keep their teeth.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, am alw arnaf i siarad ar egwyddorion cyffredinol y Bil Cynllunio (Cymru). Rwy'n gwybod mai bwriad y Llywodraeth yw gwneud y system yn symlach ac yn fwy effeithiol, a chael agwedd fwy strategol, ac rwy'n sicr yn cefnogi'r syniad o gael ffordd fwy strategol o weithio.

Mae Aelodau eraill wedi sôn am y cydbwysedd rhwng datblygu a chymunedau lleol, a sut yr ydym am wneud cynllunio yn fwy ymatebol ac yn system sy'n galluogi i raddau mwy nag y mae ar hyn o bryd. Rwy'n aelod o'r pwyllgor, ac mae'r Cadeirydd ac aelodau eraill wedi ymdrin â llawer o'r gwelliannau a roddwyd yn adroddiad y pwyllgor, ond hoffwn i ddweud fy mod yn credu i'r Gweinidog fod yn agored iawn, a'i fod wedi ymateb i lawer o'r pwyntiau a gyflwynwyd gennym. Rwy'n sicr yn croesawu ei ddatganiad heddiw am ei ymrwymiad i gydbwysedd rhwng y rhywiau ar unrhyw un o'r byrddau sy'n cael eu sefydlu.

Rwyf eisiau gwneud ychydig o sylwadau, yn gyntaf, am y parciau cenedlaethol. Rwy'n gwybod bod y Gweinidog yn ystyried cyflwyno gwelliant ynghylch pwerau cynllunio'r parciau cenedlaethol, ac rwy'n meddwl ei fod wedi clywed barn y pwyllgor. Hynny yw, rwy'n meddwl y dylem fod yn ofalus iawn ynglŷn â newid statws y parciau cenedlaethol. Yn amlwg, nid oes parc cenedlaethol yn fy etholaeth i, ond rwy'n meddwl eu bod yn unigryw iawn, ac rwy'n meddwl bod yn rhaid inni i gyd gofio sut y daethant i fodolaeth, gyda'r tresmasu torfol ar Kinder Scout yn y 1930au gan Ffederasiwn Chwaraeon Gweithwyr Prydain, a ddisgrifir fel y gweithredu uniongyrchol mwyaf llwyddiannus yn hanes Prydain. Felly, mae'n rhaid inni gofio'r hanes hwnnw wrth feddwl am yr hyn yr ydym yn mynd i'w wneud i'r parciau cenedlaethol, oherwydd, yn amlwg, arweiniodd y tresmasu hwnnw at Ddeddf 1949 i sefydlu'r parciau cenedlaethol—ac, wrth gwrs, yn y 1950au, arweiniodd at barciau cenedlaethol Eryri, Arfordir Sir Benfro a Bannau Brycheiniog.

Felly, mae'n tawelu fy meddwl bod y Gweinidog yn dweud nad oes ganddo unrhyw gynlluniau i gael gwared ar eu pwerau cynllunio, ond rwy'n credu nad oes unrhyw dystiolaeth nad yw'r pwerau cynllunio'n gweithio'n iawn. Yn sicr, roedd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ynglŷn â'r pwerau cynllunio yn gefnogol iawn i gadw'r pwerau cynllunio. Felly, rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn sicrhau bod y creadigaethau unigryw hyn yn cadw eu pwerau cynllunio, ac yn cadw eu dannedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I wanted briefly to cover the issue of town and village greens. Again, I know the Minister probably thinks that I've been obsessed with town and village greens, because I know I've gone on a lot about them, but I do think it is a very important issue, and I'm very pleased that he's said that he will have the trigger point at the time a planning application has been agreed. I think that that is satisfactory to the Open Spaces Society, and that is a good compromise. I note that he also said he was considering keeping a two-year period to prepare an application. I hope he will insert that two-year period, because, at the moment, I think the Bill as published says a one-year period. I know from first-hand experience of my constituents how difficult and how long it takes to actually prepare a case to designate something as a village green. I sat in on some of the hearings for the village green application in my constituency. Certainly, they had to bring people who'd lived in the area previously and it really took a considerable amount of effort to make the case for the village green, and they did not have any legal representation. So, I hope that the Minister will keep the two-year period.

Finally, I think the Chair of the committee referred to the design and access statements. I think they are important to maintain, because I think it is very important that we do keep design and access really in our minds in any development that happens. So, thank you very much.

Roeddwn i eisiau sôn yn gryno am feysydd tref a phentref. Unwaith eto, rwy'n gwybod bod y Gweinidog yn ôl pob tebyg yn meddwl bod gennyf obsesiwn â meysydd trefi a phentrefi, gan fy mod wedi siarad llawer amdanynt, rwy'n gwybod, ond rwy'n credu ei fod yn fater pwysig iawn, ac rwy'n falch iawn ei fod wedi dweud y bydd yn sefydlu'r pwynt sbardun ar yr adeg y mae cais cynllunio wedi cael ei gytuno. Credaf fod hynny'n foddhaol i'r Gymdeithas Mannau Agored, a bod hynny'n gyfaddawd da. Nodaf ei fod hefyd yn dweud ei fod yn ystyried cadw cyfnod o ddwy flynedd i baratoi cais. Rwy'n gobeithio y bydd yn cynnwys y cyfnod hwnnw o ddwy flynedd, oherwydd, ar hyn o bryd, rwy'n meddwl bod y Bil fel y'i cyhoeddwyd yn dweud cyfnod o flwyddyn. Rwy'n gwybod o brofiad uniongyrchol fy etholwyr pa mor anodd a pha mor hir y mae'n ei gymryd mewn gwirionedd i baratoi achos i ddynodi rhywbeth yn faes pentref. Eisteddais yn rhai o'r gwrandawiadau ar gyfer cais maes pentref yn fy etholaeth. Yn sicr, roedd yn rhaid iddynt ddod â phobl a oedd wedi byw yn yr ardal yn flaenorol ac mewn gwirionedd cymerodd gryn dipyn o ymdrech i gyflwyno'r achos dros y maes pentref, ac nid oedd ganddynt unrhyw gynrychiolaeth gyfreithiol. Felly, rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn cadw'r cyfnod o ddwy flynedd.

Yn olaf, rwy'n meddwl bod Cadeirydd y pwyllgor wedi cyfeirio at y datganiadau dylunio a mynediad. Rwy'n credu ei bod yn bwysig eu cadw, oherwydd y credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cadw dylunio a mynediad mewn cof mewn unrhyw ddatblygiad sy'n digwydd. Felly, diolch yn fawr iawn.

18:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:14 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I thank colleagues for their comments this afternoon on the general principles. I welcome the opportunity of this debate, as I said earlier, and the comments made will be considered very carefully.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd, ac rwy'n diolch i gydweithwyr am eu sylwadau brynhawn heddiw ar yr egwyddorion cyffredinol. Rwy'n croesawu'r cyfle i gael y ddatl hon, fel y dywedais yn gynharach, a bydd y sylwadau a wnaed yn cael eu hystyried yn ofalus iawn.

Clearly, these are points of detail that we will, and are in the process of looking through in detail, to respond fully to the committee's recommendations. I have made reference today to some of those recommendations to which my commitment was clear during the committee stages. May I pick up some of the points raised by Members along the debate process?

Yn amlwg, pwyntiau manwl yw'r rhain y byddwn, ac yr ydym yn y broses o edrych drwyddynt yn fanwl, er mwyn ymateb yn llawn i argymhellion y pwyllgor. Rwyf wedi cyfeirio heddiw at rai o'r argymhellion hynny ac roedd fy ymrwymiad iddynt yn amlwg yn ystod y camau pwyllgor. A gaf i godi rhai o'r pwyntiau a grybwyllodd yr Aelodau yn ystod y ddatl?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Alun Davies raised some very important points of descriptors around the Bill—about it being ‘enabling’, ‘clarifying’, ‘simplifying’ and ‘accountability’. All of those things are key to ensure that we have a Bill that is complex. A planning system is a very complicated process, but we have to give confidence to both the user, the customer—whether the customer be a community or a developer—or people who are engaged in that process—all of those processes that Alun Davies refers to—to have a system that works effectively. The complexity of the system is not a view I share with some of the committee members. Actually, what we are doing is introducing one tier more—not four additional layers. It’s one more tier of the planning process: there will be a clearer redistribution of the planning designation, on a regional basis, as I explained earlier. The consideration of housing numbers shouldn’t be restricted by a political boundary, but should be given full consideration on a regional basis, similar to that of a city region, and that’s what we are doing. The irony is that the committee recommendation asked for an additional layer of complexity, if that’s the word we use, where they were looking for place plans. Currently place plans can, and will still, be used to influence the decision-making process for the plan-making purpose.

The issue of the statutory purpose was one of the recommendations. Again, I think that has to be taken into the consideration of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill. We believe, as Government, the principle of the future generations Bill is one of sustainable development, and we will make and ensure that all our Bills, through this department, will have a clear link back to the future generations Bill, as an appropriate signpost of our commitment to this principle.

Indeed, I recognise many Members’ concerns, and, indeed, the cultural strength of the Welsh language needing to be strengthened. I don’t think—and the First Minister has made this very clear—that we can resolve all of the issues around the Welsh language within just the planning Bill. There’s a suite of things that we need to do. But, what I am committed to doing is to introduce amendments at the next stage that will, I believe, strengthen and address many of the issues addressed by the committee and, of course, people who have made recommendations, such as Gwynedd Council, I understand, which has made a recommendation, too.

On the issue of the point where spatial plans replace the NDF, I think we have to give this very careful consideration. I will do an amendment about how this should be laid before the Assembly for consideration, and it will be something I’ll ask my team to work through on this process. Let us not all be negative about this procedure, though. This has got and gained much support from external bodies, including that of the Confederation of British Industry here in Wales, which I know Members will be very interested in, and their voting pattern, as they moved forward through the private sector, being supportive of this process.

Cododd Alun Davies rai pwyntiau pwysig iawn o ran ffyrdd o ddisgrifio'r Bil—geiriau fel 'galluogi', 'eglwro', 'symleiddio' ac 'atebolrwydd'. Mae pob un o'r pethau hynny yn allweddol i sicrhau bod gennym Fil sydd yn gymhleth. Mae system gynllunio yn broses gymhleth iawn, ond mae'n rhaid inni roi hyder i'r defnyddiwr, y cwsmer—p'un a yw'r cwsmer yn gymuned neu'n ddatblygwr—neu bobl sy'n cymryd rhan yn y broses—pob un o'r prosesau hynny y cyfeiriodd Alun Davies atynt—bod gennym system sy'n gweithio'n effeithiol. Nid yw cymhlethdod y system yn farn yr wyf yn ei rhannu gyda rhai o aelodau'r pwyllgor. A dweud y gwir, yr hyn yr ydym yn ei wneud yw cyflwyno un haen yn fwy—nid pedair haen ychwanegol. Mae'n un haen yn fwy yn y broses gynllunio: bydd y dynodiad cynllunio'n cael ei ailddosbarthu'n gliriach, ar sail ranbarthol, fel yr eglurais yn gynharach. Ni ddylai ffin wleidyddol fod yn gyfyngiad wrth ystyried niferoedd tai, ond dylid rhoi ystyriaeth lawn i'r mater ar sail ranbarthol, yn debyg i ystyriaeth dinas-ranbarth, a dyna beth yr ydym yn ei wneud. Yr eironi yw bod argymhelliaid y pwyllgor yn gofyn am haen ychwanegol o gymhlethdod, os mai dyna'r gair a ddefnyddiwn, o safbwynt cynlluniau lleoedd. Ar hyn o bryd gellir defnyddio cynlluniau lleoedd, a gellir parhau i'w defnyddio, i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau at y diben o lunio'r cynllun.

Roedd diben statudol yn un o'r argymhellion. Unwaith eto, rwy'n meddwl bod rhaid cymryd hynny i ystyriaeth o safbwynt y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Rydym yn credu, fel Llywodraeth, bod mai datblygiad cynaliadwy yw egwyddor Bil cenedlaethau'r dyfodol, a byddwn yn gwneud ac yn sicrhau bod gan ein holl Filiau, trwy'r adran hon, gyswllt clir yn ôl i Fil cenedlaethau'r dyfodol, fel arwyddbost priodol o'n hymrwymiad i'r egwyddor hon.

Yn wir, rwy'n cydnabod pryderon llawer o Aelodau, ac, yn wir, bod angen cryfhau cryfder diwylliannol y Gymraeg. Nid wyf yn credu—ac mae'r Prif Weinidog wedi gwneud hyn yn glir iawn—y gallwn ddatrys pob un o'r problemau'n ymwneud â'r iaith Gymraeg o fewn dim ond y Bil cynllunio. Mae cyfres o bethau y mae angen inni eu gwneud. Ond, yr hyn yr wyf wedi ymrwymo i'w wneud yw cyflwyno gwelliannau yn y cyfnod nesaf a fydd, yn fy marn i, yn cryfhau a mynd i'r afael â llawer o'r materion a drafodwyd gan y pwyllgor ac, wrth gwrs, pobl sydd wedi gwneud argymhellion, megis Cyngor Gwynedd sydd, rwy'n deall, wedi gwneud argymhelliaid, hefyd.

O ran y pwynt lle mae cynlluniau gofodol yn disodli'r Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol, rwy'n meddwl bod rhaid inni roi ystyriaeth ofalus iawn i hwn. Byddaf yn gwneud gwelliant ynghylch sut y dylid gosod hyn gerbron y Cynulliad i'w ystyried, a bydd yn rhywbeth y byddaf yn gofyn i fy nhîm weithio drwyddo ar y broses hon. Ond gadewch inni beidio i gyd â bod yn negyddol am y weithdrefn hon. Mae gan hyn ac mae wedi cael llawer o gefnogaeth gan gyrff allanol, gan gynnwys Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yma yng Nghymru. Gwn y bydd gan Aelodau ddiddordeb mawr yn hynny, ac roedd eu patrwm pleidleisio, wrth iddynt symud ymlaen drwy'r sector preifat, yn gefnogol i broses hon.

The issue of lack of detail, can I just say very carefully, and for Members' consideration, I think this is the first Bill, actually, where we laid the statement of intent and, notwithstanding the points raised by the Chair of the CLAC committee, it is a framework Bill, and it is very difficult to indicate there what the intentions are? The statement of intent was given at an early stage in order to ensure that Members did fully understand what the whole process was, including the structure of the Bill. There have been many factors that relate to the Bill that have been in consultation processes, including the national significance process, where we will identify what should be in our paper—not defined by Government, but defined by a consultation process.

I also recognise the point raised by Alun Ffred that there have been around 40 recommendations. At this stage, we certainly support around half of them, either in full or in principle. It's something that I'm very keen to work on to increase that number and we'll work with parties to see how we get to that position.

Lynne Neagle raised a very important point—and I know she's very locally committed to her constituents, representing the many members of her constituency—and raises some important points around people having a local influence on determination. I have spoken to around 250 to 300 professionals in the planning field over the last eight months, walking around Wales. It is true to say the planning service has been a bit of an underdeveloped service, in terms of funding. Many of the processes that have been, because of lack of development, funding hasn't been going into these departments, therefore, I don't subscribe to the point that she raises where the complexities of reorganisation will make this complex, difficult. Actually, what we should be saying is, 'While we await changes in local government restructure, we should get on with making a resilient planning service', and I think that is something that this can do effectively, notwithstanding changes that might happen in the future. Planning does not recognise political boundaries; we work much beyond that. It's defined by the work of Edwina Hart in her department in terms of city regions; that is a great example of where we can work across boundaries.

Mae'r mater ynglŷn â diffyg manylder, a gaf i ddweud yn ofalus iawn, ac i Aelodau ei ystyried, rwy'n credu mai dyma'r Bil cyntaf, mewn gwirionedd, lle'r ydym wedi gosod y datganiad o fwriad ac, er gwaethaf y pwyntiau a godwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, mae'n Fil fframwaith, ac mae'n anodd iawn dangos yno beth yw'r bwriadau? Rhoddwyd y datganiad o fwriad yn gynnar er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n deall yn llawn beth oedd y broses gyfan, gan gynnwys strwythur y Bil. Cynhaliwyd prosesau ymgynghori ynghylch llawer o ffactorau sy'n ymwneud â'r Bil, gan gynnwys y broses arwyddocâd cenedlaethol, lle y byddwn yn nodi'r hyn a ddylai fod yn ein papur—nid wedi ei ddiffinio gan y Llywodraeth, ond wedi'i ddiffinio gan broses ymgynghori.

Rwyf hefyd yn cydnabod y pwynt a godwyd gan Alun Ffred, y cafwyd o gwmpas 40 o argymhellion. Ar yr adeg hon, rydym yn sicr yn cefnogi tua hanner y rhain, naill ai'n llawn neu mewn egwyddor. Mae'n rhywbeth yr wyf yn awyddus iawn i weithio arno i gynyddu'r nifer hwnnw a byddwn yn gweithio gyda phleidiau i weld sut mae cyrraedd y sefyllfa honno.

Cododd Lynne Neagle bwynt pwysig iawn—ac rwy'n gwybod ei bod yn ymrwymedig iawn yn lleol i'w hetholwyr, gan gynrychioli'r nifer fawr o aelodau yn ei hetholaeth—ac mae'n codi rhai pwyntiau pwysig ynghylch sicrhau bod gan bobl ddylanwad lleol ar benderfyniadau. Rwyf wedi siarad â thua 250 i 300 o weithwyr proffesiynol yn y maes cynllunio dros yr wyth mis diwethaf, wrth gerdded o gwmpas Cymru. Mae'n wir dweud bod y gwasanaeth cynllunio wedi bod yn wasanaeth sydd heb ei ddatblygu'n ddigonol, o ran cyllid, i ryw raddau. Mae llawer o'r prosesau sydd wedi bod, oherwydd diffyg datblygiad, nid yw cyllid wedi bod yn mynd i'r adrannau hyn, felly, nid wyf yn derbyn y pwynt y mae'n ei godi lle bydd cymhlethdodau ad-drefnu'n gwneud hyn yn gymhleth, yn anodd. A dweud y gwir, yr hyn y dylem fod yn ei ddweud yw, 'Tra ein bod yn aros am newidiadau er mwyn ailstrwythuro llywodraeth leol, dylem fwrw ati i wneud gwasanaeth cynllunio gwydn', a chredaf fod hynny'n rhywbeth y gall hyn ei gyflawni'n effeithiol, er gwaethaf newidiadau a allai ddigwydd yn y dyfodol. Nid yw cynllunio'n cydnabod ffiniau gwleidyddol; rydym yn gweithio ymhell tu hwnt i hynny. Mae'n cael ei ddiffinio gan waith Edwina Hart yn ei hadran yn nhermau dinas-ranbarthau; dyna enghraifft wych o ble y gallwn weithio ar draws ffiniau.

I'm quite sure the points raised by many Members here will be addressed by the amendments that we'll raise to the Bill in the next stages. William Powell raised the issue of utility companies being a statutory consultee. I don't believe, actually, we need to do that through this Bill, but it can be dealt with in other ways and I'm considering that at this point. I also don't accept the issue around PINS having to be of Welsh identity only. PINS currently have a dedicated resource in Wales, which is of Welsh identification, but it builds on the union aspect of this, where it can use the skills from across the PINS departments to inform better, to make the right decisions that many Members have raised in this Chamber today. I think there is a big issue about making sure we have a planning system fit-for-purpose that will be enabling for the future. While we may not agree on all of our amendments and proposals, the fact of the matter is, I think, the planning system is directly linked to the economy and it's something that we should consider very carefully as we move forward.

I look forward to further debate during Stage 2 scrutiny, Deputy Presiding Officer. I'm grateful for the indicative support from Members today for this process, and we will work with other parties to try and resolve some of the issues that we still need to do around the amendments and the general principles of the planning Bill today.

Rwy'n eithaf siŵr y bydd y pwyntiau a godwyd gan lawer o Aelodau yma yn cael sylw yn y gweliannau y byddwn yn eu codi i'r Bil yn y cyfnodau nesaf. Crybwyllodd William Powell y syniad o wneud cwmnïau cyfleustodau yn ymgngoreion statudol. Nid wyf yn credu, mewn gwirionedd, bod angen inni wneud hynny drwy'r Bil hwn, ond gellir ymdrin â hynny mewn ffyrdd eraill ac rwy'n ystyried hynny ar yr adeg hon. Nid wyf chwaith yn derbyn y pwynt bod rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio fod â hunaniaeth Gymreig yn unig. Ar hyn o bryd mae gan yr Arolygiaeth Gynllunio adnodd pwrpasol yng Nghymru, sydd â hunaniaeth Gymreig, ond mae'n adeiladu ar yr agwedd undebol ar hyn, lle y gall ddefnyddio'r sgiliau ar draws adrannau'r Arolygiaeth Gynllunio i roi gwell gwybodaeth, er mwyn gwneud y penderfyniadau cywir y mae llawer o Aelodau wedi'u codi yn y Siambr hon heddiw. Rwy'n credu bod problem fawr ynghylch sicrhau bod gennym system gynllunio addas i'r diben a fydd yn galluogi ar gyfer y dyfodol. Er nad ydym o bosibl yn cytuno ar bob un o'r gweliannau a'n cynigion, y ffaith amdani yw, rwy'n meddwl, bod y system gynllunio yn uniongyrchol gysylltiedig â'r economi ac mae'n rhywbeth y dylem ei ystyried yn ofalus iawn wrth symud ymlaen.

Edrychaf ymlaen at ddadl bellach yn ystod proses graffu Cyfnod 2, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n ddiolchgar am yr arwyddion o gefnogaeth gan Aelodau heddiw i'r broses hon, a byddwn yn gweithio gyda phleidiau eraill i geisio datrys rhai o'r materion y mae angen inni eu datrys o hyd o ran y gweliannau ac egwyddorion cyffredinol y Bil cynllunio heddiw.

18:22

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the general principles of the Planning (Wales) Bill. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Y cynnig yw cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Cynllunio (Cymru). A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig yn cael ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

18:23

12. Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â'r Bil Cynllunio (Cymru)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 12 is the financial resolution in respect of the planning Bill. I call the Minister to move the motion.

Cynnig NDM5692 Carl Sargeant

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Cynllunio (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

Cynigiwyd y cynnig.

12. Financial Resolution in respect of the Planning (Wales) Bill

Eitem 12 yw'r penderfyniad ariannol mewn cysylltiad â'r Bil cynllunio. Galwaf ar y Gweinidog i ynnig y cynnig.

Motion NDM5692 Carl Sargeant

To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Planning (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69, arising in consequence of the Bill.

Motion moved.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

18:23

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

Formally move.

Cynnig yn ffurfiol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

18:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I have no speakers. The proposal is to agree the motion. Nid oes gennyf siaradwyr. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A
Does any Member object? The motion is therefore agreed. oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff y cynnig ei
dderbyn.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36

18:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
That concludes today's business. Dyna ddiwedd busnes heddiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:23.

The meeting ended at 18:23.